

Ailddarganfod ac ail-greu cof diwylliannol yng Nghymru'r cyfnod modern cynnar

Dewi Alter

Traethawd PhD, Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd
Ionawr 2022



Table of Contents

Ffigurau.....	4
Diolchiadau.....	5
Crynodeb.....	6
Geirfa:.....	7
Cyflwyniad.....	11
1. Cof diwylliannol.....	21
1.1 Datblygiad astudiaethau'r cof.....	22
1.2 Cof diwylliannol.....	26
1.3 Cof diwylliannol a hunaniaeth gyfunol.....	30
1.4 Y gynulleidfa dybiedig a'r cof.....	35
1.5 Cof diwylliannol a llenyddiaeth.....	43
1.6 Cof diwylliannol a hanes.....	47
1.7 Casgliad.....	56
2. Cof diwylliannol yn nhestunau'r unfed ganrif ar bymtheg.....	58
2.1 Cyflwyniad.....	58
2.2 Y Brutaniaid.....	62
2.3 Cenedl Ewrofediteranaidd.....	73
2.4 Cenedl o Gristnogion Protestannaidd.....	78
2.5 Y berthynas â'r Saeson.....	87
2.6 Cofio'r hyn y dylai'r Cymry ei wneud.....	95
2.7 Dylanwad y gynulleidfa dybiedig.....	107
2.8 Casgliad.....	115
3. Y Ffydd Ddi-ffuant.....	118
3.1 Cyflwyniad.....	118
3.2 Etifeddion y Britaniaid.....	122
3.3 Perthynas y Cymry a'r byd.....	125
3.4 Perthynas y Cymry a'r Saeson.....	144
3.5 Cenedl dan fendith Duw.....	151
3.6 Cenedl o bechaduriaid.....	156
3.7 Dylai'r genedl '[g]erdded y llwybr cûl'.....	159
3.8 Dylanwad y gynulleidfa dybiedig.....	176

3.9	Casgliad.....	192
4	<i>Drych y Prif Oesoedd</i>	195
4.1	Cyflwyniad.....	195
4.2	Drych fel dyfais mnemonig	198
4.3	'[G]weled y modd y bu hi, gyda'n Hynafiaid... [a] Ffrwythau Pechod'	204
4.4	Dylanwad y gynulleidfa dybiedig	256
4.5	Casgliad.....	271
	Casgliad.....	273
	Y Cymry a'r Brutaniaid.....	276
	Y Cymry a'r byd Ewrofediteranaidd	280
	Y Cymry a'r ffydd Gristnogol.....	283
	Llyfryddiaeth.....	287

Ffigurau

Ffigwr 1: Cambriae Typus.....	94
Ffigwr 2: Merthyron y ffydd (rhwng tt. 70–1).....	186
Ffigwr 3: Y llwybr cul (rhwng tt. 382–3).....	187

Diolchiadau

Rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi fy nghefnogi wrth i mi gyflawni fy ngradd ddoethur.

Hoffwn ddiolch yn gyntaf i'm goruchwylwyr, Dr Siwan Rosser a Dr Cathryn Charnell-White. Rwyf wedi gwerthfawrogi eu cyngor dros y blynyddoedd diwethaf ac mae wedi bod yn ffrainc cael bod dan eu goruchwyliaeth. Rwyf wedi dysgu cymaint ganddynt a diolch o galon iddynt am bopeth.

Diolch hefyd i Dr Jonathan Morris am ei gefnogaeth ym mhob peth ers i mi fod yn fyfyrwr israddedig. Rhaid cydnabod fy ngwerthfawrogiad i'r Athro E. Wyn James am fod mor barod i ateb unrhyw ymholiadau gennyf. Diolch hefyd i Dr David Callander am fy annog i gyflwyno fy ymchwil mewn cynadleddau ac i rannu fy ngwaith yn eang. Hoffwn ddiolch i holl staff Ysgol y Gymraeg, ac yn arbennig y staff gweinyddol, am eu cymorth dros y tair blynedd diwethaf a hoffwn nodi fy niolch yn benodol i Cadi Thomas.

Ni fyddai'r ymchwil wedi bod yn bosibl heb nawdd gan gronfa Cyngor Ymchwil y Celfyddydau trwy'r Rhaglen Hyfforddi Myfyrwyr Doethur yn y De Orllewin a Chymru; hoffwn ddiolch am eu cefnogaeth ariannol ac yn ail am fy nghefnogi i gyfrannu at gynadleddau. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r Chalke Valley History Trust am eu nawdd.

Rwyf wedi gwerthfawrogi'n fawr iawn cwmniaeth a chyfeillgarwch fy nghyd-fyfyrwyr ymchwil, mae wedi bod yn bleser cael cyd-ymchwilio, fel petai, yn Swyddfa Ôl-raddedig Ysgol y Gymraeg gydag Ianto Gruffydd, Katharine Young, a Jack Pulman-Slater.

Hoffwn ddiolch i fy nheulu hefyd am eu cefnogaeth a'u cariad, yn arbennig i fy mam. Rwyf yn ddiolchgar hefyd i fy ngwraig, Angharad, am ei hanogaeth yn ystod fy ymchwil a'i chariad.

S.D.G

Crynodeb

Amcan y thesis hwn yw archwilio sut yr ailddarganfuwyd ac ail-grewyd cof diwylliannol cenedlaethol yng Nghymru yn ystod y cyfnod modern cynnar. Nid yw'n astudiaeth holl gynhwysfawr; yn hytrach, archwilir sut yr oedd rhai o awduron hanes mwyaf dylanwadol a phoblogaidd y cyfnod yn synied am orffennol y Cymry a'r Cymry eu hunain. Defnyddir dau gysyniad dylanwadol o astudiaethau'r cof, sef yn gyntaf mnemohanes sy'n archwilio sut y caiff y gorffennol ei gofio, ac yn ail cof diwylliannol sy'n deall y cof fel ffenomen ddiwylliannol sy'n cael ei chyfyngu i gynig hunaniaeth ffurfiannol a normadol.

Gwneir hyn mewn pedair pennod. Yn y bennod gyntaf gosodir seiliau theoretig y traethawd, amlinellir yr hyn yw cof diwylliannol a dadlau mai un o gyfryngau cof diwylliannol yw hanes. Yn yr astudiaeth hon haerir bod gan destunau cof diwylliannol gynulleidfa dybiedig a bod y gynulleidfa honno yn dylanwadu ar y testunau wrth iddynt gael eu creu. Er mwyn astudio cof diwylliannol yn nhestunau hanes Cymry'r cyfnod modern cynnar asesir rhai o destunau mwyaf dylanwadol a phoblogaidd y cyfnod, rhai a ysgrifennwyd yn y Gymraeg, yn y Saesneg a'r Lladin. Yn y bennod ganlynol archwilir cof diwylliannol y Cymry yn ôl rhai o ddyneiddwyr Protestannaidd mwyaf dylanwadol yr unfed ganrif ar bymtheg, gwelir eu bod yn defnyddio'r gorffennol i ddiffinio'r Cymry mewn cyd-destun Protestannaidd ar ôl y Deddfau Uno. Ymhlyg yn y testunau hyn mae balchder yng ngorffennol Cymru a hunaniaeth Gymreig a dangosir eu bod yn diffinio'r Cymry fel cenedl anrhydeddus, Ewrofediteranaidd a Christnogol. Yma archwilir rhai o brif destunau'r cyfnod a fu'n ddylanwad mawr ar y testunau a astudir yn y penodau canlynol. Yn y drydedd bennod astudir *Y Ffydd Ddi-ffuant* gan Charles Edwards fel testun sy'n ceisio diffinio'r Cymry fel cenedl Ewrofediteranaidd ac yn eu hannog i fod yn genedl Gristnogol. Yn y bennod olaf, caiff *Drych y Prif Oesoedd* gan Theophilus Evans ei astudio a dadleuir ei fod yntau'n dyrchafu'r Cymry fel cenedl hynafol, Ewrofediteranaidd ac yn eu hannog i fod yn deyrngar i'r Eglwys.

Mae'r thesis yn cynnig cipolwg ar hunaniaethau Cymreig yn y cyfnod a sut y defnyddiwyd y gorffennol i ddiffinio'r genedl. Gwelwn sut y gwreiddiwyd y Cymry yng ngorffennol Prydain, y byd Ewrofediteranaidd a hanes Cristnogaeth. Dangosir, felly, nad ynys oedd Cymru, ac nid oedd y Cymry ychwaith yn bobl ynysig.

Geirfa:

Brutaniaid

Y Brutaniaid yw trigolion gwreiddiol Prydain ac maent yn hynafiaid i'r Cymry yn ôl yr awduron sydd o dan sylw yn yr astudiaeth hon. Mewn sawl testun yn y traethawd hwn mae'r awduron dan sylw yn galw'r Cymry yn Frutaniaid. Maent yn tarddu yn y dwyrain, ac yn cael eu cysylltu â Brutus o Gaerdroea. Yn ôl testunau'r astudiaeth hon maent hefyd yn genedl hynafol, Glasurol, ac arwrol. O ganlyniad i'r cysylltiad hwn mae gan y Cymry ffigurau nodedig yn ei hanes sydd o bwys yn rhyngwladol yn eu plith mae Brennus, Cystennin, ac Arthur. Yn ogystal mae i'r Brutaniaid ran yn naratif lledaenu Cristnogaeth gan iddynt dderbyn y ffydd, yn ôl yr awduron dan sylw, yn fuan wedi'r atgyfodiad. Cred yr awduron i'r ffydd honno gael ei chynnal a'i chadw gan genedlaethau o Gymru trwy ras Duw, tan i Awstin cennad y Pab a'r Saeson orfodi Catholigiaeth Rufeinig arnynt. O ganlyniad, cred awduron hanes yr astudiaeth hon roedd y Brutaniaid cyn y chweched ganrif yn Brotestaniaid.

Cenedl

Defnyddir y gair cenedl yn yr ystyr ethno-symbolaidd, sef cysyniad Anthony D. Smith yn *Ethnosymbolism and Nationalism* (2009). Mae'n synied am genedl fel cymuned sy'n diffinio'i hunan fel corff neilltuol. Mae cenedl yn gymuned sy'n tybio bod ganddynt atgofion, symbolau, mythau, traddodiadau, a gwerthoedd cyffredin sydd yn eu huno fel pobl. Maent hefyd yn tybio bod ganddynt dir penodol, diwylliant cyhoeddus unigryw, yn ogystal ag arferion a deddfau cyffredin. Mae ymwybyddiaeth o genedl yn dod yn rhan bwysig o ddiffinio cenedl yn ôl y ddealltwriaeth ethno-symbolaidd. Mae'r diffiniad hwn yn cydnabod rôl hunaniaeth, diwylliant a'r gorffennol er mwyn diffinio'r genedl. Nid oes angen cael sofraniaeth, neu ei ddeisyfu, er mwyn bod yn genedl. Y dimensiwn goddrychol o ymwybyddiaeth genedlaethol yw'r sail i fodolaeth cenedl. O ganlyniad, bydd yr astudiaeth yn dadlau bod yr awduron dan sylw yn ymagweddu at y Cymry fel cenedl.

Cofio

Yn yr astudiaeth hon, proses yw cofio sy'n digwydd yn y presennol a'r hyn sy'n cael ei greu yw'r cof. Caiff cofio yma ei ddeall fel proses greadigol o greu gorffennol ar gyfer grŵp penodol. Mae cofio yn digwydd mewn cyd-destun penodol sy'n ddylanwad mawr ar yr hyn sy'n cael ei gofio. O ganlyniad, nid yw cofio o reidrydd yn adlewyrchu'r gorffennol yn gywir, ond mae'n cynnig golwg ar anghenion a diddordebau'r person neu'r grwpiau sy'n cofio.

Cof cyfunol

Yma defnyddir y term cof cyfunol i olygu ymwybyddiaeth o orffennol neu naratif amdano sy'n cylchredeg ymysg grwpiau penodol. Mae'r naratif hwn yn eiddo iddynt hwy ac yn hyrwyddo undod y grŵp. Mae cof cyfunol, felly, yn wybodaeth am y gorffennol sy'n diffinio'r grŵp fel corff

cyfunol ac yn rhoi undod iddo. Caiff ei greu mewn cyd-destun penodol sy'n ddylanwad ar yr hyn a grëir.

Cof diwylliannol

Yn ôl dealltwriaeth Jan ac Aleida Assmann o gof cyfunol a ddatblygwyd yn y 1980au a'r 1990au, ymwybyddiaeth o orffennol grwpiau penodol yw cof diwylliannol sy'n cael ei gyfryngu trwy ddiwylliant. Mae cof diwylliannol yn un o brif gysyniadau'r maes erbyn hyn. Mae'n fath o gof cyfunol gan ei fod yn wybodaeth am orffennol y grŵp sy'n cylchredeg yn eu mysg. Ond mae pwyslais yn y ddealltwriaeth hon ar ddiwylliant fel cyfrwng i sicrhau bod y cof yn gallu cylchredeg yn eang yn y gymdeithas ac ar hyd y cenedlaethau. Mae'r ddibyniaeth ar gyfryngau diwylliannol, neu destunau, yn gwahaniaethu cof diwylliannol oddi wrth gof cyfunol. Oherwydd dyled cof diwylliannol i ddiwylliant fel cyfrwng, honna Jan Assmann y gall y math hwn o gof oroesi am dros fil o flynyddoedd. Cyfrwng *par excellence* cof diwylliannol yw llenyddiaeth oherwydd y gellid ei hailddefnyddio, a hynny'n sincronig ac yn ddiacronig. Mae cof diwylliannol yn hanfodol i hunaniaeth grŵp a'i undod yn ôl yr Assmanniaid. Caiff cyfraniad cof diwylliannol i hunaniaeth ei ddeall mewn dwy ffordd; yn gyntaf, mae'n diffinio'r grŵp ac yn ail mae'n amlinellu arferion y grŵp. Felly, mae cof diwylliannol yn diffinio'r grŵp ac yn dweud wrthynt pwy ydynt. Mae hefyd yn amlinellu arferion y grŵp iddynt a'r hyn y dylent ei wneud. Yn sgil hyn, mae cyfraniad cof diwylliannol i hunaniaeth wedi'i theoreiddio'n fanylach nag yw yn achos cof cyfunol.

Cynulleidfa dybiedig

Wrth ddefnyddio 'cynulleidfa dybiedig' golygir y gynulleidfa y mae awduron yn ei disgwyl wrth iddynt lunio'u testunau cof diwylliannol. Mae'r gynulleidfa hon yn rhan o'r broses greadigol oherwydd bod y testunau'n cael eu creu ar gyfer cynulleidfa benodol. Pobl go iawn yw'r gynulleidfa, ac mae'r gynulleidfa dybiedig yn seiliedig ar bobl real. Maent yn ddehongliad gan yr awduron o'r math o bobl y maent yn ysgrifennu ar eu cyfer. Defnyddir y term 'cynulleidfa' yn lle 'darllenwyr' oherwydd mae'n cydnabod gallu llenyddiaeth i gyrraedd cynulleidfa anllythrennog, cydnabod arferion darllen llafar a chyfunol y cyfnod, a'r ffaith bod yr awduron dan sylw yn ymagweddu at eu cynulleidfa fel corff o bobl. Dadl yr astudiaeth hon yw bod y sawl sydd i berchnogi'r cof, sef yn nhyb yr awduron y gynulleidfa dybiedig, ymhlyg yn nhestunau cof diwylliannol.

Diwylliant

Yn yr astudiaeth hon ymagweddir at ddiwylliant fel system o arwyddion sydd yn ei hanfod yn gymdeithasol, materol, ac yn feddyliol. Mae diwylliant penodol yn eiddo i grŵp penodol ac yn cyfrannu at fydolwg y grŵp yn ogystal â'i hunaniaeth. Yn ôl yr Assmanniaid, sy'n ddyledus i ysgrifau Juri Lotman, diwylliant yw cyfryngwr y cof, a deallir diwylliant fel cof anetifeddol (*non-hereditary*) y gymuned sy'n cael ei greu a'i ail-greu o'r naill genhedlaeth i'r llall. Wrth alw diwylliant yn gof anetifeddol, yr hyn a olygir yw nad yw'n cael ei etifeddu yn llythrennol fel DNA

neu eitemau teuluol. Yn hytrach, mae'r cof anetifeddol hwn yn cael ei drosglwyddo rhwng cenedlaethau, a gwneir hyn mewn modd sy'n ei wneud yn agored i newid, addasu, a gwrthdaro. Wrth ddeall diwylliant fel hyn, dadleuir y caiff diwylliant ei drosglwyddo drwy gyfryngau diwylliannol sydd yn hyrwyddo diffiniadau o'r grŵp. Mae i ddiwylliant dimensiwn diacronig, ac mae'n bodoli mewn amser a thrwyddo. Ni ddeallir diwylliant fel ffenomen fonolithig, yn hytrach mae'n lluosog ac yn heterogenaidd boed yn synchronig neu yn ddiacronig. Er hynny, mae yna undod gwaelodol i ddiwylliant yn y ddealltwriaeth hon, wrth i bobl honni eu bod yn rhan o'r grŵp am resymau amrywiol. Wrth hyn mae diwylliant Cymreig yn ôl y diffiniad hwn yn ddigon eang i gynnwys amrywiaeth, ond nid yw'n rhy eang i beidio â bod yn ystyrllon.

Ewrofediteranaidd

Defnyddir y term 'Ewrofediteranaidd' fel gair cyfansawdd sy'n cynnwys Ewrop a'r byd Mediteranaidd. Caiff ei ddefnyddio yma i herio dealltwriaeth Ewroganolog; dengys yr astudiaeth fod gwreiddiau'r Cymry yn ehangach nag Ewrop yn unig i'r awduron hanes dan sylw. Wrth ddefnyddio'r term mae'n bosibl cysylltu'r genedl â naratif gwaddol Groeg ac Israel, yn ogystal â'u cysylltu â naratif Cristnogol sydd yn eu hanfod yn ymestyn ar draws Ewrop a Môr y Canoldir gan gynnwys gogledd Affrica, y Dwyrain Canol yn ogystal ag Ewrop. Mae'n derm sydd yn annog ystyriaeth o ehangder daearyddol cof diwylliannol y Cymry yn ystod y cyfnod modern cynnar.

Gorffennol

Mae'r gorffennol yn wahanol i hanes yn yr astudiaeth hon. Y gorffennol yw'r hyn a ddigwyddodd, tra bod hanes yn golygu'r hyn y mae pobl yn dweud a ddigwyddodd. Dylid nodi y gall fod yn anodd dod at y gorffennol heb hanes sy'n creu naratif am yr hyn a ddigwyddodd.

Hanes

Yn yr astudiaeth hon, deallir hanes fel naratif am y gorffennol, neu'r hyn y mae pobl yn dweud sydd wedi digwydd. Nid yw hanes gyfystyr â'r gorffennol, sef digwyddiad neu ddigwyddiadau sydd wedi bod (gweler: 'gorffennol'). Caiff hanes ei gofnodi mewn testunau ysgrifenedig yn bennaf, ac mae dealltwriaeth yr astudiaeth hon o hanes yn eang ac yn cynnwys naratifau hanes, epistolau, ac ysgrifau amddiffynnol. Caiff hanes ei ddeall fel menter lenyddol ac fel cangen o rethreg fel yr oedd yn gyffredin yn ystod y cyfnod modern cynnar. Mantais gwneud hyn yw caniatáu gwerthfawrogiad o rinweddau llenyddol y testunau fel rhan bwysig o'r naratif, yn ogystal â pheidio â gofodi safbwyntiau anachronistaidd ynghylch beth yw 'hanes' ar gyfnod gwahanol. Mae cysylltiad cryf rhwng hanes a chof diwylliannol, ac yma caiff hanes ei ddeall fel cyfrwng cyffredin ac awdurdodol i gof diwylliannol oherwydd bod haneswyr, y sawl sydd yn ysgrifennu hanes, yn honni eu bod yn dweud y gwir.

Hanesyddiaeth

Hanesyddiaeth yw'r astudiaeth o'r modd y mae haneswyr, neu awduron hanes, yn ysgrifennu testunau hanes. Wrth hyn, mae hanesyddiaeth yn ffordd i astudio sut y mae dealltwriaethau o

gyfnodau, digwyddiadau, a ffigurau amrywiol wedi'u datblygu gan awduron hanes dros amser. Nid yw hanesyddiaeth o reidrwydd yn ceisio deall y gorffennol, yn hytrach mae'n ymgais i ddeall hanes, sef y naratif am y gorffennol, a sut y mae syniadau am yr hyn a fu wedi newid. Yr hyn sy'n wahanol am astudiaethau'r cof, o gymharu ag astudiaethau hanesyddiaethol, yw'r pwyslais ar y berthynas rhwng y naratifau hyn a hunaniaethau cyfunol. Mae astudiaethau'r cof yn ystyried y modd y mae dealltwriaeth o'r gorffennol yn newid mewn perthynas â hunaniaeth, tra bod hanesyddiaeth yn canolbwyntio ar y newidiadau o ran sut yr ysgrifennwyd am y gorffennol.

Rhyng-gyfrannol

'Reciprocal' a olygir wrth hyn. Caiff y term 'rhyng-gyfrannol' ei ddefnyddio i ddadlau bod dau beth yn cyfrannu at ei gilydd. Er enghraifft, mae hanes cenedlaethol a chof diwylliannol mewn perthynas rhyng-gyfrannol â'i gilydd oherwydd maent ill dau'n dylanwadu ar ei gilydd. Defnyddir y term 'symbiotig' yn yr un modd.

Cyflwyniad

Bydd y traethawd hwn yn asesu naratifau am orffennol y Cymry yng ngoleuni'r hyn y maent yn ei ddadlennu am hunaniaeth y Cymry, ac yn benodol astudir y naratifau hyn fel cyfryngau cof diwylliannol y Cymry. Yn syml, cof diwylliannol yw'r wybodaeth am y gorffennol sy'n cylchredeg mewn cymdeithas trwy ddiwylliant, ac sy'n diffinio ac yn uno'r gymdeithas honno. Dadleua'r traethawd hwn fod cysylltiad cryf rhwng hanes cenedlaethol a hunaniaeth genedlaethol, ac amlygir y cysylltiad hwn drwy astudio hanes cenedlaethol fel cof diwylliannol. Yr amcan yw astudio'r modd y mae awduron y cyfnod modern cynnar yn dehongli gorffennol y Cymry mewn testunau llenyddol-hanesyddol. Nid amcenir at farnu i ba raddau y ceir y gwir am y gorffennol yn y testunau hyn; yn hytrach, astudir y naratifau a gyflwynir ynddynt fel drych i safbwyntiau awduron penodol ac fel cyfrwng i wreiddio hunaniaeth y Cymry yn y gorffennol. Nid amcan yr astudiaeth yw deddfu ynghylch cof diwylliannol y Cymry yn y cyfnod. Yn hytrach dangosir sut y syniai'r awduron dan sylw am orffennol y Cymry yn y cyfnod modern cynnar gan fanteisio ar gof diwylliannol.

Dadleua Ward Clavier wrth iddi astudio hunaniaethau Cymreig ymhlith y bonedd yng ngogledd ddwyrain Cymru yn yr ail ganrif ar bymtheg: 'History was at the core of Welsh identity' (2021, t. 12). Dengys yr astudiaeth hon fod hyn yn wir am hunaniaeth Gymreig fel y'i ceir gan yr awduron dan sylw. Yn wir, yng Nghymru'r cyfnod modern cynnar, defnyddiwyd hanes er mwyn trefnu cymdeithas, ac er mwyn deall y presennol, ac fe'i defnyddiwyd hefyd i ddweud wrth y Cymry pwy oeddynt a'r hyn y dylent ei wneud. Bydd y traethawd hwn yn astudio testunau hanes a esgeuluswyd ers bron i chwarter canrif, er eu bod yn destunau dylanwadol tu hwnt yn eu dydd ac yn ddiweddarach. Astudir rhai o weithiau mwyaf dylanwadol yr unfed ganrif ar bymtheg sef:

Historiae Britanniae Defensio gan Syr Siôn Prys (c. 1551; 1573); *Cronica Walliae* (1559) a *Breviary of Britain* (1572; 1573) gan Humphrey Llwyd a fu'n Aelod Seneddol; *Historie of Cambria* gan David Powel, ficer Rhiwabon (1584); ac yn olaf 'Epistol at y Cembru' gan yr Esgob Richard Davies (1567). Astudir hefyd *Y Ffydd Ddi-ffuant* (1677) gan yr anghydfurfiwr Charles Edwards, a *Drych y Prif Oesoedd* (1716; 1740) gan yr Eglwyswr Theophilus Evans, sydd oll yn ehangu ar ddadleuon eu rhagflaenwyr dyneiddiol.¹ Wrth wneud hyn ceir golwg amlhaenog ar gof diwylliannol y Cymry gan fanteisio ar safbwyntiau Protestannaidd amrywiol mewn tair canrif wahanol.

Wrth astudio'r testunau hyn, mae'r traethawd yn arloesi drwy gymhwyso i'r Gymraeg gysyniadau o astudiaethau rhyngddisgyblaethol a rhyngwladol ar y cof. Defnyddir diffiniad Jan ac Aleida Assmann o gof diwylliannol (1995; 2006; 2010; 2011), sef cysyniad llywodraethol astudiaethau'r cof yn y Dyniaethau (Rigney 2016, t. 66). Fe'i defnyddir yma fel diffiniad o'r cof ac er mwyn dadlau mai un o gyfryngau cof diwylliannol yw hanes cenedlaethol.

Aeth 'Cymru' drwy sawl newid yn y cyfnod modern cynnar, o safbwynt gwleidyddol, cyfreithiol, a diwylliannol, ac yn y newidiadau hyn gwelir sut yr aed ati i aildehongli ac i ail-greu'r gorffennol cenedlaethol er mwyn deall y presennol yn well, a lle'r Cymry ynddo hefyd. Yn y traethawd hwn eir i'r afael â'r cwestiynau ymchwil canlynol:

1. A ellir deall hanes cenedlaethol fel cof diwylliannol y genedl yn nhestunau hanes Cymru'r cyfnod modern cynnar?
2. Sut y mae'r gorffennol yn cael ei ddefnyddio gan awduron y testunau hyn i ddiffinio'r genedl?
3. Sut y mae ceisio apelio at gynulleidfa benodol yn ddylanwad ar yr awdur wrth lunio'i destun?

¹ Wrth ddyfynnu cedwir yr orgraff wreiddiol ac eithrio 'f' a droir yn 's'.

Yn yr astudiaeth hon, dadleuir bod yr awduron dan sylw yn mynegi cof diwylliannol y Cymry yn eu testunau, a'u bod, wrth wneud hynny, yn ailddehongli'r gorffennol yn unol â'u presennol. Adlewyrcha'r astudiaeth hon ddiddordebau ysgolheigion y cof yn y gorffennol fel creadigaeth ('past as a human construct'), yn hytrach na'r gorffennol fel ag yr oedd ('past as it really was'), ys dywed Astrid Erll (2011, t. 5). Gan hynny, nid oes a wnelo'r traethawd hwn â dibynadwyedd y testunau hanes fel cofnod o'r gwirionedd llythrennol. Yn hytrach, holir beth y mae'r testunau hanes yn ei ddangos am hunaniaeth y genedl ar y pryd, a pham y darlunnir y gorffennol fel hyn? Er mwyn ateb y cwestiynau hyn astudir y testunau hanes fel testunau cof diwylliannol.

Wrth fanylu ar Gymru, mae'r traethawd hwn yn ehangu'r corff sylweddol o waith diweddar ar astudiaethau'r cof sy'n ymdrin â Phrydain a Lloegr yn y cyfnod modern cynnar. Yn 2020, cyhoeddwyd dwy gyfrol ar gofio'r Diwygiad Protestannaidd (Walsham, Wallace, Law, Cummings goln., 2020; Walsham, Cummings, Law, Riley goln., 2020), ac mae astudiaethau ar gofio'r Rhyfeloedd Cartref, ond prin yw'r cyfeiriadau at Gymru ynddynt (Neufeld, 2013). Mae *Literature, Nationalism, and Memory in Early Modern England and Wales* gan Philip Schwyzer yn trafod testunau Cymreig, ond y ffocws gan mwyaf yw testunau Seisnig (2004). Mae *The Reformation of the Landscape* gan Alexandra Walsham sy'n archwilio'r atgofion a'r tirlun ar ôl y Diwygiad Protestannaidd ym Mhrydain (2011). Er bod Walsham hithau'n cyfeirio at Gymru o bryd i'w gilydd, nid yw'n brif ffocws yn ei hastudiaeth chwaith. Ychwanegaf, felly, at yr astudiaethau hyn drwy ganolbwyntio ar Gymru.

Mae Frances Yates (1966) ac Aleida Assmann (2011) wedi dadlau bod pobl y cyfnod modern cynnar yn synied am y cof fel celfyddyd, ac ni ddaeth yn gysail i hunaniaeth a hunanymwybyddiaeth tan yr Oleuedigaeth, megis yng ngweithiau John Locke a'r beirdd

Rhamantaidd. Bydd yr astudiaeth hon yn dangos y bu perthynas rhwng cofio'r gorffennol a hunaniaeth y Cymry yn y cyfnod modern cynnar; yn wir, dadleuir y defnyddiwyd cof diwylliannol er mwyn diffinio'r genedl. Ar lefel sylfaenol, dadlennir y cyfnod fel un a oedd yn 'obsessively concerned with the interpretation of the past' (Hiscock, 2011, t. 8). Crynhoir y safbwynt gan Pollmann:

Memory mattered to early modern Europeans as much as it does to those living in the twenty-first century, and partly for the same reasons. Then as now, memory practices supported the formation of both personal and communal identities, memories were used and manipulated in support of religious and political causes and invoked to create and support personal status and family prestige. Memories could play an insidious role, in legitimizing and perpetuating conflict, and in supporting the definition and exclusion of outsiders. They could also help to collective identity in the face of persecution and exclusion (2017, t. 186).

Manteisia'r astudiaeth hon ar ddadl Pollmann nad ffenomen fodern yw'r cof a chyfiawnhau, felly, astudio testunau'r cyfnod modern cynnar yn ôl damcaniaethau'r cof (2017, t. 8). Yn y cyd-destun hwn, mae i theori am gof diwylliannol le unigryw yn y maes oherwydd y cafodd ei datblygu i ddeall sut roedd cymdeithasau'n cofio mewn cyfnodau a manau amrywiol, megis Israel yr Hen Destament neu'r Aifft cyn Crist, yn ogystal â sut roedd pobl yn cofio mewn testunau o'r cyfnod modern cynnar hyd at ddigwyddiadau trawmatig yr ugeinfed ganrif.² Yn wahanol i theorïau eraill ynghylch y cof sy'n dueddol o fod yn gaeth i'r ugeinfed ganrif a'r cyfnod modern, mae cof diwylliannol wedi ei ddatblygu i ddeall sut y mae cymdeithasau a diwylliannau gwahanol dros filoedd o flynyddoedd, yn bennaf yn y byd Ewrofediteranaidd, wedi cofio'u gorffennol. Nid cyddigwyddiad, felly, yw gweld cyfeiriadau at gof diwylliannol mewn gweithiau amlwg ar y cof yn y

² Gweler er enghraifft: Jan Assmann. 2010. *Cultural Memory and Early Civilization: Writing, Remembrance, and Political Imagination*; Aleida Assmann. 2011. *Cultural Memory and Western Civilization: Functions, Media, Archives*.

cyfnod modern cynnar megis gan Alexandra Walsham (2011) a Judith Pollmann (2017). Mae'r testunau hyn yn arwyddocaol gan amlinellu arwyddocâd y gorffennol yn y cyfnod modern cynnar a chan ddangos grym cymdeithasol y cof.

Yn ogystal, bydd yr astudiaeth hon yn cyfrannu at astudiaethau ar waddol y gorffennol yn y cyfnod modern cynnar a diwylliant hanesyddol yng Nghymru. Taflwyd goleuni ar werth y gorffennol a'i ddefnydd ar draws Ewrop yn *The Renaissance Sense of the Past* gan Peter Burke (1969) a chan Daniel Woolf ar gylchrediad y gorffennol a thestunau hanes yn Lloegr y cyfnod modern cynnar (1990; 2000; 2010). Bydd yr astudiaeth hon yn ychwanegu safbwyntiau o astudiaethau'r cof i'r drafodaeth a phersbectif Cymreig trwy archwilio testunau hanes Cymru. Mae *Royalism, Religion and Revolution* gan Sarah Ward Clavier (2021) yn arbennig o berthnasol i'r astudiaeth hon. Er mai ffocws ei chyfrol yw'r ail ganrif ar bymtheg, mae ganddi sylwadau gwerthfawr ar ddiwylliant hanesyddol yng Nghymru, ac yn arbennig ei bwysigrwydd a'i amlygrwydd yn rhan o fywyd a hunanddelwedd y Cymry yn y cyfnod. Mae'r testunau dan sylw yn y traethawd hwn yn amlygu ymffrost y Cymry yn eu gorffennol, a bydd yr astudiaeth hon yn ehangu sgôp Ward Clavier gan fanylu ar destunau Cymraeg, Saesneg a Lladin, a chan fanteisio ar ddamcaniaeth cof diwylliannol. Mae *Early Modern Britain's Relationship to its Past: The Historiographical Fortunes of the Legends of Brute, Albina, and Scota* gan Robinson-Self yn astudiaeth berthnasol hefyd sy'n trafod derbyniad chwedlau a mythau hanes Prydain, yn arbennig rhai ynghylch Brutus (2019).³ Dadleua Robinson-Self y defnyddiwyd mythau sefydlu er

³ Yn gyffredinol, wrth drafod myth mae dau ddiffiniad, sef yn gyntaf 'naratif sanctaidd', ac yn ail stori y mae cymdeithas yn ei choleddu mewn rhyw ffordd er nad yw'n sanctaidd mewn modd crefyddol. Yr olaf o'r ddau ddiffiniad a ddefnyddir yn y traethawd hwn (gweler: William G. Doty. 2000. *Mythography* a Roland Barthes. 1972. *Mythologies*. Tynnir hefyd ar waith Anthony D. Smith, *Myths and Memories of the Nation* sydd yn deall mythau fel naratifau hynafol am hunaniaeth sydd yn meddu ar rym mewn cymdeithas benodol, ac sydd yn aml yn cael eu dehongli fel gwirioneddau bythol (1999).

mwyn dyrchafu'r Cymry yn ystod y cyfnod modern cynnar. Ehangir ar y canfyddiadau hynny yn y traethawd hwn ac ystyrir y modd y defnyddir chwedl Brutus i ddiffinio'r Cymry fel cenedl Glasurol.

O ran strwythur, mae i'r astudiaeth hon bedair pennod. Mae'r bennod gyntaf yn amlinellu fframwaith theoretig y prif gysyniadau a geir yn y thesis. Amlinellir sut y cyfranna cof diwylliannol at hunaniaeth gyfunol a sut y defnyddir cyfryngau amrywiol i wneud hynny. Un o brif ddadleuon y bennod, a'r astudiaeth yn gyffredinol, yw bod hanes cenedlaethol yn gyfrwng ar gyfer cof diwylliannol ac, yn hytrach na deall hanes a'r cof fel ffyrdd cyferbyniol o ymagweddu at y gorffennol, awgrymir y dylid eu deall fel ffenomena cysylltiedig. Yn ychwanegol, dadleuir bod ôl dylanwad cynulleidfa dybiedig i'w weld ar destunau cof diwylliannol. Arwyddocâd y dylanwad hwn yw ei fod yn dangos fod gan awduron awydd i gyrraedd cynulleidfa benodol ac i gynnig naratif y gall cynulleidfa dybiedig ei berchenogi. Cynigir, felly, ddealltwriaeth o'r awdur fel cymeriad llai gormesol, gan ddeall y berthynas rhwng awdur a chynulleidfa fel un amlgyfeiriol gyda'r naill a'r llall yn cyfrannu at y broses o gyfathrebu. Yng nghyd-destun y testunau dan sylw, mae creu cof yn broses ddeinamig sy'n dod o dan ddylanwad y crëwr a'r gynulleidfa dybiedig; gwahaniaeth ydyw sy'n artiffisial yn y bôn oherwydd mae'r awduron hyn yn creu cof ar gyfer cymuned y maent yn rhan ohoni. Mae'r ddadl hon yn gwbl newydd i astudiaethau'r cof, a gallai ail-fframio'r maes drwy ganolbwyntio ar y cofwyr yn ystod y broses o greu'r cof.

Ar ôl cyflwyno prif gysyniadau'r traethawd, astudir testunau ar hanes Cymru a ysgrifennwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Roedd y testunau hyn yn ddylanwadol am genedlaethau ac yn sylfaen i'r modd y deallir gorffennol y Cymry gan Charles Edwards a Theophilus Evans. Rhoddir lle dyledus i ddealltwriaeth grefyddol a seciwlar wrth astudio testunau gan ddyneiddwyr Cymru a fu'n ffigurau blaenllaw yn y gyfundrefn Duduraidd yng Nghymru. Yn

eu testunau, gwelwn fod y gorffennol yn gonglfaen i hunaniaeth Gymreig mewn cyd-destun crefyddol, gwleidyddol a deallusol newydd. Er enghraifft, dadleuir bod y berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson yn yr unfed ganrif ar bymtheg wedi ei gwreiddio mewn hen hanes. Yn ogystal, dengys y cof hwn fod y Cymry'n genedl Ewrofediteranaidd a'u bod yn gallu olrhain eu llinach yn ôl at frodorion cyntaf yr ynys fel Brutus. Dengys y testunau hefyd mai cenedl Brotestannaidd a dderbyniodd y ffydd yn gynnar wedi'r atgyfodiad gan Joseff o Arimathea yw'r Cymry. Yn wahanol i naratifau canoloesol, mynnir mai crefydd Brotestannaidd a sefydlwyd ym Mhrydain. Mynnwyd hefyd y bu hynafiaid y Cymry'n ffyddlon i Brotestaniaeth cyn i'r Pab anfon ei gennad, Awstin, i sefydlu Catholigiaeth ymhlith y Saeson.⁴ Un testun Cymraeg sydd o dan sylw yn y bennod hon, sef yr 'Epistol at y Cembrau'. Yn wahanol i'r testunau eraill sy'n ceisio amddiffyn hanes y Cymry a'u henw da ar draws Prydain ac Ewrop, ysgrifennwyd yr 'Epistol' ar gyfer y Cymry. Caiff ei ddehongli fel testun sy'n cynnig cof diwylliannol i'r Cymry, yn hytrach na'i fynegi i genhedloedd eraill.

Mae'r drydedd bennod yn rhoi sylw manwl i'r testun Cymraeg, *Y Ffydd Ddi-ffuant* gan Charles Edwards (1677). Roedd Charles Edwards yn anghydfurfiwr ac roedd yn ysgrifennu mewn cyfnod cythryblus iddo ef. Ysgrifennwyd y *Ffydd* ar ôl Adferiad y Brenin yn 1660, dyma gyfnod pan oedd Edwards a'i debyg yn dioddef erledigaeth gan y wladwriaeth am iddynt gael eu beio am y Rhyfeloedd Cartref. Yn wahanol i'r dyneiddwyr a drafodir yn yr ail bennod, nid oedd gan Charles Edwards rôl yn y wladwriaeth; nid oedd ganddo hawl fel anghydfurfiwr. Mae tair rhan i'r *Ffydd*:

⁴ Yn y traethawd hwn defnyddir y gair 'Catholig' a 'Chatholigaeth' i olygu Eglwys Rufain. Gwelir yn y traethawd bod rhai o'r awduron yn honni bod yr Eglwys y maen nhw'n rhan ohoni yn eglwys 'Gatholig' gan dynnu ystyr Groegaidd, y term 'catholig', sef cyffredinol, cyffredin, a ffyddlon. Wrth wneud hyn maent yn ceisio gwreiddio eu credoau Protestannaidd yng ngorffennol y ffydd Gristnogol ac annilysu hawl Eglwys Rufain ar uniongrededd ac fel tystiolaeth ffyddlon i eglwys Crist.

adran hanes y ffydd, adran ar wirionedd y ffydd, ac adran yn trafod ei rhinweddau. Ffocws y bennod hon yw'r adran ar hanes y ffydd, yma archwilir cysylltiadau'r Cymry â'r byd Ewrofediteranaidd. Deallir adran hanes y *Ffydd* fel cof diwylliannol y Cymry. Wrth dynnu ar sylwadau am gosmopolitaniaeth a chysylltiadau trawsgenedlaethol, herir safbwynt Derec Llwyd Morgan nad oes cysylltiad rhwng yr adran ar hanes y ffydd yn y byd a hanes y ffydd ymhlith y Cymry. Dadleuir bod Charles Edwards yn diffinio'r Cymry fel cenedl o Gristnogion sy'n ddisgynyddion i'r 'Britaniaid'. Ffocws y cof, fodd bynnag, yw'r cysylltiad ysbrydol sydd rhwng y Cymry a dilynwyd y ffydd ddiffuant sydd wedi byw a dioddef ar draws y byd Ewrofediteranaidd. Oherwydd eu ffydd, mae'r Cymry'n rhan o linach eglwys ddiodeffus Crist y gellir ei holrhain drwy hanes pobl Dduw.

Mae'r bedwaredd bennod yn rhoi sylw manwl i *Drych y Prif Oesoedd* (1716; 1740) gan Theophilus Evans, sef aelod o'r Eglwys a Chymro a fynegodd gof diwylliannol y Cymry yn y ddeunawfed ganrif. Dyma destun dylanwadol a oedd yn rhan amlwg o fwrlwm diwylliant hanesyddol Cymru'r ddeunawfed ganrif. Gosodir argraffiadau 1716 a 1740 ochr yn ochr â'i gilydd, ynghyd â dwy ran y *Drych*, am y tro cyntaf. O ganlyniad, bydd y bennod yn taflu goleuni newydd ar y ddau argraffiad. Dadleuir bod Evans yn diffinio'r Cymry fel disgynyddion y Brutaniaid ac fel cenedl o dras Ewrofediteranaidd; diffinnir hwy hefyd fel cenedl Gristnogol a dderbyniodd y ffydd gan un o ddisgyblion Crist, Joseff o Arimathea. Roedd Evans yn ficer, yn aelod brwd o'r Eglwys, ac yn chwyrn ei wrthwynebiad i unrhyw fath o ddiffyg cydymffurfiaeth. Wrth greu cof diwylliannol am Gristnogaeth ymhlith hynafiaid y Cymry, myn mai'r ffydd fel y'i ceir yn yr Eglwys oedd y ffydd honno a dderbyniwyd gan Joseff. Dyma sylfaen i ddadlau mai Eglwys Loegr yw'r eglwys buraf yn y byd ac y dylai'r Cymry, felly, fod yn ffyddlon iddi. Wrth i Evans ymffrostio yn llinach a thras ei

genedl, mae'r Cymry yn y *Drych* yn cael eu darlunio fel cenedl anrhydeddus, ac maent yn gallu olrhain eu llinach at ffigurau nodedig o safbwynt cyd-destun cyfandirol a Chlasurol, yng nghyd-destun Prydain, ac yng nghyd-destun y ffydd Gristnogol.

Un o'r nodweddion sy'n uno'r testunau hanesyddol a astudir yn yr astudiaeth hon yw'r awydd i gofnodi hanes y Cymry. Maent hefyd yn ceisio hyrwyddo gwybodaeth amdanynt yn Ewrop, ym Mhrydain, ac ymhlith y Cymry eu hunain. O ran y diffiniad o'r Cymry, gwelir trwy gydol yr astudiaeth mor bwysig oedd y gorffennol i hunaniaeth genedlaethol. Caiff y Cymry eu diffinio fel cenedl Ewrofediteranaidd a'u gosod felly'n rhan o naratifau cyfandirol sy'n Glasurol ac yn Gristnogol. Gwelir hefyd gysgod *Historia Regum Britanniae* gan Sieffre, a gwblhawyd tua 1136, sy'n honni ei fod yn cynnig hanes brenhinoedd Prydain, ar y gweithiau hyn. Trwy gydol y cyfnod modern cynnar yng Nghymru bu dadl hanesyddiaethol o bwys yn cyniwair ynghylch dibynadwyedd Sieffre o Fynwy.⁵ Ceisia'r awduron gyfuno dysg y cyfnod modern cynnar gyda naratif a oedd, yn sgil cyhoeddi *Anglica Historia* gan Polydore Vergil sy'n trafod hanes Lloegr, yn cael ei ystyried yn gynyddol fel celwydd. Amddiffynnwyd y testun a'r hanesyddiaeth draddodiadol Gymreig yn ffyrnig rhag beirniadaeth Vergil a'i debyg gan Gymry'r cyfnod modern cynnar a nifer o Saeson hefyd. Yn ôl Brinley F. Roberts roedd hanes Sieffre yn '[g]onglfaen yr ymwybyddiaeth genedlaethol' (1991, t. 28). Mynnant nad celwyddwr mo Sieffre ond cyfieithydd.

⁵ Am Sieffre o Fynwy, gweler: Karen Jankulak. 2010. *Geoffrey of Monmouth*. Am y ddadl yn ei gylch, gweler: A. O. H. Jarman. 1952. 'Y ddadl ynghylch Sieffre o Fynwy', *Llên Cymru* 2, 1–18. Am ddylanwad Sieffre gweler: Brynley F. Roberts. 1991. 'Sieffre o Fynwy a myth hanes cenedl y Cymry', yn Geraint H. Jenkins, gol., *Cof Cenedl VI*, tt. 1–32. Cyfieithwyd fersiynau o waith Sieffre i'r Gymraeg dan y teitl *Brut y Brenhinedd*, roeddynt yn ddylanwadol iawn yng Nghymru, gweler: Brynley F. Roberts. 1971. 'Ymagweddu at *Brut y Brenhinedd* hyd 1890', *Bwletin Bwrdd y Gwybodau Celtaidd*, 122–38. Am ddylanwad Sieffre ar ddealltwriaeth o'r gorffennol ym Mhrydain o'r Oesoedd Canol hyd at y cyfnod modern cynnar: T. D. Kendrick. 1950. *British Antiquity*.

Dengys yr amddiffyniad ohono fod ei honiadau yn bwysig i Gymreictod yn nhyb yr awduron dan sylw yn y traethawd hwn.

Yn yr astudiaeth a ganlyn, felly, archwilir rhai o brif destunau hanes Cymru'r cyfnod modern cynnar fel rhai sy'n cynnwys ac yn cyfryngu cof diwylliannol y Cymry. Bydd yr astudiaeth hon yn datblygu'r maes gan annog trafodaeth ar hunaniaeth Gymreig rhwng yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Anogir trafodaeth ar sut y crëwyd naratifau am y gorffennol er mwyn diffinio'r genedl gorffennol hwnnw yn hen hanes y genedl. Bydd sylw manwl yn cael ei roi i wreiddiau Clasurol y Cymry fel Brutaniaid, dimensiwn Cristnogol, a Phrotestannaidd y genedl. Cynigir dadl newydd yn y traethawd hwn i astudiaethau ar Gymru sy'n ymgais i wreiddio'r Cymry yn y byd Ewrofediteranaidd. Gwelwn yn ystod y cyfnod modern cynnar yr ailddarganfuwyd ac ailgrewyd cof diwylliannol y Cymry gan yr awduron hyn a diffinio Cymry mewn cyfnod o newid.

1. Cof diwylliannol

Maes bywiog ac amlweddog yw astudiaethau'r cof. Mae ysgolheigion sy'n arbenigo ar y cof yn astudio'r gorffennol sy'n cylchredeg mewn cymdeithasau penodol a sut mae'r gorffennol hwnnw yn cyfrannu at hunaniaeth gyfunol y cymdeithasau hynny.⁶ Mae'r cof, felly, yn eiddo i gymdeithasau penodol. Bydd y bennod hon yn egluro beth yw cof diwylliannol a'i berthynas â hunaniaeth gyfunol, llenyddiaeth, a hanes cenedlaethol. Bydd y bennod yn gosod seiliau theoretig yr astudiaeth a ganlyn gan gyflwyno astudiaethau'r cof a chof diwylliannol i'r Gymraeg. Cof diwylliannol yw un o brif gysyniadau astudiaethau'r cof, a bathwyd y term 'cof diwylliannol' gan Jan ac Aleida Assmann yn y 1980au.⁷ Mae'r Assmanniaid yn dadlau mai ffenomen ddiwylliannol yw'r cof sy'n cael ei gyfryngu gan destunau diwylliannol. Yn wahanol i ddulliau eraill o ddeall y cof megis gan Maurice Halbwachs a Pierre Nora, fel y gwelir yn y man, nid yw hanes a'r cof yn cyferbynnu â'i gilydd, yn hytrach myn yr Assmanniaid fod naratifau hanes yn cyfrannu at y cof.

Dadleuir yma na ddylid deall cof cenedlaethol a hanes cenedlaethol fel eithafbwyntiau cyferbyniol. Yn hytrach, maent ill dau wedi'u creu ac mewn perthynas ryng-gyfrannol a symbiotig â'i gilydd; maent yn cyfoethogi ei gilydd. Yn syml, math o gof cenedlaethol yw hanes cenedlaethol â'r ddau'n ymdrechu i gynnig naratif i genedl. Bwriad y traethawd hwn yw astudio cof

⁶ Sef: 'collective identity'. Yr hunaniaeth gyfunol a astudir yma yw hunaniaeth genedlaethol y Cymry, ni olygir wrth hynny fod pob hunaniaeth gyfunol yn hunaniaeth genedlaethol, wrth reswm. Un math o hunaniaeth gyfunol yw hunaniaeth genedlaethol, a cheir eraill megis hunaniaeth ranbarthol, grefyddol, a chyfandirol. Defnyddir 'cyfunol' yn hytrach na 'thorfol' oherwydd ei fod yn cydnabod mai creadigaethau amlweddog yw hunaniaethau â phobl yn dod ynghyd i greu un corff mwy. Yn gysylltiedig â hyn, felly, mae hefyd le i'r unigolyn gael ei gydnabod yn hytrach na chael ei lyncu i fod yn rhan o gorff ehangach.

⁷ Bathwyd y term 'das kulturelle Gedächtnis' gan Jan Assmann yn 1988, gweler: 'Kollektives Gedächtnis und kulturelle Identität' yn Jan Assman a Tonio Hölscher (goln.) *Kultur und Gedächtnis*, tt. 9–19. Cyfieithwyd yr erthygl hon gan John Czaplicka yn *New German Critique* yn 1995.

diwylliannol y Cymry fel y'i ceir mewn testunau hanes o'r cyfnod modern cynnar. Nid dadlau mai dyma *oedd* cof diwylliannol y Cymry yw'r bwriad. Yn hytrach y ddadl yw mai dyma sut yr *oedd* yr *awduron penodol dan sylw* yn synied am orffennol eu cenedl.

1.1 Datblygiad astudiaethau'r cof

Datblygodd astudiaethau'r cof yn ail hanner yr ugeinfed ganrif ac mae'n gysylltiedig â thanseilio naratifau cydnabyddedig a swyddogol am y gorffennol gan dynnu ar dystiolaeth llygad dyst a naratifau o safbwyntiau lleiafrifoedd. Er i Jeffrey Olick ddweud bod y *memory boom* wedi dechrau tua diwedd y 1970au (2011, t. 3), y farn gyffredinol yw iddo ddigwydd tua'r 1990au (Fulbrook, 2014, t. 24; Rosenfeld, 2009, t. 122).⁸ Dyma pryd y dechreuwyd trafod y cof ar draws y Dyniaethau mewn cyfrolau a chyfnodolion megis *History and Memory* a sefydlwyd yn 1989. Ers 2007, gyda sefydlu cyfnodolyn *Memory Studies*, mae astudiaethau'r cof wedi datblygu i fod yn faes cydnabyddedig, a cheir cyfresi ar y cof gan weisg megis *Palgrave Macmillan Memory Studies*. Nid *oedd* Gavriel Rosenfeld yn rhagweld dyfodol disglair i astudiaethau'r cof yn 2009. Yn wir, roedd yn argyhoeddedig y byddai diddordeb yn y cof yn dirywio oherwydd bod gormod o drafod arno (2009, tt. 122–58). Ond yn groes i gred Rosenfeld, mae diddordeb yn y cof wedi parhau i gynyddu.

Maes rhyngddisgyblaethol yw'r cof ac adlewyrchir hynny yn yr astudiaeth hon wrth gyfuno diddordeb mewn llenyddiaeth, diwylliant, a hanes. Mae ysgolheigion y cof yn astudio'r gorffennol fel creadigaeth ddynol. Wrth astudio'r greadigaeth honno bydd yr astudiaeth hon yn holi beth y sydd gan y *greadigaeth* i ddweud am y rhai sy'n cofio? Nid wfftio goddrychedd fel arferion amaturaid neu amhroffesiynol a wneir, yn hytrach pwysleisir bod gwerth i'r

⁸ Ceir cyflwyniadau i'r maes yn Astrid Erll. 2011. *Memory in Culture*; Jeffrey K. Olick, Vered Vinitzky-Seroussi, Daniel Levy, goln. 2011. *The Collective Memory Reader*; Siobhan Kattago, gol. 2015. *The Ashgate Research Companion to Memory Studies*; Patrick H. Hutton. 2016. *The Memory Phenomenon in Contemporary Historical Writing: How the interest in memory has influenced our understanding of history*.

creadigaethau hyn oherwydd eu bod yn cynnig golwg ar safbwyntiau ynglŷn â Chymreictod yn achos y traethawd hwn.

[Astudiaethau cynnar ar y cof](#)

Caiff astudio cof fel ffenomen gymdeithasol a chyfunol ei olrhain at Maurice Halbwachs (1877–1945) ac Aby Warburg (1866–1929). Symudodd y ddau y drafodaeth ar y cof o faes seicoleg a bioleg, sef meysydd Sigmund Freud a Henri Bergson ac eraill, at astudiaethau cymdeithasol a diwylliannol ac, felly, oddi wrth fframwaith unigol i fframwaith cyfunol (J. Assmann, 1995, t. 125).

Yn gyffredinol, cydnabyddir y cymdeithasegydd Ffrengig Halbwachs yn hynafdad ar astudiaethau cof cyfunol, ac mae modelau theoretig yn cyfeirio ato'n ddieithriad fel awdurdod. Roedd yn gysylltiedig ag Ysgol *Annales* y 1920au yn Ffrainc a roes bwyslais ar hanes cymdeithasol. Cyfeiria ysgolheigion y cof yn gyson at *Les cadres sociaux de la mémoire* (1925) a *La mémoire collective* a gyhoeddwyd yn 1950 ar ôl ei farwolaeth yn 1945. Deillia'r term Ffrangeg 'cof cyfunol' o'i waith sy'n haeru bod gan gymdeithas gof a bod atgofion cymdeithasol yn dibynnu ar fframweithiau, neu strwythurau cymdeithasol, i'w trosglwyddo (Coser gol., 1992). Gwrthwyneba Halbwachs y syniad fod y cof yn eiddo i unigolion yn unig; dadleua ei fod yn ffenomen gymdeithasol, fel iaith ac arferion (Erll, 2011a, t. 15). Yn ôl Halbwachs caiff y cof ei lunio gan fframweithiau cymdeithasol ac mae cyfathrebu ag eraill yn allweddol er mwyn datblygu cof cyfunol (Rigney, 2018, t. 240; J. Assmann, 2006, t. 5).

Er amlygrwydd Halbwachs yn y maes, mae Sarah Gensburger wedi beirniadu ysgolheigion y cof oherwydd eu bod yn cyfeirio ato fel awdurdod mewn modd totemaidd heb fynd i'r afael â'i syniadau (2016). Eglura Erll y diffyg hwn, dadleua hi nad oedd Halbwachs wedi egluro ei gysyniad eang am y 'cof cyfunol' yn fanwl, ac o ganlyniad cyfeirio ato'n unig y gellid ei wneud, heb allu

ymateb i'w syniadau mewn modd ystyrllon (2011a, t. 18). Mae cysyniad y 'cof cyfunol' yn boblogaidd iawn ond fe'i beirniadwyd gan Aleida Assmann am ei fod yn annelwig: 'Although I do not consider "collective memory" a spurious notion, I dislike the term because of its vagueness' (2010, t. 41). Mae elfen annelwig cof cyfunol yn un rheswm dros ddefnyddio'r term manylach, cof diwylliannol yn y traethawd hwn.

Ffigwr pwysig yn y drafodaeth ar gof diwylliannol yw Aby Warburg.⁹ Yn ôl Erll, ef yw hynafdad astudiaethau modern a rhyngddisgyblaethol ar ddiwylliant (2011a, t. 19). Hanesydd celf oedd Warburg, a dengys Marek Tamm mai ef oedd y cyntaf i synied am gofio fel proses gyfunol yn 1908 (2015, t. 9). Roedd Warburg yn ddylanwad mawr ar Jan ac Aleida Assmann, yn bennaf wrth drafod sut y mae'r cof yn ddiacronig ac yn goroesi dros amser. Maes ei ymchwil oedd gwaddol y Byd Clasurol a sut y trosglwyddwyd elfennau o'r byd hwnnw trwy ddiwylliant mewn celf adeg y Dadeni Dysg. Sylwodd fod gweithiau o gelf mewn cyfnodau gwahanol yn cyfeirio at weithiau blaenorol (Erll, 2011a, t. 19). Wrth weld y ffurfiau Clasurol yn ailymddangos, dadansoddodd hwy fel symbolau diwylliannol â chanddynt rym mnemonig. Gellid dadlau i gyfraniad Warburg i astudiaethau'r cof gael ei anghofio tan i'r Assmanniaid ei gyflwyno i'r disgwrs rhyngwladol gan fanteisio ar ei gred fod y cof yn gallu goroesi treigl amser a'i fod yn cael ei gyfryngu trwy ddiwylliant (Olick, *et al.* 2011, t. 19).

Mae gwahaniaethau pwysig rhwng dulliau Halbwechs a Warburg o astudio'r cof. Un ohonynt yw bod Halbwechs yn canolbwyntio ar ddimensiwn cymdeithasol diwylliant, tra bod

⁹ Am syniadaeth Warburg ar y cof gweler: Ernst Hans Gombrich. 1986. *Aby Warburg: An Intellectual Biography*, tt. 239–59. Am grynodedb o greddoau ac arwyddocâd Warburg i astudiaethau'r cof gweler: Alon Confino. 1997. 'Collective memory and cultural history: A problem of method', *The American Historical Review* 102(5), 1386–403, yn arbennig 1390–2; Astrid Erll, *Memory in Culture*, yn arbennig tt. 19–22.

Warburg yn canolbwyntio ar y dimensiwn materol a chelfyddydol. Serch hyn, maent yn gytûn fod diwylliant yn cael ei drosglwyddo drwy weithgaredd ddynol (Erll, 2011a, t. 21). Dylid gwerthfawrogi'r ddau yn ôl Astrid Erll: 'for showing that the key to the continuation of ephemeral culture lies not in any kind of genetic memory but rather in its transmission through social interaction and its codification in material objectifications' (2011a, tt. 21–2).

Ni ddilynwyd y llwybr a dorrwyd gan Halbwachs a Warburg wrth drafod y cof. Er i Jeffrey Olick ac eraill fynnu i gymdeithasegwyr astudio cof cyfunol trwy'r ugeinfed ganrif, nid oedd yn nodweddu astudiaethau llenyddol na hanesyddol (2011, tt. 21–3). Pierre Nora (1931–) a'i brosiect rhyngddisgyblaethol *Lieux de Mémoire* (1984–92) oedd un o'r testunau mwyaf dylanwadol wrth boblogeiddio'r cof ar draws y byd (Erll, 2011a, tt. 22–3). Fel Halbwachs, roedd gan Nora gysylltiad ag Ysgol *Annales* (Confino, 2008, t. 78). Nid gorbwysleisio yw dweud mai trwy Nora y daeth Halbwachs yn rhan o brif ffrwd deallusol trafodaethau'r cof, ac i ymdrin â'r cof ddod yn nodwedd o ysgolheictod yn fwy cyffredinol.

Canolbwyntia Nora ar y berthynas rhwng y cof, hanes, a'r genedl Ffrengig ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif.¹⁰ Cred ef fod ei oes yn wynebu argyfwng y cof wrth i naratifau cyffredin gael eu herio. Dywed y caiff y presennol ei ddatgysylltu oddi wrth y gorffennol a bod y cof dan fygythiad (Nora, 1989, tt. 7–13). Roedd yn credu bod hanes bellach yn dinistrio'r cof, ac, felly, roedd cof cyfunol yn diflannu a bod ymwybyddiaeth o orffennol cyfunol yn Ffrainc yn mynd yn angof. Yn hyn o beth, dilyna Halbwachs wrth ddeall hanes a'r cof fel eithafbwyntiau i'w gilydd. Dywed Nora:

¹⁰ Am grynodeb o syniadau Nora gweler: Patrick H. Hutton, 'Pierre Nora's *Les Lieux de mémoire* 30 Years After', *The Memory Phenomenon in Contemporary Historical Writing*, tt. 29–48; am grynodeb a beirniadaeth gweler: Astrid Erll, *Memory in Culture*, tt. 22–7.

'History is perpetually suspicious of memory, and its mission is to destroy it' (1989, t. 9). Oherwydd bod hanes yn ymosod ar y cof, dywed fod *milieux*, neu gyd-destun y cof, wedi ei ddinistrio (1989, t. 7). Oherwydd hyn, mae *lieux de mémoire* yn cynnig symbolau ac arwyddion o gof cyfunol i'r gymdeithas, sef y genedl Ffrengig yn ei achos ef, oherwydd nad oes *milieux* i'r cof. Maent yn dwyn delweddau o'r cof cenedlaethol yn unig, ac maent yn cynrychioli'r cof heb fod yn gof. O ganlyniad i hyn dywed fod y cof bellach yn artiffisial (*ibid.*).¹¹

1.2 Cof diwylliannol

Ar ddiwedd y 1980au, cyflwynodd Jan ac Aleida Assmann o'r Almaen eu theori am gof diwylliannol yn Almaeneg, a chyhoeddwyd testunau Saesneg ganddynt yn y 1990au, erbyn hyn mae'n un o brif gysyniadau'r maes. Dyma theori sy'n dadlau y cyfryngir cof cyfunol trwy ddiwylliant gan bwysu'n drymach ar Warburg nag ar Halbwachs (Olick, *et al.*, 2011, t. 19). Dadleua Marek Tamm fod astudiaethau'r cof, a gwaith yr Assmanniaid ar gof diwylliannol yn arbennig, wedi newid natur ymchwil hanesyddol a chynnig ffyrdd i astudio'r gorffennol o'r newydd (2013, t. 458).

Yn ôl Jan Assmann: 'Cultural memory is a form of collective memory, in the sense that it is shared by a number of people and that it conveys to these people a collective, that is, cultural identity' (2008, t. 110). Mae'n ddamcaniaeth sy'n pwysleisio rhyngddibyniaeth y cof, diwylliant, hunaniaeth gyfunol, a chyfiawnhad gwleidyddol. Fel cof cyfunol, math o ymwybyddiaeth hanesyddol yw cof diwylliannol a chaiff ei alw'n gof oherwydd mae'n eiddo i'r grŵp ac yn gysail i'w hunaniaeth (J. Assmann, 2008, t. 113). Yn yr astudiaeth hon, deallir y testunau dan sylw fel rhai sy'n creu cof diwylliannol oherwydd eu bod yn ailddehongli'r gorffennol i greu neu

¹¹ Gellid dadlau bod Nora yn adweithio'n erbyn rhai o brif nodweddion y byd modern, sef yn ôl Paul Connerton anghofio a cholli cysylltiad gyda'r gorffennol, gweler: *How Modernity Forgets* (2009).

adlewyrchu hunaniaeth y Cymry ar y pryd yn ôl yr awduron dan sylw. Er enghraifft, caiff y gorffennol ei ddefnyddio i gyfiawnhau'r berthynas agos rhwng Cymru a Lloegr yn dilyn Deddfau Uno 1536 a 1543 gan Humphrey Llwyd a David Powel. Yn eu naratifau hanes crëwyd hunaniaeth Gymreig a oedd wedi'i seilio ar gyd-berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson, elfen a welid hefyd yn yr undod crefyddol a chyfundrefnol ar y pryd. Roedd hyn yn wahanol i'r modd y crëwyd hunaniaeth yn seiliedig ar elyniaeth rhwng y ddwy genedl fel y bu yn yr Oesoedd Canol, megis yn *Brut y Tywysogion*.

Crynoir cof diwylliannol yn y dyfyniad canlynol gan Jan Assmann a ddefnyddir yn dra aml: 'the concept of cultural memory comprises that body of reusable texts, images, and rituals specific to each society in each epoch, whose 'cultivation' serves to stabilize and convey that society's self-image' (1995, t. 132). Gellir aildefnyddio'r testunau hyn er mwyn sefydlogi hunanddelwedd y gymdeithas honno o gyd-destun i gyd-destun. Mae'r ddealltwriaeth o 'destun' yn eang iawn yn y cyd-destun hwn – nid yw'n gyfyngedig i destunau ysgrifenedig, ac yn wir mae diwylliant ei hun yn destun iddynt. Yn yr astudiaeth hon, gwelwn y caiff y cof ei gynnal a'i gyfryngu gan destunau hanes. Gellid dadlau ei fod yn ddisgwyliedig fod testunau a argraffwyd yn gyfrwng amlwg i gof diwylliannol.¹² Os yw cofnodi'n ysgrifenedig yn golygu ei fod yn bosibl cofio mwy a'i gyfathrebu â chynulleidfa ehangach, mae hyd yn oed yn fwy perthnasol am argraffu. Wrth argraffu mae'n bosibl troi at y testunau hyn yn gyson, eu rhannu ag amrywiaeth o bobl a thros gyfnod maith, a thrwy hynny gellid sefydlogi hunanddelwedd y grŵp trwy eu hailddarllen.

¹² Mae trafod effaith y wasg argraffu ar gymdeithas, diwylliant, a'r meddwl dynol yn faes sylweddol. Gweler: Walter J. Ong. 1982. *Orality and Literacy: The Technologizing of the Word*; Marshall McLuhan. 1962. *The Gutenberg Galaxy*. Am drafodaeth ar Gymru, gweler: Geraint H. Jenkins. 1978. *Literature, Religion and Society in Wales, 1660–1730*.

Yn ôl Marek Tamm, mae gwaith yr Assmanniaid yn rhan allweddol o'r troad diwylliannol a fu yn astudiaethau'r cof ar ddiwedd y 1990au (2015, t. 127). Maent yn deall diwylliant fel cyfryngwr y cof gan dynnu ar waith y semiotegwyr o Rwsia, Juri Lotman a Boris Upenskiy sy'n dadlau mai diwylliant yw'r 'non-hereditary memory of the community' (1978, t. 213). Roedd Lotman yn synied am ddiwylliant fel cof nad oedd yn cael ei etifeddu'n fiolegol, ac yn dadlau y caiff ei drosglwyddo trwy gyfryngau diwylliannol.¹³ Cred Aleida Assmann i'r diffiniad hwn ehangu trafodaethau ar ddiwylliant. Mwyach ni chyfyngwyd y drafodaeth i ystyriaethau synchronig; dechreuwyd trafod sut roedd diwylliant yn newid mewn a thros amser. Caiff diwylliant ei ystyried fel ffenomen ddiacronig, yn ôl Tamm gwnaeth hyn fraenaru'r tir ar gyfer trafodaethau ar gyfryngau'r cof a ddaeth yn ddiweddarach gan yr Assmanniaid (2015, t. 81). Dywed Aleida Assmann fod diwylliant yn fodd i greu cysylltiadau diacronig: 'Through culture, humans create a temporal framework that transcends the individual life span relating past, present, and future. Cultures create a contract between the living, the dead, and the not yet living' (2008a, t. 97).

Yn ôl yr Assmanniaid, mae'r cof yn ei hanfod yn ffenomen ddiwylliannol. Mae hyn yn wahanol i ddealltwriaeth Halbwachs o'r cof fel ffenomen gymdeithasol (J. Assmann, 2006, t. 8). Mae cof cyfunol Halbwachs yn seiliedig ar gymdeithasu beunyddiol a chyfathrebu ar lafar, yn bennaf er mwyn cyfryngu a chylchredeg profiad o ddiwyddiadau. Ond mae cof diwylliannol wedi'i seilio ar ddiwylliant sydd yn ei gyfryngu (Erll, 2011, t. 28). Cyflwynna Jan Assmann y term cof cyfathrebol am y math o gof sydd o dan sylw gan Halbwachs, oherwydd ei fod yn seiliedig ar brofiadau byw sy'n cael eu trosglwyddo ar lafar (J. Assmann, 2008). Cof cyfathrebol yw prif

¹³ Ys dywed Aleida Assmann: 'When the Russian Tartu-School semioticians and culturologists Yuri Lotman and Boris Uspenskiy defined culture as the "non-hereditary memory of a collective," they were emphasizing the dependence of cultural memory on particular practices and media' (2011, t. 10).

ffynhonnell *Drych yr Amseroedd* gan Robert Jones Rhoslan yn 1820, er enghraifft. Mae Rhoslan yn tynnu ar ei gof ei hun a chof ei gyfoedion ac eraill am ddigwyddiadau sydd o bwys i Fethodistiaid-Calffinaidd yng ngogledd Cymru ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg (gweler: Alter, 2020). Wrth fod yn ddibynnol ar brofiadau llygad dyst fel cyfrwng i'r cof nid yw dealltwriaeth Halbwachs o'r cof yn gallu bod yn hwy nag oes dyn. O ganlyniad, mae dealltwriaeth Halbwachs yn anghymwys i fod yn gysyniad ar gyfer deall y cof yn yr astudiaeth hon.

Yn ôl Jan Assmann, oherwydd y ddibyniaeth ar destunau y gall cof diwylliannol ymestyn yn hwy na'r 80–100 o flynyddoedd sy'n nodweddu cof cyfathrebol (2006, tt. 24–30). Gwelir hyn yng nghyd-destun yr astudiaeth hon wrth i Brutus, y Groegiwr o Gaerdroea, neu Joseff o Arimathea, y gŵr a brynodd y bedd i Grist, neu Dewi Sant, gael eu cofio yng Nghymru trwy'r cyfnod modern cynnar er iddynt farw dros fil o flynyddoedd ynghynt. Wrth i gof diwylliannol ddibynnu ar gyfryngau diwylliannol, mae'n gallu cyfryngu gwybodaeth o ganrifoedd pell. Gall y wybodaeth gael ei hail-greu a'i hatgyfodi gan awduron neu gan destunau llenyddol. Nid yw cof diwylliannol yn gyfyngedig i oes dyn: mae yn ei hanfod yn drawsgenedliadol (*transgenerational*). Nid oes angen profiad o'r digwyddiadau, felly, er mwyn eu cofio yn ôl y diffiniad hwn, fel y dywed Jan Assmann: 'With cultural memory the depths of time open up' (2006, t. 24).

Er mwyn gallu goroesi treigl amser, mae cof diwylliannol, yn ogystal â dibynnu ar destunau fel cyfrwng, hefyd yn dibynnu ar sefydliadau i gynnal y cof (Assmann, J., 2008, t. 111). Mae'r testunau dan sylw yn yr astudiaeth hon yn cyfryngu cof diwylliannol a gellid dadlau mai'r 'sefydliadau' sy'n cynnal cof diwylliannol y Cymry yw'r deyrnas Brotestannaidd gan gynnwys yr Eglwys. Dylid cofio bod cof y Cymry yn y cyfnod modern cynnar ynghlwm wrth y deyrnas. O ystyried sut y mae awduron y testunau dan sylw yn ymagweddu at y Goron a'r Eglwys yn ôl cof

diwylliannol, gellid eu deall fel sefydliadau a oedd yn cynnal y naratif mai crefydd frodorol yr ynys oedd Protestaniaeth (gweler: Ward Clavier, 2021, tt. 97–114). Dyma sut y dehonglwyd y gyfundrefn gan Charles Edwards a Theophilus Evans sy'n tynnu ar ddadleuon Richard Davies gynt o 'Epistol at y Cymry'. O ganlyniad i hyn, dadleuir bod cof y Cymry ynghlwm wrth y deyrnas Brydeinig yn ôl holl destunau'r astudiaeth hon ac mai Protestaniaeth oedd crefydd y deyrnas.

Am dros ddegawd, mae Astrid Erll wedi bod yn un o brif ysgolheigion astudiaethau'r cof gyda chyfrolau pwysig sy'n crynhoi'r maes megis *Memory in Culture* (2011a) ac *A Companion to Cultural Memory Studies* (2010) a olygwyd ganddi hi ac Ansgar Nünning. Mae ei chyfraniad i'r maes yn eang ac mae hi'n tynnu ar ddealltwriaeth Assmannnaidd o bwysigrwydd diwylliant, gan ganolbwyntio ar lenyddiaeth a'r cyfryngau sy'n cyfryngu'r cof. Hi yw yn un o brif feddylwyr y maes, yn arbennig wrth ystyried sut y mae'r cof yn 'teithio' ar draws ffiniau daearyddol, diwylliannol, ac amseryddol (2011b). Wrth hyn, pwysleisia Erll nad yw'r cof yn statig, yn hytrach mae'n ddeinamig, ac mae'n teithio ar draws ffiniau ac yn newid wrth wneud hynny. Defnyddir hyn yn yr astudiaeth hon i archwilio sut y mae'r cof yn newid o gyfnod i gyfnod yn ôl y cyd-destun a safbwyntiau'r awduron dan sylw. Yn ogystal, mae ei phwyslais ar luosogedd y cof, hynny yw bod sawl cof yn cydfodoli, yn ddylanwad mawr ar yr astudiaeth hon. Ni ddadleuir i'r cof fod yn unwedd ar draws gyfnod yr astudiaeth hon, ac er efallai bod sgerbwdd y cof yn sylfaenol debyg yn y testunau dan sylw gwelwn fod gwahaniaethau pwysig rhyngddynt.

1.3 Cof diwylliannol a hunaniaeth gyfunol

Dadleuir bod hunaniaeth gyfunol yn ei hanfod yn ffenomen ddiwylliannol a bod cof diwylliannol yn sylfaen i hyn yn y traethawd hwn. Hen arfer yw dadlau bod y cof yn sylfaen i hunaniaeth; eglura Jan Assmann: 'Memory is the faculty that enables us to form an awareness of selfhood

(identity), both on the personal and on the collective level' (2008, t. 109). Wrth astudio'r cyfnod modern cynnar, dywed Judith Pollmann i bobl ymagweddu at y cof fel rhoddwr hunaniaeth (2017, t. 1). Gwelwn hyn mewn cerdd i'r Arglwydd Robert Dudley gan William Fulwood yn y gyfrol *The Castle of Memory* a gyfieithwyd yn 1562 o'r Lladin:

Therefore I briefly thus conclude,
take memory away:
What is a man? What can he do?
Or else what can he say? (Engel *et al.* goln., 2016, t. 53).¹⁴

Ond mae'r gred llawer yn hŷn; yn ôl Beecher mae i'w weld ymhlith y Rhufeiniaid (2009, t. 370), ac mae Jan Assmann yn dadlau ei fod yn bresennol yn Llyfr Deuteronomium (2010, tt. 175–206).

Roedd y cof yn ffordd o drosglwyddo profiadau cyfunol a llunio dehongliadau o'r gorffennol ar gyfer cymdeithasau yn ystod y cyfnod modern cynnar (Arcangeli a Tamm, 2020). Mae'n bwysig nodi hefyd y cafodd cof ei ddeall fel celfyddyd ac fel disgyblaeth ar y pryd.¹⁵ Ffocws yr astudiaeth hon yw'r cof fel dehongliad o'r gorffennol sy'n cael ei greu ac sy'n cynnig hunaniaeth, oherwydd hynny ni thrafodir sut y cafodd y cof ei ddeall yn ormodol. Dadansoddir naratifau am y gorffennol fel rhai sy'n cynnwys cof diwylliannol, hynny yw eu bod yn naratifau sy'n cynnig dealltwriaeth gyfunol o'r gorffennol ac yn amlinellu hunaniaeth y genedl.

Nid yw hunaniaeth yn gyfyngedig i'r presennol; dywed Jan Assmann:

¹⁴ Guglielmo Gratarolo (1516–1568) oedd yr awdur a'r testun gwreiddiol yw *De memoria reparanda, augenda confirmandaque ac de reminiscencia* (1553).

¹⁵ Am y cof fel celfyddyd a disgyblaeth yn y cyfnod modern cynnar gweler: Frances Yates. 1966. *The Art of Memory*; Donald Beecher. 2009. 'Recollection, Cognition, and Culture: An Overview of Renaissance Memory', yn Donald Beecher a Grant Williams, goln., *Ars Reminiscendi: Mind and Memory in Renaissance Culture*, tt. 367–433; Andrew Hiscock. 2011. *Reading Memory in Early Modern English Literature*; Andrew Gordon a Thomas Rist, goln. 2013. *The Arts of Remembrance in Early Modern England*; Stephen Clucas. 2015. 'Memory in the Renaissance and Early Modern Period', yn Dmitri Nikulin, gol., *Memory: A History*, tt. 131–75.

Memory is knowledge with an identity-index, it is knowledge about oneself, that is, one's own diachronic identity, be it as an individual or as a member of a family, a generation, a community, a nation, or a cultural and religious tradition (2008, t. 114).

Cred Jan Assmann fod hunaniaeth yn bodoli mewn amser a thros amser a'i fod felly'n ddiacronig. Oherwydd hyn, daw hanes yn bwysig i astudiaethau cof diwylliannol fel naratif sy'n hyrwyddo cofio'r gorffennol fel modd i ddilysu'r presennol. Yn ogystal, mae'r cof yn atblygol ac yn cyfeirio'n ôl at yr hunan sy'n cofio, fel y gwelwn yn yr astudiaeth hon. Er enghraifft, o ystyried 'Epistol at y Cemburu' fel testun cof diwylliannol, gwelwn fod Davies wrth bwysleisio Protestaniaeth gynnar y Cymry yn ceisio cyfiawnhau'r Diwygiad Protestannaidd gan ei ddarlunio fel adferiad ffydd wreiddiol y genedl. Dyma ymgais i ddiffinio'r Cymry fel cenedl Brotestannaidd trwy gofio'r gorffennol mewn modd penodol. Yn yr un modd, mae Theophilus Evans yn cysylltu Cymry'r ddeunawfed ganrif â Chymry hynafol a dangos i'r genedl pwy ydynt ar sail eu gorffennol. Hynny yw, mae'r naratifau'n darlunio'r gorffennol er mwyn dilysu eu hunaniaeth gyfoes. Mae'r cof felly'n gwreiddio'r grŵp yn y gorffennol, fel y dywed Astrid Erll (2011a, t. 17).

Mae Jan Assmann wedi amlinellu sut y mae cof diwylliannol yn cyfrannu at hunaniaeth. Dywed ei fod yn gwneud hyn wrth ateb dau gwestiwn hunaniaethol. Yn gyntaf, cwestiynau yn ymwneud â hunaniaeth ffurfiannol: 'pwy ydym ni?', wrth hynny diffinnir y grŵp gan ddatblygu hunaniaeth sydd wedi'i wreiddio mewn gwybodaeth neu ddehongliad penodol o'r gorffennol. Ceir atebion i'r cwestiynau hyn mewn testunau sy'n cynnwys naratif o ryw fath, boed yn epig neu'n destunau hanes. Yn y naratifau dan sylw, caiff cwestiynau ffurfiannol eu hateb, a diffinnir y Cymry fel disgynyddion y Brutaniaid ac fel cenedl Glasurol a Christnogol. Wrth hynny, dywedir bod y Cymry'n genedl hynafol ac anrhydeddus sy'n rhan o waddol y byd Ewrofediteranaidd. Cwestiynau yn ymwneud â hunaniaeth normadol yw'r ail fath o gwestiynau sy'n cael eu hateb,

sef: ‘beth y dylem ei wneud?’ Mae cof diwylliannol hefyd yn dangos yr hyn yw normau’r grŵp. Hynny yw, mae’n amlinellu egwyddorion ac arferion y grŵp, ac yn dangos yr hyn y dylai’r grŵp ei wneud, gall hyn gynnig arweiniad ynghylch penderfyniadau ar sail eu gwerthoedd (Assmann, J., 2010, tt. 122–3). Ymddengys yr atebion i gwestiynau normadol mewn llenyddiaeth gynghorol megis diarhebion yn ôl Assmann. Ond o ystyried rhinweddau didactig ysgrifennu hanes yn y cyfnod modern cynnar, mae’n briodol ystyried y testunau hyn fel rhai sy’n amlinellu normau’r Cymry a’r hyn y dylent ei wneud. Mae’r ffocws yn foesol-ysbrydol ac yn cael ei gyfoethogi gan fydolwg Cristnogol yr awduron. Mae hunaniaeth normadol y Cymry yn gweddu i raddau helaeth â chrynhoad Crist o’r Deg Gorchymyn ym Matthew 22: 36–40.¹⁶ Yn syml, dylai’r Cymry garu Duw a thrwy hynny bod yn ufudd iddo Ef, ac y dylent garu eu cymdogion a thrwy hynny bod yn ffyddlon i’w gilydd ac i’r drefn.

Mae cof diwylliannol a hunaniaeth gyfunol yn hyrwyddo undod yn y presennol wrth hyrwyddo ymwybyddiaeth o’r grŵp fel un corff cyfunol. Yn ôl Jan Assmann: ‘Memory enables us to live in groups and communities, and living in groups and communities enables us to build a memory’ (2008, t. 109). Hynny yw, mae’r cof yn hyrwyddo gallu pobl i gyd-fyw mewn cymunedau, ac wrth fod yn rhan o gymuned mae cof yn gyffredin i chi ac aelodau o’r grŵp (2008, t. 94). Maent yn brosesau sy’n rhyng-gysylltiedig neu’n symbiotig, mewn geiriau eraill maent yn cyfrannu at ei gilydd. Er enghraifft, mae naratifau Charles Edwards a Theophilus Evans yn hyrwyddo ymwybyddiaeth benodol o’r Cymry. Maent hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth o’r Cymry fel cymuned sydd yn unedig, yn rhannol, ar sail y gorffennol cyffredin sydd ganddynt.

¹⁶ ‘Athro, pa un yw’r gorchymyn mawr yn y gyfraith? A’r Iesu a ddywedodd wrtho, Ceri yr Arglwydd dy Dduw â’t holl galon, ac â’t holl enaid, ac â’t holl feddwl. Hwn yw’r cyntaf, a’r gorchymyn mawr. A’r ail sydd gyffelyb iddo; Câr dy gymydog fel ti dy hun. Ar y ddau orchymyn hyn y mae’r holl gyfraith a’r proffwydi yn sefyll.’ (Beibl 1588)

Mae'r gorffennol yn allweddol i hunaniaeth genedlaethol; yn ôl Jan Assmann: 'The past is the decisive resource for the consciousness of national identity' (2006, t. 87). Ceisia'r awduron dan sylw lunio cof gan ail-greu'r gorffennol sy'n cynnig hunaniaeth genedlaethol i'r Cymry. Ond i ba raddau y gellid deall Cymru'r cyfnod fel cenedl? Mae llawer o ysgolheigion wedi dadlau mai ffenomen fodern *par excellence* yw'r genedl sydd wedi'i chreu gan yr elît a'i bod yn endid wleidyddol fel Gellner (1983) Anderson (1983) a Hobsbawm (1990). Rhaid pwysleisio mai math arbennig o genedl sydd o dan sylw ganddynt, y genedl-wladwriaeth a ddaeth i'r amlwg yn y ddeunawfed ganrif. Mae ysgolheigion fel Colin Kidd (1999); Philip Schwyzer (2004); Pasi Ihalainen (2005); A. D. Smith (2006) wedi dadlau bod ymwybyddiaeth genedlaethol yn bodoli yn y cyfnod modern cynnar, a bod dimensiwn Cristnogol cryf iddi.¹⁷ Dadleua'r astudiaeth hon os oes ymwybyddiaeth genedlaethol yn bodoli, mae'n rhaid bod y genedl yn bodoli, boed yn y dychymyg ai peidio. O ganlyniad i hyn, nid oes angen gwladwriaeth annibynnol na chael sofraniaeth i fodoli fel cenedl. Mae ymwybyddiaeth genedlaethol gref i'r testunau dan sylw, er nad yw Cymry yn genedl-wladwriaeth. Mae'r holl awduron a astudir yma'n ymagweddu at Gymru fel cenedl, oherwydd hynny bydd yr astudiaeth hon yn ymdrin â'r Cymry fel cenedl.

Diffinnir y genedl gan dynnu ar ddealltwriaeth ethno-symbolaidd Anthony D. Smith yma.

Diffinnir cenedl ganddo fel:

a named and self-defining human community whose members cultivate shared memories, symbols, myths, traditions and values, inhabit and are attached to

¹⁷ Mae'r pedwar awdur yn rhoi sylw i hunaniaethau cenedlaethol ym Mhrydain. Ond Schwyzer yw'r unig un sy'n rhoi sylw neilltuol i Gymru. Er bod Colin Kidd yn honni trafod hunaniaethau Prydeinig, ac yn efelychu ysgolheigion sy'n cynnig golwg pedair cenedl ar hanes Prydain, ei ffocws yw 'The historic patriotisms of England, Scotland and Ireland' (1999, t. 6). Ni chaiff Cymru sylw neilltuol, ymddengys yn y testun yn aml fel estyniad o Loegr sydd yn wahanol rhywsut.

historic territories or “homelands”, create and disseminate a distinctive public culture, and observe shared customs and standardised laws (2009, t. 29).

Sail y genedl yw ymwybyddiaeth genedlaethol ymhlith yr aelodau yn ôl y diffiniad hwn. Mae'n cydnabod rôl hunaniaeth, diwylliant, y gorffennol, ac atgofion sydd oll yn gyffredin i'r genedl.¹⁸ Nid oes sôn am sofraniaeth na chenedl-wladwriaeth. Yn hytrach, yr elfen oddrychol o ddiffinio cymuned fel cenedl yw'r hyn fydd dan sylw. O ddiffinio'r genedl fel hyn, gellid deall Cymru fel cenedl yn yr astudiaeth hon.

Yn yr astudiaeth hon, dadleuir ei bod yn bosibl mynegi ymwybyddiaeth o genedl gan ddefnyddio'r cof. Mae'n werth nodi, hefyd, na fydd yr astudiaeth hon yn dadlau mai cael eu gorfodi i dderbyn y diffiniad hwn y mae aelodau'r genedl. Yn hytrach, dadleuir y cânt eu gwahodd i'w dderbyn, a bod yr awduron yn ceisio hwyluso gallu'r Cymry i uniaethu â'r testunau trwy apelio atynt, er mwyn gwneud hyn bydd rhaid ychwanegu term newydd i'r maes.

1.4 Y gynulleidfa dybiedig a'r cof

Mae sawl astudiaeth o gof diwylliannol yn canolbwyntio arno wrth iddo gylchredeg. Nid yw creu cof wedi'i astudio'n fanwl, bydd yr astudiaeth hon yn ddechreubwynt er mwyn llenwi'r bwlch hwnnw. Dadleua'r astudiaeth hon fod apêl neilltuol at gynulleidfa dybiedig, sef y gynulleidfa y mae'r awdur yn ei disgwyl, mewn testunau cof diwylliannol, a bod yr apêl honno'n dangos bod dylanwad gan y gynulleidfa honno ar y naratif. Oherwydd hynny, dadleuir bod yr awduron dan sylw'n rhagweld eu cynulleidfa ac yn apelio atynt wrth ddatblygu naratif, oherwydd nid yw cof yn ddim heb y rhai sy'n cofio. Mae apêl, felly, yn hanfodol i sicrhau y caiff y naratifau eu perchenogi fel cof. Nid yw'r syniad o apelio yn newydd, mae ymhlyg yn arferion llenyddol y cyfnod

¹⁸ Astudiwyd syniadau Smith am y genedl ar rôl mythau a'r cof yng ngoleuni trafodaethau diweddaraf yn astudiaethau'r cof gan Ann Rigney. 2018. 'Remembrance as remaking: memories of the nation revisited', *Nations and Nationalism* 24(2), 240–57.

modern cynnar i gasglu tanysgrifiadau cyn cyhoeddi, fel y gwnaeth Theophilus Evans. Roedd hyn yn rheidrwydd economaidd, dyma sut y talwyd costau argraffu, ond gellid dadlau y byddai diddordebau'r tanysgrifwyr wedi pwyso arno; bydd yr astudiaeth hon yn archwilio'r dylanwad hwnnw.

Defnyddir y term 'cynulleidfa' am dri rheswm. Yn gyntaf, oherwydd nid fel darllenwyr yn unig yr ymgyfarwyddir â thestunau ysgrifenedig mewn cyfnodau heb gyfraddau uchel o llythrennedd. Er na allai pawb yn y gymdeithas ddarllen yn ystod y cyfnod modern cynnar, roedd gan yr anlythrennog fynediad at lenyddiaeth o hyd, oherwydd mai ar lafar y cyfathrebid deunydd ysgrifenedig â phobl yn darllen yn uchel (Manguel, 1996, t. 47). Mae hyn yn wir am destunau hanes y cyfnod hefyd, ys dywed Daniel Woolf roedd awduron hanes yn disgwyl i'w testunau gael eu darllen yn gyhoeddus (2000, t. 82).¹⁹ Dengys Eryn White fod nifer o awduron Cymru'r cyfnod modern cynnar yn ymwybodol nad oedd eu cynulleidfa'n gallu darllen. Ond os oedd un person yn gallu darllen ar yr aelwyd roedd disgwyl iddynt ddarllen yn gyhoeddus, gallai print felly ddylanwadu ar y cartref heb i bawb fod yn llythrennog (2007, t. 54).

Yn ail ac yn gysylltiedig â hynny, mae'r term 'cynulleidfa' yn briodol oherwydd roedd darllen yn brofiad cyfunol a chymdeithasol, fel y dengys Elizabeth Long (1992, t. 124). Roedd darllen yn brofiad cyfunol oherwydd amlygrwydd cylchoedd llenyddol yn niwylliant llenyddol y

¹⁹ Am ddylanwad y cyfrwng llafar ar ysgrifennu hanes gweler: Adam Fox a Daniel Woolf, goln. 2002. *The Spoken Word: Oral Culture in Britain 1500–1850*; Adam Fox. 2002. *Oral and Literate Culture in England 1500–1700*. Dengys Michelle O'Callaghan fod y cyfrwng printiedig a'r llafar yn cydfodoli, ac roedd 'cyhoeddi' yn golygu argraffu, ysgrifennu neu ddweud ar lafar, gweler: M. O'Callaghan. 2010. 'Publication: Print and Manuscript', yn Michael Hattaway, gol., *A New Companion to English Renaissance Literature and Culture*, tt. 160–76.

Dadeni (Summer a Pebworth, 2000, t. 1).²⁰ Roedd Humphrey Llwyd, er enghraifft, yn rhan o gylch llenyddol Iarll Arundel. Roedd cylchoedd cyffelyb o hyd yn gyffredin erbyn y ddeunawfed ganrif gyda chylch llenyddol yn Nyffryn Teifi, â Theophilus Evans yn eu plith.²¹

Ceir cyfatebiaeth rhwng cylchoedd llenyddol a chymunedau deongliadol (*interpretive communities*) Stanley Fish (1980). Diffinia Fish gymunedau deongliadol fel pobl sydd yn meddu ar strategaethau deongliadol cyffredin a ddefnyddir i ddehongli testunau (1980, tt. 167–73). Ni ddefnyddir term Fish yma oherwydd ei fod yn ystyried cymunedau deongliadol fel cyrff unffurf, yn hytrach na rhai amlweddog sydd yn cynnwys unigolion â safbwyntiau sydd, o bosibl, yn amrywio. Er enghraifft, yng nghylch llenyddol Dyffryn Teifi ceir uchel-Eglwyswyr fel Theophilus Evans, a hefyd anghydfurfwyr fel Iaco ap Dewi. Wrth gwrs, roedd ganddynt bethau yn gyffredin, fel eu diddordeb yn hynafiaethau Cymru, ond arddelir safbwyntiau gwahanol ganddynt ar grefydd er eu bod yn Brotestaniaid. Nid yw'r cysyniad cymunedau deongliadol yn caniatáu cydnabyddiaeth o'r amrywiaeth sydd o fewn grwpiau. Wrth i Evans ysgrifennu ar gyfer y Cymry, mae'n ysgrifennu ar gyfer cymunedau deongliadol amrywiol y genedl; gellid dadlau nad yw'r Cymry o reidrwydd yn gymuned ddeongliadol mewn modd ystyrllon. Gellid dadlau bod y term 'cylch llenyddol', er yn annelwig, yn fwy priodol yn y cyd-destun hwn, gan ei fod yn cydnabod y gall unigolion yn y cylch amrywio barn. Yn ogystal, ni theimlir bod y cysyniad o 'gymuned' yn

²⁰ Am arferion darllen yn ystod y cyfnod modern cynnar gweler: G. Cavallo a R. Chartier, goln. 1999. *A History of Reading in the West*; A. Manguel. 1996. *A History of Reading*; A. Pettegree. 2011. *The Book in the Renaissance*. Am gyflwyniad i'r Beibl a'r llyfr yng Nghymru'r cyfnod modern cynnar gweler: Eryn M. White. 2015. 'The Bible and the Book in Early Modern Wales, 1546–1770', yn C. Archers a L. Peters, goln., *Religion and the Book Trade*, tt. 6–28; Aneirin Lewis. 1971. 'Llyfrau Cymraeg a'u Darllenwyr, 1696–1740', *Efyrdiau Athronyddol*, XXXIV, 46–73. Am ddarllenwyr *Drych y Prif Oesoedd* yn benodol gweler: T. Robin Chapman. 2018. "'Yr Ysbryd Athrylithgar sydd yn awr yn cynhyrfu hiliogaeth y Cymry": Darllenwyr *Drych y Prif Oesoedd* Theophilus Evans yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg', *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion* 24, 64–75.

²¹ Am gylch llenyddol Dyffryn Teifi, gweler: Geraint H. Jenkins. 1990. 'Bywiogrwydd crefyddol a llenyddol dyffryn Teifi', yn *Cadw Tŷ mewn Cwmwl Tystion*, tt. 103–52.

ddigon eang, ar adegau, i drafod cynulleidfa dybiedig sydd yn drawsgenedlaethol, fel yn achos Siôn Prys, er enghraifft.

Y rheswm olaf y defnyddir y term 'cynulleidfa' yw oherwydd y dychmyga'r awduron dan sylw eu darllenwyr fel corff o bobl. Er y siaredir ag unigolion yn uniongyrchol, gwneir hynny wrth ymagweddu atynt fel rhan o gynulleidfa estynedig megis gan Davies a chan Edwards sy'n galw ar i'r Cymry fel unigolion ac fel cenedl i droi at Dduw. Ond ni ddylid ymagweddu at gynulleidfa fel un corff unffurf a threfnus, maent yn unigolion o gig a gwaed. Yn yr astudiaeth hon, felly, enw unigol yw cynulleidfa dybiedig am gorff o unigolion y mae'r awduron yn tybio a fydd yn darllen eu gwaith. Mae'r awduron dan sylw yn apelio at gynulleidfa neilltuol, mae'n gynulleidfa y mae'r awduron yn ei disgwyl ac oherwydd hynny gelwir hwy'n gynulleidfa dybiedig. Er nad yw'r awduron yn gallu dewis pwy yn union sy'n trin, trafod a dehongli'u gwaith, ysgrifennant ar gyfer cynulleidfa benodol.

[Y gynulleidfa yn astudiaethau'r cof](#)

Yn astudiaethau'r cof nid yw'r cofwyr wedi derbyn sylw manwl. Bydd yr astudiaeth hon yn arloesi ac yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i'r maes gan ystyried y cofwyr wrth i naratifau cof gael eu creu. Bydd y bennod yn datblygu dadl Aleida Assmann fod 'individuals and cultures construct their memory interactively' gan archwilio natur y creu (2011, t. 10).

Yn 2003 dadleuodd Misztal fod y cof yn ddeinamig, ceir dadl debyg yn ddiweddarach gan Erll (2011b), Rigney (2012) a Rothberg (2009). Yn ôl Misztal mae deall y cof fel ffenomen ddeinamig yn herio'r gred fod y cof yn cael ei greu gan elît er mwyn rheoli'r gymdeithas (2003, t.

68).²² Nid gwrthwynebu rôl yr awdurdodau i greu'r cof y mae Misztal. Mae hi'n dadlau bod elfen o ddemocratiaeth iddo oherwydd bod grwpiau yn gallu anghytuno ar eu gorffennol. Yn aml, mae hyn yn arwain at greu naratifau newydd. Ond mae cyfyngiadau i ddefnyddio gwaith Misztal o safbwynt dadl y traethawd hwn ynghylch y gynulleidfa dybiedig, yn bennaf oherwydd ei bod yn canolbwyntio ar y rhai sy'n derbyn y cof ar ôl iddo gael ei greu, nid *wrth iddo gael ei greu* fel y bwriedir yma (2003, tt. 71–3).

Gellid unioni hyn wrth ystyried cof diwylliannol fel ffenomen gyfathrebol. Mae Roger D. Sell wedi astudio cof diwylliannol a chymunedau'r cyfnod modern cynnar yn Lloegr (2009). Ond ei waith ar feirniadaeth gyfathrebol sydd fwyaf perthnasol i'r adran hon (2000; 2011; 2014). Defnyddir beirniadaeth gyfathrebol, a ddatblygwyd yn wreiddiol ar gyfer llenyddiaeth, i ddadlau bod cof diwylliannol yn ffenomen gyfathrebol a bod y rhai sydd ar yr axis gyfathrebol yn ddylanwad ar yr hyn a grëir. Dadleua Sell fod cyfeiriadaeth benodol ymhlyg mewn testunau: 'all writing, like all speech, does have addressivity, and that the addressivity chosen by literary authors is not solipsistic' (2011, t. 14). Mae awduron testunau'r astudiaeth hon yn gwybod pwy yw eu cynulleidfa dybiedig; maent yn dweud hynny, er enghraifft, 'Epistol at y Cembrau'. Haera Sell fod awduron a chynulleidfa'n cyfrannu at destun, ac nid oes modd eu gwahanu: 'literary activity consists of writer-audience interchanges that are reciprocally even handed' (2014, t. 2). Bydd yr astudiaeth hon yn cymhwyso hyn wrth astudio testunau cof diwylliannol.

²² Y math o farn sydd o dan gondemniad gan Misztal yw un Berthold Molden, gweler Berthold Molden. 2016. 'Resistant pasts versus mnemonic hegemony: on the power relations of collective memory', *Memory Studies* 9(2), 125–42. Dadleua Molden fod naratifau cof yn cael eu gorfodi ar bobl gan y rhai mewn grym gan dynnu ar astudiaethau ar hegemoni. Yn ôl Molden, mae'r cofwyr yn gymeriadau dof heb ddewis ac rhaid iddynt dderbyn y cof sy'n cael ei orfodi arnynt gan yr elít. Mae'r ddadl hon yn tueddu anghofio'r angen i gof fod yn *gofiadwy*, gan bwysleisio mai grym sydd yn penderfynu beth sy'n dod yn gyfunol.

Wrth ganolbwyntio ar gyfeiriadaeth, bwriad Sell yw ein hatgoffa mai *pobl go iawn yw awduron*; yn yr un modd *pobl go iawn yw'r gynulleidfa* ac maent yn rhan o gymdeithas neilltuol (2000, t. 22). Goblygiadau'r farn mai pobl go iawn yw awduron a chynulleidfa yw y dylid eu trin a'u dadansoddi fel pobl gymhleth, aml-haenog, anghyson, a chymdeithasol. Nid yw deall yr awdur fel cymeriad pellennig sy'n athrylith unig yn gweithio y tu hwnt i gymdeithas yn berthnasol i awduron yr astudiaeth hon. Yn yr un modd, nid yw deall y gynulleidfa fel cymeriadau dof a di-rym yn deg chwaith.

Yn yr astudiaeth hon, ni honnir bod y cof yn cael ei orfodi ar y gynulleidfa dybiedig. Yn hytrach, cânt eu gwahodd i berchenogi'r naratif fel eu naratif hwy. Tynnir ar ddadl Sell fod y gynulleidfa'n cael ei gwahodd i destunau. Wrth hyn dylid pwysleisio fod gan gynulleidfa'r gallu i dderbyn, gwrthod, neu addasu'r hyn a geir yn y testun wrth ei drin. Er enghraifft, o ystyried derbyniad *Drych y Prif Oesoedd*, testun a oedd yn drwm o blaid yr Eglwys, parhaodd i fod yn destun o bwys i Gymry Anghydfurfiol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Chapman, 2018). Ni fyddai hyn wedi digwydd pe bai'r gynulleidfa wedi derbyn daliadau Eglwysig a gwrth-anghydfurfiol Evans.²³

[Apelio at gynulleidfa dybiedig](#)

Gwelwn ddylanwad y gynulleidfa dybiedig ar destunau cof diwylliannol yn yr apêl sydd atynt yn y testunau. Mae'r apêl hon yn ffordd i annog eu cynulleidfa i berchenogi'r naratifau. Er mwyn apelio atynt, mae'r awduron dan sylw yn gosod eu naratifau mewn cod sy'n gyffredin iddynt hwy

²³ Mae derbyniad y *Drych* yn ddiddorol hefyd, gan y coledwyd yr adran ar hanes y Cymry gan y Cymry er nad oedd o reidrydd yn cael ei ddeall fel y gwir. Mae hyn yn wahanol i'r diffyg sylw a roddwyd i ail ran y *Drych* sy'n canolbwyntio ar hanes y ffydd Gristnogol a phurdeb hanesyddol yr Eglwys. Gweler: Eryn White. 2013. 'A Tale of Two Mirrors: Forming an Identity for the Calvinistic Methodist Church of Wales', yn Stewart J. Brown, Frances Knight, John Morgan-Guy, goln., *Religion, Identity and Conflict in Britain: From the Restoration to the Twentieth Century*, tt. 81–91; T. Robin Chapman, "Yr Ysbryd Athrylithgar Sydd yn Awr yn Cynhyrfu Hiliogaeth y Cymry".

a'u cynulleidfa dybiedig. Defnyddir y gair cod yn ôl yr ystyr gyffredinol a ddefnyddir gan ysgolheigion semioteg. Caiff ei ddeall fel system o arwyddion sy'n dod ynghyd, yn creu ystyr, ac yn ffordd i ddeall y byd (Leeds-Hurwitz, 1993, tt. 51, 61–6). Oherwydd bod y cod a ddefnyddir gan yr awduron yn gyfarwydd i'r gynulleidfa, ac yn rhan o sut maent yn deall y byd eisoes, mae'n hwyluso gallu'r naratif i gael ei ddeall. Mae gallu bod yn ddealladwy yn bwysig i'r cof hefyd; fel y dywed Erasmus yn Lladin yn 1511 'memory largely consists in having thoroughly understood something' (dyfynnwyd yn Hiscock, 2011, t. 24). Dadleua'r astudiaeth hon fod gosod testunau mewn cod cyffredin yn deillio o ddylanwad y gynulleidfa arnynt. Caiff ei ddehongli fel gweithred fwriadol i hyrwyddo dealltwriaeth sydd yn ei dro yn galluogi'r gynulleidfa i berchnogi'r naratif.

Mae dwy brif ffordd yn cael eu defnyddio i osod y testunau dan sylw mewn cod cyffredin. Yn gyntaf, defnyddir iaith benodol i gyrraedd cynulleidfa benodol. Caiff ysgrifennu mewn iaith benodol ei ddehongli fel ymgais i fod mewn dialog gyda phobl neu'r gymuned sy'n defnyddio'r iaith honno. Mae'r gallu i ddeall testun yn eich hiaith yn hwyluso'ch gallu i berchenogi'r testun, fel y gwelir mewn dadleuon o'r cyfnod o blaid cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg yn yr unfed ganrif ar bymtheg a thros grefydda yn y Gymraeg yn gyffredinol. Defnyddia Siôn Prys y Lladin er mwyn cyrraedd cynulleidfa ddysgedig ar draws Ewrop. Saesneg oedd cyfrwng Llwyd a Powel a dywedant eu bod yn ysgrifennu ar gyfer y Saeson yn *Cronica Walliae a Historie of Cambria*. Defnyddia Charles Edwards a Theophilus Evans y Gymraeg er mwyn cyrraedd cynulleidfa Gymraeg ac ill dau'n gwneud ymdrech fwriadol i hwyluso dealltwriaeth o'u naratifau trwy Gymru gyfan.

Yr ail ffordd yw trwy osod y naratif yng nghylch profiad a chylch gwybyddol y gynulleidfa dybiedig. Maent yn mynegi eu testunau mewn cod profiadol, sy'n rhan o fywyd y gynulleidfa eisoes. Mae'r testunau dan sylw'n tynnu ar gefndir y gynulleidfa dybiedig. Er enghraifft, mae Siôn

Prys yn cyfeirio at awduron Lladin wrth ysgrifennu at gynulleidfa ddysgedig sy'n edmygu testunau fel Tacitus ac Iŵl Cesar. Yn yr un modd, er mwyn sicrhau bod cynulleidfa Seisnig yn deall hanes Cymru, defnyddia Powel fframwaith Seisnig i ddangos pwy oedd yn rheoli yn Lloegr, a gosod enw'r teyrn ar frig pob tudalen, yn ystod teyrnasiadau y tywysogion Cymreig. Gellid dehongli hyn fel ymgais ganddo i osod y testunau mewn fframwaith sy'n gyfarwydd i'w cynulleidfa dybiedig sy'n deillio o ddylanwad y gynulleidfa ar y testun.

[Cymdeithas yr awdur a'r gynulleidfa](#)

Y rheswm y gall yr awduron hyn ddefnyddio cod sy'n gyffredin iddynt hwy â'u cynulleidfa yw oherwydd eu bod yn rhannu'r un cefndir cymdeithasol. Yng nghyd-destun y traethawd hwn, gwelwn fod cynhyrchwyr y cof ymhlith y rhai sy'n cofio.

Wrth synied am ysgrifennu fel proses gyfathrebol gyda'r awduron yn adnabod y gynulleidfa dybiedig, mae'n bosibl dadlau eu bod yn gyd-aelodau o'r un gymdeithas. Gellid dadlau bod 'author-reader intimacy', sef cysyniad Walter J. Ong, ymhlyg yn y testunau hyn (1975). Yn ôl Ong, mae'r agosatrwydd hwn yn deillio o gymdeithas gyffredin yr awdur a'r gynulleidfa. Cred fod perthynas agos rhwng yr awdur a'r darllenydd yn llenyddiaeth Saesneg ddiwedd y cyfnod modern cynnar sy'n seiliedig ar brofiadau cyffredin. Dadleua fod defnyddio'r fannod, rhagenwau dangosol, a rhagenw cyntaf lluosog yn dangos hyn (1975, tt. 13–15). Cysyllta hyn â'r syniad o god cyffredin oherwydd y cyfeirir at bethau penodol sy'n gyfarwydd i'r gynulleidfa eisoes. Yn ôl y ddadl hon, mae dweud 'yr afon' neu 'y goeden honno' yn cyfeirio at wrthrych benodol sy'n hysbys i'r gynulleidfa. Mae'r fannod yn cymryd yn ganiataol fod gan y gynulleidfa wybodaeth o hyn o flaen llaw. Defnyddir hyn yn y penodau nesaf wrth archwilio cymdeithas gyffredin yr awduron dan sylw a'r gynulleidfa dybiedig.

Dadleuir yma fod yr awduron hyn oll yn rhan o'r gynulleidfa y ceisiant ei chyrraedd a bod ganddynt ddealltwriaeth oddi mewn o'u cynulleidfa dybiedig. Gŵyr yr awduron dan sylw pwy yw eu cynulleidfa oherwydd eu bod yn eu plith o ddydd i ddydd. Yn yr 'Epistol', y *Ffydd*, a'r *Drych* manteisia'r awduron ar amlygrwydd cymdeithasol y beirdd yng Nghymru gan ddyfynnu cerddi fel tystiolaeth. Roedd Prys yn rhan o gymdeithas ddysgedig drawsgenedlaethol Ewrop yr unfed ganrif ar bymtheg ac yn ysgrifennu testun ar gyfer y gymuned honno gan efelychu dulliau dysgedig y cyfnod. Er bod Llwyd a Powel ill dau'n ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa Seisnig, ceir ganddynt ymgais i greu cymdeithas gyffredin yn eu dydd ar gyfer y Cymry a'r Saeson. Dewis ysgrifennu ar gyfer eu cymdeithas Gymraeg a wnâi Davies, Edwards, ac Evans a gwelwn eu hymlyniad ati wrth iddynt ddefnyddio'r enw torfol 'ni'. Mewn modd tebyg, defnyddir 'us' ac 'our' gan Llwyd a Powel a ffurfiau Lladin cyfatebol gan Prys wrth sôn am y Cymry, a gwahaniaethu rhwng hynny a 'you' ac 'your' wrth gyfeirio at sef eu cynulleidfa. Dehonglir hyn fel tystiolaeth eu bod yn hunanymwybodol eu bod yn ysgrifennu ar ran y Cymry ar gyfer cynulleidfa ehangach.

1.5 Cof diwylliannol a llenyddiaeth

Dywed Astrid Erll: 'Cultural memory is unthinkable without media' (2011a, t. 113; 2008b, t. 389).

Ynghyd ag Ann Rigney, mae Astrid Erll wedi datblygu'r maes dros y degawd diwethaf a dyfnhau dealltwriaeth ysgolheigion o rôl cyfryngau a llenyddiaeth wrth drosglwyddo cof diwylliannol (gweler: Erll, 2011a; Erll a Rigney, 2006; Rigney, 2008b). Un o'u prif ddadleuon yw bod llenyddiaeth yn chwarae rôl flaenllaw wrth lunio a chyfryngu cof diwylliannol. Llenyddiaeth yw un o'r cyfryngau diwylliannol mwyaf poblogaidd erioed, ac mae'n gallu cyrraedd cynulleidfa yn breifat ac yn gyhoeddus. Nid yw'n gyfyngedig i'w chyfnod chwaith; mae'n drawsgenedliadol ac yn gallu dylanwadu ar sawl cenedlaeth (Erll, 2011a). Mae hyn yn rhannol oherwydd y gellir

ailldefnyddio testunau llenyddol o genhedlaeth i genhedlaeth. Nid yw'n syndod, felly, gweld llenyddiaeth yn codi'n amlwg yn y maes.

Pan sonnir am lenyddiaeth heddiw, yn gyffredinol ystyrir ffurfiau megis dramâu, ffuglen, a barddoniaeth ac yn y blaen, ond nid hanes. Yn bennaf, mae hyn oherwydd y gred bod hanes yn wyddoniaeth a llenyddiaeth yn ymwneud â rhethreg (Iggers, 2002, tt. 232–4). Fodd bynnag, yn y cyfnod modern cynnar, cangen o rethreg oedd hanes, ac roedd rhethreg yn rhan bwysig o lenyddiaeth (Grafton, 2007, tt. 23–4; Gossman, 1990; Collinson, 2010). Roedd yn gyffredin i awduron hanes ymagweddu at ysgrifennu hanes fel menter lenyddol ar y pryd, felly, byddai gwahaniaethu rhwng hanes a llenyddiaeth yn yr astudiaeth hon wedi bod yn anachronistaidd. Wrth ddeall hanes fel menter lenyddol gellir gwerthfawrogi'r berthynas rhwng hanes a llenyddiaeth a sut maent ill dau'n cael eu creu drwy naratif. Hefyd, gwelwn sut y mae hanes cenedlaethol yn ail-lunio ac yn ailddarganfod cof cenedlaethol, heb fanylu ar gywirdeb y naratif. Nid yw hynny gyfystyr â dweud y bu ysgrifennu hanes yn anfeiriadol yn ystod y cyfnod. Datblygwyd beirniadaeth hanesyddol a *fides historica* yn y cyfnod hwn hefyd, a gwelwn sawl enghraifft yn y testunau dan sylw o feirniadu ffynonellau (Rigney, 1999, t. 21).

Mae gan lenyddiaeth botensial mnemonig i storio gwybodaeth, yn ogystal â photensial i fod yn gyfrwng sy'n gallu cylchredeg y cof a chreu ymwybyddiaeth gyffredin. Mae dadleuon am allu llenyddiaeth i greu cymunedau a chenhedloedd yn gyffredin (gweler: Anderson, 1982; Stock, 1983; Hastings, 1997). Gan dynnu ar y safbwyntiau hyn, dadleuir i'r testunau gynnig naratif am orffennol y Cymry a oedd yn creu ymwybyddiaeth gyfunol ar gyfer y grŵp yn seiliedig ar orffennol sy'n eiddo i'r genedl. Cred Jan Assmann: 'Writing has two basic functions, which must be carefully distinguished: storage and communication' (2006, t. 85). Er efallai bod y dyfyniad hwn yn

ymddangos yn orsyml, o ddeall storio a chyfathrebu'n eang gellid cynnwys swyddogaethau esthetig neu'r swyddogaeth addysgiadol yn rhan o rôl gyfathrebol ysgrifennu. Honna Jan Assmann y dechreuwyd ysgrifennu er mwyn cofnodi a sicrhau nad âi pethau'n angof. Serch hyn, daeth yn gyfrwng diwylliannol amlwg i rannu gwybodaeth, ac wrth ysgrifennu, dadleua y rhyddhawyd y cof o angof (2006, t. 20). Yn yr astudiaeth hon, gwelwn fod naratif hanes y Cymry'n cael ei storio a'i rannu mewn testunau a argraffwyd; gan hynny, maent yn sicrhau bod y naratif yn hysbys am genedlaethau i ddod. Mae'r testunau hyn yn rhan hollbwysig o'r ymgyrch i ledaenu gwybodaeth y Cymry a'u hanes. Maent yn tynnu ar ei gilydd ac yn gonglfaen i ymdriniaethau eraill o hanes y Cymry mewn cerddi ac anterliwtiau, er enghraifft.²⁴

Mae gan ysgrifennu a llenyddiaeth botensial mnemonig i storio mwy o wybodaeth nag y gellir ei gofio. Yn ôl Aleida Assmann: 'writing allows much more to be recorded and preserved than any individual can possibly remember' (2011, t. 127). Cyflëir syniad tebyg gan un o'r diarhebion a gasglwyd gan William Salesbury yn *Oll Synnwyr Pen*: 'Kof a lithr, llythr a geidw' (c. 1547, d.t.). Ond mae'r farn hon llawer yn hŷn na'r cyfnod modern cynnar. Gresynodd Alexander Fawr oherwydd nad oedd Homer yn fyw yn ei ddydd i gofnodi ei helyntion fel y gallai fyw yn y cof am byth fel Achilles (A. Assmann, 2011, t. 33). O ganlyniad, dywed Aleida Assmann: 'Writing is not only a means of immortalization; it is also an aid to memory' (2011, t. 174). Er bod ysgrifennu'n cefnogi'r cof ac yn golygu nad oes angen pryderu am fethiannau cof yr unigolyn o reidrwydd, mae'n rhaid i'r hyn a ysgrifennwyd gael ei ddefnyddio er mwyn dod yn rhan o'r cof. Rhaid pwysleisio mai *gweithred* yw cofio, er mwyn i naratifau gael eu cofio rhaid iddynt fod yn gofiadwy:

²⁴ Gweler: Ffion Mair Jones. 2008. '[M]ae'r Stori yn Wir iw Gweled / Yn Nghronicle y Brutanied': *Dramateiddiadau Cymraeg o'r Ffug-Hanes Brytanidd* sy'n archwilio sut roedd anterliwtwyr yn tynnu ar hanes y Cymry.

'Writing prolongs life and ensures remembrance only if planted in the memories of future generations' (A. Assmann, 1996, t. 125; gweler hefyd J. Assmann, 2006, t. 87).

Yn ogystal, gall llenyddiaeth fod yn gyfrwng i fynegi'r cof yn ôl Erll a Rigney (2009) ac Aleida Assmann (2011), oherwydd bod llenyddiaeth yn gallu cynnig dealltwriaeth gyffredin o ddigwyddiadau, ynghyd â dehongliad penodol ohonynt i'r grŵp. Yn sgil hyn dywed Astrid Erll: 'As a medium of cultural memory literature is omnipresent' (2011a, t. 144). Ymhellach, dywed: 'Conceiving of "literature as a medium of cultural memory" requires a rigorous contextualization of literary works. It means envisioning literature as a part of memory culture, entangled in its social, medial and mental dimensions' (2011a, t. 171). Bwriad y traethawd hwn yw gosod y testunau yn eu cyd-destunau hanesyddiaethol a hanesyddol.

Rôl driphlyg sydd gan lenyddiaeth fel cyfrwng i gof cyfunol yn ôl Erll a Rigney: '1) literature as a medium of remembrance; 2) literature as an object of remembrance; and 3) literature as a medium for observing the production of cultural memory' (2006, t. 112). Canolbwyntir ar y rôl gyntaf a'r olaf yn y traethawd hwn. Dadansoddir sut yr ail-grëir cof cenedlaethol gan destunau hanes. Archwilir sut y mae testunau hanes cenedlaethol yn gyfrwng i gofio ac yn cynnig cipolwg ar ddealltwriaethau cyfunol o'r gorffennol yn cael eu creu. Ni thrafodir yr ail rôl oherwydd mae'n ymwneud â derbyniad y testunau; pwnc gwahanol yw holi a dderbyniwyd y naratifau fel cof. Ond mae'r adargraffu a fu ar y *Ffydd a'r Drych*, ac awdurdod *Historie of Cambria* a oedd yn gonglfaen ar gyfer ystyried yr Oesoedd Canol hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn awgrymu y derbyniwyd elfennau ohonynt, o leiaf.

1.6 Cof diwylliannol a hanes

Y berthynas rhwng hanes a'r cof oedd ymhlith un o brif drafodaethau astudiaethau'r cof a hanes tan yn gymharol ddiweddar. Cytunai nifer o ysgolheigion, yn arbennig haneswyr, â Nora a'i debyg gan ddadlau mai gwrthbwyntiau yw hanes a'r cof. Mynnant nad oes perthynas rhyngddynt a'u bod, mewn gwirionedd, yn elynion gyda'r naill yn ceisio trechu'r llall. Ond, ers tua diwedd y 1990au, mae nifer o ysgolheigion wedi honni bod cydberthynas rhyngddynt (gweler: Burke, 1989; Confino, 1997; *idem.*, 2008; *idem.*, 2011; Cubitt, 2007; Hutton, 1993; *idem.*, 2016; Tamm, 2013). Erbyn hyn, haerir eu bod yn cyfrannu at ei gilydd ac yn gysylltiedig. Ymhellach, mae Aleida Assmann wedi dadlau mai un o gyfryngau cof diwylliannol yw hanes:

The neat polarization of history and memory seems to me just as unsatisfactory as the equation of the two. I would therefore like to suggest that history and memory should be grasped as two complementary modes of cultural memory (2011, t. 123).

Yn ôl y dyfyniad hwn, mae hanes a'r cof yn ddwy ffordd ryng-gyfrannol o greu ymwybyddiaeth o'r gorffennol a chânt ill dau eu cyfryngu trwy ddiwylliant. O ganlyniad, cânt eu deall fel cyfryngau i gof diwylliannol yn yr astudiaeth hon. Nid yw deall hanes fel cof yn newydd yn y Gymraeg. Canmolodd Geraint H. Jenkins, Glanmor Williams am 'ddiogelu cof y genedl' ar hyd ei yrfa fel hanesydd (1990, t. x). Dywed hyn yn *Cof Cenedl*, sef cyfres o astudiaethau lled-boblogaidd ar hanes Cymru, sy'n deall hanes cenedlaethol y Cymry fel cof cenedlaethol y Cymry.

Deallir hanes fel naratif yma gan dynnu ar waith Hayden White (1973; 1978; 1984; 2000). Yn ôl White, dylid cydnabod hanfod naratifau hanes, sef ei bod yn 'verbal fictions, the contents of which are as much *invented as found* and the forms of which have more in common with their counterparts in literature than they have with those in sciences' (1978, t. 82). Gweithred greadigol yw ysgrifennu hanes, nid yw'n cynnig y gwirionedd yn ôl y ddadl hon. Mae hanes yn

cynnig un ddealltwriaeth ymhlith nifer o rai posibl am y gorffennol. Yn dilyn hyn, felly, *darlun o'r* hyn a fu yw hanes, yn hytrach na'r *hyn* a fu. Nid cywirdeb a ffeithiau, felly, yw prif nodwedd testunau hanes yn yr astudiaeth hon. Yn hytrach yr awydd i gofnodi a chyfyngu'r gorffennol mewn naratif, yn dilyn ymchwil, gan honni dangos y gwir. Un o sgil effeithiau dadl Hayden White yw closio astudiaethau ar hanes at lenyddiaeth, ac wrth hynny mae'n tanseilio ffiniau 'swyddogol' rhwng *genres*.

Mae'r farn hon wedi ennill ei phlwyf yn astudiaethau'r cof. Dywed Ann Rigney: 'Writing history is an attempt to present as well as we can something that it ultimately "unpresentable"' (2001, t. 3). Defnyddiwyd dadl White i ddwyn hanes a'r cof yn nes at ei gilydd a synied amdanynt fel dwy ffordd o fynegi dealltwriaeth o'r gorffennol. Yn yr astudiaeth hon, felly, gwahaniaethir rhwng 'hanes', yr hyn y dywedwn a ddigwyddodd, a'r 'gorffennol', sef yr hyn a ddigwyddodd. Mae cysylltiad symbiotig rhwng hanes a'r gorffennol, ac mae'n rhaid cydnabod ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng yr hyn a ddigwyddodd a'r hyn y dywedir a ddigwyddodd.

Mae defnyddio diffiniad White yn fanteisiol i astudiaeth ar destunau hanes yn y cyfnod modern cynnar. Fel y dywedwyd eisoes, menter lenyddol oedd hanes yn ôl safbwyntiau cyffredin yn y cyfnod. Roedd sawl *genre* yn perthyn i ysgrifennu hanes yn y cyfnod megis cerddi, dramâu, pregethau ac, yn achos yr astudiaeth hon, llythyrau a naratifau hanes i gyfyngu gwybodaeth am y gorffennol (Kewes, 2005, t. 5; Woolf, 2005, tt. 61–4).²⁵ Yn aml, wrth sôn am y cof yn y cyfnod modern cynnar dywedir bod y cof yn fenter amlgyfrwng (Pollmann a Kuijpers, 2013, t. 10). Gellid dadlau mai menter amlgyfrwng oedd ysgrifennu hanes, ac mae dealltwriaeth White yn hyrwyddo

²⁵ Am drafodaeth ar *genres* yn ystod y cyfnod modern cynnar gweler: M. Hattaway, gol. 2010. *A New Companion to English Renaissance Literature and Culture*. Am y modd y cafodd hanes ei ddarllen gweler: Daniel Woolf. 2001. *Reading History in Early Modern England*.

ystyried testunau amrywiol fel testunau ‘hanes’. Fel y gwelwn yn yr astudiaeth hon, mynegir hanes mewn llythyr ac amddiffyniad.

Amcan yr adran hon yw gosod seiliau ar gyfer yr ymdriniaeth wreiddiol sy’n dilyn ar destunau hanes Cymru y cyfnod modern cynnar. Oherwydd mai testunau hanes sydd o dan sylw yma, ceir amlinelliad o’r berthynas rhwng hanes a’r cof cyn dadlau wrth drafod y cyfnod modern cynnar; ni dylid gwahaniaethu rhyngddynt. Yr hyn a ganlyn yw’r ymdrech gyntaf i ymateb yn feirniadol i’r berthynas rhwng hanes a’r cof yn y Gymraeg.

[Datblygiadau’r berthynas rhwng hanes a’r cof](#)

Yn gyntaf, amlinellir ymwneud hanes â’r cof sydd wedi mynd trwy dri chyfnod cyffredinol yn ôl Aleida Assmann, sef cyfnodau o uniaethu, cyferbynnu ac ymwneud (2008b, t. 57).

[Uniaethu \(hyd at c. 1750\)](#)

Yn ystod y cyfnod modern cynnar, roedd hanes cenedl gyfystyr â’i chof ym marn Aleida Assmann ac roedd hanes yn ffordd o ddiogelu’r cof (2008b, tt. 57–8). Caiff y farn hon ei hadlewyrchu gan astudiaethau ar y cof a hanes sy’n manylu ar y cyfnod modern cynnar. Er enghraifft, dywed Tamm ac Arcangeli fod ysgrifennu hanes ar y pryd yn ymwneud ag arferion cofio (2021, t. 11). Nid eithriad yw barn yr hanesydd a’r gwladweinydd o Fflorens, Francesco Guicciardini: ‘The sole purpose of writing history is to preserve memories forever’ (dyfynnwyd yn Findlen, 2002, t. 112). Caiff hanes ei ddeall fel ffordd o ddiogelu’r cof; nid oeddynt yn elynion (Woolf, 2003, tt. 268–76). Ymhellach, gellid dadlau yn y cyfnod hwn mai cynnwys naratifau hanes oedd y cof.

Yn gyffredinol, roedd llyfrau hanes yn cael eu galw’n llyfrau’r cof, ac mae gwreiddiau Clasurool a Beiblaidd i hyn, wrth gwrs (Knowles, 1999, t. 155). Dyma a wna Theophilus Evans wrth gyfeirio at ‘*[G]of-lyfrau, neu Groniclau’r Oesoedd*’ (1740, t. 7) neu William Lewes yn ei gyflwyniad i’r *Drych* sy’n galw’r gyfrol yn ‘*[g]of-scrifen*’ (1716, d.t.). Dyfynnwyd geiriau tebyg gan William

Salesbury yn y traethawd eisoes. Roedd cysylltiad cryf rhwng y ddau; yn wir, ysgogwyd ysgrifennu hanes gan awydd i goffáu (Burke, 1989, t. 97; Aleida Assmann, 2008b, t. 58). Mae'r gred bod hanes yn diogelu'r cof ymhlyg yng ngwaith pob awdur a astudir yma. Gellid dadlau ar sail hyn, felly, mai cyfrwng i'r cof oedd ysgrifennu hanes yn y cyfnod modern cynnar yng Nghymru.

Cyferbynnu (c. 1750–1990)

Rhwng yr Oleuedigaeth ac oddeutu diwedd yr ugeinfed ganrif, prif nodwedd y berthynas rhwng hanes a'r cof oedd cyferbyniad. Caiff hanes a'r cof eu deall fel gwrthbwyntiau yn y cyfnod hwn. Dyma pryd y daeth hanes modern i fod a throdd yn grefft broffesiynol fel y dengys ymchwil Aleida Assmann (2008b) a Berger a Niven (2014b). Cânt eu deall fel dwy ffordd hollol wahanol o ddelio â'r gorffennol. Fel y gwelwyd, dyma oedd barn Halbwachs a Nora. Credid bod hanes yn ddibynadwy a'r cof yn annibynadwy; credid bod hanes yn trin y gorffennol fel pe bai wedi mynd, a'r cof yn ei drin fel pe bai yma o hyd. Credid mai gwyddoniaeth oedd hanes a oedd y tu hwnt i ragfarnau, ac oherwydd bod y cof yn ei hanfod yn oddrychol, roedd yn wahanol i hanes ac yn israddol iddo. Er y farn am wrthrychedd hanes yn y cyfnod hwn dadleua Berger a Niven fod rhagfarnau haneswyr yn amlwg wrth lunio'u naratifau a oedd yn gweithredu fel cof mewn gwirionedd (*ibid.*).

Er i haneswyr llafar ymwneud â'r cof ers y 1960au, yn ôl Patrick H. Hutton roedd diddordeb yn y cof yn ymylol (2016, t. 2). Ym mhrif ffrwd y drafodaeth gwahanwyd hanes a'r cof fel dau eithafbwynt (gweler: Jacques Le Goff, 1977: 1992; David Lowenthal, 1985). Mae rhai haneswyr hyd heddiw yn mynnu mai dau eithaf ydynt, fel Allan Megill sy'n dadlau 'far from being a continuation of memory, true history stands almost in opposition to memory' (2007, t. 18). Bwriad Megill yn *Historical Knowledge, Historical Error* yw rhybuddio haneswyr ifanc am y cof

oherwydd 'Memory is a domain of obscurity: it is not to be trusted' (2007, t. 58). Mynna mai bygythiad i hanes fel disgyblaeth oedd y cof. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif dechreuodd y farn hon golli bri. Dadleuodd haneswyr fel Burke, er enghraifft, fod hanes yn gof cymdeithasol (1989). Roedd dealltwriaeth newydd yn dod i'r amlwg.

Ymwneud (c. 1990au i'r presennol)

Dechreuodd sawl hanesydd gredu bod hanes a'r cof mewn perthynas â'i gilydd erbyn y 1990au, yn arbennig haneswyr diwylliannol. Fel y nodwyd eisoes, sefydlwyd cyfnodolion er mwyn archwilio'r berthynas rhwng y ddau yn y cyfnod hwn. Ond nid haneswyr yn unig a fu'n trafod y cof; daeth yn un o brif bynciau'r Dyniaethau. Dechreuwyd dadansoddi sut y mae'r cof a hanes yn ymwneud â'i gilydd, dadleuwyd eu bod yn cyfrannu at ei gilydd ac y gallai hanes ddod yn gyfrwng i'r cof. Dechreuwyd dadlau fel Aleida Assmann: 'History and memory, then, are no longer considered to be rivals and more and more are accepted as complementary modes of reconstructing and relating to the past' (2006, t. 263). Mae sawl rheswm am hyn, fel y dywed Kerwin Lee Klein mae'r cof wedi dod i'r amlwg mewn cyfnod o argyfwng i hanes a hanesyddiaeth (2000, t. 145).²⁶ Un rheswm dros y newid oedd awydd i hwyluso'r gallu i astudio'r gorffennol fel profiad a chynnig ffordd i astudio 'hanes' fel creadigaeth ar sail ideolegau, safbwyntiau goddrychol neu drawma (Cubitt, 2007, tt. 1–2).

Roedd apêl bellach i ddeall hanes a'r cof fel dwy ffordd ryng-gyfrannol o ymagweddu at y gorffennol heb fod yn begynau eithaf i'w gilydd. Dadleua Hutton mai un o gelfyddydau'r cof yw hanes a bod hanes yn ffordd o gynnal y cof (1993). Yn *History and Memory*, astudiodd Geoffrey Cubitt y berthynas ac mae'n annog haneswyr i ymwneud â'r cof (2007). Dengys Berger a Niven

²⁶ Am argyfwng hanes, gweler: Frances Fukuyama. 1993. *The End of History and the Last Man*.

fod cysylltiad rhwng ysgrifennu hanes cenedlaethol a chof cenedlaethol (2014b). Mae testunau Berger a Niven ynghyd â chyfrrol ddiweddarach Hutton *The Memory Phenomenon in Contemporary Historical Writing* (2016) yn ficrocosm er mwyn gweld datblygiad theoretig y cof ac ymwneud dyfnach haneswyr â'r cysyniad ers oddeutu 2010.

Er mwyn astudio dehongliadau a phwysigrwydd y gorffennol o oes i oes bathodd Jan Assmann y term 'mnemohistory' a gyfieithir yma i mnemohanes. Diffinnir y term fel a ganlyn:

Mnemohistory is reception theory applied to history but "reception" is not to be understood here merely in the narrow sense of transmitting and receiving. The past is not simply "received" by the present. The present is "haunted" by the past and the past is modelled, invented, reinvented, and reconstructed by the present (1998, t. 9).

Mewn astudiaethau mnemohanesyddol nid y gorffennol sydd o dan sylw, ond y gorffennol fel y caiff ei ail-greu o genhedlaeth i genhedlaeth. Y ddadl yw bod y gorffennol yn cael ei gofio mewn ffyrdd amrywiol gan gymdeithas oherwydd ei fod yn cael ei greu mewn cyd-destun penodol bob tro.²⁷ Myn Jan Assmann mai dyma'r ffordd i archwilio hanes cof diwylliannol (1998, t. 10). Mae'n annog haneswyr i ddefnyddio 'mnemohistorical logic' i holi pwy sy'n dweud y stori, sut y caiff ei hadrodd, a pham y caiff ei hadrodd mewn ffordd arbennig (2010, t. 117). Honna Tamm i mnemohanes gynnig ffordd i ddeall ystyr hanes mewn cymdeithasau dynol (2013, t. 463). Bellach, nid oes angen astudio'r 'gwirionedd' er mwyn deall y gorffennol. Yn hytrach, wrth synied am 'hanes' fel proses greadigol ceir golwg ar y gymdeithas sy'n llunio'r hanes hwnnw.

²⁷ I weld astudiaeth mnemohanesyddol ar waith gweler: Jan Assmann. 1998. *Moses the Egyptian: The Memory of Egypt in Western Monotheism*; a Marek Tamm, gol. 2015. *Afterlives of Events: Perspectives on Mnemohistory*. Ar lawer cyfrif mae E. Wyn James. 2007. *Glyndŵr a Gobaith y Genedl* yn astudiaeth mnemohanesyddol.

Astudiaeth mnemohanesyddol yw hon. Nid y gorffennol, fel y cyfryw, a ddadansoddir; yn hytrach, archwilir sut y caiff y gorffennol ei gofio a'i adrodd mewn naratifau hanes gan Gymry a'r hyn y dywed y dehongliadau am hunaniaeth genedlaethol. Caiff amcanion y naratifau eu harchwilio yng ngoleuni cyd-destun eu cyfansoddi. Haerir eu bod yn ail-lunio'r gorffennol yn eu dydd i fod yn gof cenedlaethol a'i fod yn cydymffurfio â syniadau cyfoes. Ni fydd yr astudiaeth yn trafod dibynadwyedd y cof; yn hytrach, bydd yr astudiaeth yn archwilio'n mnemohanesyddol a dehongli y gorffennol a grëir gan y Cymry dan sylw.

[Cysylltiadau rhwng hanes cenedlaethol a chof diwylliannol](#)

Mae'r astudiaeth hon yn synied am hanes cenedlaethol fel cyfrwng i gof diwylliannol a bod tebygrwydd rhyngddynt. Dywed Cubitt:

the point is not that history relies on memory, or that it incorporates memory, or that it is one of a diversity of cultural vehicles through which social memories are circulated and constructed, but that it does for society what memory (in the sense of individual memory) supposedly does for the individual (2007, tt. 39–40).

Un ffordd y mae hanes cenedlaethol yn debyg i gof diwylliannol yw oherwydd eu bod ill dau'n creu cysylltiadau trawsgenedliadol rhwng y genedl â'u hynafiaid. Fel y dadleua Cubitt, mae hanes a'r cof yn hyrwyddo 'a sense of transgenerational belonging in which people feel sympathetic connections to other beings from whom they are not just physically and chronologically, but often also cultural and intellectually, removed' (2007, t. 42). Wrth wneud hyn, mae hanes fel cof diwylliannol yn cyfrannu at hunaniaeth ffurfiannol a dangos pwy sy'n rhan o'r genedl. Caiff yr hynafiaid sy'n ymddangos yn y testunau dan sylw eu hawlio fel rhan o'r 'ni' diacronig. Mae hyn yn creu ymwybyddiaeth gyfunol sy'n cysylltu'r grŵp â chymeriadau o'u gorffennol cyfunol, fel y honna William McNeill (1985, t. 11). Mae'r ymwybyddiaeth gyfunol hon

yn hanfodol i hunaniaeth, ys dywed Cubitt: 'the past in question is *our* past, the past that gives meaning and value to our continuing existence as a collectivity, the past that belongs to us as a constitutive element in our common identity' (2007, tt. 199–200). Gellid defnyddio'r dyfyniad hwn fel diffiniad o'r cof lawn cymaint â hanes sy'n dangos y cysylltiad rhyngddynt.

Dadleua Cubitt i haneswyr ddarlunio'u hunain fel ceidwaid, cyfryngwyr, a chyflwynwyr y cof ynghyd a'i ddehonglwyr erioed: 'Seizing on such a conception of nationhood, historians in many countries readily presented themselves not just as the guardians and transmitters and presenters of this precious national memory, but as its essential interpreters' (2007, t. 40). Ond mae rhinweddau unigryw i hanes fel cyfrwng i gof diwylliannol. Mae'n gyfrwng awdurdodol a seilir yr awdurdod hwnnw ar statws gymdeithasol a diwylliannol haneswyr. Dyma statws sy'n deillio o'r bri a roddir ar ymchwil a darllen ffynonellau sydd mor aml yn cael ei ddeall fel ffordd i gynnig y gwir.

Mae gan haneswyr, o ganlyniad i'w statws, rym wrth ddylanwadu ar yr hyn a gaiff ei gofio a sut y caiff y gorffennol ei gofio, fel y dadleua Hutton:

Historians have the power to frame what the public recollects out of the past. If historians are the guardians of public memory, they are its arbiters as well. They not only sanction the past that is to be remembered but also shape the way it is presented (2016, t. 149).

Oherwydd y grym hwn, dylid deall hanes fel cyfrwng i gof canonaidd. Cyflwynodd Aleida Assmann y syniad hwn er mwyn gwahaniaethu rhwng dau fath o gof. Cof sy'n rhan weithredol o hunaniaeth y grŵp yw cof canonaidd; yr ail fath yw cof archifol, cof sy'n cael ei storio i ddilysu'r cof canonaidd (2008a). Er mwyn egluro hyn, dywed Aleida Assmann: 'The canon stands for the active working memory of a society that defines and supports the cultural identity of a group' (2008a, t. 106).

Honna Aleida Assmann mai un o gyfryngau cof diwylliannol canonaidd yw hanes (2008a, t. 101). Yn ôl Assmann, mae cof canonaidd yn rhan weithredol o hunaniaeth y grŵp, ac oherwydd awdurdod cymdeithasol testunau hanes, mae hanes yn gyfrwng cyffredin i gof canonaidd. Mae'r testunau dan sylw yma'n ymdrechu i gynnig cof diwylliannol canonaidd i'r Cymry, gan lunio naratif sydd yn rhan weithredol o hunaniaeth y grŵp. Dadleua'r astudiaeth hon nad yw cof canonaidd yn gorfodi diffiniadau ar y grŵp. Hyd yn oed o ystyried awdurdod a statws yr hanesydd, nid oes ganddo'r grym i sicrhau bod pawb yn cydymffurfio. Rhaid apelio wrth greu cof, fel y dadleuwyd uchod.

Mae hanes cenedlaethol a chof diwylliannol ill dau'n gallu cynnal a chyflwyno hunaniaeth ddiacronig i genedl. Cysylltiad arall rhwng hanes cenedlaethol a chof diwylliannol yw eu bod yn elfennau allweddol o hunaniaeth genedlaethol, ac yn diffinio'r grŵp a'i harferion drwy greu gorffennol. Gellid dadlau bod hanes cenedlaethol a chof diwylliannol yn cyflawni swyddogaethau hunaniaethol tebyg gan amlinellu hunaniaeth ffurfiannol i'r grŵp a dweud wrthynt pwy ydynt.

Honna Aleida Assmann y daeth arwyddocâd newydd i hanes yn y cyfnod modern cynnar. Bellach, roedd i naratifau hanes gynulleidfa newydd. Wrth ysgrifennu yn y gyffrediniaith a defnyddio'r argraffwasg, dadleua Assmann yr ysgrifennid ar gyfer cynulleidfa ehangach na'r teyrn yn unig: bellach ysgrifennwyd ar gyfer y genedl. O ganlyniad i hyn, wrth amlinellu gorffennol y genedl, roedd testunau hanes hefyd yn creu hunaniaeth genedlaethol i'r genedl honno (A. Assmann, 2011, tt. 68–70). Dyfynnwyd eisoes eiriau Ward Clavier am arwyddocâd y gorffennol i hunaniaeth Gymreig yn ystod y cyfnod hwn. Yn yr astudiaeth hon, gwelwn sut y crëwyd naratifau hanes i ddangos pwy yw'r Cymry a gwelwn eu bod yn Frutaniaid, eu bod yn rhan o brif ffrwd diwylliannol Ewrop, a'u bod yn Gristnogion.

Yn y cyfnod modern cynnar, hefyd, gwelir pwyslais cryf ar werth hanes i'r presennol. Mae'n deg haeru bod hanes yn cyflawni swyddogaeth debyg i gof diwylliannol gan amlinellu'r hyn y dylid ei wneud a chan amlinellu normau'r genedl. Roedd gwerth didactig amlwg i'r gorffennol; nid yw'n gyd-ddigwyddiad y gwelid pregethwyr a ffigurau amlwg ym maes crefydd yn ysgrifennu testunau hanes. Wrth drafod sut y cafodd hanes ei ddefnyddio yn y cyfnod, dywed Paulina Kewes: 'Early modern writers never tired of enumerating the lessons of history' (2005, t. 1). Dengys Daniel Woolf fod hanes yn y cyfnod modern cynnar yn ceisio hyfforddi pobl i efelychu cewri'r gorffennol a dysgu o'r hyn a fu (1990, t. 11). Un ysgogiad dros ysgrifennu hanes yn y cyfnod, felly, oedd er mwyn cynnig arweiniad moesol (Woolf, 1990, t. 143). Yn ôl Judith Pollmann, roedd astudio'r gorffennol yn gymharol, drwy chwilio am gyfatebiaethau â'r presennol, yn nodwedd amlwg o hanes. Dywed: 'Early modern Europeans thought that one of the main purposes of remembering the past was to teach them something about the present and believed that learning from the past was best done by looking for analogies' (2017, t. 71). Yng Nghymru, mae Ward Clavier wedi dadlau i hanes y genedl beri i'r bonedd aros yn ffyddlon i'r teyrn a'r Eglwys yn ystod ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg (2021, tt. 159–207). Gwelwn y gred hon yn nhestunau hanes yr astudiaeth hon. Defnyddir hanes gan yr awduron hyn er mwyn hyrwyddo arferion da ymhlith eu cynulleidfa dybiedig a gwneir hyn, er enghraifft, wrth amlinellu esiamplau i'w hefelychu a thrwy ddangos canlyniadau gwael pechod.

1.7 Casgliad

Mae'r bennod hon wedi amlinellu'r ddealltwriaeth o gof diwylliannol a'r fethodoleg mnemohanesyddol a geir yn y traethawd hwn a'u gosod o fewn cyd-destun deallusol astudiaethau'r cof. Yn y traethawd hwn, dilynir damcaniaeth yr Assmanniaid ynghylch cof

diwylliannol gan ddadansoddi cof cyfunol fel ffenomen ddiwylliannol a chymdeithasol sy'n cynnig hunaniaeth i'r grŵp ar sail gorffennol cyfunol. Dyma orffennol sy'n eiddo i'r bobl ac sy'n eu diffinio. Amlinellwyd bod cof diwylliannol yn cyfrannu at hunaniaeth grŵp mewn dwy ffordd, sef yn gyntaf trwy ddiffinio'r grŵp, dyma yw hunaniaeth ffurfiannol; yn ail trwy amlinellu arferion y grŵp a'r hyn y dylent ei wneud, dyma yw hunaniaeth normadol. Dangoswyd bod gan lenyddiaeth rôl amlwg wrth gyfryngu cof diwylliannol fel un o brif gyfryngau diwylliant. Er mwyn diffinio'r bobl, dadleuwyd bod apêl at y cofwyr ymhlyg mewn testunau cof diwylliannol. Yn yr astudiaeth hon, caiff hyn ei archwilio wrth graffu ar iaith a chyfeiriadau'r testunau dan sylw fel ymgais i gyrraedd cynulleidfa benodol.

Yn y bennod hefyd, dadleuwyd bod hanes yn fenter lenyddol ac yn gyfrwng i gof diwylliannol. Haerir bod y ddau'n cyfrannu at y presennol mewn modd tebyg, maent ill dau'n cynnig hunaniaeth genedlaethol sydd wedi'i seilio ar naratif am orffennol sy'n gyffredin i grwpiau penodol. Caiff y drafodaeth hon ei defnyddio fel sail i archwilio sut y mae testunau hanes o Gymru'r cyfnod modern cynnar yn ymddwyn fel cof diwylliannol. Gan hynny, astudir yr hyn y mae'r testunau'n ei ddweud am hunaniaethau'r Cymry ar pryd. Ni haerir bod yr awduron yn gorfodi diffiniadau ar y Cymry; yn hytrach cynigir dealltwriaeth mwy democrataidd o destunau. Dadleuwyd bod yr awduron hyn, trwy apelio at gynulleidfa dybiedig, dan ei dylanwad hefyd.

2. Cof diwylliannol yn nhestunau'r unfed ganrif ar bymtheg

2.1 Cyflwyniad

Bwriad y bennod hon yw archwilio cof diwylliannol y Cymry fel y'i mynegir yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Wrth wneud hyn, amlinellir y cyd-destun mnemonig ar gyfer y modd y lluniwyd y naratifau a archwilir yn y penodau nesaf. Bydd y bennod hon yn amlinellu rhai o brif nodweddion cof diwylliannol y Cymry. Rhoddir sylw i rai o destunau hanes mwyaf dylanwadol y cyfnod, a dangos wrth i'r awduron lunio naratif o'r gorffennol eu bod yn diffinio'r Cymry yn ogystal. Mae cof diwylliannol yn gysyniad priodol er mwyn dadansoddi'r testunau hyn oherwydd ynddynt ceir gorffennol sydd yn eiddo i'r Cymry, sy'n eu diffinio, ac sydd wedi ei gyfryngu gan destunau. Cloir y bennod drwy ddadlau i'r gynulleidfa dybiedig ddylanwadu ar y testunau hyn o'r unfed ganrif ar bymtheg, a bod hyn yn deillio o'r ffaith eu bod yn ceisio cyfrannu at hunaniaeth genedlaethol y gynulleidfa honno.

Mae'r astudiaeth hon yn cefnogi'r ddadl y bu diddordeb mawr yn y gorffennol Cymreig yng Nghymru'r cyfnod, a manylir ar hyn mewn perthynas â hunaniaeth Gymreig (Ward Clavier, 2021, tt. 23–79). Nid yng Nghymru yn unig y bu diddordeb mawr yn y gorffennol, honna Pollmann fod y gorffennol yn arwyddocaol ar draws Ewrop:

In early modern Europe the past served as a main frame of moral, political, legal, religious, and social reference. It determined who you were; social status was inherited, and for princes and bishops as much as for burghers and serfs, rights and obligations were based on tradition (2017, t. 1).

Roedd y gorffennol o bwys mawr i bobl yn y cyfnod yn gyffredinol, ac roedd yn eu diffinio fel unigolion ac fel aelodau o gymunedau. Cred Pollmann y gellid deall hyn fel cof oherwydd ei fod yn ymwneud cyfunol â'r gorffennol sy'n cysylltu'r gorffennol â'r presennol (2017, t. 1). Yn yr

astudiaeth hon gwelwn fod y gorffennol yn hollbwysig i'r Cymry dan sylw, a'i fod yn cael ei gysylltu â'r presennol bob tro.

Bydd y bennod hon yn dadansoddi testunau sy'n gosod sylfaen ar gyfer cof diwylliannol y Cymry drwy gydol y cyfnod modern cynnar.²⁸ Astudir testunau gan bedwar ffigwr dylanwadol, oll yn raddedigion o Rydychen sy'n cyfuno eu dysg ddyneiddiol a chenhadaeth dros ddehongliad traddodiadol o orffennol y Cymry â'i wreiddiau yn yr Oesoedd Canol.²⁹ Y cyntaf yw Syr Siôn Prys (1502?–1555), neu John Prise fel y'i gelwir yn Saesneg. Roedd yn berthynas i Thomas Cromwell trwy briodas ac mae'n bosibl y cafodd ddylanwad ar Ddeddfau Uno 1536 a 1543 a unodd Gymru a Lloegr yn un endid cyfreithiol.³⁰ Asesir ei *Historiae Britannicae Defensio* fel amddiffyniad i gof diwylliannol y Cymry ac fel testun sy'n ymffrostio ynddo (c. 1551–1553; 1573). Mewn llawysgrif yn unig y ceid *Defensio Prys* yn ystod ei oes, ond cafodd ei hargraffu ar ôl ei farwolaeth gan ei fab yn 1573.³¹ Roedd hwn yn destun dylanwadol tu hwnt yn ei gyfnod a thu hwnt.

²⁸ Ni thrafodir Cronicl Elis Gruffydd yn y traethawd hwn. Nid oes unrhyw arwydd fod Edwards neu Evans yn ymwybodol ohono, heb sôn am fod yn ddyledus iddo. Dywed R. Geraint Gruffydd na ddaethpwyd i wybod am Elis Gruffydd tan yr ugeinfed ganrif (1997, t. 350). Am Gronicl Elis Gruffydd gweler: Jerry Hunter. 2000. *Soffestri'r Saeson*. Testun arall na sonnir amdano yw llawysgrif ychydig yn fwy dylanwadol Siôn Dafydd Rhys (Pen. MS. 118) ar hanes Prydain ymhle y ceir sôn am goncwest Brutus. Ond mae'r dystiolaeth am gylchrediad y llawysgrif honno hefyd yn brin ac ni ymddengys fel pe bai'n ddylanwad ar Edwards neu Evans, er eu bod yn gyfarwydd â gweithiau eraill gan Rhys fel ei ramadeg. Nid oes astudiaeth neilltuol wedi'i chyhoeddi ar Rhys a phrinnach yw'r sôn am ei lawysgrif, ond gweler ysgrifau Thomas Parry. 1930. 'Siôn Dafydd Rhys', *Y Llenor* 9(3), 157–65; *idem*. 1930. 'Siôn Dafydd Rhys', *Y Llenor* 9(4), 234–41; *idem*. 1931. 'Siôn Dafydd Rhys', *Y Llenor* 10(1), 35–46, ac ysgrif R. Geraint Gruffydd (1992) 'Dr. John Davies, 'Old man of Brecknock', *Archaeologia Cambrensis* 141, 1–13.

²⁹ Er mwyn deall cyd-destun y cyfnod gweler: Glanmor Williams. 1987. *Renewal and Reformation: Wales c. 1415–1642* a John Gwynfor Jones. 1994. *Early Modern Wales c. 1525–1640*.

³⁰ Am y Deddfau Uno gweler: Geraint H. Jenkins. 1981. *Hanes Cymru yn y Cyfnod Modern Cynnar 1530–1760*, pennod 5; Glanmor Williams, *Renewal and Reformation*, pennod 11. Gweler hefyd, am safbwynt mwy diweddar: Katharine K. Olson. 2019. 'The Acts of Union: Culture and Religion in Wales, c. 1540–1700', yn Geraint Evans a Helen Fulton, goln., *The Cambridge History of Welsh Literature*, tt. 157–75.

³¹ Daw'r cyfeiriadau at y *Defensio* o argraffiad Ceri Davies (2015). Defnyddir y cyfieithiad Saesneg wrth ddyfynnu, yn argraffiad Davies gosodir y Lladin a'r Saesneg gyfochr â'i gilydd, y Lladin ar dudalennau eilrif, a'r Saesneg ar dudalennau odrif.

Un o ddyneiddwyr mwyaf dysgedig Cymru oedd Humphrey Llwyd (c. 1527–1568) yn ôl William Salesbury, a honna Ceri Davies y cariodd Llwyd fflam Prys yn ei blaen (2019, t. 80). Yn y bennod hon, dadansoddir dau destun gan Llwyd, sef *Cronica Walliae*³² a gwblhawyd yn 1559 testun llawysgrifol a gafodd gylchrediad eang yn ôl R. Geraint Gruffydd (1970, t. 73), a *Commentarioli Britannicae descriptionis fragmentum* a gyhoeddwyd yn Cologne ar ôl ei farwolaeth gan y cartograffydd enwog, Abraham Ortelius yn 1572. Cyfieithwyd y testun i'r Saesneg gan y Sais o gyffelyb fryd, Thomas Twyne, o dan y teitl *Breviary of Britain* yn 1573, flwyddyn yn unig ar ôl cyhoeddi'r gwreiddiol.³³ Roedd Llwyd hefyd yn Aelod Seneddol, ac mae'n debygol mai ef a lywiodd Ddeddf Cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg drwy'r Senedd yn 1563 (Gruffydd, 1970, t. 65; Schwyzer, gol., 2011, t. 2).

Un o'r gwŷr a ymgwymerodd â'r cyfieithu oedd yr Esgob Richard Davies (1501?–1581), a oedd yn ddylanwadol yng nghylch dysgedig a hynafiaethol yr Archesgob Matthew Parker. Ei 'Epistol at y Cembra', sy'n rhagflaenu Testament Newydd 1567, yw'r testun a ddadansoddir yma. Dyma unig destun Cymraeg y bennod hon ac fe'i dehonglir fel testun sy'n llunio cof diwylliannol y Cymry *ar gyfer* y Cymry sy'n gwreiddio'r Diwygiad Protestannaidd yn hen hanes y genedl.

David Powel (1552?–1598), ficer Rhiwabon ac awdur *The Historie of Cambria* a gyhoeddwyd yn 1584, yw'r awdur olaf a fydd yn cael sylw yn y bennod hon. Cywiriad ac addasiad o *Cronica Walliae* Llwyd a luniwyd gan Powel ar gais Syr Henry Sidney, Arglwydd Lywydd Cymru,

³² Defnyddir argraffiad Ieuan M. Williams a J. Beverley Smith (2016).

³³ Daw'r dyfyniadau o argraffiad Philip Schwyzer o'r testun hwn a gyhoeddwyd yn 2011. Am y berthynas rhwng yr argraffiad Lladin â'r cyfieithiad Saesneg, gweler: Schwyzer, gol. 2011. *The Breviary of Britain with Selections from The History of Cambria*, tt. 11–15, 31.

yw *Historie of Cambria*.³⁴ Amcan Powel, fel Llwyd, oedd llunio cof a fyddai'n uno'r deyrnas, ond cawn gan Powel ddimensiwn ychwanegol, sef bod y dywysogaeth yn hanfodol wrth ddiffinio Cymru yn y gorffennol, fel ag yr oedd hi yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Dyma fydd yr ymgais gyntaf i osod y testunau hyn ochr yn ochr ac i'w dadansoddi yn ôl damcaniaethau o astudiaethau'r cof. Mae'r testunau hyn oll yn adlewyrchu barn Ward Clavier fod testunau hanes Cymru'r cyfnod yn trysori'r gorffennol pell, ac yn ceisio dangos bod cysondeb rhwng y presennol a'r gorffennol hwnnw wrth lunio testunau hanes (2021, t. 27).

Cof diwylliannol y Cymry ar gyfer cenhedloedd eraill a geir gan bob un o'r awduron hyn ac eithrio Davies. Mae Prys yn amddiffyn cof diwylliannol y Cymry yn y Lladin fel y gallai holl wledydd Cristnogol gorllewin Ewrop gredu ynddo. Er y byddai Cymry dysgedig wedi medru darllen y testun, amddiffyn ac ymffrostio yng nghof diwylliannol y Cymry ar lwyfan gyfandirol y mae. Gwna Llwyd hynny yn y *Fragmentum*, a theimlodd Twyne y dylai cynulleidfa Saesneg ei hiaith allu darllen y testun, felly fe'i cyfieithodd ar eu cyfer. Mynegir cof diwylliannol y Cymry ar gyfer y Saeson gan Llwyd yn *Cronica Walliae* a chan Powel yn *Historie of Cambria*, a'u bwriad yw cyflawni dau nod. Yn gyntaf, cywiro'r dehongliad difriol o'r Cymry a oedd ar led yng nghronicleu'r Saeson yn eu tyb hwy, ac yn ail, mynegi gorffennol y Cymry i'r Saeson er mwyn hyrwyddo cof a oedd yn gymwys i'r wladwriaeth Elisabethaidd. Dangosant fod sail hanesyddol i'r bartneriaeth gyfoes rhwng y Cymry a'r Saeson. Ceir cof, felly, sy'n ceisio adlewyrchu'r sefyllfa gyfoes ac yn dymuno dylanwadu arni gan ddyrchafu'r Cymry yn y drefn honno.

³⁴ Ailgyhoeddwyd *Historie of Cambria* gan William Wynne yn 1697 a newid y teitl i *The History of Wales*. Gweler: R. T. Jenkins. 1931–1933. 'William Wynne and the *History of Wales*', *Bulletin of Celtic Studies*, 6, 153–9.

Tuedd y trafodaethau ar destunau hanes Cymry'r cyfnod hwn yw canolbwyntio ar y modd y maent yn amddiffyn naratif canoloesol Sieffre o Fynwy (gweler: Kendrick, T. D., 1950; Jarman, A. O. H., 1952; Williams, I. M., 1952–3; Williams, G. J., 1969, tt. 38–9; Schwyzer, P. 2011, tt. 76–96). Er bod hynny'n nodwedd amlwg ar y testunau, nid dyna'n unig a geir ynddynt; pwysleisia Ward Clavier fod naratifau hanes Prydain yn mynegi balchder a hunanhyder y Cymry yn nibynadwyedd eu gorffennol. Felly, er eu bod yn amddiffyn Sieffre, nid oedd yr hanes yn amddiffynol, a phwysleisia Ward Clavier fod ymffrost yng nghof y Cymry yn nodweddu'r testunau hyn hefyd (2021, tt. 44–56). Ychwanegir at ddadl Ward Clavier yn y bennod hon, gan haeru y dylid deall y testunau fel ymgais i lunio cof diwylliannol y Cymry drwy addasu naratif o'r Oesoedd Canol ar gyfer yr unfed ganrif ar bymtheg.

2.2 Y Brutaniaid

Un o brif amcanion cof diwylliannol Cymreig fel y'i ceir gan y dyneiddwyr oedd amddiffyn y naratif Sieffreaidd. Roedd amddiffyn Sieffre o bwys mawr i awduron yr astudiaeth hon, canys roedd ei naratif yn rhan ffurfiannol o hunaniaeth y Cymry. Roedd y Cymry'n diffinio'u hunain fel Brutaniaid ar ddelwedd naratif Sieffre. Ond nid oeddynt yn ei amddiffyn yn unig, roeddynt hefyd yn ymhyfrydu yn y naratif a'r hyn a ddywedai am eu cenedl.

Yn ôl Sieffre yn *Historia Regum Britanniae*, daeth Brutus, disgynnydd i Aeneas o Gaerdroea i Brydain, ac enwyd yr ynys ar ei ôl.³⁵ Mae'n rhoi hanes am drigolion cyntaf yr ynys cyn dyfodiad y Rhufeiniaid, ac yn dangos bod y Brutaniaid cyn hyned os nad yn hŷn na'r Rhufeiniaid. Dyrchafa'r naratif y Brutaniaid fel cenedl anrhydeddus a hynafol ac fel cenedl

³⁵ Mae llenyddiaeth faith yn dadansoddi arwyddocâd gwaith Sieffre a'r *Brutiau* ar ôl yr Oesoedd Canol, gweler troednodyn 5.

Ewrofediteranaidd.³⁶ Ysgrifenna Sieffre am y rhyfeloedd a fu rhwng y Brutaniaid a'r Ymerodraeth Rufeinig ac yna reolaeth yr ymerodraeth ym Mhrydain. Dywed Sieffre ar ôl i'r Ymerodraeth Rufeinig adael Prydain, daw gelynion o Germania i'r ynys, y Sacsoniaid. Bu rhyfeloedd niferus rhwng y Brutaniaid a'r Sacsoniaid a thrwy frad a thwyll bu'r Sacsoniaid yn fuddugol ac mae'r Brutaniaid yn colli eu rheolaeth o'r ynys. Ond gan y Brutaniaid y mae'r arwyr anrhydeddus, ac yn eu plith y mae'r brenin Arthur, cymeriad a roes anfarwoldeb i'r *Historia* (Thorpe gol., 1966). Rhoddodd y testun hwn urddas anghymharol i'r Cymry fel disgynyddion iddynt; roedd yn naratif a drysorwyd ganddynt, er i Sieffre honni bod y Cymry yn annheilwng i fod yn ddisgynyddion i'r Brutaniaid ar ddiwedd yr *Historia* mewn rhai llawysgrifau (Reeve a Wright, gol., 2007, t. 280). Roedd ymhlith testunau mwyaf dylanwadol yr Oesoedd Canol, roedd yn gynsail i ymwybyddiaeth hanesyddol y Cymry, ac fe'i addaswyd i'r Gymraeg mewn sawl *Brut*. Nid yw'n ormodiaith honni i gof diwylliannol y Cymry gael ei adeiladu ar sail *Historia* Sieffre, fel y dadleua Brynley F. Roberts dyma 'sylfaen pob cronicl a llyfr hanes am ryw bedair canrif' (1971, t. 122).

Codwyd amheuron am naratif Sieffre pan y'i lluniwyd gan William o Newbury a Gerallt Gymro, er enghraifft. Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, bwriodd yr hanesydd Eidaleg, Polydore Vergil amheuaeth arno yn *Anglica Historia* a orffennwyd yn 1513, ond a gyhoeddwyd yn 1534. Yn fras, dadl Vergil oedd na allai'r Brutaniaid fod â hanes mor enwog ac anrhydeddus â hynny os nad oedd haneswyr Rhufain yn sôn amdanynt. Dechreuwyd dadl a fyddai'n diffinio

³⁶ Gweler am Gaerdroea fel conglaen i gof Ewropeaidd: Astrid Erll. 2018. 'Homer, A Relational Mnemohistory', *Memory Studies*, 11(3), 274–286; a Christian Baier. 2017. 'Homer's Cultural Children: The Myth of Troy and European Identity', *History and Memory*, 29(2), 35–62. Un o ddadleuon Baier yw i'r *Iliad* greu ffin rhwng Ewrop ac Asia (yn arbennig 37–41). Gellid dadlau i Gristnogaeth, ac yn enwedig ei dderbyniad gan awduron yr astudiaeth hon, ddadwneud y ffin a oedd rhwng Ewrop. Oherwydd hyn, defnyddir y term Ewrofediteranaidd oherwydd ei fod yn cydnabod arwyddocâd Ewrop, gan beidio â bod yn Ewroganolog ac ystyried lle gogledd Affrica a gorllewin Asia yn ogystal.

hanesyddiaeth Gymreig am ddwy ganrif a mwy (Roberts, B. F., 1971; Jarman, A. O. H., 1952). Beirniadwyd Vergil gan Saeson fel John Leland a John Bale yn fuan ar ôl cyhoeddi'r testun. Ond ymhlith y Cymry y cafwyd yr ymateb ffyrnicaf. Digiwyd Prys a Llwyd gan safbwyntiau dirmygus Vergil at y Brutaniaid a'u gorffennol, dyma oedd gorffennol eu cenedl. Rhaid oedd gwrthwynebu ac ymateb i Vergil er mwyn achub enw da'r Cymry. Ceisio dileu hanes Prydain oedd ymgais Vergil yn ôl Prys, a honna iddo ymdrechu yn *Anglica Historia* 'to bury in perpetual darkness and oblivion the course of more than a thousand years of governance here' (2015, t. 27).

Oherwydd nad oedd haneswyr Rhufeinig wedi ysgrifennu am gewri honedig hanes Prydain, credai Vergil nad oedd yr hanesion amdanynt yn wir. Gwrthwyneba Prys hyn a dadlau: 'Surely everyone knows that Roman writers primarily exerted themselves in the task of making as renowned as possible the deeds of their own people' (2015, t. 37). Roedd diffyg sôn am Brydain yn rhan o ddiffygion cyffredinol y Rhufeiniaid wrth iddynt ysgrifennu hanes yn ôl Prys. Haera eu bod yn hoff o ganmol eu hunain, ond yn amharod i ganmol cenedloedd eraill; mae'r un beiau yn nhestun Vergil yn ôl Prys. O ganlyniad, dywed Prys na ddylid troi at ffynonellau Rhufeinig er mwyn dysgu am hanes Prydain, yn hytrach, dadleua y dylid troi at destunau hanes o Brydain, yn arbennig rhai Cymraeg (2015, t. 79). Yn ychwanegol, myn Prys mai cyfieithydd oedd Sieffre, nid dyfeisiwr fel y honna Vergil; roedd Sieffre yn tynnu ar ffynonellau hynafol nad oedd yn hysbys i Vergil fel rhywun estron heb afael ar y Gymraeg (2015, t. 63). O dynnu ar destunau hynafol, myn Prys y gwelid i Brutus ac Arthur fodoli, a bod y Brutaniaid yn bobl wirioneddol anrhydeddus fel y dywed Sieffre (2015, t. 119). Wrth wneud hyn, roedd hunaniaeth y Cymry fel Brutaniaid ar ddelw Sieffre yn gwbl gywir ym marn Prys. Dywed Llwyd nad oes unrhyw amheuaeth ganddo yn nibynadwyedd naratif Sieffre, a phwysleisia fod cyfatebiaeth rhwng ei destun ef a naratifau

Clasurol yn y *Breviary* (2011, tt. 56–8). Yn ôl Llwyd, Vergil a phobl o gyffelyb fryd oedd yn dweud celwyddau nid Sieffre (2011, t. 56).

Er nad yw Powel yn ymateb yn uniongyrchol i'r ddadl hon yn *Historie of Cambria* dechreuau'r naratif gyda'r Brenin Cadwaladr 'the last king of the Brytaines, descending from the noble race of the Troianes' (1584, t. 1). Mae Powel yn cefnogi ac yn ymhyfrydu yn nharddiad Brutanaidd y Cymry. Gwelwn ei gefnogaeth i naratif Sieffre wrth gyhoeddi fersiwn byrrach Ponticus Virunnus a'r *Historia* a dangos y gellid bod yn ysgolhaig cyfandirol a'i gredu (1585). O ganlyniad, gwelwn bwysigrwydd yr *Historia* i hunaniaeth y Cymry a gellid ei ddeall fel cynsail i gof diwylliannol y Cymry, yn ôl y dyneiddwyr.

Un o sgil effeithiau dadl Vergil oedd pardduo'r Brutaniaid fel pobl gelwyddog sy'n israddol o gymharu â gwychder Rhufain. Wrth amddiffyn cof diwylliannol y Cymry, amddiffynnant enw da'r Brutaniaid a gwelwn pa mor ganolog oeddynt i hunaniaeth y Cymry. Yng ngoleuni hyn, efelychir Ceri Davies sy'n dehongli'r *Defensio* fel testun sy'n amddiffyn hygrededd Sieffre a hunaniaeth ac urddas y Cymry (2017, t. 20). Ond eir ymhellach na hynny hefyd, caiff ei ddehongli fel ymffrost yn y naratif Sieffreaidd. Dylid pwysleisio nad gweithred amddiffynnol yn unig oedd hyn; sbardunwyd y testunau oll, hefyd, gan falchder a gwladgarwch yng ngorffennol a hynafiaeth y Cymry. Wrth ystyried hyn yng ngoleuni cof diwylliannol, mae'r adran hon yn dadlau yr amddiffynnwyd y Brutaniaid a'r hanesyddiaeth Frutanaidd fel platfform i amlinellu rhai o elfennau ffurfiannol eraill o hunaniaeth Gymreig. Roedd hyn yn cynnwys y gred eu bod yn genedl ddysgedig ac yn genedl Glasurol, a thrwy hynny cânt eu dyrchafu.

Dywed Davies y cred Prys mai'r Cymry oedd Brutaniaid ei ddydd ac roedd iddynt dreftadaeth ddiwylliannol, ieithyddol, a llenyddol a estynnai dros fileniwm (2015, t. xxxiv). Er y

gelwir y Cymry yn Frutaniaid trwy'r testun, dywed Prys mai math arbennig o Frutaniaid yw'r Cymry cyfoes, sef 'Cambrian Britons, those now called the Welsh, were the first inhabitants of this land and flourished here many centuries before the name of the Roman was even heard of' (2015, t. 113). Yn y dyfyniad, gwelir bod statws arbennig gan y Cymry fel disgynyddion i drigolion cyntaf yr ynys. Gellid dadlau bod Prys yn hyrwyddo dealltwriaeth o Brydain fel ynys amlgenedlaethol yn ogystal â hyrwyddo'r gred mai'r Cymry yw disgynyddion y Brutaniaid. Mae'r cysylltiad rhwng y Cymry a'r Brutaniaid yn nodwedd amlwg o waith Powel hefyd. Dywed mai marwolaeth Llywelyn ap Gruffudd yn 1282, yw diwedd teyrnasiad y tywysogion Prydeinig, 'Brytish' yw ei derm; iddo ef, felly, roedd tywysogion Cymreig yn dywysogion Brutanaidd (1584, t. 375).

Y prif reswm pam y caiff y Cymry eu diffinio fel Brutaniaid yw oherwydd eu bod yn siarad iaith Frutanaidd, sef y Gymraeg. Yn aml, defnyddir iaith Prydain, neu'r iaith Brydeinig, i olygu'r Gymraeg; gwelwn hyn pan ddywed Llwyd 'the Welshmen use the British tongue, and are very true Britons by birth' yn y *Breviary* (2011, t. 98). Roedd siarad iaith yn aml yn y cyfnod yn nodweddu cenedligrwydd (Bowen, 2017, t. 757; Roberts, P. R. 1998, t. 13). Yn wir, yn yr Oesoedd Canol defnyddiwyd y gair *iaith* i olygu cenedl; yn ôl P. R. Roberts iaith oedd 'the most potent palladium of nationhood' (1998, t. 13). Roedd nodi bod i'r Cymry eu hiaith eu hunain yn rhan o ffurfio hunaniaeth iddynt, a'u gwahaniaethu oddi wrth y Saeson ys dywed Geraint H. Jenkins, Richard Suggett, ac Eryn White (1997, t. 45). Mae'r awduron oll yn deall y Gymraeg fel yr iaith Frutanaidd.³⁷ Defnyddir y ddau yn gyfnewidiol gan Richard Davies (1951, t. 17) a chan David

³⁷ Am agweddau tuag at y Gymraeg yng Nghymru yn y cyfnod gweler: Geraint H. Jenkins, Richard Suggett ac Eryn White, goln. 1997. *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn yn Chwyldro Diwydiannol*; R. Brinley Jones. 1970. *The Old British Tongue: The Vernacular in Wales 1540–1640*.

Powel (1584, tt. 2–3). Nid oedd yr iaith hon yn gyfyngedig i Brydain, dywed Powel fod pobl Llydaw a Chymru ill dau'n siarad 'the Brytish toong', a chyfeirir at ieithoedd Brythoneg fel uned a phwysleisio mai un bobl ydynt (1584, t. 4). Gellid dehongli hyn fel ymgais i amddiffyn hawl y goron ar diroedd yng ngogledd Ffrainc yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Dywed Humphrey Llwyd fod y Cymry yn siarad yr un iaith â'r Brutaniaid, yn *Cronica Walliae* dywed:

this [Welsh] is the same language or tonge which the Britons spake, for the woorke of Merdhyn or Merlyn and of Taliessyn, which wrote above a 1050 vel 1500 yeres agoe, are allmoste the same woordes which they use at this daye, or at the leaste easy to be understood of every one that speke perfectlye the Welshe tonge specially in Northwales (2016, t. 66).

Awgryma'r dyfyniad hwn fod yna hierarchaeth ieithyddol yng Nghymru â thrigolion y gogledd yn siarad iaith sy'n nes at yr hen iaith wreiddiol, a'u bod yn rhagori ar iaith y de yn ôl Llwyd. Dengys hefyd fod Llwyd yn ymwybodol o newidiadau ieithyddol drwy nodi bod geirfa canu cynnar yn ddealladwy i siaradwyr cyfoes, er iddynt newid ychydig dros fil o flynyddoedd. Yn dilyn hyn, mae'n cystuddio'r sawl sy'n anghytuno â'r cysylltiad rhwng y Gymraeg a'r hen iaith Brydeinig, dywed: 'let them for shame hold ther peace that denye the Welshe to be the olde British tonge' (*ibid.*).

Ond nid oedd y Gymraeg yn hynafol yn unig; honna Brinley Jones y cafodd ei deall fel iaith anrhydeddus a oedd yn profi bod y Cymry yn genedl anrhydeddus (1970, t. 61). Yn ôl Prys, mae purdeb y Gymraeg yn dangos anrhydedd y Cymry fel cenedl a'u bod yn genedl sy'n trysori'u hiaith a'u traddodiadau. Dywed y cadwyd yr iaith yn bur gan y beirdd:

the language has kept its ancient character down to the present time, without notable change happening to it... This is the main reason why they cherish and venerate their poets... namely that they preserved and safeguarded the rules and the purity of both the language and the ancient traditions of Britain (2015, t. 47).

Gwelwn gyfraniad arall gan y beirdd, sef iddynt ddiogelu nifer o draddodiadau'r Cymry ac fe'u defnyddiwyd gan Prys ac eraill, fel y gwelir yn yr astudiaeth hon, fel ffynhonnell am orffennol y Cymry. I Prys roedd y Gymraeg yn dangos mai cenedl ddysgedig ac anrhydeddus yw'r Cymry sydd wedi cadw cofnodion o'u gorffennol a'u traddodiadau ac wedi cadw'r iaith yn ei ffurf gysefin.

Roedd gwerth mawr i'r Gymraeg i ysgolheictod hefyd, canys trwyddi yn bennaf y gellid darganfod hanes yr ynys. Wrth i Prys amddiffyn *Historia Sieffre*, roedd yn tynnu'n aml ar dystiolaeth gan feirdd Cymru; dywed Schwyzer y credai 'the most effective custodian of memory is bardic lore and poetry' (2004, t. 87). Gellid dadlau i'r ffigurau dan sylw yn y bennod hon ymagweddu at waith y beirdd fel storfa am wybodaeth am orffennol y Cymry ac fel cyfrwng i'w rannu ag eraill. Myn Prys fod dystiolaeth y beirdd yn brawf o wirionedd yr hanesyddiaeth Frutanaidd ac yn cwestiynu dilysrwydd barn Vergil ynghylch diffyg ffynonellau cynradd; dywed: 'the Britons did not lack literary memorials in which their antiquities were preserved and they do not lack them now' (2015, t. 55). Nid eithriad mo Prys yn ei edmygedd o'r beirdd fel ceidwaid cof Prydain; mae'r gred wedi'i weu trwy 'Epistol' Davies a thestunau Powel a Llwyd. Roedd yn nodweddiadol o'r Cymry yn ôl Glanmor Williams a ddywed: 'pride in language was inextricably linked with delight in literature' (1987, t. 455).

Er brwdfrydedd yr amddiffyniad i Sieffre, mae'r awduron yn cydnabod fod prinder ffynonellau ar gael i gefnogi'r naratif – eto, nid yw hynny gyfystyr â dweud nad oes dystiolaeth o gwbl. Er mwyn egluro'r prinder hwn, hyrwyddir hanesion am losgi llyfrau'r genedl, megis yn y Tŵr Gwyn (gweler: Gruffydd, R. G., 1990, t. 20; Schwyzer, 2004, tt. 81–5). Ar sail hyn, dywed Schwyzer y cred y dyneiddwyr Cymreig i'w hanes ymddangos fel 'succession of bibliocausts' (2004, t. 81). Yn y *Breviary*, cyfeirir at losgi llyfrau'r Cymry gan Awstin o Gaergaint, cennad y Pab i'r Saeson, ac

iddo ddinistrio 'their most noble library, more precious than gold' (2011, t. 118). Yn yr 'Epistol' dywed Davies 'na bu nasiwn irioed mor anafus am lyfray a gwybodaeth yn ey iaith i hun a'r Cymry' (1951, t. 24). Rhestra Davies dair 'bibliocost' yn hanes y Cymry, sef llosgi llyfrau yn y chweched ganrif gan Awstin Sant, cennad y Pab i'r Saeson a drafodir yn fanylach yn y man; Ysgolan yn y Tŵr Gwyn yn ddiweddarach yn llosgi llyfrau'r Cymry; yn dilyn gwrthryfel Owain Glyndŵr dywed y llosgwyd llyfrau dysg y Cymry unwaith eto (*ibid.*). Defnyddiwyd yr hanesion am losgi llyfrau dysg y Cymry er mwyn egluro absenoldeb tystiolaeth am hanes y Cymry gan ysgolheigion Cymru'r unfed ganrif ar bymtheg.

Mae'r Brutaniaid yn bobl anrhydeddus i Davies, fel y maent i Prys, ac er nad yw'n ymhelaethu arnynt, cyflwynna restr faith o'u gwychder:

Ni wna vi son am vrddas, parch, ac anrhydedd bydol yr hen Brytaniait: tewi a wnaaf am y gwrolaeth, dewrder, buddugoliaythay, ac anturiaythae y Cymru gynt, mi a ollynga heibio y amryw gylfyddyday hwynt, synwyr, dysc, doythineb, ar athrylith ragorawl (cyd bai canmoladwy hyn oll, a digon o profedigaeth rhagorfraint, ac vchelder ymysc pa nasiwn bynac i ceffit hwynt) ac ny bydday anhawdd i mi roi trosaf audurdot hen lyfray cofion, ac ystoriay dilys, i gadarnhau a gwirhau, fod y cyneddfay ar rhinwedday hynny oll yn amlach, ac yn helaethach ar y Brytaniait yn yr hen amser nac ar nasiwn ac ydoedd yw cymdogaeth oy amgylch (1951, tt. 17–18).

Wrth amddiffyn eu cof diwylliannol pwysleisia fod y Cymry'n ddysgedig, a'r cofnodion ysgrifenedig hyn sydd yn darparu'r dystiolaeth am hynny. Dadleua'r dyneiddwyr fod i'r Cymry ddysg gynhenid ac mai yn y traddodiad barddol y cadwyd y ddysg honno. Roedd y Gymraeg a'i llenyddiaeth yn destun balchder arbennig iddynt, felly, a gwelwn falchder mewn llenyddiaeth Gymraeg yn y penodau nesaf hefyd. Prawf pellach o ddysg hynafol y Cymry yw eu bod yn bobl lythrennog. Myn Prys i'r Cymry ddechrau defnyddio llythrennau tua'r un adeg â Rhufain, os nad

yn gynt (2015, t. 37). O ganlyniad, haera Prys fod ysgrifennu a dysg erioed wedi bod yn rhan o ddiwylliant y Brutaniaid:

There never was a time when such men of letters were not to be found among the Britons, and so, there is hardly any kind of learning of which they do not have its principles and some of its general rules set forth in their language (2015, t. 51).

Cymaint oedd anrhydedd y Brutaniaid, meddai Prys, ei bod yn norm Rhufeinig i gydnabod hynny: 'Roman emperors strove for the surname "Britannicus" as among the greatest honours which they could attain' (2015, t. 159). Yn yr unfed ganrif ar bymtheg roedd y beirdd yn canu o hyd, ac yn ôl Llwyd mae'r Cymry'n genedl lythrennog ac yn amlwg ym myd y gyfraith:

the greater sort of those which profess the civil or canon laws in this realm are Welshmen. And you shall find but few of the ruder sort which cannot read and write their own name, and play on the harp in their manner (2011, t. 168).

Ond nid oedd hyn yn hysbys i'r Saeson. Dywed Powel fod dau reswm ganddo i ysgrifennu *Historie of Cambria*. Yn gyntaf, dywed ei fod am gofnodi 'politicke and martiall actes' trigolion hynafol a chyntaf yr ynys, sef y Cymry (1584, d.t.). Ond yr oedd hefyd am achub enw da'r Cymry, dywed:

The second thing that mooued me thereunto, is the slanderous report of such writers, as in their bookes do inforce euerie thing that is done by the Welshmen to their discredit, leauing out all the causes and circumstances of the same: which doo most commonlie not onelie eleuate or dissemble all the iniuries and wrongs offered and done to the Welshmen, but also conceale or deface all the actes worthie of commendation atchieued by them (*ibid.*).

Cywiro dehongliad anafus oedd un o brif amcanion Powel, felly, a dangos bod y Cymry yn genedl anrhydeddus, wrol, a dewr. Dywed Grace Jones i awduron Seisnig o'r cyfnod modern cynnar etifeddu traddodiad hir o ddiffinio'r Cymry fel barbariaid (2012, t. 23). O ganlyniad, roedd yr awduron Cymreig yn ysgrifennu mewn cyfnod ac mewn cyfundrefn â nifer yn gwawdio'r Cymry.

Yn gyffredinol, darluniwyd y Cymry fel pobl anwar, anhrefnus, a thwyllodrus, a hynny'n rhannol yn ymateb i wrthryfel Glyndŵr yn y bymthegfed ganrif yn ôl Grace Jones (2012, t. 35). Fel Cymry gwladgarol, gwrthwyneba'r awduron y dehongliad negyddol o'u cenedl ac ymdrechant i adfer enw da eu cenedl. Creant orffennol a fyddai'n dangos pa mor waraidd, gwrol, a dewr oedd y Cymry gynt a'u bod felly o hyd.

Yn ôl Prys, daeth y Cymry yn enwog am frenhinoedd nodedig a'u gwychder milwrol (2015, t. 35). Dyfynnwyd eisoes eiriau Davies yn cyfeirio at ddewrder a buddugoliaethau'r Cymry. Nid amddiffyn cof diwylliannol y Cymry yn unig a ysgogodd ysgrifennu'r testunau hyn, ond awydd i newid sut y caiff y Cymry eu hystyried; pwysleisiant fod y Cymry'n genedl ddewr. Ond wrth ysgrifennu yn Saesneg y gwelir hyn yn bennaf, ac er mwyn cywiro dehongliad y Saeson o'r Cymry ysgrifennodd Llwyd a Powel.

Mae dewrder a gallu milwrol y Cymry'n nodwedd amlwg ohonynt yn *Historie of Cambria* hefyd. Defnyddir arweinwyr y Cymry fel meicrocosm i ddangos nodweddion cyffredinol y genedl. Gelwir yr Arglwydd Rhys, sef tywysog mwyaf grymus de Cymru yn y ddeuddegfed ganrif, yn 'overthrower of the mightie' (1584, t. 249); dywed yn debyg am Meredydd ap Gruffudd a elwir yn 'worthie knight' (1584, t. 204). Mae *Historie of Cambria* yn naratif sy'n rhestru dewrder a gwroldeb y Cymry sydd i'w weld ymhlith eu harweinwyr. Nid y ffaith eu bod yn filwyr da sy'n cael sylw'n unig; caiff Hywel Dda, brenin Deheubarth yn y ddegfed ganrif, ei ganmol am fod yn 'noble and worthie' oherwydd ei gyfiawnder a'i degwch fel arweinydd (1584, t. 58). Wrth ddehongli Hywel fel microcosm o'r genedl, mae cyfiawnder, felly, yn nodweddu'r genedl yn ehangach.

Eglura Llwyd a Powel nad anhrefn a diffyg ffyddlondeb i awdurdod oedd yn gyfrifol am y rhyfeloedd a'r gwrthryfeloedd yn erbyn y Saeson. Wrth hyn maent yn haeru os y bu'r Cymry'n

wrthryfelgar, roedd hynny oherwydd eu bod yn cael eu trin yn anghyfiawn ac yn ceisio cyfiawnder. Maent yn ceisio cywiro sut y caiff y Cymry eu cofio gan y Saeson. Mynnant mai awydd am gyfiawnder yn dilyn gorthrwm creulon ac annheg y Saeson oedd yn eu cymell i wrthryfela. Oherwydd bod y Cymry'n genedl sy'n gyfiawn, maent yn ceisio cyfiawnder gan genhedloedd eraill. Nid oedd y Cymry'n anwar am geisio bod yn rhydd o orthrwm. Yn hytrach, dadleua Powel mai'r Saeson oedd yn anwar am fod mor ormesol. Gofynna Powel i'w ddarllynydd: 'shall a man be charged with disobedience because he seeketh to keep his purse from him that would robbe him?' (1584, d.t.). Gelwir y swyddogion Seisnig yn orllym, ac wrth iddynt ymateb i wrthryfel Glyndŵr gwaethygodd y trais a'r gormes ar y Cymry, ar ôl pasio 'such greueous lawes, as few Christian kings euer gaue or published the like to their subiects' (*ibid.*). Caiff y cyfreithiau eu beirniadu gan Powel am eu bod yn farbaraidd ac yn gorthrymu'r Cymry, ond hefyd oherwydd eu bod yn wrth-Gristnogol. Dadleua Powel y byddai'n naturiol i'r Cymry wrthwynebu'r fath driniaeth. Yn sylfaenol, dadl Powel yw mai'r Saeson yw'r bobl anwar am fod mor greulon ac am orthrymu'r Cymry am ganrifoedd. Cyfeiria Llwyd, hefyd, at y cyfreithiau gormesol a wynebai'r Cymry wrth nodi i'r Arglwydd Rhys gwyno i'r Brenin Harri I am gamdriniaeth ar y Cymry yn y ddeuddegfed ganrif. Ni wrandawodd y brenin ar Rhys; dywed Llwyd: 'the Kinge wynked at the faultes of the Englishe and Normaines and punished the Welshmen cruelly' (2016, t. 161). Mae Llwyd a Powel yn awyddus i bwysleisio y cafodd y Cymry eu cam-drin gan y goron yn ystod yr Oesoedd Canol er mwyn egluro a chyfiawnhau gwrthwynebiad y Cymry i'r drefn ormesol. Wrth ddehongli gwrthwynebiad y Cymry gynt fel rhan o ymgais i ddadwneud gorthrwm, cânt eu dyrchafu fel cenedl gyfiawn wrth iddynt fynegi cof diwylliannol y Cymry.

Mae cenhadaeth debyg ar i'r Cymry gael eu cofio fel cenedl ddewr â gallu milwrol yng ngwaith Prys hefyd. Dengys ef mor fedrus y bu'r Brutaniaid yn gwrthwynebu grym ymerodrol Rhufain a fu'n teyrnasu dros y rhan fwyaf o'r byd Ewrofediteranaidd. Er iddynt gael eu trechu yn y pen draw, nid sen mo hynny, canys roedd yn 'condition which they shared with many other illustrious nations' (2015, t. 159). Roedd hynafiaid y Cymry hefyd wedi llwyddo i wrthsefyll concwest gyfan gan y Saeson am chwe chanrif. Mae'n destun balchder i Prys, Llwyd, a Powel oherwydd, er iddynt gael eu trechu gan y Saeson, nid cryfder y gelyn oedd y rheswm am hynny ond twyll a brad gan elynion y genedl ac, ar adegau, y genedl ei hun (gweler: Schwyzer, gol., 2011, tt. 126–7; Llwyd, 2016, tt. 126, 213). Er enghraifft, gelwir Dafydd ap Llywelyn yn 'bertraier of his brother' gan David Powel oherwydd iddo'i gadw yn y carchar er mwyn cadw'i rym (1584, t. 300). Yn achos marwolaeth sawl arweinydd, fel Llywelyn ap Gruffudd, er enghraifft, lladdwyd ef oherwydd brad, nid oherwydd bod y Cymry'n wan neu'n brin o ddewrder (1584, t. 374).

2.3 Cenedl Ewrofediteranaidd

Yn y testunau hyn caiff y Cymry eu diffinio fel cenedl sy'n rhan o brif ffrwd naratif Clasurol Ewrop. Mae dimensiwn Ewrofediteranaidd i'r amddiffyniad o Brutus, Brennus ac Arthur. Yma, dadleuir yn y testunau hyn y gwelir cysylltiadau trawsgenedlaethol y Cymry sy'n ymestyn ar draws Ewrop a'r byd Mediteranaidd. O safbwynt crefyddol, mae'r ymdriniaeth o'r ffydd Gristnogol hefyd yn dangos eu bod yn deall y Cymry fel cenedl Ewrofediteranaidd sy'n rhan o fwrlwm crefyddol a diwylliannol Ewrop, y Dwyrain Canol, a gogledd Affrica.

Roedd profiad y Cymry yn yr unfed ganrif ar bymtheg yn un cyfandirol; dywed R. Brinley Jones 'Wales never enjoyed such close relations with Western Europe as she did during the sixteenth century' (1970, t. 11). Roedd Davies, er enghraifft, wedi treulio teyrnasiad Mari I yn

alltud yn Frankfurt, a theithiodd Llwyd ar draws y cyfandir ag Arglwydd Arundel a chwrdd â rhai o bobl ddysgedig amlwg Ewrop, fel Abraham Ortelius (gweler: Williams, G., 1953; Gruffydd, R. G., 1970). Dadleua Schwyzer fod dimensiwn cyfandirol Cymru'n bwysig i Llwyd: 'Wales was for him not a certain corner of Britain but its origin and essence. Britain in turn, was part of the larger Europe shaped and described by the ancients' (2011, t. 4). Ysgogwyd Llwyd a Prys i ysgrifennu yn Lladin yn rhannol gan y cysylltiadau cyfandirol hyn. Roedd yn dangos, hefyd, bod eu naratifau o bwys cyfandirol ac yn rhan o waddol Clasurol y byd Ewrofediteranaidd. Ond mae defnyddio Ewrop yn rhy gyfyngedig ac yn awgrymu bod ffin rhwng Ewrop, y Dwyrain Canol a gogledd Affrica yn nychymyg yr awduron dan sylw. Nid yw hynny'n briodol, er enghraifft, wrth i Prys sôn am genhedloedd mawr a gollodd rym yn hanes mae'n rhestru cenhedloedd o Brydain, Gâl, Sbaen, Affrica, ac o ddwyrain Ewrop (2015, t. 107).

Myn Prys i nifer o bobl o Brydain fynd i'r cyfandir megis yr Ymerawdwr Maximus a aeth i gipio Rhufain gyda nifer o Frutaniaid yn y bedwaredd ganrif oed Crist (2015, tt. 103–5). Gwelir cysylltiad pellach rhwng y Cymry a'r byd Ewrofediteranaidd oherwydd bod nifer o 'Frutaniaid' ar y cyfandir yn tarddu o Brydain. Yn ôl Prys, wrth dynnu ar un o Drioedd Ynys Brydain mae Brutaniaid y cyfandir yn cydnabod hyn, megis yn Aquitaine lle maent yn olrhain eu llinach i osgordd Caswallawn, Gwenwynwyn, a Gwanar (2015, tt. 107, 286 n. 16).

Un rhyfelwr arall a aeth i'r cyfandir o Brydain oedd Brennus a ymadawodd i gipio Rhufain. Mae Prys yn cyfuno naratifau Livy a Justin, dau hanesydd uchel eu parch, er mwyn gwrthwynebu dadl Vergil mai dau Brennus gwahanol arweiniodd milwr o Gâl i Roeg a Macedonia (1534, tt. 20, 22–4). Yn ôl Prys, yr un Brennus sydd o dan sylw, ac roedd y Brennus hwnnw yn un o hynafiaid y Cymry (2015, tt. 177–93). Mae Prys yn cyfuno dau destun Clasurol i ddangos anrhydedd y

Brutaniaid, a dangos dimensiwn cyfandirol a Chlasurol cof diwylliannol y Cymry. Cafodd Brennus fuddugoliaethau nodedig ar y cyfandir a dengys pa mor ddewr a gwrol oedd y Brutaniaid. Hyrwyddir y dehongliad hwn am Brennus fel ‘perfect Briton’ a fu yng Ngâl a Groeg gan Llwyd yn y *Fragmentum* hefyd (2011, tt. 101–3). Mae Llwyd yn beirniadu Vergil, fel Prys, oherwydd iddo: ‘maketh two Brennuses, that is altogether beside credit, since no writer before him ever yielded the same to memory’ (2011, t. 102). Yn y dyfyniad hwn, mae Llwyd yn gosod ysgrifennu a chofio gyfystyr â’i gilydd, sydd efallai’n cael ei gyfoethogi o ystyried y gair Cymraeg, sef cofnodi. Cyflwynir tystiolaeth am rym milwrol a dawn y Brutaniaid trwy Brennus a dangos mai cenedl rymus, ddewr, a medrus yw’r Cymry sy’n perthyn i orffennol Ewrofediteranaidd. Roedd Brennus yn ffigwr dylanwadol yn nhrefodaethau’r cyfnod ynghylch hawl ymerodrol Lloegr, fe’i defnyddiwyd i gyfiawnhau sofraniaeth y teyrn Prydeinig. Wrth sôn am Brennus, dadleua Schwyzer i Llwyd atgyfnerthu agweddau o hunaniaeth Seisnig a Chymreig, sef sofraniaeth y teyrn yn ei deyrnas ei hun (2011, tt. 9–10). Gwelwn, felly, ymgais gan Llwyd i hyrwyddo’r *status quo* wrth gyfuno cof Cymreig am Brennus a’i droi i fod yn rhan o naratif y deyrnas. Nid yw Edwards nac Evans yn cyfeirio at Brennus, ond ni cheir llawer o fanylion ganddynt ar Brydain cyn dyfodiad y Rhufeiniaid.

Roedd yn gyffredin ar y pryd yn ôl Ian Stewart i fynnu bod cysylltiadau rhwng y Cymry a phobl Gâl, sef Ffrainc heddiw (2019, t. 84). Cred Prys fod y cysylltiad yn amlwg ac i lŵl Cesar gredu i ddysg dderwyddol fynd o Brydain i Gâl, sy’n dangos ymwneud Prydain â’r cyfandir (2015, t. 37). Ymhellach, dywed Prys i bobl Llydaw darddu o Brydain, ac mae’n eu galw yn Frutaniaid y cyfandir; un rheswm am hyn yw ei gred mai ‘Lesser Britain’ yw Llydaw, sef yr enw cyffredin a roddid ar

Lydaw yn yr Oesoedd Canol (2015, t. 101). Daw'r cysylltiad â Gâl o bwys wrth astudio'r *Ffydd a'r Drych* maes o law.

Mae gan Cystennin, sef Ymerawdwr Cristnogol cyntaf y byd a ffigwr amlwg yn nhwf Cristnogaeth Ewrofediteranaidd, gysylltiadau â Chymru hefyd yn ôl Prys, a bydd hyn yn codi yn y penodau nesaf. Dywed Prys am Cystennin: 'we claim, on his mother's side, as one of our own: it was from her that he imbibed the Christian religion, and therefore her side is the more valued part of his lineage' (2015, t. 159). Roedd yn gyffredin yn yr Oesoedd Canol i gredu yr hanai ei fam o Brydain, roedd hefyd yn gyffredin ymhlith y Cymry a astudir yn y traethawd hwn (gweler: Harbus, 2002). Er nad yw Prys yn ei henwi, Elen oedd y fam honedig. Gellid ei dehongli fel dolen gyswllt rhwng Cymru a'r byd Ewrofediteranaidd, ac i ddangos bod Cristnogaeth yn nodwedd amlwg o hunaniaeth y Brutaniaid. Caiff Elen ei darlunio, yn y dyfyniad uchod gan Prys, fel y dylanwad ysbrydol ar ei mab a ddaeth yn rhan allweddol o dwf Cristnogaeth fel crefydd y deyrnas, twf sydd â'i wreiddiau ymhlith y Cymry. Dengys hi gysylltiadau cyfandirol y Cymry ac mai cenedl Gristnogol ydynt. Yn ogystal, dengys hi anrhydedd mawr y Brutaniaid, ac o'i herwydd gall y Cymry hawlio Cystennin fel un o'u hynafiaid; o ganlyniad caiff y Cymry eu cysylltu â lledaeniad Cristnogaeth ar draws y byd Ewrofediteranaidd fel crefyddol swyddogol.

Ond nid cofio'r Cymry fel cenedl Ewrofediteranaidd yn unig a wneir yma. Mae Humphrey Llwyd a David Powel yn pwysleisio eu bod yn genedl ag ymwneud trawsforol, rhyngwladol hefyd; maent yn dangos eu bod yn rhan allweddol o drafodaethau ymerodrol y deyrnas Elisabethaidd. Honna Jerry Hunter y defnyddiwyd hanes Madog i gyfiawnhau hawliau ymerodrol y Goron yn America, ac mai'r Cymry a ysgogodd yr arfer hwnnw (2016). Wrth drafod Madog, dengys Llwyd a Powel fod y Cymry wedi ymwneud â'r byd newydd; mynnant mai Cymro, Madog ap Owain

Gwynedd yn y ddeuddegfed ganrif a ddarganfu America gyntaf ac iddo ymgartrefu yno gyda'i gyd-Gymry.³⁸

Humphrey Llwyd oedd un o'r cyntaf i sôn am Madog. Mae cysylltiad arbennig rhwng Llwyd a hanes ymerodraethol Prydain canys ef a ddefnyddiodd y term 'British Empire' gyntaf (Henry, 1971–2, tt. 189–90). Dywed Llwyd i Madog adael Cymru oherwydd rhyfeloedd rhwng ei frodyr ac iddo hwylio i'r gorllewin, darganfod ac ymgartrefu yn America, a mabwysiadu'r iaith leol (2016, tt. 167–8). Ehangwyd naratif Llwyd gan Powel gan ychwanegu tua dwy ddalen lawn i'r hanes (1584, tt. 227–9). Yn debyg i Llwyd, mae Madog yn naratif Powel yn hwylio i ffoi rhag rhyfela ei frodyr ac yn ymgartrefu yn America gan fabwysiadu'r iaith leol.

Dylid nodi i Powel gydnabod fod nifer o amheuon ynghylch rhai agweddau ar yr hanes a honna fod 'manie fables fained' gan bobl gyffredin am Madog. Ond ei gasgliad yw ei fod wedi morio i America, 'but sure it is, that there he was' (1584, t. 228). Amheuaeth ar agweddau sydd, nid amheuaeth ar y cyfan, felly hefyd gyda'r ymdriniaeth â hanes Sieffre. Yn *Historie of Cambria* gwelwn i Madoc a'i gyd-Gymry gadw'u Cymreictod ar ôl mudo oherwydd bod 'Brytish words and names of places, vsed in that countrie even to this daie' (1584, t. 229). Mae brodorion America, yn ôl Powel, yn defnyddio'r gair 'gwrando' o hyd ac mae enwau eraill yn yr ardal yn dangos dyled i'r Gymraeg, fel 'Island of Corroeso' sy'n cyfateb i 'Ynys Croeso' (*ibid.*). Dadleua Hunter fod Powel yn awyddus i bwysleisio i'r Cymry gadw'u Cymreictod er iddynt adael y wlad (2016, t. 43). Wrth wneud hyn dengys Powel, felly, y gellid bod yn Gymry heb fyw yng Nghymru, neges gyfoes gyda

³⁸ Am Madog a Chymru gweler: Gwyn Alf Williams. 1979. *Madoc: The Making of a Myth*; Jerry Hunter. 2016. 'Myth and Historiography: One Hundred and Sixty Years of Madog and the Madogwys', *The Yearbook of English Studies* 46, 37–55.

nifer o Gymry amlwg yn Llundain yn yr unfed ganrif ar bymtheg a thystiolaeth bellach mai hanfod Cymreictod oedd yr iaith.

Mae hanes Madog yn gosod y Cymry yn rhan bwysig o'r ddadl o blaid hawliau ymerodrol y goron yn America. Honnir i Madog dirio yn America llawer cyn i'r Sbaenwyr fudo yno ac felly, tiriogaeth Prydain oedd hi. Fel y dangosir maes o law, mae Evans yn codi'r ddadl hon yn y ddeunawfed ganrif, ys dengys Hunter (2016, tt. 48–55). Dywed Powel:

This land must needs be some part of that countrie of which the *Spaniardes* affirme themselves to be the first finders sith *Hannos* time; for by reason & order of Cosmographie, this land, to the which *Madoc* came, must needs be some part of *Noua Hispania* or *Florida*. Whereupon it is manifest, that that countrie was long before by *Brytaines* discovered, afore either *Columbus* or *Americus Vesputius* lead anie *Spaniardes* thither (1584, t. 228).

Roedd hawl ymerodraethol y Goron, felly, yn seiliedig ar wreiddiau Cymreig y deyrnas. Mae Llwyd a Powel yn dyrchafu'r Cymry fel cenedl sy'n rhan o wychder a bri'r deyrnas a oedd yn prysur droi'n ymerodrol, a phwysleisir y dylid cofio mai ymerodraeth a adeiladwyd ar hanesyddiaeth y Cymry ydoedd.

2.4 Cenedl o Gristnogion Protestannaidd

Wrth i'r dyneiddwyr hyn ailddehongli cof diwylliannol y Cymry a phwysleisio'r cysylltiad cryf rhwng y Cymry a'r Brutaniaid a'u diffinio fel cenedl Ewrofediteranaidd, maent yn amlinellu elfen arall o hunaniaeth ffurfiannol y Cymry: maent yn genedl Gristnogol ar wedd Brotestannaidd. Wrth hyn, mae'r gorffennol Brutanaidd yn cael ei 'ddiwygio'. Gwelwn natur amlygeiriol cof diwylliannol wrth i orffennol y Cymry gael ei aildyfeisio i ddiffinio'r genedl fel un Brotestannaidd. Yng Nghymru, cafodd y Diwygiad Protestannaidd ei feddiannu gan wladgarwch Cymreig a'i wreiddio yn hanes y genedl, ys dadleua Lloyd Bowen: 'the Reformation was particularly historical

in nature and drew upon considerable reserves of patriotic capital there' (2014, t. 135). Yn yr adran hon, archwilir sut y crëir naratif am y gorffennol i diffinio'r Cymry fel Protestaniaid.

Pan dorrwyd y cysylltiad â Rhufain gan Harri VIII roedd hanes y Brutaniaid ac Eglwys Brydain, sef Eglwys Gristnogol y Brutaniaid, yn hanfodol fel cysail hanesyddol. Defnyddiwyd Eglwys Brydain fore er mwyn cyfiawnhau annibyniaeth esgobol ym Mhrydain trwy gydol y cyfnod modern cynnar, ac mae'n nodwedd amlwg o'r *Drych* ym mhennod 4. Nid oedd gwahanu o Eglwys Rufain yn torri'r cysylltiad rhwng y Brutaniaid a'r cyfandir, oherwydd roedd Protestaniaeth yng Nghymru yn cynnal cysylltiad cyfandirol a thrawsgenedlaethol, fel y gwelir trwy'r traethawd. Mae apêl normadol ymhlyg yn y diffiniad ffurfiannol o'r Cymry fel cenedl Gristnogol: dylent fod yn dduwiol fel y gwelwn yn ddiweddarach yn y bennod.

'Epistol at y Cembra' yw'r testun amlycaf yn y cyd-destun hwn.³⁹ Mae Davies yn galw'r Diwygiad Protestannaidd yn 'ail vlodeuat Euangel ein Arglwyd Iesu Christ' (1951, t. 17). Hyrwydda'r gred mai adfer y ffydd Gristnogol i'w phurdeb gwreiddiol oedd y newidiadau crefyddol. Roedd hefyd yn dychwelyd y ffydd Gristnogol gyntaf a dderbyniwyd gan drigolion Prydain iddynt. Roedd Davies yn mynnu mai Protestaniaeth yw'r wir ffydd gatholig, yn wir dywed ei fod yn 'damuno adnewyddiat yr hen ffydd catholic' (*ibid.*). Ceisiodd adennill y term 'catholig' ar gyfer Protestaniaeth, ac annilysu hawl Rhufain ar 'gatholigrwydd' sef gair sy'n tarddu o'r Groeg sy'n golygu hollgyffredinol. Wrth wneud hyn, roedd Davies yn mynnu mai Protestaniaeth yw'r ffydd wreiddiol a'r ffydd gyffredinol; rhywbeth a ddyfeisiwyd trwy ddychymyg dyn oedd

³⁹ Er nad yw Protestaniaeth yn nodwedd mor amlwg o naratifau Llwyd a Powel, dylid cydnabod nad oedd crefydd chwaith yn amlwg yn y croniclau canoloesol, sef sail i'w testunau. Fodd bynnag, roeddynt yn hyrwyddo'r gred am hynafiaeth y ffydd Gristnogol ym Mhrydain ac mai sylfaen Apostolaidd oedd ganddi, fel y gwna Llwyd yn *Cronica Walliae* (2016, tt. 184–5).

Catholigiaeth yn ôl Davies (gweler: Morgan, D. D., 2018, t. 3; Bowen, 2014, tt. 135–50; Williams, G., 1970).

Roedd troi at y gorffennol yn gyffredin i ddatblygu dadleuon o blaid y Diwygiad Protestannaidd a dadbrofi rhai o brif gyhuddiadau Catholigiaeth mai ffydd newydd a ddyfeisiwyd gan Luther ydoedd. Defnyddiwyd y gorffennol i ddilysu'r newid yn Lloegr yn ôl Felicity Heal (2006, t. 117). Fel y gwelir yn yr astudiaeth hon, defnyddiwyd hanes hefyd yng Nghymru i ddilysu'r Diwygiad Protestannaidd. Un o sgil-ffeithiau hyn, ym marn Jean-Louis Quantin wrth astudio Anglicaniaeth rhwng 1520 a 1662, oedd ni chydabyddwyd pa mor radical oedd y newidiadau crefyddol (2017, t. 295). Roedd lleihau ar radicaliaeth a newydd-deb y Diwygiad gan Brotestaniaid yn digwydd yng Nghymru, gan Davies. Roedd yn rhan o ymgais i sicrhau llwyddiant y ffydd ar lefel boblogaidd, gan beri i'r newidiadau beidio ag ymddangos fel newidiadau o gwbl. Mae'r astudiaeth hon yn cefnogi dadl Ward Clavier y defnyddiwyd hanes a'r gorffennol pell er mwyn cyfiawnhau'r Diwygiad Protestannaidd yng Nghymru (2021, t. 42). Ychwanegir ystyriaethau cof diwylliannol i'r dadansoddiad, ac astudir y berthynas rhwng cofio crefydd ym Mhrydain fore a hunaniaeth y Cymry fel cenedl Brotestannaidd.

Cred Davies fod gan y Cymry fraint mawr oherwydd iddynt dderbyn y ffydd Gristnogol yn fuan wedi'r atgyfodiad gan:

Joseph o Aramathya discybl Christ ac eraill discyblon crystynogaidd dyscedig gidac ef: y gwyr hynn megis ac i derbyniasont wy'r ffydd a'r crefydd ar crystynogaeth can Christ i hun, ay Apostolion, felly pregethasont, ac i dycasant yn y teyrnas hon (1951, t. 18).

Mae'r gred hon yn deillio o chwedl gan fynachod Caerloyw (Kendrick, 1950, tt. 16–17). Wrth gofio Joseff, caiff y naratif canoloesol ei 'ddiwygio' gan Davies. Bellach, dadleuir mai Cristnogaeth

Brotestannaidd a sefydlwyd gan Joseff; roedd y ffydd yn cydymffurfio â ffurf a sylwedd y gred yr oedd Davies yn ei hyrwyddo yn yr Epistol ac fel Esgob o ddydd i ddydd. Ymddengys mai Humphrey Llwyd, yn *Cronica Walliae*, oedd y Cymro cyntaf i gyfeirio at hyn yn y cyfnod (2016, tt. 184–5).⁴⁰ Mae'r farn hefyd i'w gweld gan Powel (1584, tt. 12–13). Gelwir hyn yn 'Ddamcaniaeth Eglwysig Brotestannaidd' gan Saunders Lewis sy'n dadlau ei fod yn gwreiddio Protestaniaeth yn hen hanes y genedl (1973, tt. 116–39). Mae ysgrif Lewis yn awgrymu mai dealltwriaeth unigryw i Gymru oedd hon. Ond nid Cymro a osododd y gred yn gysail i Brotestaniaeth, yn hytrach yr hanesydd John Bale o Loegr, ac fel y dengys Glanmor Williams fe'i defnyddiwyd gan Brotestaniaid yn Lloegr i ddilysu'r newidiadau crefyddol yn y deyrnas (1967; 1970). Fe'i defnyddiwyd hefyd i wfftio hawl hanesyddol Rhufain ar grefydd ym Mhrydain.⁴¹ Yn wahanol i'r tri arall, ymddengys Prys yn fwy ansicr ynghylch Cristnogaeth gynnar ym Mhrydain; dywed: 'It is agreed that Christianity began to be propagated here no more than 156 years after the birth of Christ, our saviour' (2015, t. 199). Ni chyfeiria at hanes Joseff o Arimathea, efallai am nad oedd yn ymwybodol o farn Bale neu efallai yr anghytunai â'r hanes am ei ddyfodiad.

⁴⁰ Mae daliadau crefyddol Llwyd yn amwys (gweler: Schwyzer, 2018, t. 432). Gwasanaethodd yng nghartref y Catholigiwr Iarll Arundel, priododd â chwaer mab yng nghyfraith yr Iarll; ar sail hyn gellid disgwyl y byddai wedi bod yn Gatholigiwr, neu wedi bod â chydymdeimladau Catholig, o leiaf. Efe, mae'n debyg a sicrhodd y gallai Deddf Cyfieithu'r Beibl gael ei basio yn Nhŷ'r Cyffredin fel Aelod Seneddol dros Sir Ddinbych. Cam anarferol iawn i Gatholigiwr ei wneud, ac yn awgrymu elfennau o gydymdeimlad â chredoau Brotestannaidd. Ymhellach, mae adrannau o *Cronica Walliae* yn wrth-Gatholig wrth feirniadu'r 'baggage and superstition' a gafwyd yng Nghymru a Lloegr gan 'the Pope's champions', adran lle y ceir y term 'Romish dregges' (2016, t. 184). Er nad oes sicrwydd ynghylch ei ddaliadau crefyddol, mae'r dyfyniadau hyn yn peri penbleth i'r ddadl o blaid ei Gatholigiaeth. Mae'n bosibl dadlau bod y term 'Church Papist' yn briodol am Llwyd, gweler: Alexandra Walsham. 2003. *Church Papists: Catholicism, Conformity and Confessional Polemic in Early Modern England*. Rhaid cydnabod y bwlch mae absenoldeb astudiaeth o fywyd a gweithiau Llwyd wedi'i adael.

⁴¹ Am ddefnydd o'r Eglwys Brydeinig yn y cyfnod modern cynnar gweler: Colin Kidd. 1999. *British Identities Before Nationalism: Ethnicity and Nationhood in the Atlantic World, 1600–1800*, yn arbennig pennod 5; Felicity Heal. 2005. 'Appropriating History: Catholic and Protestant Polemics and the National Past', *Huntington Library Quarterly*, 109–32.

Yn ôl y cof diwylliannol a sefydlir yn nhestun Davies, felly, plannodd Joseff y ffydd ymhlith hynafiaid y Cymry, y Brutaniaid, yn fuan wedi'r atgyfodiad a rhydd hyn gryn anrhydedd iddynt:

Y Brytaniait a dderbyniasom attunt gyfraith Dduw, gwir crefydd Christ, a'r Efengel fendigedig, a hynny yn cyfagos at amser Christ ay Apostolion ymlaen yr ynysoedd oll, ac ae cadwasont yn bur ac yn ddilwgr yn hir o amser yn lew ac yn ffynnedic (1951, t. 20).

Fe'i dyrchefir gan Davies fel cenedl sy'n rhan o gynllun rhagluniaethol Duw i ledu'r efengyl gan iddo anfon cenhadwr, a welodd Crist ei hun, atynt mor fuan ar ôl yr atgyfodiad. Wrth wneud hynny roedd yn dangos eu bod yn genedl sy'n rhan o fwrlwm y byd Ewrofediteranaidd. Wrth i Davies aildehongli hanes crefydd ymhlith y Cymry, nid oedd y Diwygiad Protestannaidd yn ymddangos yn estron na chwaith yn newydd; yn hytrach dyma oedd yr hen ffydd wedi'i dychwelyd atynt. Fel y gwelwn yn y penodau nesaf, bu Joseff o Arimathea yn un o hoelion wyth cof diwylliannol y Cymry, ac fe'i defnyddiwyd i ddadlau mai Protestaniaeth yw gwir grefydd y Cymry.

Dengys dyfodiad Joseff, hefyd, fod y Cymry yn genedl dan fendith Duw. Datblygir hyn ymhellach gan Edwards ac Evans sy'n ehangu dadl 'Epistol' Davies. Honna Davies y cadwodd Duw y ffydd yn bur yng Nghymru yn wyneb gau-athrawiaethau. Er enghraifft, er gwaethaf 'gaulith a heresi Pelagius' roedd Duw wedi sicrhau y daeth Garmon a Lupus yr 'Escopion gwynfydedig a phregethwyr teilwng' i'w gwaredu (1951, t. 21). Dylid nodi, felly, y cred Davies y cadwyd y ffydd yn bur am ganrifoedd ymhlith y Cymry trwy ddarpariaeth Duw, nid trwy unrhyw wychder ar ran y genedl.

Anfonwyd Garmon a Lupus o Gâl i'w cadw'n unionged. Roedd amddiffynwyr eraill i'r ffydd hefyd, fel Dewi a ddiogelodd y ffydd Gristnogol rhag heresi Pelagius a oedd wedi

'anrheithio'r Christynogaeth ymhlith y Brytaniaid', a cheir mwy o drafod am Pelagius wrth astudio'r *Drych* (*ibid.*). Yn yr 'Epistol' gelwir Dewi'n archesgob; mae'n bosibl i Dewi gael ei ddefnyddio gan Davies i awgrymu'n gynnil y dylai'r Cymry gael eu harchesgob eu hunain, yn hytrach na bod o dan ofalaeth Archesgob Caergaint, fel y gwnaeth Gerallt Gymro yn y ddeuddegfed ganrif (Davies, R. R., 2000, tt. 190–1). Gwelwn y cof am y seintiau'n goroesi yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, ac yn cael ei 'ddiwygio' ar gyfer oes newydd; caiff Dewi ei gofio fel gŵr duwiol yn unol â chredoau Protestannaidd Davies ei hun. Gwelwn hyn yn y penodau nesaf wrth drafod y seintiau hefyd. Nid sant Catholig mo Dewi mwyach, ond sant fel pob credadun, yn esiampl o dduwioldeb i'r genedl, bid siŵr, yn enghraifft o anrhydedd pob Cristion.

Yn ôl Walsham, roedd y dehongliad o'r seintiau yn pendilio; cânt eu dyrchafu fel esiamplau cenedlaethol ar y naill law ac fel ffigurau drygionus ar y llall; roeddynt naill ai yn 'figures of satanic tyranny or ingeniously rehabilitated as patriotic icons or moral exemplars' (2012, tt. 903–4). Ymddengys Dewi, a seintiau eraill, fel esiamplau cenedlaethol i Davies. Gelwir Richard Davies yn 'Ail Dewi Menew' gan William Salesbury, a darlunnir ef fel olynydd teilwng i Dewi sy'n sefyll dros burdeb y ffydd Gristnogol ymhlith y Cymry (Hughes gol., 1951, t. 44). Felly, nid arfer unigryw i Davies oedd hawlio Dewi Sant fel rhan o orffennol Protestannaidd y Cymry. Yn wahanol i Dewi, nid heresi Pelagius a wrthbrofodd Davies ymhlith y Cymry, ond heresi'r Pab. Oherwydd hyn, roedd yn olynydd teilwng i Dewi yn ôl Salesbury.

Mae Davies yn nodi i'r Cymry gael eu bendithio gan Dduw trwy gydol eu hanes. Yng ngoleuni hyn, mae'r modd y cyflwyna Davies gof diwylliannol cenedlaethol i'r Cymry yn dangos daioni a thrugaredd Duw tuag atynt wrth iddo achub y Cymry, a chenhedloedd eraill rhag Catholigiaeth y Pab. O ganlyniad i hyn, caiff y Cymry eu cofio fel cenedl sydd o dan fendith Duw

wrth iddo sicrhau bod llwybr iachawdwriaeth yn hysbys iddynt. Mae trugaredd Duw tuag at y Cymry yn ficrocasm o'i ymwneud â'r ddynoliaeth yn gyffredinol i Davies:

mawr fu drugaredd Duw ym hob oes o Adda hyt Christ, can ys ni bu nac oes nac amser, nas danfonai ef prophwyti athrawon a phregethwyr i ddwyn goleuni ir byt... O amser christ hyt heddiw ni bu ddim llai ey drugaredd (1951, tt. 25–6).

Cyfeirir at y Brenin Lles ap Coel (Lucius) o ddiwedd yr ail ganrif a oedd yn rhan o'r 'cynnyrch hwn a ffrwythawdd ac a chwanegawdd rhyd y teyrnas hon' (1951, t. 18). Anfonodd Lles genhadon â llythyr at Esgob Rhufain am gyngor, gweithred y mynnai Davies nad yw'n cefnogi goruchafiaeth Esgob Rhufain ar faterion Cristnogol.⁴² Mae Davies yn cyferbynnu Rhufain 'iach a Chrystynogaidd' cyfnod Lles â Rhufain ei ddydd sydd â 'llawer o chwyn dychymmig dyn yn tyfu etto y mysc gwenith gair Duw' (1951, t. 19). Wrth adrodd am Lles a'i lythyr at Esgob Rhufain, myn Davies fod y gorffennol yn cefnogi'r drefn gyfoes. Mae'n drefn sydd wedi'i gwreiddio yn y Gristnogaeth gynnar a phur Prydain fore. Roedd hanes Lles yn gwbl ganolog i Eglwys Loegr yn yr unfed ganrif ar bymtheg fel y dadleua Felicity Heal: 'the king's conversion demonstrated both the precocity of British Christianity and its royal imprimatur. This, and the story of the early beginnings of the episcopacy had visible charms for establishment Protestantism' (2005, t. 597). Caiff Lles ap Coel ei gofio fel prawf o blaid cynsail hanesyddol y drefn eglwysig ddiwygiedig yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Roedd gwerth mawr i'r hanes i'r Cymry oherwydd un o'u hynafiaid hwy yw sail hanesyddol Cristnogaeth Brotestannaidd ym Mhrydain fel crefydd y deyrnas. Gwelwn eto, felly, arwyddocâd y Cymry i naratif y deyrnas ac ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd i rai o brif

⁴² Am hanes ailddarganfod y llythyr hwn yn ystod y Diwygiad Protestannaidd gweler: Felicity Heal. 2005. 'What can King Lucius do for you? The Reformation and the Early British Church', *English Historical Review* CXX, 593–614; David Knight. 2014. *King Lucius of Britain*, yn arbennig pennod 4.

ddatblygiadau'r deyrnas honno. Dylai'r Cymry ymhyfrydu yn eu hunaniaeth fel cenedl sydd o dan fendith Dduw.

Roedd ychydig o amheuaeth gyfoes ynghylch y llythyr gan Eleutherius, ac mae Davies yn cydnabod bod sail i amau agweddau o'r hanes:

Ac eto ir hynn cyd bo achos i ammau llawer o 'stori Lucius, am hyn i ddym ni yn y geisio yn bennaf yn y rhysymmay hynny, ni ddawr pa vn or 'storiay vchot a grettoch: can ys ym hob un yddym yn gwelet cael o'r Brytaniaid Crefydd Christ yn ddilwgr ac yn perffaith (1951, tt. 19–20).

Er bod sawl stori am hanes y ffydd ym Mhrydain yn ôl Davies, mae un elfen ganolog yn gyffredin iddynt, sef: derbyniodd y Brutaniaid y ffydd Gristnogol yn ei phurdeb a'i chadw felly. Mae Richard Davies yn taeru bod y Cymry, felly, yn genedl o Gristnogion Protestannaidd.

Ond nid ffydd gyfundrefnol yn unig mo'r ffydd ddiwygiedig; roedd wedi treiddio trwy holl gymdeithas a diwylliant y Cymry yn ôl yr 'Epistol'. Er mwyn cefnogi'r ddadl am hynafiaeth Protestaniaeth ymhlith y Cymry cyfeiria Davies at 'amryw ymadroddion a diarhebion [sydd] yn aros fyth mewn arfer a dynnwyt o berfedd yr scrythur lan, ac o ganol Efengil Christ' (1951, t. 30). Dyma dystiolaeth gref 'vot yr Scrythur lan yn wybodedig iawn gan euynd Henafieit ni gynt' (1951, t. 38). Dadleua Davies y bu'r Beibl gan y Cymry yn 'iaith y Brytaniaid' ond fe'u llosgwyd gan y Saeson; cefnogir hyn, yn ei dyb ef, gan y ffaith iddo weld 'pump llyfr Moysen yn Gymraeg' pan oedd yn fachgen yn nhŷ ei ewythr (1951, t. 30).

Gadawodd y Beibl ei ôl ar y Cymry yn ôl Davies, ac mae hyn yn brawf iddo ef o ymwneud dwys y genedl â'i gynnwys; dylai hyn nodweddu'r genedl yn ei ddydd. Cred Davies i'r Cymry ymwneud â'r Beibl am ddau reswm. Yn gyntaf, ceir enwau Beiblaidd fel Abraham, Adda, a Samson

ymhlith y Cymry (1951, t. 37).⁴³ Gofynna Davies o ble arall y byddai'r enwau hyn wedi dod i'r Gymraeg heblaw am y Beibl? Yn ail, ceir diarhebion Cymraeg sy'n ddyledus i'r ysgrythur. Mae'n efelychu'i gyd-gyfieithydd William Salesbury a gasglodd ddiarhebion Cymraeg yn *Oll Synnwyr Penn Kembero Ygyd* (1547).⁴⁴ Eglura Davies ystyr y ddihareb 'A Gair duw yn vcha' a dangos iddo gyfateb i un o brif egwyddorion y Diwygiad Protestannaidd, sef *sola scriptura* (yr ysgrythur yn unig) (1951, t. 33). Ceisia ddangos bod Cristnogion cynnar Cymru yn defnyddio'r Beibl fel unig sail y ffydd, yn unol â chredoau Protestannaidd (gweler: MacCulloch, 2004, t. 235; Morgan, D. D., 2018, tt. 26, 395; Burger, et al. goln., 2018). Defnyddir y dywediad 'mab rhad' gan Davies, fel prawf o *sola fide* hefyd, egwyddor arall o bwys i Brotestaniaid (1951, tt. 35–6). Roedd hyn yn amlinellu'r gred mai trwy ffydd yn aberth Iesu dros bechodau yn unig y ceir iachawdwriaeth. Mae hyn yn gysylltiedig hefyd â'r syniad y daw ffydd trwy ras yn unig, neu *sola gratia*, sef mai rhodd gan Dduw yw iachawdwriaeth:

Nid am eyn gweithredoedd ni i cyfiownir ni gar bron Duw, eythyr yn rhad trwy trugaredd Duw a purcasodd y map rhad i ni. Fydd a dycia i ni gan hynny gar bron Duw: can ys ffydd a gymer afael, ac a dderbyn attei, y trugaredd a purcasodd y Map rhad i ni (1951, t. 35).

At ei gilydd, yn ôl D. Densil Morgan, dyma egwyddorion diwinyddol y Diwygiad Protestannaidd (2018, t. 395). Cof diwylliannol Protestannaidd a geir gan Davies a oedd yn dilysu'r drefn gyfoes a diwinyddiaeth Brotestannaidd; mae hefyd yn dangos mai cenedl

⁴³ Am drafodaeth ar arwyddocâd enwau o'r Hen Destament ymhlith y Cymry – yn ogystal â siaradwyr Llydaweg a Chernyweg – yn ystod yr Oesoedd Canol, gweler: John Reuben Davies. 2012. 'Old Testament Personal Names among the Britons: Their Occurrence and Significance before the Twelfth Century', *Viator*, tt. 175–92.

⁴⁴ Roedd yn gyffredin cyhoeddi diarhebion yn y cyfnod, fel y gwnaeth Erasmus – roedd yn ymgais i ddangos dysg gynhenid yr iaith. Wrth i Davies sôn am ddiarhebion nid yw'n atgynhyrchu rhai o ddiarhebion Salesbury. Yn hytrach, ychwanega nifer o rai nas cynhwysir gan Salesbury ugain mlynedd ynghynt. Mae'n bosibl o gofio mor agos y buont yn gweithio yn y 1560au, i Salesbury a Davies gredu bod angen ychwanegu nifer o ddiarhebion 'newydd' at y rhestr. Un o'r prin ddiarhebion sy'n ymddangos gan y ddau yw 'Heb ddew eb ddim' (Salesbury) ac 'A Duw a digon: heb Dduw heb ddim' (Davies).

Gristnogol oedd y Cymry a Phrotestaniaeth ddiwygiedig oedd ffurf y Gristnogaeth honno. Yn y penodau nesaf ar *Y Ffydd Ddi-ffuant* a *Drych y Prif Oesoedd*, gwelwn sut y datblygir y gred hon i ddilysu a chyfiawnhau eu credoau hwy am Gristnogaeth a strwythur yr eglwys.

2.5 Y berthynas â'r Saeson

Pwysleisia'r astudiaeth hon fod cofio yn weithred sy'n digwydd yn y presennol, ac o ganlyniad mae cyd-destun y cofio'n ddylanwad mawr ar yr hyn a gofir. Mae dylanwad cyd-destun y Cymry yn yr unfed ganrif ar bymtheg i'w weld ar naratifau'r testunau hyn. Yn yr adran hon, amlinellir sut y cyd-blethir y Cymry â'r Saeson i adlewyrchu cyd-destun cyfoes yr awduron a dangos eu cefnogaeth i'r Deddfau Uno. Yn hytrach na darlunio'r Saeson fel gelynion y Cymry yn unig, ymddengys fel pe baent wedi eu clymu at ei gilydd. Maent yn dilysu'r Deddfau Uno, felly, ac yn gwreiddio'r berthynas gyfoes mewn hen hanes. Honna Ward Clavier y diffinnir y Cymry fel cenedl sydd mewn perthynas agos â'r Saeson a defnyddiwyd y gorffennol i wneud hynny (2021, t. 42).⁴⁵ Datblygir ei dadl yma wrth archwilio sut y caiff y berthynas â'r Saeson ei chofio a goblygiadau hynny i hunaniaeth.

Ceir cof diwylliannol gan ddyneiddwyr Protestannaidd Cymru sy'n adlewyrchu ac yn cymeradwyo'r gyfundrefn gyfoes a sefydlwyd gan Harri VIII yn dilyn y Deddfau Uno 1536 a 1543.

⁴⁵ Ni thrafodir yma pwy union yw'r Saeson yn yr astudiaeth hon. Cyfeiria Llwyd yn *Cronica Walliae* at wreiddiau amlethnig y Saeson, sy'n tarddu o'r 'Saxons, Angles and Juthes' (2016, t. 63). Ymddengys ei fod yn gwahaniaethu rhwng y 'Sacsoniaid' a'r 'English' wrth drafod dyfodiad y Normaniaid hefyd (2016, t. 124). Ar ôl hynny, mae'n gwahaniaethu rhwng y Normaniaid a'r Saeson (2016, e.e. t. 173). Wrth ysgrifennu am y brenin John a fu'n teyrnasu rhwng 1199–1216, mae'r Normaniaid ym Mhrydain bellach yn ymddangos fel Saeson, tra bod y rhai sydd o hyd yn Normandi yn Normaniaid (2016, tt. 185–6). Yn y *Breviary*, noda Llwyd fod y Cymry'n defnyddio'r ffurf Gymraeg am Saxons amdanynt; dywed: 'our countrymen, retaining the first name, do call all Englishmen Saeson, and their tongue Saesneg, and know not what these words 'England' or 'an Englishman' meaneth' (2016, t. 63). Adlewyrchir y farn hon gan Richard Davies. Nid yw'n gwahaniaethu rhwng y Saeson, yr Eingl, na'r Normaniaid, ymddangosant fel Saeson yn unig. Yn yr astudiaeth hon, ceir diffiniad syml o'r Saeson sef y bobl sy'n byw yn Lloegr ac yn siarad Saesneg; maent yn cael eu cyferbynnu â'r Cymry. Byddai astudiaeth o bwy yw'r Saeson yn ôl ffynonellau Cymreig yn werthfawr tu hwnt.

Gwneir hynny wrth ddangos sut y mae cyd-blethu'r Cymry a'r Saeson yn y naratifau yn ymgais i ddiffinio'r Cymry fel cenedl sydd mewn perthynas agos â'r Saeson.⁴⁶ Roedd Cymru a Lloegr bellach yn uned wleidyddol a chyfreithiol, rhoddwyd cynrychiolaeth i Gymru yn y Senedd, cafwyd ustusiaid heddwch yng Nghymru, a rhannwyd y wlad yn siroedd fel yn Lloegr. Cred Glanmor Williams i Siôn Prys fod ymhlith y Cymry a gafodd ddylanwad ar y deddfau (1993, t. 259). Ond myn Ceri Davies, er iddo gynghori Cromwell ar faterion Cymreig nid oes tystiolaeth gadarn o blaid ei ddylanwad arnynt (2015, t. xx). Mae'r rhan fwyaf o'r Cymry o'r cyfnod yn canmol y deddfau ac nid yw awduron yr astudiaeth hon yn wahanol.

Ceir cof diwylliannol y Cymry yn fframwaith cyfundrefn yr unfed ganrif ar bymtheg gan y testunau hyn. Mae gorffennol y Cymry'n cael ei naratfio ochr yn ochr â naratif Lloegr a phwysleisir yn gyson y cydwead sydd rhwng y ddwy genedl. Nid yw'r berthynas wedi bod yn heddychlon bob tro; trafodwyd eisoes gorthrwm ar y Cymry gan y Saeson a chyfeiriwyd hefyd at sut y gwrthryfelodd y Cymry; er hyn roedd yna berthynas o hyd. Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg, roedd y berthynas wedi newid yn nhyb yr awduron dan sylw. Er i'r Cymry gael eu gorchfygu ganrifoedd ynghynt, trwy'r Deddfau Uno mae'r genedl yn profi bendithion lu; noda Powel i hyn ddigwydd pan oedd Elisabeth yn ben ar y dywysogaeth:

The principalltie and countrie of *Wales* was by Parlement incorporated and united unto the kingdome of *England*, and all the inhabitants thereof made equall in freedomes, liberties, rights, priuileges, lawes, and in all other respects, to the naturall subiects of *England* (1584, t. 394)

⁴⁶ Am y Deddfau Uno ac uno Cymru a Lloegr gweler: Glanmor Williams, *Renewal and Reformation*, pennod 11. Ar gyfer derbyniad y Deddfau ymhlith haneswyr gweler: *idem*. 1995. 'Haneswyr a'r Deddfau Uno', Geraint H. Jenkins, gol., *Cof Cenedl X*, tt. 31–60; a Geraint H. Jenkins. 2008. "'Taphy-land Historians" and the Union of England and Wales 1536–2007', *Journal of Irish and Scottish Studies*, 1–28.

Canlyniad y Deddfau Uno yn ôl Powel oedd peri i Gymru fod yn wlad heddychlon a llewyrchus (1584, t. 396). Yn ychwanegol, cred Powel iddynt ddadwneud gorthrwm y goncwest; gwelir yn y bennod nesaf bod dehongliad Charles Edwards yn debyg.

Mae'r berthynas agos hon yn bwysig i'r Saeson hefyd, sef cynulleidfa dybiedig Llwyd a Powel. Er enghraifft, dywed Llwyd ei fod yn ysgrifennu ar gyfer y Saeson, a thrigolion yr ynys yn gyffredinol, yn *Cronica Walliae*: 'I wolde not have the inhabitantes of this Ile ignorant of the histories and cronicles of the same' (2016, t. 82). Yn ôl Llwyd, er mwyn deall hanes yr ynys gyfan rhaid deall hanes ei holl bobl. Oherwydd bod y Saeson bellach yn ceisio llywodraethu yng Nghymru rhaid iddynt wybod hanes y Cymry. O ganlyniad i hyn, honna Schwyzer fod Llwyd wrth ysgrifennu cronicle am Gymru yn ceisio dysgu'r Saeson amdanant eu hunain (2011, tt. 213–14).

Mae Llwyd, felly, yn synied am bobl yr ynys mewn termau cyfansawdd, a gwelwyd bod Powel a Prys yn gwneud hyn yn gyson. Er ei fod yn mynnu mai'r Cymry, ynghyd â phobl Cernyw a Llydaw, yw disgynyddion yr Hen Frutaniaid, erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg maent bellach ymhlith un o nifer o Brydeinwyr cyfoes yr ynys a gwelir hyn wrth iddo ddefnyddio'r term 'Cambro-Britons' fel y dadleua Schwyzer (2018). Cyfeiriwyd eisoes at ddefnydd y term gan Prys. O ganlyniad, gellid dadlau bod Llwyd yn ymagweddu at Brydain fel un ynys sy'n cynnwys nifer o bobl y gellid eu hystyried yn Brydeinwyr, ac i hynny gynnwys y Saeson.

Yn dilyn y Deddfau Uno, nid gelynion oedd y Cymry a'r Saeson mwyach, ond rhan o un deyrnas unedig. Gwelwn effaith hyn ar naratifau hanes Llwyd a Powel. Yn ôl hynny yr unig ffordd i ddeall hanes y deyrnas yn gywir oedd trwy ddeall hanes y bobl sy'n rhan ohoni; o ganlyniad daeth gorffennol y Cymry yn rhan o gof diwylliannol y deyrnas. Mae apêl at ddeall y profiad

Cymreig fel rhan o naratif yr ynys gyfan yn y testunau, yn ogystal ag apêl at gydnabod gorffennol amrywiol pobl y deyrnas. Cefnogir hyn gan Schwyzer sy'n dadlau:

Llwyd's decision to put this history into English reflected his deeply held belief that the history of Wales was, in a fundamental sense, the history of Britain, and hence of interest and consequence to all inhabitants of the island (2011, t. 16).

Gellid dadlau bod Llwyd a Powel yn ceisio hyrwyddo teyrnas amlddiwylliannol ac amlgenedlaethol.

Un nodwedd ar destunau Llwyd a Powel yw'r gyfatebiaeth sydd rhwng gorffennol y Cymry a'r Saeson. Er iddynt ganolbwyntio ar dywysogion Cymru, mae llawer o sôn am Loegr yn *Cronica Walliae a Historie of Cambria*. Dengys Powel fod cyfatebiaeth rhwng hanes y Cymry a'r Saeson wrth lunio penodau ar dywysogion Cymru ac iddo osod enwau brenhinoedd Lloegr ar frig pob dalen. Gwelwn y gyfatebiaeth mewn pennod ar Anarawd tywysog y Cymry yn y nawfed a'r ddegfed ganrif ymhle y treulir mwy o amser yn trafod y Brenin Alfred (1584, tt. 37–45). Roedd partneriaeth gyson rhwng y Cymry a'r Saeson yn erbyn gelynyddion eraill yn ôl Llwyd a Powel. Noda Llwyd werthfawrogiad y Brenin Harri II am gefnogaeth yr Arglwydd Rhys yn erbyn ei elynion yng Nghymru a Lloegr yn y ddeuddegfed ganrif (2016, t. 171). Roedd y Cymry wedi chwarae rhan bwysig wrth ddiogelu grym brenin Lloegr, felly, ac roedd ganddynt yr un swyddogaeth yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Er bod rhyfeloedd niferus rhwng y Cymry a'r Saeson bu cryn ymwneud rhyngddynt, gyda Chymru'n talu gwrogaeth gyson i frenin Lloegr fel y gwnaeth Hywel Dda i'r Brenin Athelstan yn y ddegfed ganrif (1584, t. 50). Nid yw cof diwylliannol y Cymry, fel y'i ceir gan Llwyd a Powel, yn annibynnol oddi wrth Loegr.

Cyfieithodd tad-cu Athelstan, y Brenin Alfred, gyfreithiau Dyfnwal Moelmud, hen frenin y Brutaniaid, o'r Gymraeg i'r Saesneg a'u rhoi'n ddeddf ar ei bobl yn ôl Powel (1584, t. 42; gweler hefyd Llwyd, 2016, t. 94). Nid yw Powel na Llwyd yn manylu ar gynnwys y deddfau hyn. Ond dyma dystiolaeth bellach fod yna gysylltiad rhwng y Cymry a'r Saeson. Roedd cysylltiad cyfreithiol, felly, yn bodoli rhyngddynt ganrifoedd cyn y Deddfau Uno. Mae hyn hefyd yn cael ei ddefnyddio i awgrymu bod y Cymry yn fwy gwaraidd na'r Saeson. Roedd ganddynt ddeddfau anrhydeddus eisoes a gorfu i'r Saeson droi at ddeddfau Brutanaidd gan nad oedd ganddynt eu rhai eu hunain.

Crea Llwyd gof diwylliannol sy'n adlewyrchu'r berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson; ar ddiwedd *Cronica Walliae*, dywed: 'After this there was nothings done in Wales worthy of memory, but that is to bee redde in the Englishe Cronicle' (2016, t. 224). Cred Llwyd nad oedd modd sôn am hanes Cymru ar ôl y goncwest Edwardaidd, yn hytrach mae'r hanes bellach i'w gael mewn croniclau Seisnig. Wrth wneud hyn dengys ymhellach y berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson. Roedd hanes Cymru wedi dod i ben. Gellid dadlau bod Llwyd yn honni y gellir gweld cof diwylliannol y Cymry mewn croniclau Seisnig, ac, felly, gellid awgrymu ei fod yn credu nad yw hanes y Cymry yn haeddu sylw fel pwnc neilltuol ar ôl iddynt golli eu hannibyniaeth. Gellid dadlau, felly, fod ganddo ddealltwriaeth genedlaethol o hanes, a'r ddealltwriaeth genedlaethol honno yn seiliedig ar ryw fath o sofraniaeth.

Barn wahanol a geir gan Powel. Yn ei dyb ef roedd cof diwylliannol neilltuol y Cymry yn parhau pan sefydlwyd y Dywysogaeth. Oherwydd hyn, dadleua Cull i Powel ddarlunio'r dywysogaeth fel ffordd o gynnig hanes Cymru fel endid annibynnol (2016). Gwelwn y cydwead rhwng Cymru a Lloegr oherwydd roedd bod yn Dywysog Cymru yn gyfle i hogi sgiliau rheoli cyn dod yn frenin Lloegr. Dylid ychwanegu at ddadl Cull, felly, fod y Dywysogaeth yn dangos cysylltiad

cryf rhwng Cymru a Lloegr oherwydd mab i frenin Lloegr oedd tywysog Cymru. Dadleuir yma nad yw Powel yn darlunio Cymru fel endid annibynnol, fel y cyfryw, yn hytrach ei fod yn ei darlunio fel endid sy'n ddibynnol ar Loegr, ond ni ddylid gresynu ynghylch hyn yn ôl Powel. Dadleuir yma ei fod yn ffordd o bwysleisio'r berthynas glos sydd rhwng y ddwy genedl. Nid yw hanes Cymru iddo ef yn gyfyngedig i gyfnod y Cymry fel cenedl annibynnol. Pan fu farw Llywelyn cafwyd diwedd ar hanes y tywysogion Cymreig neu'r 'Brytish Princes', nid diwedd ar hanes y Cymry (1584, t. 375). Roedd y Dywysogaeth i Powel yn gydnabyddiaeth o arwahanrwydd Cymru a Lloegr. Roedd hefyd, ac yn baradocsaidd, yn cydnabod y berthynas agos rhwng y ddwy wlad canys mai gwaed Seisnig oedd gan dywysog Cymru ac yn y pen draw y teyrn (1584, t. 376).

Ond nid oedd Llwyd a Powel yn derbyn y drefn fel ag yr oedd hi; roeddynt yn cymeradwyo'r drefn ac yn ceisio dylanwadu arni a'i haddasu er budd y Cymry hefyd. Wrth hyn, gwelwn hunanhyder y Cymry yn y deyrnas newydd, wrth iddynt geisio newid rhai elfennau o'r gyfundrefn. Wrth ddangos y berthynas agos rhwng y ddwy genedl, ceisiant ddylanwadu ar y berthynas honno. Er enghraifft, trafodwyd eisoes am yr awydd i adfer enw da'r Cymry yn wyneb sarhad croniclau Seisnig. Mae Powel a Llwyd yn ceisio dylanwadu ar y berthynas ac annog y Saeson i ddangos mwy o barch i'r Cymry gan ddangos eu rhinweddau da. Oherwydd hyn, dadleua Grace Jones fod Llwyd a Powel yn amlygu tensiynau'r wladwriaeth ac ar adegau yn tanseilio disgwrs trefedigaethol Seisnig a oedd yn dwyn anfri ar y Cymry (2012, t. 33). Yn sicr, roeddynt yn ceisio annog y Saeson i barchu'r Cymry a thrwy hynny ceir ymgais i danseilio disgwrs trefedigaethol. Ond, wrth gwrs, roeddynt o hyd yn deyrngar i'r goron, amodi'r drefn oedd y nod.

Ceisiant amodi'r drefn hefyd drwy amlinellu ffiniau Cymru a Lloegr. Cymru fawr oedd Cymru Llwyd a Powel. Iddynt hwy yr Afon Hafren oedd y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Nid eithriad

mo'r farn hon; credai John Leland hyn hefyd (Mottram & Prescott, 2012, t. 5). Cynhyrchwyd map gan Llwyd sy'n dangos mor fawr y dylai Cymru fod, gyda'i maint yn dyblu mewn lled mewn rhai manau. Caiff cof diwylliannol y Cymry o'r Gymru fawr ei fynegi'n gartograffegol, a gellid ei ddehongli fel ymgais i adennill tiroedd y gorffennol ac adfer y Cymry i'w breintiau tiriogaethol cyn eu gorchfygu gan y Sacsoniaid a'r Normaniaid. Fodd bynnag, nid y nod oedd ailsefydlu goruchafiaeth y Brutaniaid dros Brydain. Adargraffwyd y map bron 50 o weithiau, gyda'r olaf yn cael ei gyhoeddi yn 1740, ond nid ehangwyd tiroedd y Cymry (Schwyzer, 2001, t. 37). Mewn modd tebyg, cyhoeddwyd disgrifiadau Prys a Llwyd o Gymru gan Powel hefyd a oedd yn dangos pa mor fawr y dylai Cymru fod. Er i Llwyd a Powel ymffrostio yn y Deddfau Uno, roeddynt yn dymuno i hen diroedd y Cymry gael eu dychwelyd. Dadleua Schwyzer fod lleoedd yn Lloegr a fu yng Nghymru gynt yn sarhad i'r ddau oherwydd tiroedd Cymreig oedd Swydd Amwythig iddynt (2002, t. 20). Ni cheir cenhadaeth debyg gan Edwards ac Evans yn ddiweddarach, roedd ffiniau'r deyrnas erbyn hynny'n fwy sefydlog. Dymuna Llwyd a Powel i'r ffiniau ddychwelyd fel yr oeddynt pan y'i sefydlwyd gan Brutus wrth rannu Prydain rhwng ei dri mab, Locrinus a gafodd Loegr, Albanactus a gafodd yr Alban, a Kamber a gafodd Gymru, yn ôl afonydd yr ynys, sef ffiniau 'naturiol'. Ond nid y gorffennol oedd yr unig sail dros ddychwelyd y tiroedd hyn i'r Cymry; roedd siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn. Myn Llwyd yn *Cronica Walliae*: 'the Welshe tonge is commenly used and spoken one this side thees olde meares a greate way, as in Herforde shire, Glocester shire and in a greate parte of Shropshire' (2016, t. 67). Gwelwn fod Llwyd yn synied am Swydd Henffordd, Swydd Caerloyw, a Swydd Amwythig fel rhai y mae gan y Cymry hawl arnynt oherwydd bod ynddynt siaradwyr Cymraeg. Felly, roedd iaith, yn ogystal ag afonydd, yn ffordd o greu ffiniau ym

Mhrydain. Roedd siaradwyr Cymraeg o hyd yn cael eu magu ganrif yn ddiweddarach, canys i un o ddisgynyddion Humphrey Llwyd, Edward Llwyd gael ei eni a'i fagu yn Swydd Amwythig.



Ffigwr 1: Cambriae Typus

Roedd hen enwau Cymraeg ar ardaloedd ar draws Prydain yn dangos presenoldeb, os nad goruchfiaeth a hawl hanesyddol y Brutaniaid dros yr ynys gyfan. Honna'r *Breviary* mai enwau Cymraeg oedd ar lefydd megis 'Chichester' (Caercheri) yn wreiddiol (2011, t. 65). Bu sawl enw Cymraeg ar Lundain yn ôl Llwyd, fel 'Troy Newydd' ar ôl y sefydlwyr Groegaid, 'Dinas Beli' ar ôl llys Belinus, ac yna 'Caerlud' i goffáu mai dinas Lludd ydoedd, gelwir hi hefyd yn Lundain ganddynt (2011, t. 69). Mae sawl enghraifft ar draws Prydain gan gynnwys yn yr Alban gan Llwyd a dangos y bu'r Cymry unwaith yn feistriaid ar yr ynys gyfan (2011, t. 84). Cyfeirir at enwau lleoedd gan Siôn Prys hefyd. Gwna hyn er mwyn dangos hynafiaeth y Cymry ym Mhrydain, a dadlau mai pobl waraidd ydynt a fu'n byw mewn dinasoedd (2015, tt. 137–45). Felly, wrth gofio'r berthynas

rhwng y Cymry â'r Saeson, ceir cof diwylliannol sy'n haeru eu bod yn genhedloedd sydd yn rhyng-gysylltiedig â'i gilydd. Gwelwn hefyd fod gan y Brutaniaid oruchafiaeth hanesyddol ar yr ynys yn ôl yr awduron sydd o dan sylw yn y bennod hon.

2.6 Cofio'r hyn y dylai'r Cymry ei wneud

Gellid dehongli'r testunau hanes dyneiddiol hyn fel testunau cof diwylliannol oherwydd eu bod yn amlinellu hunaniaeth normadol y Cymry. Maent yn dangos normau'r Cymry, ac yn y testunau hyn ceir amlinelliad o arferion y Cymry a pha weithredoedd sy'n eu diffinio, neu ba rai a ddylai eu diffinio. Un testun yn unig sy'n dweud wrth y Cymry yr hyn y dylent ei wneud, sef 'Epistol' Davies oherwydd dyma'r unig destun a luniwyd yn benodol *ar gyfer* y Cymry, fel y gwelir o'r teitl a'r iaith. Dadleuir yma i Prys, Llwyd, a Powel ysgrifennu ar gyfer cenedloedd eraill a dehonglir eu testunau fel mynegiant o hunaniaeth normadol y Cymry ar gyfer cynulleidfaoedd eraill. Maent yn amlygu beth yw arferion y Cymry i bobl eraill â bwriad penodol, fel y gwyddys, i gywiro rhai syniadau cyfeiliornus amdanynt.

Gwelir yn nhestunau'r dyneiddwyr gyfatebiaeth rhwng sawl agwedd ar hunaniaethau ffurfiannol a normadol y Cymry, ac ni ddylid tynnu llinell haearnidd rhwng y ddwy. Er enghraifft, mae eu hunaniaeth ffurfiannol fel Brutaniaid yn eu dyrchafu fel cenedl; yn sgil hyn un o arferion y Cymry, neu un o'u normau, yw eu bod yn ymfalchïo yn eu hanes a'u hunaniaeth. Ymhellach, mae dewrder yn gymaint o nodwedd ffurfiannol ag yw'n norm cenedlaethol; hynny yw os yw'r Cymry yn bobl ddewr, mae hynny i'w weld yn eu hymddygiad. Mae'r ffydd Gristnogol yn enghraifft amlwg o hyn; gwelwyd eisoes y derbyniodd y Cymry'r ffydd yn gynnar; wrth hyn mae rheidrwydd arnynt i arddel y ffydd Gristnogol.

Ymfalchïo yn eu hanes a'u hunaniaeth

Un o normau'r Cymry yn ôl y testunau a astudir yn y bennod hon yw eu bod yn ymfalchïo yn eu hanes a'u hunaniaeth. Mae'r dyneiddwyr hyn yn cefnogi barn Lloyd Bowen: 'The Welsh of the sixteenth and seventeenth centuries were proverbially proud of their history' (2014, t. 135). Gall y Cymry ymffrostio yn y ffaith eu bod yn ddisgynyddion i'r Brutaniaid a'u bod yn perthyn i linach anrhydeddus. Un rheswm pam y digiwyd Prys ac eraill gymaint gan Vergil oedd oherwydd eu bod yn ymfalchïo yn eu hanes a'u hunaniaeth. Yng ngoleuni hyn, mae'r *Defensio* yn dangos ymffrost yn hanes a hunaniaeth y Cymry lawn gymaint ag yw'n ei amddiffyn. Honna Prys fod y Cymry yn ymfalchïo yn eu gorffennol ac wedi cofnodi'u hanes erioed, fel y dyfynnwyd eisoes (2015, t. 35). Mae Davies yn annog y Cymry i ymwneud â'u gorffennol, gan gyfeirio hefyd at yr holl destunau sy'n adrodd eu hanes, a dywed wrthynt: 'Coffa'r hen amser, ymofyn ath henafiaith, chwilia'r storiay' (1951, t. 17). Mae yntau'n dangos bod y Cymry yn ymfalchïo yn eu hanes wrth iddynt gofnodi gorffennol. Gwelwn falchder yng ngorffennol y Cymry, ac mae Davies yn eu hannog i gofio'u gorffennol a phwy ydynt.

Mae cofnodi'r gorffennol hefyd yn ffordd o ddangos bod y Cymry'n bobl waraidd; dadleua Daniel Woolf rhwng 1500 a 1700 i wybodaeth hanesyddol fod yn arwydd o wareidd-dra (2003, tt. 269–70). O weld y bu'r Cymry gynt yn ymffrostio ac yn cofnodi'u hanes, gellid dadlau yr awduron dan sylw yn dangos y dylai'r Cymry ymffrostio ymhellach yn y ffaith eu bod yn genedl waraidd. Mae'r awduron a astudir yn y bennod hon yn ymhyfrydu yn y traddodiad barddol, ac maent yn tynnu ar gerddi yn gyson fel ffynonellau, fel y dywedwyd eisoes. Credant fod y beirdd erioed wedi cofnodi'r gorffennol, eu bod yn ddysgedig, a'u bod wedi cynnal y ddysg a etifeddasant gan y derwyddon drwy'r canrifoedd. Mae Prys yn honni y bu Taliesin a'r ddau

Fyrddin yn hyddysg mewn dysg a llenyddiaeth Ladin (2015, t. 47). Wrth i'r Cymry ymhyfrydu yn eu gorffennol, gwelant eu bod yn genedl ddysgedig a diwylliedig. Mae Powel yn amlygu anrhydedd unigryw y beirdd Cymraeg wrth ddweud bod 'bardh' yn derm na ellid ei gyfieithu i'r Saesneg ac, felly, rhaid defnyddio'r term Cymraeg (1584, tt. 238–9). Myn Prys fod y beirdd yn profi hoffter y Cymry am y gorffennol:

The main reason why they cherish and venerate their poets or bards (another name they use for them is *prydyddion*, and it is my conjecture that they are the same as those called druids by the ancients), namely that they preserve and safeguard the rules and the purity of both the language and the ancient traditions of Britain (2015, t. 47).

Tyn Prys yn aml ar dystiolaeth farddol fel prawf o eirwiredd naratifau Prydeinig. Defnyddia Taliesin yn benodol i gefnogi naratif Sieffre am Arthur a brwydr Baddon (2015, t. 211). Un o brif nodweddion ysgrifennu hanes Cymry trwy'r cyfnod modern cynnar, mewn gwirionedd, yw ei bod yn gyson yn tynnu ar waith y beirdd. Caiff y beirdd eu defnyddio gan y dyneiddwyr dan sylw i brofi mai un o normau'r Cymry yw eu bod yn trysori'u gorffennol – dengys hefyd amlygrwydd y beirdd yn niwylliant hanesyddol y Cymry.

Mae'r Cymry hefyd yn genedl sy'n ymfalchïo yn eu hiaith. O gofio mai iaith oedd y brif ffordd o ddiffinio cenedl yn y cyfnod modern cynnar ac yng Nghymru, gellid dadlau bod cariad at iaith gyfystyr â chariad at genedl. Mae'r dyneiddwyr yn ymhyfrydu yn eu barn fod y Gymraeg yn iaith hynafol a Chlasurol sydd â thraddodiadau dysgedig ac ysgrifenedig. Gwelwn gariad y Cymry at eu hiaith oherwydd iddynt ei chynnal, fel y dywed Prys:

It is true that the ancient British tongue is preserved in greater purity among the Cambrians, as might be expected in view of the fact that they still occupy their ancient habitations and have not experienced foreign admixture (2015, t. 57).

I Prys, mae'r Cymry'n bobl sy'n trysori'u hiaith oherwydd eu bod wedi'i chadw yn ei phurdeb cysefin, ac y gwnaethpwyd hynny'n well na chenhedloedd eraill a siaradodd yr iaith Frutanaidd. Wrth ddehongli'r testunau hyn fel testunau cof diwylliannol, gwelwn eu bod yn dangos bod y Cymry yn ymffrostio yn eu hanes a'u hunaniaeth.

Duwioldeb a Phrotestaniaeth

Fel y nodwyd eisoes, mae dimensiwn normadol i hunaniaeth ffurfiannol y Cymry fel cenedl Gristnogol neu Brotestanaidd. Dylai'r Cymry fod yn Brotestaniaid a dylent ufuddhau i Dduw. Norm cenedlaethol yw duwioldeb, a chaiff y Cymry eu hannog i fod yn dduwiol ac i fod yn deilwng o'r breintiau y maent wedi eu derbyn. Mae hynafiaeth y ffydd Brotestanaidd ymhlith y Cymry i'w gweld yn eu harferion Protestanaidd. Er enghraifft, mae'r diarhebion a ddyfynnir gan Davies yn gwreiddio Protestaniaeth yn eu plith, a dywed y dylai'r Cymry fanteisio ar y diarhebion hyn. O gofio am y diarhebion a drafodwyd uchod yn yr 'Epistol', ceir anogaeth ar i'r Cymry roi gair Duw uwchlaw popeth ac i goleddu'r mab rhad fel y gwnâi'r Cymry gynt pan fathwyd y ddihareb (1951, tt. 31–6). Mae'n berthnasol nodi i Jan Assmann ddadlau bod diarhebion yn *genre* sy'n cynnig hunaniaeth normadol, ac yn dangos i grwpiau yr hyn y dylent ei wneud (2006, t. 38). Gellid dehongli diarhebion yr 'Epistol' fel testunau sy'n dweud wrth y Cymry yr hyn y dylent ei wneud, yn arbennig o safbwynt ei hymwneud â Duw.

Mae'r apêl normadol sy'n brithio'r 'Epistol' yn dod i'r amlwg wrth i Davies ddefnyddio'r ail berson unigol 'ti' a chyfarch y darllenydd unigol o Gymro. Mae'n siarad â'r Cymry fel unigolion: 'deffro dithe bellach Gymbro glan, vy annwyl, am caredig vrawt ynghrist Iesu' (1951, t. 18). Yn y dyfyniad, gwelwn y berthynas y mae'r awdur yn ei theimlo sydd rhyngddo â'i genedl, a cheisia ffurfio perthynas â hwy. Mae'n closio at y Cymry fel unigolion trwy ddefnyddio'r ail berson unigol.

Wrth wneud hynny ceisia Davies ddangos perthnasedd y ffydd iddynt a phwysleisio y dylent goleddu'r Testament Newydd fel unigolion; dywed: 'Cymer ef ith law, fymrawd, a darllain' (1951, t. 29). Caiff yr ail berson unigol ei ddefnyddio er mwyn annog y Cymry yn bersonol i ddefnyddio'r Testament Newydd. Mae'n manteisio ar ffurf y llythyr fel cyfrwng sy'n disgwyl cyfathrebu uniongyrchol rhwng awdur a chynulleidfa, ac yn tynnu ar draddodiad epistolaidd y Beibl yn ogystal. Er enghraifft, defnyddir yr ail berson unigol yn llythyrau bugeiliol yr Apostol Paul. Wrth ddefnyddio'r ail berson unigol, mae Davies yn annog y Cymro i 'ymofyn ath henafiait' (1951, t. 17), a'u hefelychu gan gadw'r ffydd 'yn bur ac yn ddilwgr' (1951, t. 20). Wrth greu cof diwylliannol, defnyddia Davies ei fersiwn ef o'r gorffennol fel ffordd i gynghori'r Cymry yn ei ddydd, a thrwy hynny cynigia hunaniaeth normadol iddynt.

Mae Davies yn siarsio'r Cymry i goleddu Cristnogaeth Brotestannaidd fel norm cenedlaethol, ac mae'n eu hannog hwy i 'ymgydnabot ath hen ffydd, a'r Christynogaeth ganmoladwy oedd cenyt gynt. Yma i cei'r ffydd a ymddiffynaist hyt at y tan a'r cleddyf, ac i merthyrwyt dy crefyddwyr ath rei dyscedig gynt yn i chweryl' (1951, t. 29). Un rheswm pam y dylent arfer y ffydd yw oherwydd ei bod yn ffydd a fu'n gyfarwydd iddynt ac yn ffydd y dioddefodd eu hynafiaid drosti. Cysyllta Davies Brotestaniaeth â phobl ddiodeffus y ffydd Gristnogol a oedd yn gyffredin ym merthyrolegau'r cyfnod gan John Foxe, er enghraifft. Roedd Davies yn mynnu i'r wir eglwys, sef yr eglwys Brotestannaidd, ddiodeff erledigaeth a merthyrdod ym mhob oes ac ym mhob gwlad (Sheils, 2017; Gregory, 1999). Mae diodeffaint y Cymry gynt yn brawf o'u huniongredded, a'u bod yn dilyn y patrwm ysgrythurol o ferthyra gan gofio am Steffan yn Actau'r Apostolion, yn ogystal â merthyron y byd Ewrofediteranaidd; mae hyn yn gwbl ganolog i'r *Ffydd Ddi-ffuant* fel y gwelir. Wrth gwrs, dywedodd Crist y byddai ei ddilynwyr yn cael eu herlid ym

Matthew 24:9, Luc 21:12, ac Ioan 15:18–20, oherwydd hyn roedd Luther ac eraill yn credu iddynt bregethu'r gwir ar sail yr erledigaeth a brofasant (Gregory, 1999, t. 149). Mae'r gorffennol hwn hefyd yn eiddo i'r Cymry a dylent fod yn ufudd fel yr oeddynt gynt oherwydd na ddioddefodd eu hynafiad yn ofer.

Rhy Davies fri ar natur ddioddefus y ffydd a dweud 'Gwaed y merthyron... a gateway'r ffydd yn gyfan, ac ae hennynnae yn eglurach' fel Protestaniaid eraill (1951, tt. 20–1). Mae dimensiwn trawsgenedlaethol ac Ewrofediteranaidd i hyn wrth i Davies gysylltu Protestaniaid yng Nghymru â merthyron y ffydd ar draws y byd Ewrofediteranaidd; y ddolen gyswllt yw ffydd, nid iaith. Mae'r cyfeiriadau at ddioddefaint yn anogaeth i'r Cymry i ddyfalbarhau oherwydd dioddef a fu hanes gwir ddilynwyr Crist erioed yn ei ôl ef. Byddai hyn wedi bod yn realiti byw wrth iddynt gofio am deyrnasiad Mari I, a gyfenwir yn Mari Waedlyd, a ddaeth i ben lai na degawd yn gynt; cyfnod pan roedd Davies wedi ffoi i'r cyfandir (gweler: Williams, G, 1953, tt. 16–24). Mae Davies yn annog y Cymry i efelychu ffyddlondeb y merthyron gynt; roedd erledigaeth yn brawf o uniongrededd y ffydd Brotestannaidd. Mae Davies yn dwyn mynachod Bangor-is-y-coed i gof a'u diffinio fel merthyron Protestannaidd a laddwyd ar gais Awstin o Gaergaint, cennad y Pab, sy'n symbol o raib, gormes, a thrais crefydd Rufain (1951, tt. 22–3). Roeddynt yn ferthyron a laddwyd gan elyn y ffydd, y Pab, ac efe a fu hefyd yn gyfrifol am y lladdfa yn ystod teyrnasiad Mari I. Mae Llwyd yntau yn beirniadu'r digwyddiad ym Mangor-is-y-coed yn y *Breviary*, ac yn condemnio Awstin ac Eglwys Rufain (2011, tt. 118–19).

Darlunnir Rhufain fel gelyn cenedlaethol y Cymry a oedd yn gyfrifol am ladd mynachod di-arfog ym Mangor-is-y-coed a llosgi llyfrau'r Cymry gan Davies. Yn ôl ei dystiolaeth ef, cadwyd y Cymry mewn cadwynau yn gaeth i ofergoel a gormodedd gan Rufain. Mae Davies yn eu hannog i

gadw draw o '[F]leiddie Rhuueniait', gan ddyfynnu Taliesin o'i Ddifregwawd o *Lyfr Coch Hergest* (1951, t. 38). Gan Llwyd, mae geiriau Taliesin, 'the noble clercke Ambrosius Telesinus', yn adlewyrchu Protestaniaeth gynhenid y Cymry i gynulleidfa Seisnig (2016, t. 185). Mae Llwyd yn cyfieithu'r un gerdd â Prys, a dywed:

therby hit may bee proved howe the Britons the first inhabitauntes of this Realme, dyd abhorre the Romishe doctryne taught in that tyme, which I am sure is nothingse amended nowe. And that may be to use a myrror to see our owne folly wherby we degenerat from our forefathers as well in religyon, as in other thinges (*ibid.*).

Yn y dyfyniad hwn, gwelwn wrthwynebiad i Gatholiaeth a hefyd ymwybyddiaeth o botensial y testunau i gael effaith ar y gymdeithas, a dymuna Llwyd na fyddai trigolion Prydain yn troi at Rufain. Mae David Powel yntau yn dyfynnu'r gerdd ac yn ymateb yn debyg i Llwyd gan bwysleisio i'r Brutaniaid wrthwynebu crefydd y Pab (1584, t. 255). Defnyddir yr un dyfyniad gan Taliesin gan Edwards ac Evans yn ddiweddarach i ddangos purdeb y ffydd Gristnogol ymhlith y Brutaniaid, a'u gwrthwynebiad i'r Pab. Mynnir y dylai'r Cymry efelychu eu hynafiaid a oedd wedi 'Gwrthod yn llwyr o Escopion y Brytaniait hwy ae dyscedig hynny gytuno' ag Awstin a'r Pab (1951, t. 23).

O edrych ar orffennol y Cymry, hefyd, gwêl Davies i Dduw edrych ar y genedl yn drugarog o oes i oes. Mae hyn yn dwyn disgwyliadau normadol ar y Cymry i fod yn ufudd iddo. Er enghraifft, anfonodd y ffydd atynt ym more'r genedl a'u hamddiffyn rhag heresiaïu trwy anfon esgobion Duwiol fel y trafodwyd eisoes (1951, t. 21). Mae trugaredd Duw o hyd ar waith yn ei gyfnod ef, dywed Davies 'yn benddifaddae mawr fu eu drugaredd yn eyn amser ni' (1951, t. 26). Daw'r bendithion hyn â disgwyliadau normadol, dywed wrth bob Cymro:

ti a ddylyt fod yn llawen, ac yn fawr dy ddiolch i Dduw, i ras y Urenhines, i vrddas, ac i gyffredin y deyrnas, sy yn adnewyddu dy fraint a th vrddas (vrddas tragwyddawl a ro Duw yddynt am hynny) (*ibid.*).

Mae trugaredd Duw tuag at y genedl yn eu hannog i fod yn dduwiol, i fod yn ffyddlon iddo, ac hefyd yn ddiolchgar.

Yn gysylltiedig â hyn, o fynnu mai norm y Cymry yw Protestaniaeth, pwysleisia nad oes lle i Gatholigiaeth yn eu plith. Yn ôl Davies, roedd Catholigiaeth yn grefydd estron, anghyfarwydd, ac yn bwysicaf oll yn grefydd cyfeiliornus. Disgrifia Davies Gatholigiaeth fel ffydd sy'n 'Gymyscedig a llawer o arddigonedd gosodigaythay dynion, a ceremoniae mution, anghytun a natur teyrnas Christ' (1951, t. 22). Ymhlith yr hyn a ychwanegwyd at Gristnogaeth gan Rufain, yn ôl Davies, oedd gweddïo ar y seintiau a phendefigaeth Esgob Rhufain (*ibid.*). Mae'r hyn a ychwanegwyd at y ffydd Gristnogol gan Gatholigiaeth yn ôl Davies yn anathema i'r ffydd; ni ddylai'r Cymry ddilyn y Pab.

Nid yw Catholigiaeth yn norm naturiol i'r Cymry yn ôl yr awduron hyn. Yn 2005 awgrymodd Angharad Price mai Beibl William Morgan yw'r 'llyfr mwyaf trefedigaethol [...] yn hanes Cymru' wrth drafod ei gyfieithu i'r Gymraeg yn yr unfed ganrif ar bymtheg (t. 82). Gan hynny, mae hi'n awgrymu mai rhan o ormes trefedigaethol Seisnig ar Gymru oedd cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg yn yr unfed ganrif ar bymtheg oherwydd y gorfodwyd y cyfieithiad ar y Cymry gan awydd y wladwriaeth i ymestyn ei grym drostynt. Yn sgil hynny, gellid maentumio ei bod yn dadlau mai rhan o'r gorthrwm trefedigaethol oedd Protestaniaeth oherwydd pwysigrwydd y Beibl fel unig sylfaen Protestaniaeth fel y gwelwyd. Nid dyna oedd safbwynt awduron yr astudiaeth hon; nid gorthrwm ar y Cymry oedd Protestaniaeth na'r Beibl iddynt. Wrth ddadansoddi'r testunau dan sylw yng nghyd-destun ystyriaethau ynghylch trefedigaethu, gellid dadlau bod y Diwygiad Protestannaidd yn dadwneud gorthrwm trefedigaethol. Yn eu tyb hwy, gorfodwyd Catholigiaeth ar y Cymry yn y chweched ganrif gan y Saeson, pan oedd y Cymry gynt

yn arfer Protestaniaeth. Felly, i Davies, Catholigiaeth yw'r ffydd drefedigaethol; rhyddfrenio a dadwneud gorthrwm oedd cyfieithu'r Beibl a sefydlu Protestaniaeth yng Nghymru, yn ogystal ag adfer eu ffydd wreiddiol. Adlewyrchir y farn hon gan Llwyd yn *Cronica Walliae* hefyd (2016, tt. 104–5). Dadleua Davies, cyn lladd esgobion y Cymry gan Awstin roedd yr eglwys ym Mhrydain yn ffyddlon i'r ffydd wreiddiol, sef Protestaniaeth. Dyma ddadl a welir drwy'r astudiaeth; fe'i defnyddiwyd i ddangos mai crefydd ormesol a gwaedlyd yw Catholigiaeth. Caiff y Cymry eu hannog yn normadol i ymbellhau oddi wrth Rufain sy'n 'eilun chrystynogaeth'; dylai'r Cymry ailafael yn eu Cristnogaeth gynnar (1951, tt. 22–3).

Wrth ddadlau nad yw Catholigiaeth yn norm cenedlaethol, chwery Davies ar ddrwgdybiaeth y Cymry am y Saeson gan gyfosod 'Chrystynogaeth y Brytaniait, ac amhuredd crefydd y Sayson' (1951, t. 24). Darlunnir Catholigiaeth gan Davies fel ffydd estron ac amhur, ac fel crefydd y Saeson; nid fel crefydd y Cymry, a oedd yn bur a Phrotestannaidd. Caiff aflwydd crefyddol y Cymry ei feio, felly, ar y Saeson. Canys, yn ôl y ddadl hon, y Saeson a yrrodd ynys Brydain i dywyllwch ysbrydol.

Mae Davies a'r dyneiddwyr eraill yn ceisio dangos, felly, fod duwioldeb, a Phrotestaniaeth yn benodol yn norm ymhlith y Cymry. Gwelwn dduwioldeb y Cymry a statws bwysig y ffydd Gristnogol yn eu plith wrth i Llwyd a Powel nodi i'w hesgobion farw yng nghanol naratifau am dywysogion Cymru, fel y gwnaethpwyd yn eu ffynonellau. Roedd y marwolaethau hyn yn ddigwyddiadau o bwys oherwydd roedd crefydd yn rhan mor amlwg o fywyd y Cymry, nid ydynt yn nodi mai Catholigion oedd yr esgobion hyn. Er enghraifft, dywed Powel yn 1099 '*Rythmarch Archbishop of S. Davids, sonne to Sulien (bishop) died, the godliest, wisest & greatest clerke that had beene in Wales manies yeaes before, sauing his father*' (1584, t. 156). Dengys hyn fod

esgobion yn uchel eu parch ymhlith y Cymry a bod eu bywydau fel cenedl a'u hanes yn troelli o amgylch y ffydd Gristnogol.

Mae duwioldeb yn ceisio cael ei sefydlu yn y testunau hyn fel norm hanesyddol wrth drafod arwyr y genedl yn ogystal. Gwelwn ffyddlondeb y Cymry i Dduw wrth i Cadwaladr gytuno i'w gynllun ar gyfer yr ynys gan beidio â cheisio adennill ei dir ar ôl i'r Saeson gipio tiroedd y Cymry yn *Historie of Cambria* (1584, tt. 3–5).⁴⁷ Dengys yr ymdriniaeth o Cadwaladr fod y Cymry yn genedl sy'n ufuddhau i Dduw, ni fyddai ildio teyrnas a'i holl bobl wedi bod yn benderfyniad rhwydd. Ond oherwydd ei fod yn ffyddlon i Dduw, fel gweddill y Cymry, dilynodd y gorchymyn. Mae Cadwaladr yn enghraifft o'r Cymry duwiol yn ogystal ag yn enghraifft sy'n annog y genedl i fod yn dduwiol. Gallai Powel wrth gofio'r gorffennol weld rhagluniaeth Duw yn gweithio er lles y Cymry canys y rhyddhawyd hwy yn eu ei dyb ef o'u gormes yn yr unfed ganrif ar bymtheg.

[Pobl ffyddlon i awdurdod cyfiawn](#)

Fel y dywedwyd eisoes, un o amcanion Llwyd a Powel oedd cywiro'r dehongliad o'r Cymry, fel cenedl anffyddlon a gwrthryfelgar, dehongliad a oedd ar led yng nghroniclau a thestunau hanes yn Lloegr. Er mwyn gwneud hyn, ceisiant ddangos mai un o normau'r genedl yw eu bod yn ffyddlon i awdurdod cyfiawn, a thrwy hynny ddangos eu normau i'r Saeson. Dengys Powel nad anffyddlondeb oedd y rheswm am eu gwrthryfela, ond yn hytrach gorthrwm ac annhegwch gan y Saeson, fel y dadleuwyd eisoes. I Powel roedd angen i'r genedl wrthwynebu cyfreithiau gormesol y Normaniaid oherwydd '[t]rueni'r Cymry dan ormes a rhaib y Normaniaid' yn ôl Ieuan M. Williams (1952–3, t. 222). Fel y dywed Cull, nid gwrthryfelwyr mo'r Cymry i Powel, ond

⁴⁷ Ar yr un tudalen, cyfeiria Powel hefyd at rai 'blind prophesies' gan Myrddin er enghraifft, a ddywed i Dduw benderfynu y byddai'r Brutaniaid heb reolaeth o'r ynys tan i'r broffwydoliaeth gael ei wireddu ac awgrymu gwrthwynebiad i ganu proffwydol yn y Gymraeg.

gwladgarwyr (2016, t. 78). Mae'n bosibl ychwanegu at y sylw hwn, oherwydd dywed y byddai'r Cymry'n ffyddlon i reolaeth gyfiawn. Crynhoir syniadau Powel gan Schwyzer a ddywed mai ei neges yw: 'where they are well-governed, the Welsh are a peaceable and law-abiding people' (2011, tt. 213–14).

Oherwydd mai un o normau'r Cymry yw eu bod yn ffyddlon i awdurdod sy'n eu rheoli'n deg ac yn gyfiawn mae polisïau tirion yn debygol o lwyddo yn eu plith. Dengys Schwyzer fod agenda benodol y tu ôl i hyn, ac mae Powel yn ceisio dilysu polisïau mwy goddefgar Sir Henry Sidney, Arglwydd Lywydd Cyngor y Mers (2011, t. 215). Roedd Sidney yn fwy ysgafnlaw ar y bobl yr oedd yn eu rheoli nag oedd eraill yn dymuno, a honna Schwyzer mai un o fwriadau Powel yw dangos 'the historical efficacy of lenience' (*ibid.*). Ceisia Powel ddylanwadu ar bolisi'r deyrnas yng Nghymru. Trwy'r testun pwysleisia Powel pan y caiff y Cymry eu gormesu maent yn gwrthryfela, gan ddadlau pe caent eu llywodraethu'n deg byddai heddwch. Roedd hyn, felly, yn cefnogi safiad Sidney. Mae normau'r Cymry'n rhan o'r ddadl am bolisïau Sidney yng Nghymru ac yn Iwerddon, â Sidney hefyd yn Arglwydd Is raglaw yn Iwerddon rhwng 1565–1567, 1568–1571 a 1575–1578 (Hutchinson, 2011, t. 71).⁴⁸ Gwlad o bobl wyllt o safbwynt y Goron oedd Iwerddon. Roedd anhrefn Iwerddon yn cyferbynnu'n drawiadol â'r drefn oedd i'w chael yng Nghymru yn nhyb Sidney a Powel ac felly cyfiawnheir rheolaeth ysgafnlaw. Dyma sy'n egluro'r heddwch cyfoes yn y wlad; dywed:

Now the countrie of Wales (I dare boldlie affirm it) is in as good order for quietnes and obedience as anie countrie in Europe: for if the rulers and

⁴⁸ Am bolisïau'r Goron yn Iwerddon o gymharu â Chymru gweler: Ciaran Brady. 1995. 'Comparable Histories?: Tudor Reform in Wales and Ireland', yn Steven G. Ellis a Sarah Barber, goln., *Conquest and Union: Fashioning a British State, 1485–1725*, tt. 64–86.

teachers be good and doo their duties, the people are willing to learne, readie to obeie, and loth to offend or displease (1584, d.t.).

Mae'r dyfyniad hwn gan Powel yn adleisio barn ei noddwr Henry Sidney a ddywed mewn llythyr yn 1583: 'A happy places of government it is, for a better people to govern or better subjects to their sovereign, Europe holdeth not' (dyfynnwyd yn: Williams, P., 1958, tt. 259–60). Mae ffyddlondeb i awdurdod cyfiawn fel norm ymhlith y Cymry i'w weld yn nheyrnasiadau sawl tywysog yn *Cronica Walliae*. Mae Llwyd yn canmol Hywel Dda fel rheolwr cyfiawn: 'for he was a prince that loued peace and good order and feared God' (2016, t. 99).

Gellid dadlau bod brad yntau'n norm yn y cof diwylliannol a geir ganddynt ac ymddengys brad yn gyson yn y *Drych* fel y gwelir yn y bennod olaf. Yn wir, mae Powel a Llwyd yn nodi llawer o enghreifftiau o'r Cymry'n brwydro'n erbyn ei gilydd ac yn eu beirniadu. Yn *Cronica Walliae*, dywed Llwyd 'This is a fayre and fertile countrey of which likewise the gentilmen were never obedient to ther Prince which was the cause of ther own destruction' (2016, t. 80). Cyfeiria Prys at hyn fel pechod cenedlaethol sy'n dwyn gwarth ar y Cymry, dyma oedd gwraidd y ffaith iddynt gollu'u tir (2015, t. 261). Nid rhywbeth unigryw i'r Cymry mo hyn. Roedd arweinwyr Lloegr hefyd yn brwydro'n erbyn ei gilydd, os oeddynt yn frodyr ai peidio; er enghraifft, bu brwydr rhwng William I a'i fab Robert Curthoys yn 1079 fel y dengys Llwyd yn *Cronica Walliae* (2016, t. 115). Felly, roedd yr Eingl-Normaniaid cynddrwg â'r Cymry. Er bod llawer o frwydro ymysg y Cymry yn ôl *Cronica Walliae* a *Historie of Cambria*, mae hefyd lawer o gyfnodau o heddwch. Nid yw rhyfel yn ddymunol ganddynt bob tro; pan maent yn rhyfela mae'n deillio gan mwyaf o dwyll a brad gan y Cymry eu hunain. Felly, dywed y testunau hyn nad yw'r Cymry yn bobl anhrefnus nac yn afreolus o'u natur, ond yn bobl sydd angen awdurdod cyfiawn drostynt i sicrhau heddwch.

2.7 Dylanwad y gynulleidfa dybiedig

Wrth asesu'r testunau hyn fel rhai sy'n mynegi cof diwylliannol, dadleuir bod gan gynulleidfa dybiedig ddylanwad arnynt. Mae hyn yn rhan o'r ddadl fod apêl at gynulleidfa dybiedig ymhlyg mewn testunau cof diwylliannol, oherwydd rhaid iddynt gael eu perchenogi fel cof. Hynny yw, llunnir y cof dan ddylanwad y cofwyr. Amcan yr adran hon yw asesu'r dylanwad hwnnw. Ysgrifennwyd y testunau a astudir yn y bennod hon ar gyfer cynulleidfa oedd penodol, ac mae ôl y cynulleidfa oedd hynny i'w gweld ar y testunau.

Mae dwy haen i gynulleidfa Prys yn y *Defensio*, yn gyntaf ysgrifenna ar gyfer Polydore Vergil a chynnig ymateb rhethregol iddo, ac yn ail ysgrifenna ar gyfer cynulleidfa ddysgedig ar draws Ewrop; er mwyn eu cyrraedd ill dau roedd rhaid iddo ysgrifennu yn Lladin. Ysgrifenna i ymateb i Vergil ac mae sawl cyfeiriad uniongyrchol ato yn y testun, megis: 'What cheek you have my dear Polydore, to dare call the British History a new work when it is so much older than yours!' ac nid eithriad mo ymosodiad y dyfyniad hwn (2015, t. 173). Un ffordd o gyfarch Vergil oedd trwy ymateb mewn iaith a oedd yn ddealladwy iddo, fel y dywed Prys: 'Nor would it be right to publish a response to a writer and speaker of Latin in a language which is foreign to him' (2015, t. 19). Dyma ddyfyniad sy'n awgrymu bod Prys yn ceisio sarhau dysg Vergil, a chred Ceri Davies efallai bod Prys yn bychanu gafael Vergil ar y Saesneg (2015, t. xlix).

Ond nid ar gyfer Vergil yn unig yr ysgrifenna Prys; roedd yn ceisio cyrraedd cynulleidfa ddysgedig y cyfandir, ac adfer enw da hanesyddiaeth Frutanaidd ar draws Ewrop. Ysgrifennodd yn Lladin er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl ac er mwyn cyrraedd cynulleidfa o ysgolheigion, fel y dadleua Ceri Davies (1980, t. 3) a Glanmor Williams (1998–9, t. 58). Rhan o gyrraedd cynulleidfa o ysgolheigion oedd ei ddefnydd o ddadleuon a dulliau dyneiddiol (Davies,

2005, t. 60). Roedd manteisio ar y dadleuon dyneiddiol yn ffordd o argyhoeddi'r gynulleidfa honno o hygredd hanes y Brutaniaid yn unol â'r ddysg gyfoes a'i fri ar y Clasuron a ffynonellau hynafol. Dylid nodi fod hyn yn berthnasol i *Fragmentum* Llwyd yn ogystal, a nod tebyg a yrrodd Powel i ysgrifennu yn Lladin a chyhoeddi crynodeb o *Historia* Sieffre a gweithiau Gerallt Gymro yn 1585, ys dengys Schwyzer (2011, t. 216).⁴⁹

Wrth i Prys a Llwyd amddiffyn hanes Prydain defnyddiant ffynonellau hynafol a oedd yn uchel eu bri ar y pryd. Bri cyfoes ymhlith eu cynulleidfa dybiedig oedd un rheswm dros ddyfynnu Tacitus, Lucan, Beda, a Gerallt Gymro, yn ogystal â'r ffaith eu bod yn cefnogi'u dadl. Honna Ceri Davies y dewisodd Prys ffynonellau penodol er mwyn ymateb i Vergil (2015, t. xlv). Pan ddyfynna o gerddi Cymraeg, gan dybio nad yw'r cerddi hyn neu'r iaith yn gyfarwydd i'w gynulleidfa, rhy Prys gyfieithiadau Lladin ohonynt fel y gellid eu deall ar draws Ewrop (2015, tt. 210–17). Mae sawl rheswm ychwanegol dros wneud hyn; yn gyntaf mae'n dangos i eraill ei fod yn driw i un o brif egwyddorion ysgolheictod dyneiddiol y cyfnod, sef *ad fontes*, a dengys y dyfyniadau fod gan y Cymry ffynonellau hynafol ac felly cânt eu dyrchafu.

Mae'r *Fragmentum* gan Llwyd yntau'n destun ar gyfer dysgedigion Ewrop. Yn wahanol i Prys, nid ar gyfer Vergil yr ysgrifennodd Llwyd, ond ar gyfer Ortelius fel y dywedwyd eisoes ac anfonodd fap o Brydain ato. Mae'r ffaith iddo anfon map ato yn dangos dylanwad y gynulleidfa ar Llwyd, canys cartograffydd oedd Ortelius (Schwyzer, gol., 2011, t. 1). Mae disgrifiadau manwl Llwyd o'r tir a'r afonydd a lleoedd ym Mhrydain yn y *Fragmentum* yn awgrymu ei fod yn ymwybodol fod y testun yn cyfoethogi dealltwriaeth gartograffegol o Brydain.⁵⁰ Cred Schwyzer,

⁴⁹ Gellid darllen rhagymadrodd Powel i'r testunau hyn yn Ceri Davies, gol. 1980. *Rhagymadroddion a Chyflwyniadau Lladin*, tt. 48–63

⁵⁰ Gweler, er enghraifft, y disgrifiadau o ardaloedd yng Nghymru gan Llwyd (2011, tt. 112–30).

ei fod yn bosibl y disgwylia Llwyd i'w waith, neu agweddau ohono, gael ei gyhoeddi gan Ortelius a chan ddefnyddio'r Lladin sicrhodd y gallai gyrraedd cynulleidfa ddysgedig y cyfandir (2011, t. 4). Er enghraifft, wrth iddo ddiffinio Cymru, Lloegr, a'r Alban disgrifia'r siroedd a'r ffiniau rhyngddynt; am Gymru dywed: 'the same is divided from Lloegr that is England, by the rivers Severn and Dee, and on every other side is environed by the Vergivian, or Irish Ocean' (2011, t. 98). Roedd arwyddocâd y testun i'r Saeson wedi ysgogi Thomas Twyne i'w gyfieithu yn 1573 'for the English reader's sake, which understandeth not the Latin tongue' (2011, t. 43). Credodd Twyne fod y testun yn mynegi cof diwylliannol yr ynys, ac felly y dylid ei gael yn y Saesneg yn ogystal.

Cynulleidfa Seisnig oedd i *Cronica Walliae a Historie of Cambria*, ar sail yr iaith a ddefnyddiwyd ganddynt. Yn fwy penodol, Saeson sy'n anwybodus o hanes holl bobl yr ynys oedd cynulleidfa dybiedig Llwyd (2016, t. 82). Dywed Ieuan M. Williams a J. Beverley Smith: 'his underlying purpose was to present what he regarded as the true history of Wales to readers outside its borders' (2016, t. 13). Ar y llaw arall, nid Saeson anwybodus yw cynulleidfa Powel; yn hytrach Saeson sy'n pardduo'r Cymry fel y dyfynnwyd eisoes.⁵¹ Gwelwn ddylanwad y gynulleidfa ar y testunau hyn wrth iddynt ymateb i'r anfri a fu ar y Cymry ac anwybodaeth y gynulleidfa dybiedig yn eu cylch.

Er mwyn cyrraedd y gynulleidfa hon roedd yn hanfodol ysgrifennu yn eu hiaith. Roedd defnyddio'r Saesneg hefyd yn hwyluso eu gallu i asio'u naratif am y Cymry ar naratif hanes Lloegr.

⁵¹ 'The second thing that mooued me thereunto, is the slanderous report of such writers, as in their bookes do inforce euerie thing that is done by the Welshmen to their discredit, leauing out all the causes and circumstances of the same: which doo most commonlie not onelie eleuate or dissemble all the iniuries and wrongs offered and done to the Welshmen, but also conceale or deface all the actes worthie of commendation atchieued by them' (1584, d.t).

Wrth hynny, mae Llwyd a Powel yn creu cof diwylliannol sydd yn diffinio'r deyrnas Duduraidd. Roedd cyfieithu yn nodwedd amlwg o ddiwylliant y cyfnod modern cynnar fel y dengys Newman a Tylus (2015) a Burke (2004; 2007a). Yn ôl Fred Schurink roedd cyfieithu'n un o brif nodweddion ysgrifennu yn Lloegr yr unfed ganrif ar bymtheg, a chyfieithiadau oedd tua chwarter o'r cyhoeddiadau (2011, tt. 1–4). Wrth gwrs, roedd nifer o destunau Cymraeg y cyfnod yn gyfieithiadau hefyd. Mae Demetriou a Tomlinson wedi dadlau bod cyfieithu'n dangos cysylltiadau rhwng diwylliannau (2015, t. 13). Dadleuir yma fod Powel a Llwyd yn dangos y cysylltiad rhwng y Cymry a'r Saeson wrth gyfieithu cof y Cymry i'r Saesneg.

Yng nghyd-destun y cof mae cyfieithu o bwys hefyd. Wrth i'r cof deithio ar draws ffiniau ieithyddol, mae'n hanfodol iddo gael ei gyfieithu yn ôl Jüncke: 'translations are the *conditio sine qua non* for memory's migration across those linguistic borders, which otherwise could not be transgressed' (2021, t. 2). Yn y bennod hon, dehonglir cyfieithu fel ffordd o drosi cof diwylliannol y Cymry i'r Saeson ac er mwyn creu cof i'r deyrnas gyfan. Ond roedd yr awydd i ddylanwadu ar y berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson; ceisiant greu cof i'r deyrnas a ddengys fod y Cymry a'r Saeson yn gyd-bartneriaid ac yn aelodau cyfartal o'r deyrnas.

Dywed Burke fod cyfieithu'n fath o fargeinio neu negodi, hynny yw mae'r neges wreiddiol yn cael ei haddasu wrth gael ei chyfieithu ar gyfer cynulleidfa newydd (2007a, t. 9). Ehangir ar hyn, a dywed: 'Another way of discussing cultural translation is to speak of a double process of decontextualization and recontextualization, first reaching out to appropriate something alien and then domesticating it' (2007a, t. 10). Gellid dadlau bod presenoldeb amlwg y dywysogaeth fel ffordd i ddeall cof y Cymry yn rhan o ddylanwad y gynulleidfa dybiedig ar Powel wrth iddo gynnig cyfieithiad diwylliannol. Canys roedd Cymru yn bodoli fel tywysogaeth yn yr unfed ganrif

ar bymtheg, a thrwy'r dywysogaeth y caiff ei gorffennol ei chofio yn y testun a ysgrifennwyd ar gyfer y Saeson. Un ffordd arall o addasu'r neges i fod yn fwy cyfarwydd i'r gynulleidfa dybiedig oedd trwy osod cof y Cymry mewn fframwaith Seisnig. Dyma a wna Powel wrth osod enwau brenhinoedd Lloegr ar frig y tudalennau wrth iddo adrodd hanes y Cymry.

Mae Llwyd a Powel yn ymwybodol eu bod yn cyfieithu testun Cymraeg ar gyfer cynulleidfa di-Gymraeg; maent yn egluro ystyr rhai enwau yn Saesneg. Yn y testunau hyn, gwelir dylanwad y gynulleidfa wrth i'r awduron geisio gosod eu testunau mewn cod ieithyddol sy'n gyfarwydd i'r gynulleidfa dybiedig. Er enghraifft, pan sonia Llwyd am Ifor yn *Cronica Walliae*, dywed: 'This Yvor is he which the Englishe Cronicle calleth Yve Kinge of West Saxons that reigned after Cedwall' (2016, t. 83). Sillefir ei enw fel y'i ceir yn y cronicl Seisnig. Nid yw Llwyd yn enwi'r cronicl; defnyddia'r enw 'English Cronicle' sawl tro am ffynonellau amrywiol megis *Historia Anglorum* gan Henry Huntingdon ac *Annales* Nicholas Trevet, mae'n bosibl mai casgliad o destunau oedd ganddo mewn meddwl (2016, tt. 32–8). Yn yr un modd pan sonia Llwyd am Madog ap Gruffudd yn adeiladu abaty dywed 'called in Englishe commenly Val Crucis' (2016, t. 186). Mae'n awgrymu mai'r ffurf Gymraeg yw 'Lhanguester', ni chyfeiriad at yr enw Cymraeg Glyn y Groes (*ibid.*). O safbwynt dadl yr adran hon, mae'n dangos ymwybyddiaeth ar ran Llwyd a Powel fod gan eu testunau gynulleidfa nad yw'n Gymraeg ei hiaith. Mae'n bosibl deall hyn fel un ffordd o gynnig cyfieithiad diwylliannol, a gosod y testun mewn cyd-destun sy'n gyfarwydd i'r gynulleidfa dybiedig.

Mae Ieuan M. Williams wedi beirniadu Powel am wthio 'i'w destun fanion nad a fynnon â Chymru o gwbl' (1952–3, t. 217). O ystyried cynulleidfa dybiedig y testun ac amcanion Powel, gellid dadlau bod cynnwys digwyddiadau yn Lloegr yn gwbl ganolog i'r hyn y ceisia'i gyflawni, sef

ysgrifennu ar gyfer y Saeson a dangos y cysylltiad sydd rhwng Cymru a Lloegr yn y gorffennol. Mae trafod digwyddiadau yn Lloegr gan gynnwys teyrnasiadau brenhinoedd, rhyfeloedd cartref, a sefydlu'r Senedd gyntaf yn deillio'n rhannol o ddylanwad y gynulleidfa dybiedig ar y naratif. Deillia hefyd o'i awydd i ddangos fod yna berthynas rhwng naratifau'r Cymry a'r Saeson. Roedd digwyddiadau yn Lloegr yn berthnasol i Gymru hefyd, fel y gwelir ar ôl y goncwest Normanaidd yn Lloegr yn yr unfed ganrif ar ddeg wrth iddynt ymosod ar Ddyfed a chipio Gwent (1584, t. 110). Er mai hanes Cymru a ysgrifennodd Powel, nid ar gyfer y Cymry y gwnaeth hynny. Gellid egluro ychwanegu'r manion-tu-hwnt-i-Gymru gan graffu ar ei gynulleidfa dybiedig. Ei fwriad oedd creu cof i'r deyrnas, fel y dadleuir yn gyson yn y bennod hon ac er mwyn gwneud hynny roedd angen dangos hanes y Saeson a'i gysylltu â hanes y Cymry. Dywed Jerry Hunter: 'Powel employs the past in the service of the present' a'r bwriad oedd hyrwyddo'r undod newydd (2016, t. 42).

Gwelwn ddylanwad y gynulleidfa ar destunau Llwyd a Powel hefyd ar y ffynonellau a ddefnyddir ganddynt; defnyddiant rai sy'n gyfarwydd i'r Saeson. Dywed Ieuan M. Williams wrth drafod *Historie of Cambria* 'brithir ymylon ei destun gan gyfeiriadau' at Groniclau Lloegr fel Croniclau Holinshed (1952–3, t. 216). Yn debyg i hyn, mae Llwyd yn cynnwys manylion o Beda, Matthew Paris, a Nicholas Trivet. Mae dylanwad y gynulleidfa dybiedig i'w weld, felly, wrth i Llwyd a Powel ddewis ffynonellau a oedd yn hysbys i'w cynulleidfa. Maent yn cynnig cof diwylliannol y Cymry iddynt mewn fframwaith hanesyddiaethol sy'n gyfarwydd iddynt. Roedd hyn yn hwyluso eu gallu i ddeall y naratif ac yn y pen draw ei berchenogi.

Cafodd y gynulleidfa dybiedig ddylanwad ar 'Epistol at y Cembrau' gan Richard Davies hefyd. Dyma'r unig destun Cymraeg sy'n cael sylw yn y bennod hon ac mae iaith y testun yn arwyddocaol. Mae Davies yn cyfarch y Cymry, fel y gwelir o deitl yr 'Epistol', epistol at y Cymry

ydyw. Mae Lloyd Bowen wedi dadlau bod sawl cynulleidfa i'r 'Epistol', megis cynulleidfa o weinidogion a phobl ddysgedig a fedrai'r Gymraeg, a hyn efallai sydd i gyfrif am y cyfeiriadau at feirdd, Tadau'r Eglwys, a'r dadleuon hanesyddol (2014, t. 140). Gellid deall hyn fel ymgais i osod yr 'Epistol' mewn cod cyffredin i'r gynulleidfa dybiedig gan dynnu ar destunau a oedd yn gyfarwydd iddynt eisoes. Honna Bowen ei fod hefyd yn apelio at Gymry cyffredin, mae hyn efallai yn egluro'r cyfarchiad uniongyrchol a chyffredinol at y genedl a'i gyfeiriad at eu gorffennol ysblennydd, a'u drwgdybiaeth at bethau Seisnig (*ibid.*). Dylid nodi y gall y Cymry dysgedig hefyd gael eu bodloni gan yr elfennau hyn o'r 'Epistol'. Mae'r diarhebion yn berthnasol o ystyried efallai y byddent yn cael eu defnyddio gan y Cymry, a gellid dadlau eu bod yn cyfuno diddordebau ysgolheigaidd a dyneiddiol yng Nghymru gyda'r diddordeb dyneiddiol mewn diarhebion. Cawn llythyr, felly, sy'n amlygu dealltwriaeth amlhaenog o Gymry ac awydd i gyrraedd pawb yn y genedl.

Wrth ddadansoddi'r llythyr, dywed Glanmor Williams fod iaith Davies yn agos at y Cymry (1953, t. 106). Nid yw Davies yn Lladineiddio'r Gymraeg fel y gwna William Salesbury ei gydgyfieithydd; mae Cymraeg yr 'Epistol' yn agosach at eu hiaith bob dydd. Mewn ffyrdd eraill mae'r iaith yn agos at y Cymry hefyd; ceir yn y llythyr gyfarchiadau uniongyrchol at y genedl, fel y dyfynnwyd eisoes, dywed wrthynt 'Gwrandaw etto y sy cenyf ith coffau amdanaw' (1951, t. 25), neu'r ganmoliaeth ar bolisi Elisabeth 'yn adnewyddu dy fraint a th vrddas' (1951, t. 26). Dyma ddwy enghraifft o gyfeirio uniongyrchol at y Cymry ac ymgais i glosio atynt fel unigolion er mwyn eu lles ysbrydol. Dadleua Lloyd Bowen ei fod yn dechneg sy'n creu perthynas rhwng yr awdur a'r gynulleidfa, a hefyd yn creu ymdeimlad o gymdeithas (2014, t. 140). Yn y bennod nesaf gwelwn fod Charles Edwards yn gwneud yn debyg.

Ffordd arall y mae Davies dan ddylanwad ei gynulleidfa dybiedig yw wrth iddo ymateb i bryderon cyffredin yn eu mysg. Yn ôl Glanmor Williams, ysgrifennodd i ddatrys pryderon cyfoes mai ffydd newydd oedd Protestaniaeth a ffydd a oedd yn cael ei gorfodi arnynt gan ormeswyr (1953, t. 102; 1997, t. 244). Mynna Davies nad yw'r ffydd yn newydd, na chwaith yn cael ei orfodi ar y genedl gan ormeswr. Yn hytrach, dyma eu 'hen ffydd' sy'n cael ei hadfer gan deyrnas sydd bellach yn eu gweld fel partneriaid, ac yn bwysicaf oll, mae'n un o fendithion Duw arnynt (1951, tt. 17, 26). Mae'n cael ei gosod arnynt oherwydd bod gan y frenhines gariad tuag atynt fel dinasyddion ei theyrnas. Cysyllta'r 'Epistol' y Diwygiad Protestannaidd â'r syniad o adfer a rhyddfrenio sydd wedi wreiddio yn hanes Cymry trwy broffwydoliaethau ar ôl rhaib a choncwest gan y Saeson, ac felly gwreiddir y testun yn niwylliant hanesyddol y Cymry. Gorfodwyd Catholigiaeth arnynt gan y Saeson a chawsant eu rhyddfrenio gan Dduw trwy blant Harri VII sydd o waed Brutanaidd.

Mynna Davies, fel y gwna Llwyd (2016, t. 184), mai ffydd y Saeson yw Catholigiaeth. Yn yr 'Epistol' mae Davies yn tynnu ar Sais-gasineb y Cymry a geir mewn testunau Cymreig er yr Oesoedd Canol, ac efallai drwgdybiaeth gyffredinol am y Saeson ymhlith ei gynulleidfa. O wybod fod traddodiad hi o fod yn amheus o'r Saeson ymhlith y Cymry, pwysleisir mai rhan o'r goncwest Seisnig oedd Catholigiaeth, a chyda'r Deddfau Uno a'r Diwygiad Protestannaidd cafodd y goncwest honno ei dadwneud. Wfftia Davies Gatholigaeth fel crefydd hen elynion y Cymry, ac fel crefydd heb hawl hanesyddol yn eu plith, fel y gwelwyd eisoes. Dywed Davies wrth y Cymro cyffredin: 'adnewydd[ir] dy fraint a th vrddas' (1951, t. 20). Dylanwada'r gynulleidfa ar y cof diwylliannol a geir gan Davies wrth i'w pryderon am ddieithrwch a Seisnigrwydd Protestaniaeth gael eu dadadeiladu yn ei Epistol. Gwyddai eu bod yn amau a cheisia ef ddatrys hynny.

2.8 Casgliad

Yn y bennod hon, dadansoddwyd testunau hanes gan Gymry amlwg yr unfed ganrif ar bymtheg fel testunau cof diwylliannol. Gwelwyd eu bod yn llunio naratifau o'r gorffennol sy'n diffinio'r Cymry ac yn amlinellu eu gorffennol. Er mai testun Richard Davies yw'r unig un y gellid ei berchenogi gan y Cymry, haerwyd y dylid deall testunau Lladin a Saesneg Syr Siôn Prys, Humphrey Llwyd a David Powel fel rhai sy'n mynegi cof diwylliannol y Cymry i gynulleidfaeodd sy'n cynnwys ysgolheigion ar draws Ewrop a'r Saeson. Dadleuwyd eu bod oll yn amddiffyn ac yn ymffrostio yn y naratif Sieffreaidd, ac yn ceisio llunio naratifau i gyd-weddu â datblygiadau dyneiddiol a Phrotestannaidd. Mae'r bennod wedi amlinellu cyd-destun mnemonig Charles Edwards a Theophilus Evans; roedd y testunau a astudiwyd yma'n sylfaen i'r modd y gwnaethant hwy ymagweddu at orffennol y Cymry yn eu testunau hwythau.

Yn rhan gyntaf y bennod, dadleuwyd bod y naratifau hyn yn cynnig cof diwylliannol wrth iddynt amlinellu'r hyn yw hunaniaeth ffurfiannol y Cymry, ac yn dweud wrthynt pwy ydynt. Gwelwyd bod y Cymry yn Frutaniaid, ac yn medru olrhain eu llinach at Gaerdroea, a'u bod yn ddisgynyddion i frodorion gwreiddiol yr ynys. Gwelwn hefyd eu bod yn genedl ddewr, waraidd, a dysgedig a fu gynt yn enwog am eu grym a'u hanrhydedd. Gwelwyd hefyd bod y Cymry'n genedl Ewrofediteranaidd ac yn rhan o naratif a gwaddol Ewrop a'r byd Mediteranaidd. Diffinnir y Cymry fel cenedl Gristnogol gan dynnu ar hanesion am sefydlu Cristnogaeth ym Mhrydain yn fuan ar ôl yr atgyfodiad. Dadleuwyd bod y cof diwylliannol dan ddylanwad y presennol gan ddangos mai'r ffydd Brotestannaidd a ddaethpwyd yn wreiddiol. Yn unol â natur amlgyfeiriol y cof, dadleuwyd eu bod hefyd yn diffinio'r Cymry fel cenedl sydd wedi'u cyd-weu â'r Saeson yn y gorffennol ac yn eu presennol, ond bod y berthynas honno wedi newid yn dilyn y Deddfau Uno a'r Diwygiad Protestannaidd. Bellach, mae'r Saeson yn rhyddfreinwyr yn hytrach nag yn ormeswyr.

Yn ail ran y bennod, datblygwyd y ddadl wrth ystyried y testunau hyn fel testunau cof diwylliannol wrth weld sut y mae'r naratifau yn amlinellu normau'r genedl. Ceir hunaniaeth normadol y Cymry yn y testunau hyn sy'n dangos eu bod yn genedl sy'n ymfalchïo yn eu hanes a'u hunaniaeth anrhydeddus fel cenedl hynafol a Chlasurol. Caiff duwioldeb ei hyrwyddo fel norm cenedlaethol gan Richard Davies yn arbennig, oherwydd y breintiau niferus y mae Duw wedi rhoi ar y Cymry dylent fod yn dduwiol a dilyn y ffydd Brotestannaidd. Yn olaf, gwelwyd bod y Cymry yn bobl sydd yn ffyddlon i awdurdod cyfiawn. Roedd hyn yn gwrthwynebu'r sen a daflwyd arnynt fel cenedl gan gronclau Seisnig, ac mae Llwyd a Powel yn ceisio dangos i'r Cymry wrthwynebu'r gormes, gorthrwm, a rhaib y Saeson fel y byddai pob cenedl wedi gwneud.

I gloi'r bennod, dadleuwyd i'r gynulleidfa dybiedig ddylanwadu ar y naratifau hyn. Gwelir ôl y dylanwad hwnnw ar sail yr iaith a ddefnyddir. Defnyddir Lladin i gyrraedd cynulleidfa ddysgedig a chyfandirol yn bennaf; defnyddir y Saesneg i gyrraedd y Saeson a'r Gymraeg i gyrraedd y Cymry. Ymhellach, gwelwyd bod yr awydd i gyrraedd cynulleidfa neilltuol yn dylanwadu ar y math o ffynonellau a ddefnyddir, er enghraifft, defnyddia Prys a Llwyd destunau Lladin, mewn modd tebyg cyfeirir at destunau Seisnig gan Powel a Llwyd wrth ysgrifennu'n Saesneg. Y bwriad oedd cynnig naratifau y gellid eu deall, ac yn achos y testunau Seisnig hyrwyddo'r gallu i'r gynulleidfa berchenogi'r naratif fel cof diwylliannol i'r deyrnas newydd sy'n dangos yr undod a'r bartneriaeth sydd rhwng y Cymry a'r Saeson. Roedd y gynulleidfa dybiedig yn ddylanwad hefyd ar Davies yn ei 'Epistol'. Dadleuwyd ei fod yn ceisio cyrraedd cynulleidfa amlhaenog o Gymry ac yn apelio atynt trwy amlinellu eu gorffennol anrhydeddus a lle'r ffydd Brotestannaidd yn y gorffennol hwnnw. Roedd y testunau hyn yn ddylanwad mawr ar sut yr

ymagweddwyd at orffennol y Cymry yn ystod y cyfnod modern cynnar, fel y gwelwn yn y penodau nesaf.

3. Y Ffydd Ddi-ffuant

3.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon, dadansoddir adran hanes *Y Ffydd Ddi-ffuant* gan Charles Edwards, yr anghydfurfiwr cymedrol yn nhyb D. Densil Morgan (2018, t. 225), fel enghraifft o gof diwylliannol y Cymry. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynnig dadansoddiad mnemohanesyddol o'r naratif, a holi sut y caiff y gorffennol ei gofio wrth astudio'r berthynas rhwng y cof a hunaniaeth Gymreig. Bydd y bennod yn dadlau bod adran hanes y *Ffydd* yn gosod y Cymry'n rhan o naratif Cristnogol y byd Ewrofediteranaidd â Duw rhagluniaethol wrth y llyw. Naratif hanes Cristnogaeth ar draws y byd Ewrofediteranaidd sydd gennym yn y *Ffydd*, ac mae hynt a helynt y ffydd yng Nghymru yn rhan o'r naratif cyffredinol hwnnw.

Mae'r gyfrol yn dweud ei bod yn olrhain hanes y ffydd ddiffuant drwy'r canrifoedd. Daw'r term 'y ffydd ddi-ffuant' o ail lythyr yr Apostol Paul at Timotheus, ymhle y dywed yr Apostol wrth Timotheus ei fod yn 'fawr ewyllysio dy weled, gan gofio dy ddagrau, fel y'm llanwer o lawenydd; Gan alw i'm cof y ffydd ddiffuant sydd ynot ti' (2 Tim 1: 4–5). Yn nhyb Edwards, y ffydd Gristnogol ydyw yn ei phurdeb, dyma'r ffydd Gristnogol hanesyddol; dywed fod 'achau'r ffydd (y argraphwyd eusus) yn gwirio Duw yn dâd iddi' (t. 215).⁵² Nid ffydd newydd ydyw gan y tardda o Lyfr Genesis. Mynnir mai dyma'r ffydd a oedd gan Adda ac Efa, yr Iddewon, a'r ffydd a bregethwyd gan Grist a'i Apostolion yn ddiweddarach. Yn ogystal, dyma'r ffydd a gadwyd yn bur tan i Rufain ei llygru, ac a adferwyd yn ystod y Diwygiad Protestannaidd. Mae gwreiddiau hanesyddol y ffydd yn fanylach yn y testun hwn o gymharu â'r 'Epistol' a astudiwyd yn y bennod flaenorol.

⁵² Daw'r holl ddyfyniadau o argraffiad 1677.

Egyr y *Ffydd* gan ddweud ‘Dyledus i ni chwilio helynt y Ffydd ymhob oes ac ymhob gwlad’ (t. 1). Cred Edwards fod rheidrwydd ar Gristnogion i wybod am hanes eu ffydd. Mae’n tynnu ar Deuteronomium 4:32–3 i annog ei gynulleidfa dybiedig i ‘Ymofyn yn awr am y dyddiau gynt’, ac i ystyried gweithredoedd Duw. Honna Jan Assmann i destunau hanes yr Hen Destament gofio’r gorffennol er mwyn diffinio a chynghori cenedl Israel (2006; 2010), mae’r deunydd Cymreig yn yr astudiaeth hon, ac yn arbennig *Y Ffydd Ddi-ffuant*, yn cofio’r gorffennol er mwyn diffinio a chynghori’r Cymry. Wrth fod yn destun sy’n mynegi cof diwylliannol, cynigia’r *Ffydd* hunaniaeth ffurfiannol a normadol i’r Cymry. Dadleuir yn y bennod hon fod cysylltiad cryf yn y testun rhwng pwy yw’r Cymry, sef eu hunaniaeth ffurfiannol, a’r hyn y dylent ei wneud, sef eu hunaniaeth normadol; diffinnir y genedl fel cenedl Gristnogol, ac yn sgil hynny mae iddi normau sydd yn seiliedig ar y ffydd Gristnogol. O safbwynt hunaniaeth ffurfiannol, gwelir bod y Cymry’n genedl sy’n byw ym Mhrydain ac wedi’u bendithio gan Dduw ac iddynt dderbyn yr efengyl yn ei phurdeb. Oherwydd y bendithion hyn, dylent fod yn ffyddlon i Dduw. O safbwynt hunaniaeth normadol, dyrchefir y ffydd ddiffuant, fel y ffydd y dylid ei harfer. Yma, hefyd, asesir sut y mae’r *Ffydd Ddi-ffuant* yn apelio at gynulleidfa dybiedig. Dadleuir bod apêl gyfunol ar waith er mwyn dwyn perswâd ar y gynulleidfa sydd gan Edwards mewn golwg i fyw’n dduwiol. Yn ogystal, dadleuir bod apêl genedlaethol y *Ffydd* yn tynnu ar wybodaeth Edwards am y Cymry.

Yn ôl G. J. Williams, Charles Edwards yw prif feistr rhyddiaith Gymraeg rhwng Morgan Llwyd ac Ellis Wynne (1936, t. lxvi). *Y Ffydd Ddi-ffuant* yw ‘un o glasuron diymwad rhyddiaith Gymraeg’ ym marn R. Geraint Gruffydd (1979, t. 77). Ysgrifennwyd y testun a’i argraffu deirgwaith yn 1667, 1671, ac yn 1677. Roedd pob argraffiad yn hwy na’r un blaenorol. Yn yr astudiaeth hon, defnyddir y trydydd argraffiad, sef y llawnaf a’r campwaith yn nhyb Derec Llwyd

Morgan (1969, t. 83). Yn ogystal, rheswm arall y defnyddir yr argraffiad hwn yw oherwydd y dywed Edwards iddo 'orphen yr hyn a ragfwriadaswn' (d.t.). Iddo ef, felly, dyma'r testun gorffenedig.

Roedd yr argraffiad cyntaf yn gymharol fyr ac yn adrodd helynt credinwyr y ffydd gan ganolbwyntio ar Loegr. I bob pwrpas hanes crefyddol Seisnig drwy gyfrwng y Gymraeg a gyhoeddwyd yn 1667. Daeth newid mawr i'r testun erbyn 1671. Erbyn hynny, credai Edwards fod ei destun yn anghyflawn, felly ychwanegodd naratif yn amlygu perthynas Duw â'r genedl Gymraeg mewn pedair pennod yn trafod hanes y ffydd ymhlith y Cymry. Ym marn Derec Llwyd Morgan, ffrwyth tröedigaeth wladgarol a brofodd Edwards oedd hyn, yn sgil darllen 'Epistol at y Cemburu' gan Richard Davies a rhagair Morys Kyffin i'w gyfieithiad o *Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr* gan John Jewel a gyhoeddwyd yn 1595; dyma ddau destun a oedd yn trafod hanes y ffydd ymhlith y Cymry (1969, t. 86). Cafodd y testunau hyn gryn argraff ar Edwards, ac fe'u hadargraffwyd ganddo yn *Dad-seiniad meibion y daran* yn 1671. Tri dylanwad arall o bwys arno oedd testunau gan Sieffre o Fynwy, *Historie of Cambria* gan David Powel a drafodwyd yn y bennod flaenorol, a *Cambria Triumphans* gan Percie Enderbie sy'n ceisio dangos gogoniant hanesyddol y Cymry (1661).⁵³ Gellid deall y *Ffydd* fel testun sy'n cyfuno dealltwriaeth Gildas, John Foxe, a David Powel o hanes â gweledigaeth Brotestannaidd Richard Davies a datblygir hyn drwy'r bennod. Ceir yn y *Ffydd* yr ymdriniaeth gyntaf mewn print o hanes y Cymry yn y Gymraeg ac mae'r naratif yn deall cenedligrwydd y Cymry yn rhagluniaethol ac yn wladgarol, yn nhyb D. Densil Morgan (2018, t.

⁵³ Gweler: D. Myrddin Lloyd. 1953. 'ENDERBIE, PERCY c. 1606 – 1670, hanesydd a hynafiaethydd', *Y Bywgraffiadur Cymreig*, [Ar-lein], <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ENDE-PER-1661> (Gwelwyd: 29 Tachwedd 2021), a Derec Llwyd Morgan. 1967. 'A critical study of the works of Charles Edwards (1628–1691?)', Traethawd PhD, Prifysgol Rhydychen, tt. 156–63.

228). Erbyn y trydydd argraffiad, ehangodd ar y naratif gan gynnwys rhagor o hanes y ffydd Gristnogol ymhlith y Cymry. Yn y bennod hon, ychwanegir at y drafodaeth ar Edwards gan fanylu ar hunaniaeth Gymreig wrth iddo greu cof diwylliannol.

Ymranna'r trydydd argraffiad yn dair rhan.⁵⁴ Mae'r adran gyntaf ar hanes y ffydd yn y byd ac yng Nghymru. Mae'n dechrau â'r creu ac yn mynd hyd at y Diwygiad Protestannaidd ym mhenodau 1–15, wedyn mae'n troi at hanes y ffydd yng Nghymru o ddyfodiad yr efengyl hyd at ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg ym mhenodau 16–19. Rhydd Edwards sylw manwl i Gildas a dyneiddwyr blaenllaw wrth iddynt ledaenu'r ffydd ymhlith y Cymry hyd at y 1670au.⁵⁵ Gwelwn, felly, fod cof diwylliannol a chof cyfathrebol yn rhannu ffin hydraiddd yn y *Ffydd*. Mae'r naratif yn pontio rhwng cof sydd wedi ei wreiddio mewn profiadau a chof sydd y tu hwnt i brofiadau, neu gof trawsenedliadol, ac felly'n gof sy'n ddibynnol ar ddiwylliant fel cyfrwng (Assmann, J. 2008, tt. 109–18). Wedyn, mae dwy adran ar y ffydd ddiffuant ei hun, y naill ar sicrwydd y ffydd a'r llall ar ei rhinwedd. I gloi'r gyfrol, mae math o atodiad â chasgliad o benodau amrywiol: ceir athrawiaeth beirdd Cymry i ddangos y buont yn arddel y ffydd ddiffuant; tablau yn dangos tebygrwydd geirfa ac idiomau Cymraeg a'r Hebraeg; cyfarwyddiadau i ddarllen Cymraeg; geirfa anghyfarwydd i bobl y de; a cherdd gan Hugh Salisbury o Glocaenog a ddarllenodd y proflenni, o bosibl.

⁵⁴ Ceir crynodeb hwylus o gynnwys y *Ffydd* yn D. Densil Morgan. 2018. *Theologia Cambrensis: Protestant Religion and Theology in Wales I From Reformation to Revival 1588–1760*, yn arbennig tt. 226–30.

⁵⁵ Rhyfedd yw peidio â gweld sôn uniongyrchol yn y *Ffydd* am y Rhyfeloedd Cartref ac eithrio pedair brawddeg ar dudalen 148 a sylw ar dudalen 209 ymhle y cyfeirir atynt fel rhyfeloedd am ryddid crefyddol, fel a gafwyd yn Ffrainc a'r Almaen. Nid oes sôn uniongyrchol am flynyddoedd y Senedd Gafalîr a oedd yn llunio polisïau a oedd yn ôl Matthew Neufeld yn ymdrechu i wahardd y sawl a gafodd y bai am achosi'r rhyfel o bob awdurdod a swydd yn y wladwriaeth (2013, t. 10). Gellid dadlau y dilyna Edwards drefn Mesur E bargofiant (Act of Oblivion) a basiwyd yn 1660 er mwyn hyrwyddo anghofio ar draws y deyrnas yn dilyn erchyllterau'r blynyddoedd diweddar. Am brofiad Edwards a'i debyg yn y cyfnod hwn, gweler: Geraint H. Jenkins. 1992. *Protestant Dissenters in Wales 1639–1688*; Alan P. F. Sell, gol. 2012. *The Great Ejectment of 1662: Its Antecedents, Aftermath and Ecumenical Significance*.

Mae'r *Ffydd* wedi cael ei ddadansoddi gan rai o brif ysgolheigion y Gymraeg fel G. J. Williams (1936), Saunders Lewis (1973), R. Geraint Gruffydd (1979), a M. Wynn Thomas (1997). Ond gwaith Derec Llwyd Morgan, sy'n deillio o'i ymchwil PhD, yw congflaen pob astudiaeth arno (1967; 1994). Yr hyn sy'n nodweddu'r drafodaeth yw parch mawr at y testun fel clasur llenyddol sydd ag argyhoeddiad crefyddol dwys a chenhadaeth dros achub eneidiau. Rhai o nodweddion eraill y drafodaeth yw dyled a pherthynas naratif y *Ffydd* i naratif tra dylanwadol John Foxe, *Acts and Monuments* a gyfenwir yn *Book of Martyrs*, yn ogystal â phwyslais ar sut y mae Cymru'n cael ei chyfosod ag Israel. Bydd yr astudiaeth hon yn ychwanegu at y drafodaeth gan astudio'r naratif fel cof diwylliannol y Cymry.

Yn y bennod hon archwilir dealltwriaeth Edwards o'r gorffennol mewn perthynas â hunaniaeth Gymreig. Wrth wneud hyn dadleuir y caiff y gorffennol ei gofio er mwyn ei berchenogi gan y Cymry, a'i fod yn diffinio hunaniaeth y Cymry yn ffurfiannol ac yn normadol. Nodwyd gan Derec Llwyd Morgan y 'Bu iddo ran nerthol yng nghadwraeth ac yn natblygiad ein hunaniaeth' a llwyddodd i osod 'ein lle ni'r Cymry ymhlith y cenhedloedd' (1994, t. 62). Datblygir y ddadl hon wrth asesu'r berthynas rhwng Cymru a'r byd.

3.2 Etifeddion y Britaniaid

Mae Edwards yn diffinio'r Cymry fel etifeddion, neu weddillion, y 'Britaniaid'; dywed: 'Nid ydym ni heddyw ond tipin o weddill y Britaniaid' (t. 211).⁵⁶ Fel yn y bennod ddiwethaf gwelwn gysylltiad â'r Brythoniaid, neu'r Britaniaid gynt, ond mae'r modd y mae'r *Ffydd* yn ymdrin â'r cysylltiad yn wahanol. Yma '[g]weddill y Britaniaid' ydynt, nid y Britaniaid. Mae cymhlethdod yn y *Ffydd*, sydd efallai'n deillio o ddyled yr awdur i destunau hanesyddol o Loegr sy'n amau bodolaeth Brutus,

⁵⁶ Yn y bennod hon, defnyddir sillafiad Edwards.

megis *Britannia* gan William Camden (1586). Gellid dadlau bod sillafu 'Britaniaid' heb 'u' yn ymgais i ymbellhau o hanes Brutus, ond gallai hefyd ddangos ei ddyled i ffynonellau Saesneg, sy'n defnyddio'r ffurf 'Britons'; mae'r sillafiad hefyd i'w weld mewn testunau sydd yn ceisio symud oddi wrth Sieffre, gan William Camden er enghraifft. Nid yw Edwards yn enwi Brutus o gwbl yn y *Ffydd*, felly anodd yw barnu ei safbwynt ar y myth.

Gellid dehongli'r tawelwch fel arwydd o ansicrwydd yn ei gylch, ac efallai fel awydd i anghofio'r elfennau mwyaf amheus o hanes y Cymry. Ond nid yw tawelwch bob tro'n brawf o awydd i anghofio, fel y dadleua Zerubavel, gall tawelwch hyrwyddo cofio a defnyddia'r idiom Seisnig 'the elephant in the room' fel fframwaith i gyfiawnhau hynny (2006). Mae'n bosibl nad yw Edwards yn sôn am Brutus oherwydd nad oes a wnelo'r Groegiwr ddim â hanes y ffydd ymhlith y Cymry, ac felly nid yw ei absenoldeb yn ymgais i'w gofio na'i anghofio. Mae'r Cymry wedi'u cysylltu â'r Britaniaid yn y *Ffydd* heb i Edwards nodi eu bod yn ddisgynyddion i Brutus, roedd hyn yn anarferol i naratifau hanes Cymru ar y pryd, fel y gwelir trwy'r astudiaeth. Ond nid yw Edwards yn egluro pam y gelwir y Cymry'n 'Fritaniaid', na chwaith pam y gelwir yr ynys yn 'Brydain'. Fodd bynnag, cynhwysa weithiau gan William Morgan yn yr unfed ganrif ar bymtheg sy'n galw'r Cymry'n Fritaniaid wrth ganmol cariad arbennig Elisabeth tuag at y genedl (t. 202).⁵⁷ Yn y bennod hon, caiff 'gweddillion' ei ddehongli fel awgrym nad yw'r Cymry yn Fritaniaid mwyach, eithr yn ddisgynyddion iddynt, sy'n wahanol i'r hyn a welwyd yn y bennod flaenorol wrth drafod testunau hanes yr unfed ganrif ar bymtheg (cymharer â *GPC*, 'gweddillon').

Mae'r Cymry, fel disgynyddion y Britaniaid, yn genedl anrhydeddus sy'n gallu olrhain eu llinach at hynafiaid nodedig, fel y gwelwyd yn y bennod ddiwethaf. Caiff ffigurau amlwg yn naratif

⁵⁷ Cyfieitha'r llythyr hwn o'r Lladin, a them William Morgan yw 'Brytannorum' (1588, d.t.)

ysbrydol y genedl, fel Gildas, eu blaenoriaethu ar draul cewri milwrol, fel y gwna Llwyd a Powel. Gellid dadlau bod Edwards, felly, yn datblygu hanesyddiaeth yng Nghymru gan beidio â chanolbwyntio ar frenhinoedd, tywysogion, a rhyfeloedd a brwydrau niferus rhwng grymoedd bydol, ac yn hytrach canolbwyntia ar faterion ysbrydol. Ffocws Edwards yw'r frwydr ysbrydol, ac yn benodol y frwydr ysbrydol rhwng Duw a'r un drwg.

Mae'r cysylltiad gyda'r Britaniaid yn arwyddocaol o hyd ac mae'n rhan o'u hunaniaeth.

Mae'r Cymry yn ddisgynyddion i wladychwyr gwreiddiol Prydain a ddaeth 'o'r dwyrain':

Diammau fod ein Cenedl ni er ys hîr amser wedi gwladychu yn yr ynys hon, a thebygol ei dyfod ar y cyntaf oddiwirth wledydd y dwyrein, gan fod cymaint carenydd rhwng ein iaith ni ag ieithoedd y parthau hynny (t. 150).

Er nad yw Edwards yn dechrau hanes y Cymry gyda Brutus, mae'n tynnu ar y farn draddodiadol mai'r Cymry yw brodorion gwreiddiol yr ynys, a gellid dadlau ymhlyg yn y dyfyniad y mae cysylltiad â Brutus. Yn y dyfyniad uchod, awgrymir bod cysylltiad rhwng y Gymraeg a'r Hebraeg a Groeg, sef iaith dwy genedl hynafol ac arwyddocaol yng nghyd-destun hanes cynnar y byd Ewrofediteranaidd, a thrafodir hyn yn y man. Mae Edwards, felly, yn gosod tarddiad y Cymry mewn cyd-destun Ewrofediteranaidd. Hyrwyddir, hefyd, gof am hynafiaeth y Cymry ar yr ynys ac iddynt fod yn ganolog i'w hanes gan enwi manau penodol, megis 'Llundain' a alwyd yn 'Gaer-Ludd' ar ôl y Brenin Lludd, fel y gwelwyd gan Prys yn y bennod ddiwethaf (2015, t. 151).

Defnyddia Edwards y term Britaniaid ar gyfer y Cymry pan oeddynt yn rheoli'r ynys gyfan hyd at farwolaeth Brenin Cadwaladr gan efelychu Powel, felly. Ar ôl hynny, gweddillion y Britaniaid yw'r Cymry, ond nid hwy yw'r unig rai, a dyma reswm arall dros beidio â dehongli bod y Cymry gyfystyr â'r Britaniaid yn y *Ffydd*. Yn ôl Edwards, arhosodd ychydig o weddillion y Britaniaid yng ngogledd Lloegr yn ardal 'Cumbria i Glascu rhwng y Saeson a'r Pictiaid' (t. 190).

Ond dywed nad ydynt yn Fritaniaid mwyach nac yn Gymry ychwaith am iddynt golli'u hiaith. Awgryma hyn mai cymuned ieithyddol oedd cenedl iddo, neu o leiaf mai iaith oedd sylfaen Cymreictod. Mae Edwards yn efelychu pwyslais y dyneiddwyr ar gysylltiad ieithyddol rhwng y Cymry a'r Britaniaid, ac yn sgil hyn gwelwn fod yr iaith yn ffurfiannol bwysig i genedligrwydd.

Gweddill cenedl yw'r Cymry i Edwards, fel y dywedwyd: 'Nid ydym ni heddyw ond tipin o weddill y Britaniaid' (t. 211), cyfeiriad sy'n dwyn i gof Eseiā 10:22 am weddill Israel fel y noda Derec Llwyd Morgan (1993, t. 24). Mae'r dyfyniad yn cyfateb i'r hyn a geir ar ddiwedd *Historia Sieffre* hefyd (Reeve a Wright, gol., 2007, t. 280). Y Gymraeg sy'n cysylltu'r Cymry â'r Britaniaid yn y *Ffydd*. Hwyrach, felly, mai dyma graidd y tensiwn: mae'r brif ffordd o ddiffinio cenedl, sef ar sail iaith, yn gyffredin i'r Britaniaid a'r Cymry, er bod tiroedd a sofraniaeth y ddau yn wahanol. Mae'r *Ffydd*, fel yn nhestunau'r bennod ddiwethaf, yn deall cenedl fel cymuned ieithyddol gan ddangos bod iaith yn ffurfiannol bwysig i hunaniaeth genedlaethol a bod y Cymry'n ddisgynyddion i drigolion gwreiddiol Prydain.

3.3 Perthynas y Cymry a'r byd

Diffinnir y Cymry fel cenedl sy'n rhan o brif ffrwd gwareiddiad môr y canoldir yn Ewrop yn y *Ffydd*, ac fe'i diffinnir wrth hynny fel cenedl drawsgenedlaethol, hynny yw mae ganddynt gysylltiadau diwylliannol â chenedloedd eraill. Yn hyn o beth, mae Edwards yn eu cysylltu â chenedloedd i'r dwyrain, ac yn arbennig y dwyrain canol, sy'n dangos bod y term Ewrofediteranaidd yn berthnasol wrth drafod y *Ffydd* (t. 150). Yn ieithyddol cysylltir y Gymraeg â'r Hebraeg, a gwelwn fod geirfa ac idiomau tebyg gan y ddwy iaith yn atodiad Edwards i'r *Ffydd* a'r *Specimen*, pamffled Lladin sy'n ceisio dangos y berthynas rhwng y Gymraeg a'r Hebraeg (1675). Roedd yn gyffredin i ysgolheigion Cymraeg yn y cyfnod modern cynnar ddadlau bod y Gymraeg yn debyg i'r Hebraeg;

gelwir y sawl sy'n gwneud hyn yn 'Gomeriaid Cymraeg' gan Colin Kidd (1999, t. 69). Yn eu plith roedd Dr. John Davies Mallwyd a Theophilus Evans (Davies, C. 2000; Jongeling, K. 1999, tt. 71–93; Pope, E., 2004, tt. 121–145). Fel hwy, cred Charles Edwards mai un o dafodieithoedd yr Hebraeg yw'r Gymraeg, ac mai'r Hebraeg yw mamiaith y Gymraeg (t. 394). Tebygrwydd arall ym meddwl Edwards oedd bod 'llefariad... [y ddwy iaith] yn dyfod oddiwrth gyffiniau y galon' (t. 150).

Yn y *Ffydd*, fel yn y testunau a astudiwyd yn y bennod ddiwethaf, caiff y Cymry eu diffinio fel cenedl sydd â pherthynas â Groeg yn ogystal:

Yr ydoedd cydnabyddiaeth rhwng ein gwlad ni â'r Groegiaid. Canys darlennir i Bladud brenin Prydain fyned ir Athen er mwyn dysceidiaeth: a phan ddychwelodd adref dŷg bedwar o Philosophyddion oddiyno gyda'g ef i ddysgu'r celfyddydau yma; ac i hynny seiliodd ysgolion dysc, ac wedi hynny bu'r Druidion yn ddyscawdwy'r doethion o Baganiaid (tt. 150–1)

Caiff y Cymry eu dyrchafu fel cenedl ac iddi hunaniaeth fel cenedl Glasurol. Mae'n cadw'r cysylltiad â Groeg, er nad oes sôn am Frutus, oherwydd i Bladdud a oedd yn frenin Prydain fynd i Athen i gael dysg, a chaiff y ddysg honno ei throsglwyddo i'r derwyddon. Caiff y derwyddon eu cofio heb gywilyddio at eu paganiaeth oherwydd eu bod yn rhan o wareiddiad gorllewinol Groeg. Mae'r cysylltiad hwn yn bwysig gan ei fod yn diffinio'r Cymry fel cenedl sydd â gwreiddiau hŷn na'r Rhufeiniaid, nodweddd amlwg o gof diwylliannol y Cymry gan ddyneiddwyr y bennod flaenorol, yn arbennig Prys.

Caiff y Cymry hefyd eu cysylltu â'r byd Rhufeinig yn y *Ffydd*. Mae Cystennin Fawr, yr Ymerawdwr Rhufeinig a gyfreithlonodd Gristnogaeth yma hefyd yn cael ei hawlio fel aelod o genedl y Cymry: dywed Edwards fod ei fam, Helen, yn benadures ym Mhrydain (tt. 154–5). Fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol, haerir bod olrhain hanes Cystennin yn ffordd i Edwards gofio'r

Cymry fel cenedl Ewrofediteranaidd. Yn ôl y *Ffydd*, aeth llawer o hynafiaid y Cymry i ymuno â byddinoedd Cystennin a chyfrannu at amddiffyn uniongrededd y ffydd oherwydd cysylltiad Prydeinig yr ymerodraeth; bydd hyn yn rhan o ymdriniaeth y *Drych* â Chystennin yn ogystal, fel y gwelir yn y bennod nesaf.

Eto er gwaethaf y cyswllt hwn â Rhufain, dywed fod y Cymry ymhlith y nifer o genhedloedd a wrthwynebodd yr Ymerodraeth Rufeinig; felly maent yn rhan o orffennol Ewrofediteranaidd gwrth-Rufeinig yn ôl y *Ffydd*. Er i Edwards ymddangos yn lled-gefnogol i Cystennin Fawr, caiff hynafiaid y Cymry eu cofio fel cenedl rymus, a wrthwynebodd Rufain yn llwyddiannus; dywed: 'ynnillodd y Britanniaid eu rhydd-did gan ddifetha y Rhufeiniaid' (t. 154). Roedd nifer o haneswyr Protestannaidd Seisnig yn ymfalchïo yn y ffaith mai'r Britaniaid oedd yr olaf i ildio i'r Ymerodraeth Rufeinig, a theyrnas Fritanaidd oedd y gyntaf i adael yr Eglwys Gatholig yn y cyfnod modern cynnar. Mae Edwards yn mynnu nas concwerwyd hwy gan Rufain, yn hytrach 'heddychasant' â'r ymerodraeth (*ibid.*). Mae hyn yn wahanol i Prys a ddywed iddynt gael eu concro, er nad yw concwest gan Rufain yn anfri canys eu bod mor rymus. Yn wahanol i hyn, myn Edwards iddynt ymuno o'u gwirfodd. Gellid dadlau y caiff hynafiaid y Cymry eu diffinio fel cenedl sydd wedi gwrthwynebu grym imperialaidd Rhufain a'i chyfundrefn Gatholig, ac y gwnaethant ymuno â'r ymerodraeth o'u gwirfodd. Gan hynny mae Edwards yn tanseilio credoau ynghylch cryfder yr ymerodraeth Rufeinig. Dyma'r *Ffydd*, felly, yn cefnogi dadl Curran a ddywed y bu gwrthwynebiad i rym Rhufain, yr ymerodraeth a'r Babyddiaeth, yn nodwedd amlwg o ysgrifennu hanes ym Mhrydain rhwng 1530 a 1660 (2002). Ond mae'r *Ffydd* hefyd yn annog ehangu sgôp cronolegol dadl Curran i fod yn ddiweddarach na 1660. Yn y bennod nesaf, gwelwn, hefyd, fod gwrth-Rufeiniaeth (anti-Romanism) yn nodwedd amlwg o'r *Drych* yn y ddeunawfed ganrif.

Gwelwn wrth-Rufeiniaeth ymhellach wrth i Edwards ddangos nad yw Rhufain yn tra-arglwyddiaethu ar y byd Ewrofediteranaidd. Mae Edwards yn diwygio sut y caiff y byd Ewrofediteranaidd ei gofio gan ddweud, er enghraifft, i Saint Padrig, cenhadwr Iwerddon, gael addysg yn Gallia gyda Garmon a Martin yn gyntaf 'Ac oddiyno Cyrchodd i Rufain, lle cafodd hyfforddiant a chymdeithion i ddychwelyd i'r Iwerddon' (t. 158). Drwy adrodd am daith addysgol Padrig, mae Edwards yn cydnabod statws amlwg Rhufain, ond hefyd yn mynnu nad oedd gan Rufain hawl gynhenid fel canolfan i Gristnogaeth Ymhellach, dengys Edwards fod Cymru a Thyddewi yn benodol yn gyffelyb i Rufain, er bod Rhufain o hyd yn bwysicach, oherwydd y gallai Cristion gael 'Cymaint adeiladaeth i'w enaid wrth fynd yn Bererin yno ddwywaith, ac y gai o fyned i Rufain unwaith' (t. 159). Wrth wneud hyn, mae Edwards yn pwysleisio fod yna fwy i'r gorffennol Ewrofediteranaidd na Rhufain.

Caiff y Cymry eu cysylltu hefyd â dwy genedl hynafol arall o Ewrop. Yn gyntaf, fe'i cysylltir â llwyth nodedig y 'Cimbri', sef 'cenedl enwog o'r gogledd' a fu ar eu hanterth yn yr ail ganrif CC (t. 151). Dywed Edwards yn y *Ffydd* y daw enw'r Cimbriaid o 'Cambria', sef merch Beli, brenin Prydain, a roddwyd yn wraig i arweinwyr un o lwythau gogledd Germania; mae hyn, felly, yn wahanol i Sieffre (*ibid.*; gweler: Reeve a Wright, gol., 2007). Daeth y cysylltiad rhwng y Cymry a'r Cimbri yn fwy cyffredin yn y cyfnod modern cynnar â William Camden ymhlith y rhai a'i hyrwyddai (Kidd, 1999, tt. 63–4; Davies, C. 2000, tt. 10, 17). Mae'r cyswllt hwn yn dyfnhau gwreiddiau Ewropeaidd y Cymry, ac wrth i Charles Edwards eu cysylltu â chenedl Germanaidd gellid dadlau bod awgrym cynnil o gysylltiad gyda'r Sacsoniaid, ac, efallai'n fwy arwyddocaol, â Martin Luther a chrud Protestaniaeth.

Er mwyn gosod y Cymry mewn cyd-destun Ewrofediteranaidd pwysleisir hefyd eu cysylltiad â'r Galiaid, fel y gwnaethpwyd gan Prys a Davies. Sail y tebygrwydd yw'r cysylltiad ieithyddol sy'n brawf o gysylltiad ethnig yn ôl meddwl y cyfnod. Fel Camden, Leibniz, a'r awduron a astudiwyd yn y bennod flaenorol, cred Edwards y bu yn Ffrainc lwyth Fritanaidd cyn i'r Ffrancwyr ymsefydlu yno, ac mai enw Ffrainc ar y pryd oedd Gâl (t. 186; Stewart, 2019, tt. 81–94). Wrth gysylltu'r Cymry â'r Galiaid gwelwn, hefyd, wrth-Rufeiniaeth oherwydd gwrthwynebasant Cesar ac anfon '[b]yddun gynorthwyiol i Gallia yn erbyn Cæsar' (t. 151). Tra bod Prys yn manylu ar y cysylltiadau rhwng y Cymry a Gâl, mae Edwards yn mynnu i'r cysylltiad hwnnw ennyn cefnogaeth gwrth-ymerodrol. Ymhellach, ar ddechau'r bumed ganrif maent yn dilyn Macsen, fel y dywed Prys, sy'n ceisio '[d]iswyddo ei feistreid ymerodron Rhufain, a chymeryd eu llê hwynt' (t. 155). Mae'r cysylltiad â'r Galiaid yn dyfnhau cysylltiadau trawsgenedlaethol y Cymry ac yn eu darlunio fel cenedl a wrthwynebodd Rufain. Mae cysylltiadau crefyddol rhwng y Cymry â 'Gallia' yn ogystal, gydag esgobion yn dod o'r cyfandir er mwyn diogelu'r ffydd ym Mhrydain rhag heresiaïau (t. 157). Datblygir hyn yn ddiweddarach yn y bennod wrth drafod sut y mae'r cof diwylliannol a geir yn y *Ffydd* yn diffinio'r Cymry fel cenedl dan fendith Duw.

Ffordd arall o ddefnyddio cof diwylliannol y Cymry i ddangos eu bod yn genedl Ewrofediteranaidd yw'r sôn am y ffydd Gristnogol, a dangos bod hanes cyffredinol Cristnogaeth yn eiddo i'r Cymry. Er y gwahaniaethau diwylliannol rhwng Cristnogion amrywiol, mae ganddynt hanes cyffredin, boed o'r Dwyrain Canol, gogledd Affrica, Groeg, neu Brâg. Wrth i'r Cymry arddel a choleddu'r ffydd ddiffuant, dengys Edwards y gallent uniaethu drwy'r cof â phob Cristion ar hyd hanes ac ar draws y byd. Mae'n gosod y Cymry, felly, yn rhan o dreftadaeth Gristnogol sy'n

drawsgenedlaethol. Mae hyn yn fanylach nag y ceir gan Richard Davies, ac mae Edwards yn ddyledus i John Foxe yn hyn o beth a wnaeth yn debyg wrth adrodd hanes merthyron Cristnogol.

Mae'n arwyddocaol bod Charles Edwards yn gosod hanes y ffydd ymhlith y Cymry yn dilyn ei naratif ar hanes y ffydd yn y byd; mae'n enghraifft benodol o batrwm cyffredinol. Dywed Derec Llwyd Morgan: 'Nid oes odid ddim perthynas rhyngddi a'r adran ar hanes y ffydd yn y byd achos nid adrodd hanes Cymru yng nghyd-destun hanes y byd a wnaeth Edwards, ond ei neilltuo, megis y neilltuir hanes Israel yn yr Hen Destament' (1969b, t. 86). Yn y traethawd hwn, gwrthwynebir ei farn a dadlau bod cysylltiad rhwng naratif y ffydd yng Nghymru a naratif y ffydd yn y byd. Deillia'r cysylltiad o'r ffaith bod nifer o egwyddorion cyffredinol hanes y *Ffydd* yn codi yn y naratif ar orffennol y Cymry. Mae Edwards yn awyddus i bwysleisio perthnasedd naratif y Cymry i'r naratif rhyngwladol. Dyma pam y cyhoeddodd hanes y ffydd yng Nghymru yn yr ail argraffiad yn 1671; barnodd fod y gwreiddiol yn 1667 yn anghyflawn ar sail ei gynulleidfa dybiedig, fel y trafodir yn y man. Gan dynnu ar drafodaethau ynghylch cof cosmopolitanaidd, gwelwn fod cysylltiad rhwng y ddwy adran. Diffinnir cosmopolitaniaeth yng nghyd-destun y cof fel a ganlyn gan Daniel Levy a Nathan Sznajder:

cosmopolitanism refers to a process of 'internal globalization' through which global concerns become part of local experiences of an increasing number of people. Global media representations, among others, create new cosmopolitan memories, providing new epistemological vantage points and emerging moral-political interdependencies (2002, t. 87).

Mae Edwards wrth gynnwys y ddwy adran yn asio profiad Ewrofediteranaidd a thrawsgenedlaethol Cristnogion ar draws y byd ar i gof diwylliannol y Cymry a dangos eu bod o gonsyrn i'r Cymry fel rhan o gymuned Gristnogol.

Mae i strwythur y *Ffydd* le pwysig yn y drafodaeth hon wrth i Edwards fynd o gyd-destun rhyngwladol y ffydd at gyd-destun y Cymry. Mynegodd Saunders Lewis hyn yn gofiadwy a honni i Edwards fynd o'r macrocosmos i'r meicrocosmos, a'r penllanw yw enaid yr unigolyn yn 'Rhinwedd y ffydd' (1973, tt. 181–2). Hynny yw, mae gwirioneddau cyffredinol y gorffennol yn cael eu hadlewyrchu yng ngorffennol penodol y Cymry, fel Israel yr Hen Destament. Drwy leoli hanes y ffydd yng Nghymru yn y modd hwn, darlunnir cenedl sy'n rhan o naratif Ewrofediteranaidd y ffydd Gristnogol, hefyd cynigia astudiaeth achos o brofiad cyffredinol. Yng ngoleuni astudiaethau cof diwylliannol, a chaiff hyn ei ddehongli fel naratif cyffredinol sydd o bwys i'r Cymry fel Cristnogion – gwelwn yr hyn sy'n gyffredin i Gristnogion ar draws y byd, yn ffurfiannol ac yn normadol, a'r hyn sy'n benodol Cymreig.

Mae consŷrn rhyngwladol yn nodwedd gref o'r *Ffydd*, ac mae wedi'i wreiddio yng nghosmopolitaniaeth y ffydd Gristnogol. Yn ôl Edwards ffenomen drawsgenedlaethol, trawsddiwylliannol, a thrawsgyfandirol yw'r ffydd Gristnogol, ac oherwydd bod y Cymry yn Gristnogion maent yn rhan o'r gymuned amlgenedlaethol hon. Dadleua Chovanec fod dimensiwn trawsgenedlaethol cryf i'r ffydd Brotestannaidd yn arbennig. Pan sonnir am 'yr eglwys', corff o Gristnogion o bob cenedl ac iaith oedd dan sylw (2020, tt. 2–3). Mae Edwards yn adlewyrchu hyn wrth gynnwys hynt a helynt y ffydd Gristnogol, a thrwy hynny wrth 'eglwys' golygir Cristnogion o bob gwlad (cymharer â *GPC*, 'eglwys'). Er bod Levy a Sznajder yn dadlau mai ffenomen fodern yn unig yw'r safbwynt rhyngwladol hwn, cefnoga'r *Ffydd Ddi-ffuant* farn Pollmann i gof cosmopolitanaidd fodoli yn y cyfnod modern cynnar, ac mai crefydd oedd y sylfaen. Dadleua Pollmann: 'Believers were invited to see themselves as part of a transnational religious community, and this included frequent references to a shared past of suffering, exile, and

martyrdom, as well as shared victories' (2017, tt. 180–1). Mae Edwards yntau yn gwahodd y Cymry i synied amdanynt hwy eu hunain fel rhan o gymuned Gristnogol drawsgenedlaethol; er enghraifft, sonia am Gristnogion yn y Swistir (tt. 117–18) ac yn Ffrainc a'r Iseldiroedd (t. 141) i ddangos bod hynt a helynt Cristnogion o bwys i'r Cymry fel Cristnogion.

Oherwydd hyn, honna Chovanec: 'The most committed Protestants were also the most transnational' (2020, t. 9). Mae naratif Edwards yn dangos ymrwymiad i ddimensiwn trawsgenedlaethol Protestaniaeth sydd wedi'i wreiddio yn y byd Ewrofediteranaidd, er y byddai wedi dymuno gweld y ffydd yn lledaenu ar draws yr holl fyd. Pwysleisia Edwards wrth wneud hyn er bod y Cymry'n byw ar ynys nid yw eu hanes wedi'i ynysu na'i neilltuo oddi wrth y gorffennol cyffredinol.

Ffenomen drawsgenedlaethol yw'r ffydd Gristnogol i Edwards; mae'n croesi ffiniau cenedlaethol ac yn sylfaen i'r naratif cyfandirol a rhyngwladol a geir ganddo. Mae i'r Cymry rôl bwysig yn hanes Cristnogaeth Ewrofediteranaidd, canys yn 306 O.C.: 'O prydain y pryd hyn y dechreuodd Duw weithio dywygiad yn y byd drwy Cwstenyn Fawr' (t. 154). Gellid dadlau, yn ôl y *Ffydd* mai sail i rôl ganolog Prydain, a hynafiaid y Cymry, yn hanes Cristnogaeth trawsgenedlaethol yw Cystennin. Dylid nodi, fodd bynnag, y byddai lledaeniad y ffydd trwy Cystennin wedi bod mewn gofod Ewrofediteranaidd yn bennaf, os nad yn unig, er y defnyddir terminoleg rhyngwladol gan Edwards. Roedd cyfraniad trigolion Prydain i naratif crefyddol y byd Ewrofediteranaidd yn destun balchder i Edwards, fel y mae i Evans yn ddiweddarach.

Caiff y Cymry eu cofio fel cenedl sy'n rhan o brif ffrwd naratif y cyfandir a gwychder eglwys Brydain yn y *Ffydd*. Mae hyn yn eu dyrchafu: 'Cydnabyddir hyn yn anrhydedd i prydain, *oleu etewyn o eiriau ei Sancteiddrwydd y lewyrchodd i'r ymerodraeth oll*' (*ibid.*). Gwneir hyn yn gyntaf

wrth ddiffinio'r Cymry fel cenedl sy'n rhan o brif ffrwd naratif Ewrofediteranaidd. Trwy hyn caiff y Cymry eu cysylltu â hanes cynnar y cyfandir, a dangos y buont yn genedl a fu'n amlwg yn rhan o'r naratif hwnnw. Mae'n dangos, hefyd, mai crefydd drawsgenedlaethol yw'r ffydd ddi-ffuant.

Merthyra ac erledigaeth

Mae merthyra ac erledigaeth yn themâu pwysig mewn llenyddiaeth Gristnogol o Actau'r Apostolion i destunau hanes yr Eglwys Fore (gweler: Gregory, 1999; Knott, 1993; Monta, 2005). Mae'r *Ffydd* yn ddyledus i'r traddodiad hwnnw, ac ymddengys merthyra ac erledigaeth fel rhai o brif themâu'r testun. Wrth i Edwards greu cof diwylliannol i'r Cymry pwysleisia fod y genedl yn rhan o orffennol cyffredinol Cristnogol y byd Ewrofediteranaidd â merthyra a dioddefaint yn nodweddu'r gorffennol hwnnw. Ceir cyfeiriadau at ferthyron y ffydd yn 'Epistol' Davies ac yn y *Drych* gan Evans, ond Edwards sy'n datblygu'r wedd hon fwyaf. Un o'r testunau a gafodd ddylanwad ar *Y Ffydd Ddi-ffuant* oedd *Acts and Monuments* (1563) gan John Foxe a adwaenir fel *Book of Martyrs*. Dyma un o lyfrau pwysicaf y dychymyg Protestannaidd yn Lloegr a cheir naratif am ferthyron Ewrofediteranaidd y ffydd Gristnogol ac roedd lle arbennig i Loegr yn y naratif hwnnw. Dyma ffynhonnell hanesion Charles Edwards am ferthyra, fel y dengys Derec Llwyd Morgan (1994, t. 15; 1969, tt. 83–103).

Dywed M. Wynn Thomas y gellid deall defnydd Edwards o Foxe fel cyfrwng i archwilio a mynegi ei alltudiaeth ei hun, fel anghydfurfiwr mewn cyfundrefn wrthwynebus yn dilyn yr Adferiad. Mae Thomas hefyd yn dadlau iddo ddarlunio'r gyfundrefn gyfoes yn anuniongyrchol fel erildwyr pobl Dduw ar hyd hanes: 'Since his feelings of oppression were denied open expression, Edwards vented them indirectly by dwelling almost pruriently, for instance, on the agonies of torture suffered by the martyrs whose bloody stories he had read in John Foxe's famous *Acts and*

Monuments' (1997, t. 199). Mae Gregory (1999, t. 195) a Knott (1996, t. 734) wedi dadlau mai cyfrwng i fynegi dioddefaint anghydfurfwyr oedd yr *Acts and Monuments*; dengys yr astudiaeth hon y daeth yn destun talismanaidd ar gyfer mynegi cof diwylliannol i Edwards. Roedd hefyd, yn achos y *Ffydd*, yn ffynhonnell ar gyfer merthyron y ffydd. Mae'n dangos, ymhellach, fod gan y Cymry gof cosmopolitanaidd wrth gofio am ferthyron o genhedloedd eraill a'u hawlio fel rhan o'u cof hwythau.

Fel nifer o anghydfurfwyr eraill ar ôl yr Adferiad, trodd Edwards at y gorffennol a gosod yr alltudion fel y prif gymeriadau (D'Addario, 2007, tt. 10–11). Gellid dadlau bod hyn yn symptom o'i alltudiaeth fewnol ('internal exile'), sef term D'Addario am bobl o duedd Biwritannaidd a wynebai bolisiau erlitgar y Senedd Gafalîr yn yr ail ganrif ar bymtheg (2007).⁵⁸ Cyfenwir y cyfnod yn 'Oes yr Erid', o safbwynt yr anghydfurfwyr, gan Geraint H. Jenkins ac nid yw'n syndod i'r gorthrymderau a wynebai Edwards a'i debyg ddylanwadu ar y *Ffydd*. O ganlyniad, gwelwn ddylanwad y cyd-destun wrth i gof diwylliannol gael ei greu. Yn hyn o beth, felly, mae hunaniaeth Gristnogol y Cymry wedi'i seilio ar brofiadau diacronig o ddioddef dros y ffydd yn wyneb awdurdodau gormesol. Mae'r *Ffydd* yn adlewyrchu barn John Bunyan yn *Seasonable Counsel*: 'the people of God are a suffering people' (1684, t. 214).

Yr hyn a geir yn yr hanesion am ferthyron gan Edwards yw cof diwylliannol sy'n dangos i'r Cymry y dylent ddisgwyl erledigaeth fel dilynwyr y ffydd. Mae'n nodwedd sylfaenol o fywydau

⁵⁸ Am alltudiaeth fewnol a'i pherthynas ag erledigaeth, gweler: Christopher D'Addario. 2007. *Exile and Journey in Seventeenth-Century Literature*; Hannibal Hamlin. 2010. 'Strangers in Strange Lands: Biblical Models of Exile in Early Modern England', *Reformation* 15(1), 63–81; Christopher Highley. 2010. 'Exile and Religious Identity in Early Modern England', *Reformation* 15(1), 51–61; Alison Searle. 2017. 'Exiles at Home', yn Andrew Hiscock a Helen Wilcox, goln., *Oxford Handbook of Early Modern English Literature and Religion*, tt. 464–80. Am brofiadau Cymreig, gweler: Geraint H. Jenkins, *Protestant Dissenters in Wales*; ac Alan P. F. Sell, gol. *The Great Ejection of 1662*.

dilynwyr Crist a ddywedodd: 'Os erlidiasant fi, hwy a'ch erlidiasant chwithau' (Ioan 15:20). Gellid dadlau i Edwards ddehongli'r geiriau hyn fel rhybudd am y dioddefaint sydd yn ddisgwyliedig i ddilynwyr y ffydd ddiffuant. Er mwyn pwysleisio hyn, dyfynna Edwards un o Dadau'r Eglwys sef, Tertwlian a ddywedodd mai '*gwaed y merthyron yw hâd yr Eglwys*' (t. 46). Ceir y dyfyniad hwn yn 'Epistol' Davies hefyd. Caiff erchyllter y dioddefaint yn y *Ffydd* ei gofio; disgrifir y boen, ond pwysleisir mai braint yw dioddef a dilyn esiampl Crist, a chaiff y sawl a ddioddefai eu hedmygu. Dylid pwysleisio y cred Edwards fod braint gan ferthyron oherwydd 'dewisent goron ferthyrdod' (t. 124). Maent yn ildio'u bywydau o'u gwirfodd oherwydd eu ffydd a'u hyder yn Nuw; mae hyn yn dra gwahanol i'r erlidwyr sydd yn gaeth i'w drygioni. Gellid dadlau, felly, fod yr enghreifftiau hyn yn dangos ymdrech gan Edwards i gysuro Cristnogion sy'n dioddef yn yr ail ganrif ar bymtheg, gan bwysleisio'i fod yn batrwm hanesyddol ac yn brawf o ffyddlondeb eu tystiolaeth. Dylent ddyfalbarhau o weld eu bod yn efelychu Cristnogion eraill wrth brofi erledigaeth. Yn sgil hyn, gwelwn sut y mae cof diwylliannol ffurfiannol a normadol yn rhannu ffin hydraiddd yn y *Ffydd*: mae'r Cymry'n Gristnogion ac mae'r gymuned honno yn un sydd wedi'i herlid, ond er gwaethaf yr erledigaeth dylent sefyll yn gadarn yn eu proffes.

Yn ôl y *Ffydd*, roedd dioddefaint y merthyron yn fawr: cawsant eu curo, eu gwaradwyddo, a'u llosgi a digwyddai hyn ar draws y byd Ewrofediteranaidd. Llosgi oedd y dull mwyaf cyffredin o'u lladd. Ond ceir enghreifftiau o gosbau eraill yn y testun; er enghraifft, fflangellwyd Romanus, a thorrwyd ei ddannedd ac arteithiwyd ei wyneb yn Antiochia (t. 72). Caiff deugain o Gristnogion eu dinoethi a'u hanfon i sefyll mewn llyn rhewllyd fin nos a rhynnu i farwolaeth, sef deugain merthyr Sebaste yn 320 OC (t. 73). Mae sawl enghraifft o ferthyron o'r byd Ewrofediteranaidd yn y *Ffydd* ac mae Edwards yn hawlio'r unigolion hyn fel rhan o hanes y Cymry oherwydd eu bod yn

rhan o gymuned drawsgenedlaethol Gristnogol. Mae'r enghreifftiau hyn hefyd yn hyrwyddo dehongliad o'r ffydd Gristnogol fel ffydd ddiodefus.

Dechreuwyd erlid Cristnogion yn fuan wedi atgyfodiad Crist yn ôl y *Ffydd*, dywed: 'O fewn trychant blynyddoedd Cyntaf ar ol ganedigaeth Crist y bu dêg o erlidigaethau trymion' (t. 29). Ni fyddai unrhyw genhedlaeth o Gristnogion wedi eu hosgoi, ac mae'n batrwm cyffredin yn ddiweddarach hefyd. Roedd y cyntaf yng nghyfnod Nero, Ymerawdwr Rhufain, 'Yr hwn a wnaeth iro Cyrph y Cristianogion â gwêr ac â phyg, iw llosgi'r nôs i oleuo heolydd Rhufain' yn 67 AD (*ibid.*). Neilltuir penodau cyfan i drafod erledigaeth a merthyra a merthyron enwog megis Justin Ferthyr (tt. 34–44). Roedd yr erledigaeth gan Rufain mor drwm yn 250 AD, dywed:

Wedi i Decius gymeryd lle *Philip* yr emorodr, (yr hwn a laddaseu ef am iddo droi yn Gristion) rhoddodd allan broclamasïwn gwaedlyd i lâdd y Cristnogion oll. dywed Historiâwr fod cyn hawsed cyfrif tywod y môr, a chyfrif henwau y rhai a ferthyrwyd y pryd hyn yn hialeithiau Rhufain o'r dwyrain i'r Gorllewyn (t. 68).

Mae cyfeirio at Dadau'r Eglwys yn arwyddocaol oherwydd y gesyd Edwards y ffydd mewn naratif hanesyddol manylach ac ehangach, o gymharu a'r hyn a gafwyd eisoes yn y Gymraeg megis gan Davies, fel y dadleuodd D. Densil Morgan (2018, t. 228). Wrth gyfeirio at y Tadau, dengys y gyfochredd sydd rhwng eu profiadau hwy a phrofiadau Edwards a'i debyg. Awgryma, felly, mai'r anghydfurfwyr yw gwir etifeddion y Cristnogion bore. Ceisia Edwards ddangos i'r Cymry y cynhaliwyd y ffydd gan dystiolaeth y rhai a fu'n weithgar drosti a'r rhai a fu'n barod i ddiodef drosti.

Er mai Rhufain, fel Ymerodraeth neu fel Pabaeth, yw prif erlidwyr y Cristnogion drwy hanes, ni ddaw'r erledigaeth oddi wrth Rufain yn unig. Adrodda Edwards am ddiodefaint yn Ffrainc ac yn Affrica, a manau eraill. Ynghylch yr erlid yn Affrica, dywed:

Profwyd pum math ar gospedigaeth ol ynol i geisio tair Morwyn Gristnogol oddiwrth y ffydd, sef, diodwyd hwynt â fineger, ac â bustl, wedi hynny flangellwyd hwynt, yna dirdynwyd hwynt, a rhostiwyd hwynt ar farwor, a thafliwyd hwynt i balfau bwystfilod rheibus: ac wedi i'r rheini eu harbed, lladdwyd hwynt a'r cleddyf gan na wadent Grist (t. 71).

Nid oedd Prydain wedi osgoi y profiad rhyngwladol hwn o erledigaeth ar Gristnogion; dywed Edwards: 'bu'r creulondeb hwn yn drwm ar ein cenedl ni yn Prydain', ond nid yw'n ymhelaethu (t. 72). Mae'r profiad Ewrofediteranaidd yn ddrych i brofiad y Cristnogion ym Mhrydain, a dengys Edwards mai un o brif nodweddion Cristnogion yw dioddef merthyra a dioddef erledigaeth. Cawn ddwy enghraifft o ferthyra ym Mhrydain yn ystod cyfnod yr Ymerawdwr Dioclesianus yn y bedwaredd ganrif: 'Y rhai a safasant yn y maes yn ddewr gyda Christ yn wryw ac yn fenyw', a chyfeiria hefyd at wyrthiau a merthyrdod 'Albanus Sanctaidd' (t. 163). Mae Evans hefyd yn trafod merthyrdod Alban yn y *Drych*. Mae'r awydd i weld profiad y Cristnogion rhyngwladol fel profiad unedig yn glir, ac mae Edwards yn awyddus i amlygu cysylltiad cosmopolitanaidd hynafiaid y Cymry â'r naratif Ewrofediteranaidd.

Yn ôl y *Ffydd*, caiff y Cristnogion eu herlid ble bynnag yr aent; ym mhennod 13 cawn hanes erledigaeth yn nheyrnas y Twrciaid yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif. Er nad oedd erledigaeth yr Otomaniaid cynddrwg ag erledigaeth yr awdurdodau Catholig yn ôl Edwards, erlid ydyw o hyd. Dywed y *Ffydd* y bu'n rhaid i Gristnogion dalu treth drom: ni chaent swyddi, arfau, rhaid oedd iddynt addoli'n ddirgel, a rhaid oedd iddynt wisgo dillad gwahanol a gwneud eu harwahanrwydd yn weladwy (t. 110). Ond dywed Edwards mai'r:

peth truanaf o'r cwbl yw orfod iddynt ymadel a'u plant i ddwylo gelynion *Crist* iw dwyn i fynu megis mewn monachlogydd yn y gau grefydd, ac i ddyscu traenio; fel pan dyfont, ac anghofio eu rhieni (canys ni chânt fyth moi hadnabod mwy ar ôl eu tynnu oddiwrthynt) yr ymladdont yn fedrus yn erbyn yr efengil (*ibid.*).

Gwaethaf oll, cipiwyd plant Cristnogion i gael eu trwytho i wrthwynebu'r ffydd a'u teuluoedd. Mae tristwch Charles Edwards yma efallai'n cael ei ddwysáu oherwydd i'w wraig a'i blant ei adael yn 1666.⁵⁹ Hwyrach, efallai, bod y profiad hwnnw'n fyw yng nghof Edwards wrth iddo gofio am blant alltud Cristnogion yn yr Ymerodraeth Otoman.

Olrheinir gan y *Ffydd* erledigaeth ar broto-Brotestaniaid a Phrotestaniaid fel ei gilydd a mynnu y daw'r erledigaeth o Rufain y Pab (tt. 96–150). Catholigiaeth yw gelyn pennaf y ffydd ddiffuant yn ôl Edwards. Gwasanaethydd y diafol yw'r Eglwys Gatholig yn ei dyb ef, a chyfeirir at amryw Babau fel 'Anghrist' gan Edwards (tt. 99, 104).⁶⁰ Olrheinir llinach Brotestannaidd sy'n mynd yn ôl ymhellach na gweithred chwyldroadol Martin Luther yn 1517. Ceisia ddangos nad yw Protestaniaeth yn gred newydd a'i bod wedi ei gwreiddio yn y gorffennol. Crëir naratif o ddioddefaint Protestaniaid a phroto-Brotestaniaid a phwysleisio eto dioddefaint y ffydd a'r elyniaeth sydd rhwng Rhufain y Pab, y tro hwn, â Duw a'r ffydd Gristnogol. Mae Edwards, felly, yn adlewyrchu safbwynt Davies, a welwyd yn y bennod flaenorol, ac yn ehangu arno.

Mae'r llinach proto-Brotestannaidd a geir yn y *Ffydd* yn drawsenedlaethol ac yn cynnwys cymuned y Waldesiaid (tt. 100–1), sef cymuned ganoloesol yn ne'r Alpau a gafodd eu herlid ac a hawliwyd gan Brotestaniaid fel rhagflaenwyr iddynt (Pollmann, 2017, t. 181).⁶¹ Fel Protestaniaid

⁵⁹ Disgrifia Edwards y cyfnod hwn yn ei hunangofiant fel a ganlyn: 'But the worse my Domestick Troubles were for me, the more vigorously they were tormented and encreased by those that hated me Some were employed to perswade my Children that it was better for them to be without me; and my Wife was so far alienated from me, that she importuned me to part with her and live asunder, though for sixteen Years before we had lived together as lovingly as any couple in that Countrey' (1691?, t. 9).

⁶⁰ Nid yw Edwards yn defnyddio'r term 'Catholig' er mwyn diffinio'r Gristnogaeth y mae ef yn ei harddel, na chwaith fel enw ar gyfer Catholigiaeth Rufeinig. Yn hytrach, ceir: 'Protestant', 'y ffydd', a 'Cristnogaeth' ar gyfer ei ffydd ef. Ar gyfer Catholigiaeth, ceir: 'Papistiaid', 'Pabyddiaeth', 'eglwys Rufain'. Defnyddia'r termau hyn ar gyfer yr Eglwys Gatholig er mwyn ei hannilysu, ond mae'n osgoi defnyddio'r term 'Catholig' ar gyfer ei ffydd ef.

⁶¹ Am sut y caiff y Waldesiaid eu cofio yn Lloegr yn y cyfnod modern cynnar, gweler: Stefan Villani. 2020. 'The British Invention of the Waldenses', yn Brian Cummings et al., goln. *Remembering the Reformation*, tt. 192–206.

eraill, mae Edwards yn eu hawlio, ac mae eu dioddefaint yn dychwelyd i'r cof yn yr ail ganrif ar bymtheg yn dilyn erledigaeth Dug Safoy a fu'n 'erlid yr un bobl yn ei arglwyddieth yntef, Sef *Piedmont*, tan y mynydd *Myneu*, gan rostio rhai o honynt wrth dân araf, a chaethiwo eraill mewn llongau, a gyrru eraill i lechu ir creigiau' (t. 117). Cymuned arall a gofir fel proto-Brotestaniaid yw'r Lolardiaid: 'Ceisiwyd eu chwynnu, a'u llosgi, a rhwystro eu cyfarfodydd' (t. 106). Fel y ceir gan awduron Protestannaidd eraill, caiff y Lolardiaid eu deall fel rhagflaenwyr i Brotestaniaeth yn Lloegr yn y *Ffydd*.⁶² Dengys Edwards y gyfatebiaeth sydd i hunaniaeth Brotestannaidd yn Lloegr ac yng Nghymru wrth iddo sôn am y Lolardiaid mewn cyfrol ar gyfer y Cymry. Mae hefyd yn dyfnhau gwreiddiau Protestaniaeth yn Lloegr yng ngorffennol y byd Ewrofediteranaidd.

Ffenomen trawsgyfandirol yw Protestaniaeth i Edwards felly, ac mae'r cof diwylliannol a geir yn y *Ffydd* yn pwysleisio mai cenedl gyfandirol yw'r Cymry. Cysyllta'r Cymry ag unigolion nodedig fel John Wycliffe a laddwyd yn 1384 a Jan Hus o Fohemia a ferthyrwyd yn 1415, a fu dan ddylanwad Wycliffe (tt. 104–6). Yn ôl Edwards, lladdwyd Hus a Wycliffe ill dau am fynnu purdeb yr efengyl, awdurdod yr ysgrythurau, ac am feirniadu'r Pab. Un o'r adrannau sy'n amlygu drygioni Catholigiaeth yw ymwneud y Pab â Hus. Yn ôl Edwards, aeth y Pab yn erbyn ei addewid i beidio â'i ladd:

er iddo o'r blaen gael addewid yr ymerodr a'r Pab penaf... y gallai ef fyned a dyfod yn ddiogel ddirwystr. A phan welsant nas gellid moi ddenu ef at Babyddieth, blingasant ei goryn ef... a gwiscasant am ei ben ef gap â lluniau Cythreuliaid wedi eu peintio arno, a lloscasant ef yn vlw; a thaerasant na ddylid cwplau addewid i *Heretic* (tt. 104–5).

⁶² Am y Lolardiaid adeg y Diwygiad Protestannaidd, gweler: Susan Royal. 2020. *Lollards in the Reformation: History, Radicalism, and John Foxe*.

Er hyn Hus a'r ffydd a oedd yn fuddugol yn ôl Edwards. Cafodd Hus gyfle a'r nerth i ledu'i neges yn eofn: 'Ond tra yr oedd ef wrth y stangc yr oedd ei gynghorion ef mor fuddiol, ai weddiau ef mor nerthol, onid oedd y bobl yn cydnabod iddo farw yn rasol' (t. 105). Wrth i Edwards ddiffinio'r Protestaniaid fel cymuned ddiodefus, pwysleisir y drygioni sy'n gynhenid i grefydd y Pab a bod Catholigiaeth yn llawforwyn i'r un drwg. Dengys Edwards fod y dioddefaint yn dymhorol am ddau reswm: yn gyntaf oherwydd bod y nefoedd yn aros i ddilynwyr y ffydd. Caiff y merthyron eu nerthu gan Dduw, ei addewidion, a'r Ysbryd Glân. Yn ail oherwydd bod buddugoliaeth y ffydd yn anochel. Mae Edwards yn awyddus, felly, i'r cof diwylliannol ennyn dau beth, yn gyntaf: ar i'r Cymry goleddu'r gwirioneddau Protestannaidd, ac mae'r ail yn gysylltiedig: ennyn atgasedd llwyr tuag at y Pab a Chatholigiaeth.

Ar ôl gweithred Luther sy'n arwain at newidiadau arwyddocaol i'r byd Ewrofediteranaidd, dywed Edwards:

aeth y Papistiaid, megis *eirth wedi colli eu cenawon*, yn greulonach wrth y Protestaniaid y fyddu dan eu palfau hwynt: gan dynnu aelodau rhai a gefail, a chladdu eraill yn fyw, a llosgi eraill vlw, a chrogi llawer. Ac er na ddiffoddeu eu gwaed hwynt mo boethder digofaint yr erlidwyr, etto troe llawer at rês Duw, wrth weled dioddefgarwch y merthyron diweddaraf megis y rhai cyntaf (t. 115).

Yn ôl Edwards, mae'r erledigaeth yn troi'n fwy ffyrnig yn yr unfed ganrif ar bymtheg a bu llawer o ferthyr; ond nid yw'r ymdrechion hyn yn llwyddo i atal y ffydd. Mae'r naratif fel petai'n ymgnïo wrth adrodd creulondeb y Catholigion ar draws y byd Ewrofediteranaidd yn y cyfnod hwn. Mae'r math hwn o feirniadaeth yn arwyddocaol yn ôl Pollmann a ddywed fod Ewropeaid, yn Brotestaniaid ac yn Gatholigion, yn ymffrostio yn y ffaith eu bod yn waraidd ar draul pobl y cyfandiroedd 'anwar' (2017, tt. 86–91). Yn ychwanegol, mae'r feirniadaeth ar Gatholigion yn arwyddocaol am ddau reswm o gofio cyd-destun Charles Edwards yn yr ail ganrif ar bymtheg. Yn

gyntaf, wrth dynnu ar y gorffennol, ceisia’r *Ffydd* bwysleisio nad yr anghydfurfwyr yw’r bygythiad i deyrnas yr Adferiad a ormesai ar hawliau Edwards a’i debyg, yn hytrach y Catholigion (Jenkins, G.H., 1992). Yn ail, roedd tueddiadau Catholig Siarl II, fel ei dad a Chatholigiaeth agored ei frawd Iago, a’r awydd i gael mesurau i oddef ymneilltuaeth er mwyn hwyluso bywydau’r Catholigion, yn fraw i nifer a byddai Edwards wedi bod yn eu plith (Jenkins, G.H. 1992, t. 52). Gellid dehongli’r dyfyniad uchod fel rhybudd, felly, i gefnogwyr mwyaf ffyddlon y brenin ynghylch ei gydymdeimladau Catholig a bygythiad Catholigiaeth i Brotestaniaid.

Gan efelychu Foxe, try Edwards at Loegr, sef, yn ôl Derec Llwyd Morgan, canolfan Crist ar y ddaear i’r ddau (1969, t. 90). Cawn hanes merthyra John Brown, Thomas Man (t. 112), a Mr Rogers, sydd oll yn glynu at eu ffydd (t. 123). Mae naratif Edwards yn cefnogi dadl Pollmann a ddywed i obaith ym mywyd tragwyddol galonogi’r merthyron i ddioddef mewn naratifau am ferthyra ar draws Ewrop (2017, tt. 166–7). Gwelwn hyn wrth i wraig gael ei llosgi yn y tân yn yr Alban. Mae hi’n annog ei gŵr i ‘lawenychu’ er gwaethaf eu dioddefaint, dywed wrtho: ‘Ni ddywedaf nôs da i chwi, canys yn ebrwydd, ymgylfarfyddwn ynheirnas nêf’ (t. 121). Darlun pwerus a ddefnyddir gan Edwards i bwysleisio cryfder y gobaith tragwyddol sydd gan ddilynwyr y ffydd ddiffuant i oresgyn poenau bydol. Neilltuir pennod gyfan i sôn am ferthyron, gwrywaidd a benywaidd, adeg teyrnasiad Mari, dywed hefyd fod gormod i’w hadrodd (tt. 123–40). O ganlyniad, gwelwn fod merthyra’n rhan o gof diwylliannol y Cymry a diffinnir Cristnogion fel cymuned ddioddefus. Ymhlith y rhai a gynhwysir yn y *Ffydd* y mae merthyron Ynys y Garn, neu ‘Garnsey’; noda Edwards i wraig a’i dwy ferch gael eu llosgi yn yr un tân:

yr oedd un o’r merched yn wraig i bregethwr, ac yn feichiog agos iw thymp; a phan dorrodd angerdd y tân ei bol hi, Syrthiodd y plentyn oddiwrthi hi: Ac wedi ei gipio ef i fynu, a’i ddwyn at y Swyddogion, gwnaethpwyd ag ef mor

anhruarog, ac y gwnaeth Pharao â Phlant yr Hebreaid, neu Herod â phlant Bethlehem, gan ei fwrw ef ir tân at ei fam, er ei fod yn blentyn gwryw golygus. Felly bedyddwyd â thân yr hwn a aned yn ferthyr, i dystiolaethu dynered mamaethod oeddent (t. 135).

Dyma hanes merthyron enwog Ynys y Garn a laddwyd yn 1556; nid dyma'r unig enghraifft o ladd menywod a phlant. Dadleua Pollmann fod trais yn erbyn gweinidogion, menywod, plant, yr hen, a'r gwan yn dopos cyffredin a ddefnyddid i gondemnio gelynion: 'Anyone who wanted to charge their enemies with cruelty therefore tended to focus on these innocent victims, more than on any men who had also died' (2017, tt. 174–5). Wrth ddefnyddio fframwaith y cof, gellid dadlau bod hyn yn peri i ddrygioni'r erlidwyr ymddangos yn fwy cofiadwy oherwydd ei fod yn frawychus.

Un o'r merthyron Protestannaidd enwog a nodir gan Edwards yw Anne Ascew:

yr hon y ddangosodd iw herlidwyr, fal yr oeddent yn gwrthwynebu'r yspryd Glân. Hwyl ai racciâsant hi yn greulon, oni thynnasant agos ei holl gymalau a'i hescyrn oddiwrth eu gilidd, eisieu caffael genddi wadu ei ffydd, neu ochain dan ei phoen. Ac er ei bod hi o dylwyth ardderchog, a chynnig iddi bethau mawrion am droi yn *Bapisties*, etto gwrthododd y cyfan, ac ymroddodd i ddiweddu ei dyddiau yn tân ér tystiolaeth yr Efengil (t. 121)

Yn y dyfyniad, mae ymlyniad Ascew i'w ffydd yn wyneb dioddefaint a'r ffaith iddi wrthod ymdrechion i'w phrynu i arddel Catholigiaeth yn esiampl i eraill. Mae ei hanes yn amlwg hefyd yn nhestun John Foxe. Yn y *Ffydd*, mae hi ymhlith y sawl merthyr Ewrofediteranaidd sy'n dangos fod i'r Cymry gysylltiadau ysbrydol trawsgenedlaethol fel Cristnogion yn y cof diwylliannol a geir gan Edwards.

Nid lladd Cristnogion yn unig a wna'r Eglwys Gatholig yn ôl y *Ffydd*, mae'n twyllo pobl a'u caethiwo mewn ofergoel hefyd. Myn Edwards mai Catholigiaeth oedd ar fai am gredoau ofergoelus y Cymry. Roedd y credoau hyn yn cynnwys proffwydoliaethau'r beirdd – credoau a feirniadwyd gan Powel fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol. Mae Edwards yn feirniadol mai: 'Dull

yr amseroedd Pabaidd hynny, a chystudd gyda’g hiraeth am warediad, a wnaeth ein henafiaid ni yn dueddol i roi llê i feddyliau ofergoelus’ (t. 196). Nid yw’r fath ymlyniad yn briodol bellach yn ôl Edwards; mae’r Cymry’n genedl Brotestanaidd. Os yw’r Cymry am fod yn Brotestaniaid, dywed y *Ffydd* rhaid iddynt anghofio ofergoel Catholig.

Gellid holi ble y mae’r Cymry yn y naratif hwn o erledigaeth a dioddef dros y ffydd ddiffuant ers merthyrdod Alban yn y bedwaredd ganrif? Prin iawn yw’r erledigaeth ar ddilynwyr y ffydd yng Nghymru yn y *Ffydd*, yn arbennig yn y penodau ar broto-Brotestaniaid a Phrotestaniaid. Nid oes llawer o ferthyron Cymreig yn ystod teyrnasiad Mari I, ond mae’r prin rai a fu farw yn cael eu cynnwys yn y testun, fel Rawlins White a laddwyd yng Nghaerdydd yn ôl Edwards, William Nichol yn Hwlfordd, a George Marsh yng Nghaerleon (t. 126). Mae’r *Ffydd* yn honni oherwydd arafwch y Cymry i dderbyn Protestaniaeth nid oedd llawer o ferthyron Cymreig. Mae diffyg y Cymry i goleddu’r ffydd yn ystod teyrnasiad Mari I yn siom i Edwards, ond pwysleisia mai rhesymau ieithyddol oedd y tu ôl i hyn:

nid oedd nemawr a fedrai, ac a fynnai gyfieithu, a phregethu gair Duw yn gymraeg yn yr yspaid hwnw. A dyna’r achos na chafwyd nêb yn Ghymry wedi hynny sef yn amser y frenhines Mari, i ddwyn tystiolaeth gydâ ffydd y Protestaniaid drwy ddiodeffaint, oddieithr tri yn y deheubarth y fedrent Saesonaeg (t. 198).

Ym marn Edwards, mae’r tri a fu farw dros y ffydd yn gwneud hynny ar ôl iddynt goleddu’r ffydd trwy gyfrwng y Saesneg. Gellid dadlau, felly, y ceir awgrym mai ffydd y Saeson oedd Protestaniaeth yn ymarferol cyn cyfieithu’r Testament Newydd yn 1567 yn ôl y *Ffydd*. Ond nid yw hynny gyfystyr â dweud bod y ffydd yn estron i’r Cymry. Mae Edwards yn rhoi enghreifftiau o waith y beirdd fel tystiolaeth honedig o broto-Brotestaniaeth Gymraeg, er enghraifft, gwnaeth gerddi Siôn Cent ‘[d]wyn tystiolaeth i’r gwirionedd efangylol yn amseroedd tywyll’ (t. 390). Yn

debyg i'r awduron a astudiwyd yn y bennod flaenorol, defnyddia Edwards dystiolaeth farddol i gefnogi'i honiadau ynghylch gwreiddiau'r ffydd ymhlith y Cymry. Y tro hwn, defnyddir barddoniaeth i gefnogi'i farn ynghylch presenoldeb y ffydd ddiffuant ymhlith y Cymry, nid diarhebion fel y gwna Richard Davies. Cred Edwards, ar sail sylw gan Richard Davies iddo weld pum llyfr Moses yn y Gymraeg, fod gan Siôn Cent gopi o'r ysgrythur. Caiff Siôn Cent ei hawlio fel Protestant cynnar oherwydd 'Argyoddodd ef foneddigion, periglorion, monachod, a chyffredin o'u rhyfyg, a'u drwg fucheddau a wnau eu gweddiau yn ddiffwrwyth' (*ibid.*). Crea Edwards linach o ddilynwyr triw i'r ffydd ddiffuant yng Nghymru sydd yn cynnwys beirdd yr Oesoedd Canol. Er gwaethaf y ffaith y cyfansoddwyd y cerddi mewn cyd-destun Catholig, i Edwards roedd gwreiddiau dyfnion gan Brotestaniaeth ymhlith y Cymry (tt. 383–94).

3.4 Perthynas y Cymry a'r Saeson

Ffordd arall o osod cof diwylliannol y Cymry mewn cyd-destun ehangach yw trwy ei osod gyfochr â hanes Lloegr. Mae Edwards yn adlewyrchu cyfundrefn ei ddydd â'r Cymry a'r Saeson yn un wladwriaeth ers yr unfed ganrif ar bymtheg. Mae'r cof diwylliannol a geir ganddo yn diffinio'r Cymry fel cenedl sydd mewn perthynas â'r Saeson. Canolbwyntia Edwards ar y dimensiwn ysbrydol i'r cyd-blethiad rhwng y ddwy genedl.

Er mwyn dangos bod perthynas agos rhwng y ddwy genedl, mae Edwards yn cyfieithu rhannau o lyfr merthyron Foxe i'r Gymraeg. Fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol, ffordd i gysylltu diwylliannau oedd cyfieithu, ac o safbwynt y cof, mae cyfieithu'r cof yn ffordd o greu cysylltiadau trawsieithyddol. Ar sail hyn, dadleuir yma fod Edwards, wrth gyfieithu testun Foxe, yn cysylltu Cymru a Lloegr i greu un gymuned amlieithyddol sy'n unedig ar sail ffydd. Yn ogystal, o ystyried pwysigrwydd testun Fox i gof Protestannaidd y deyrnas, gellid dadlau ei fod yn cysylltu'r Cymry â

chof Protestannaidd y deyrnas. Pwysleisia fod cydweddiad hanesyddol-ysbrydol rhwng y Cymry a'r Saeson a bod y Cymry a'r Saeson yn unedig fel Protestaniaid, yn ogystal â bod yn rhan o un deyrnas.

Mae'r berthynas rhyngddynt yn un hynafol. Mae Edwards yn adlewyrchu'r farn gyffredin mai Gwrtheyrn, un o hynafiaid y Cymry, yw'r rheswm pam y daeth y Saeson i Brydain yn gyntaf (t. 187).⁶³ Esgorodd y digwyddiad hwn ar ryfeloedd niferus rhwng y ddwy genedl. Ond nid rhyfela yw unig nodwedd y berthynas; cyfeiria Edwards at yr ymwneud a fu rhwng y Cymry a'r Saeson nad yw'n ymwneud â rhyfela. Er enghraifft, sefydlodd y Brenin Alfred ysgolion yn Rhydychen gan fanteisio ar ddysg dau Gymro, Asser ac Ioan D'erigena o Fynwy (tt. 190–1). Wrth bwysleisio'r cysylltiad rhwng Cymru a Lloegr dyrchefir dysg Cymry fel gwraidd i ddysg y Saeson.

Ymhellach, mae cysylltiad cyfreithiol rhwng y Cymry a'r Saeson, fel y ceir gan David Powel. Dywed Edwards i'r Brenin Alfred osod cyfreithiau'r brenin Prydeinig 'Dwfnwal Moelmut' (Dyfnwal Moelmud) yn ddeddf ar y Saeson ac i'r deddfau hyn fod mewn grym tan ddyddiau Edward y Cyffeswr yn yr unfed ganrif ar ddeg (t. 191). Mae'n destun anrhydedd i'r Cymry, yn ôl Edwards, mai cyfreithiau eu hynafiaid a osodwyd ar y Saeson gan Alfred, fel y ceir gan Llwyd a Powel. Dywed Colin Kidd y bu'r cyfreithiau hyn yn bwysig yn Lloegr rhwng 1600 a 1800 i ddangos bod y Saeson yn bobl waraidd ac yn soffistigedig (1999, t. 83). Cred Curran iddynt fod yn rhan o'r ymdrech i ddyrchafu'r Saeson fel pobl waraidd a thanseilio cyfraniad Rhufain i wareiddiad yr ynys, oherwydd roedd cyfreithiau ganddynt eisoes (2002, tt. 129–36). Mae Edwards, yn cydblethu

⁶³ Ni cheir yr enw Cymraeg amdano, fe'i gelwir yn 'Fortigern', gall hyn awgrymu dibyniaeth ar ffynonellau Lladin neu Saesneg yn hytrach na rhai Cymraeg.

hunaniaeth gyfreithiol y Saeson a'r Cymry, fel y gwnaeth Llwyd a Powel, ac mae'n dyrchafu'r Cymry fel rhan bwysig o hanes y Saeson a'r deyrnas.

Canlyniad i'r cysylltiad agos hwn rhwng y Cymry a'r Saeson yw'r sylw manwl mae Edwards yn ei roi i hanes Lloegr. Mae Edwards yn adrodd naratif hanes y Cymry ac yn trafod yr hyn oedd yn digwydd yn Lloegr a dangos y berthynas agos rhwng y Cymry a'r Saeson, fel y gwnaeth Powel a Llwyd. Gwêl Edwards gyfochredd rhwng hanes brenhinoedd Lloegr a hanes Cymru fel hwy (tt. 191–4). Er enghraifft, mae hanes y ddwy genedl yn gysylltiedig wrth sôn am y Normaniaid; pan gaiff y Saeson eu gorchfygu gan y Normaniaid mae hyn yn gonsyrn i'r Cymry. Dylid nodi nad yw'r *Ffydd* yn gwahaniaethu, mewn gwirionedd, rhwng y Saeson a'r Normaniaid ac eithrio yn ystod y goncwest. Ar ôl i'r Normaniaid orchfygu Lloegr, 'blysiâsant Gymru hefyd' yn ôl Edwards (t. 191). Mae concwest y naill yn effeithio ar y llall oherwydd eu bod wedi'u cyd-weu fel y gwelwyd yn y bennod ddiwethaf. Hwyluswyd amcanion tiriogaethol y Normaniaid yng Nghymru gan 'yr ymrysonau cenfigennus oedd rhwng y blaenoriaid Cymreig' (*ibid.*). Felly, nid gwendid milwrol y Cymry oedd y rheswm pam y cawsant eu trechu, ond diffyg undod. Mae Edwards yn adlewyrchu barn Llwyd a Powel, a welwyd yn y bennod flaenorol, ond yn wahanol iddynt hwy, nid yw'n sôn am gyfrwystra a thwyll eu gelynion yn Lloegr.

Mae Edwards yn efelychu Powel wrth barhau i drafod hanes Cymru ar ôl eu concwest gan y Saeson. Gellid dadlau bod y *Ffydd* yn mynnu cysylltiad rhwng y Cymry a'r Saeson, ond dengys bod iddynt orffennol gwahanol, ac mae hyn yn wahanol i Llwyd. Nid hanes Lloegr yw hanes y Cymry i Edwards. Er gwaethaf y berthynas agos rhyngddynt, mae Edwards yn dangos bod Cymru a Lloegr yn genhedloedd gwahanol a bod iddynt, o ganlyniad i hynny, hanes gwahanol. Fel David Powel gynt, dengys Edwards fod i Gymru hanes fel cenedl er iddi golli'i hannibyniaeth ar ddiwedd

y drydedd ganrif ar ddeg. Wrth barhau â hanes Cymru dengys ei fod yn credu bod hanes cenedl yn seiliedig ar fodolaeth siaradwyr Cymraeg, nid ar sail ei bodolaeth fel endid annibynnol. Tra bod Powel yn seilio bodolaeth y genedl ar y Dywysogaeth, mae Edwards yn gwreiddio'r genedl yn ei phobl. Un o seiliau hunaniaeth Gymreig ei ddydd i Powel yw'r Dywysogaeth – sy'n dangos y cysylltiad rhwng Cymru a Lloegr canys mab i frenin Lloegr oedd y tywysog. Ond i Edwards y prif beth sy'n cysylltu'r ddwy genedl yw eu hymlyniad i'r ffydd ddiffuant.

Daeth y cysylltiad hwn i'w lawn dwf yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Wedi hynny, bu Cymry a Lloegr yn un corff gweinyddol ac ysbrydol a thestun balchder oedd hwn i Edwards. Ond nid yw hyn yn golygu bod y Cymry wedi diflannu; wedi'r cyfan coron ar deyrnas amlgenedlaethol oedd coron Llundain yn nhyb Edwards ac mae'n parhau i drafod hanes Cymru. Honna Edwards y cafodd y Cymry waredigaeth seciwlar yn dilyn buddugoliaeth Harri VII ar Faes Bosworth yn 1485. Pasiwyd mesurau a oedd yn rhyddhau'r Cymry; dywed: 'gollyngodd [y brenin] hwy o'u poenau, ac esmwythâsant eu beichiau anoddef: y naill a siarteri o rydd-did, a'r llall ag Actâu o Barliament, gan droi ymmaith eu caethiwed hwy, a'u gwneuthur yn ungorph ai ddeiliaid o Loegr' (t. 200). Cred Edwards i'r Cymry gael eu hachub rhag y deddfau gormesol a fu ar y Cymry gynt, fel y cred David Powel. Mae cysylltiad pellach rhyngddynt, sef iddynt ddod yn un corff â'r Saeson a chaiff y cyfnod hwn ei gofio fel cyfnod o uno'r ddwy wlad.

Gosododd Harri VII y siarteri a fu'n fendith i Loegr ac yn gyfrwng i uno'r ddwy genedl. Roedd y digwyddiad hwn hefyd yn fendith i Loegr a dengys y cwlwm tyn sy'n uno'r ddwy genedl:

A phrifodd yn esmwythâd, nid i Gymry yn unig, ond i Loegr hefyd: a diweddodd ymdrech tôst a fuasai rhwng dau deulu frenhinol am y goron dalm o flynyddoedd, ymha un y lladdesid llawer o filoedd. Gan ei fod ef yn etifedd y naill dŷ, priododd etifeddes y tŷ arall, ac felly heddychodd y deirnas (t. 197).

Ar ôl esmwytháu cyflwr y Cymry gan Harri VII, dywed y *Ffydd* y daeth gwardigaeth seciwlar i'w llawn dwf gyda'r Deddfau Uno a basiwyd gan ei fab Harri VIII. Rhoddwyd i'r Cymry, yn ôl Edwards, 'yr un breintiau rhydd-did a chyfiawnder â Lloegr' (t. 198). Fel llawer o'i gyd-Gymry ymhyfryda Edwards yn y deddfau hyn, ys dywed D. Densil Morgan: 'For Charles Edwards, like all of his compatriots since the Tudor era, the incorporation of Wales into the English state had brought untold benefits' (2018, t. 229). Bellach, nid dinasyddion eilradd mo'r Cymry, na chwaith yn bobl dan ormes, ond cyd-ddinasyddion cyfwerth â'r Saeson. Roedd perthynas y ddwy genedl bellach wedi newid cyfeiriad a chaiff y Cymry eu diffinio fel cenedl sydd mewn perthynas heddychlon â'r Saeson.

Gellid deall y waredigaeth seciwlar yn y *Ffydd* fel rhagflas o'r waredigaeth ysbrydol a oedd ar y gorwel. Dywed Edwards: 'Y rhai a dynasant oddiarni y caethiwed teimladwy mewn pethau bydol yn gyntaf, ac ar ôl hynny canhiadasant iddi foddion rhydd-hâd oddiwrth gadwynau'r tywyllwch ysbrydol' (t. 208). Mae amseru'r Diwygiad Protestannaidd yn fuan wedi rhyddhau'r Cymry o gyfreithiau gormesol yn dangos arglwyddiaeth Duw dros amser i Edwards; dywed: 'Pe rhôn i'r Saeson tra yr oeddent yn gorthrummu ein cenedl ni, gynnig ffordd y Protestaniaid iddi, tebyg y buasai cyn anhawsed genddi ei derbyn' (*ibid.*). Roedd y newidiadau cyfreithiol a drodd y Cymry yn ddinasyddion cydradd â'r Saeson wedi peri i'r Diwygiad Protestannaidd ymddangos fel rhyddhad pellach, ac nid fel rhagor o orthrwm. Wrth greu cof diwylliannol o'r Diwygiad Protestannaidd caiff y Cymry eu diffinio fel cenedl sy'n unedig yn ysbrydol â'r Saeson.

Wrth ddehongli'r Diwygiad Protestannaidd o safbwynt mnemohanesyddol, gwelir bod y *Ffydd* yn mabwysiadu fframwaith Israelig drwy ymagweddu at y cyfnod cynt fel un o gaethiwed; Protestaniaeth sy'n rhyddhau'r Cymry. Dengys y Diwygiad Protestannaidd i Edwards fod y Cymry

yn bobl dan fendith Duw, fel ag yr oedd i Davies, a bod Ei gynllun sofran yn gweithredu er budd iddynt. Gwaredwyd y Cymry gan y Diwygiad Protestannaidd rhag Rhufain Gatholig yn nhyb Edwards. Mae'n cyfosod y waredigaeth hon gyda sut y 'gweithiodd [Duw] ei gwarediad fel un Israel yn amser Ahasuerus ac Esther, drwy briodas. Gan wneuthur ei chaseion yn dirion wrthi, ai herlidwyr yn ddiddanwyr iddi' (*ibid.*). Cred Edwards fod y waredigaeth wyrthiol sy'n dod i Israel alltud yn Llyfr Esther yn cyfateb i sut y gweithiodd Duw i waredu'r Cymry rhag Catholigiaeth. Caiff y Diwygiad Protestannaidd ei gofio yn y *Ffydd* fel cyfnod o fendithion digymar. Cafodd y Beibl ei gyfieithu a'i gyhoeddi, a chynyddodd eu duwioldeb a moesoldeb. Deellir yr ymgais i ledaenu'r Diwygiad fel 'adferu addoliad Duw ym mysc pobl y fu mewn hîr drueni a thywyllwch' (t. 212). Fel i Richard Davies yn y bennod flaenorol, adfer y ffydd wreiddiol oedd y Diwygiad Protestannaidd i Edwards hefyd.

Cyflwynwyd y Diwygiad Protestannaidd, trwy ragluniaeth Duw, i'r Cymry gan y Saeson.

Cred Edwards ei fod yn dynodi cyfeiriad newydd yn y berthynas rhwng y ddwy genedl:

Y mae'r Saeson oeddent fleiddiaid rheibus wedi myned i ni yn fugeiliaid ymgeleddgar, ac agos cyn hynawsed wrthym ni, ac ydym ni wrth eu gilidd. Y nhwy sy'n preintio ein llyfrau ni, ac yn dyscu celfyddydau i ni, ac yn marchnatta â'n gwlad nid wrth y dur a'r haiarn, ond yr aur a'r arian (t. 210).

Erbyn hyn, mae'r Saeson yn gofalu am y Cymry'n ysbrydol ac yn faterol yn hytrach na'u gormesu.

Mae'r Diwygiad Protestannaidd yn estyniad ysbrydol o undod cyfreithiol y deyrnas. O ganlyniad i hyn, cred Edwards y caiff cenedligrwydd y Cymry sêl bendith y goron gyda chyhoeddi'r ddeddf i gyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg (tt. 208–9). Bellach, roedd nifer o lyfrau'n cael eu cyhoeddi yn Lloegr ac yn eu plith oedd *Y Ffydd Ddi-ffuant* a gyhoeddwyd yn Rhydychen. Dengys Kilburn mai'r Gymraeg oedd yr iaith fodern gyntaf i gael ei chyhoeddi mewn cyfrol yn Rhydychen, ac eithrio'r

Saesneg (2013, t. 432). I Edwards, arweiniodd hyn at newidiadau mawr yng Nghymru ynghylch addysg a chafodd yr ymoleuo hyn effaith gadarnhaol ar y genedl:

Lluosogodd hefyd yscolion i blant drwy Gymru, a ducpwyd i fynu lawer oi gwyr ievaingc mewn dysceidiaeth yn y coleds y berthyn iddi yn Rhydychen (y seiliodd y frenhines Elizabeth yn y flwyddyn 1572 drwy annogaeth Sr Hugh Prise) ac mewn yscoldai eraill (t. 206).

Dengys Edwards fod yna berthynas agos rhwng y Cymry a'r Saeson, ac wrth hynny diffinnir y Cymry fel cenedl sydd mewn perthynas agos â'r Saeson. Nid yw Powel yn nodi'r cysylltiadau hyn, yn hytrach mae'n canolbwyntio ar y dywysogaeth. Bellach, roedd y Cymry'n cael addysg, ac roedd Charles ymhlith y rhai a gafodd eu haddysg yn Rhydychen.⁶⁴ Caiff lledaenu dysg effaith gadarnhaol ar foesoldeb:

Mae gwybodaeth wedi amlhâu, a'r cythreuliaid yn y coedydd wedi distewi. Mae ein moddion hefyd wedi rhywiogeiddio llawer. Nid oes mor fath yspeilio, a threisio, a mwrddro ag y glywsom ni gan ein henafiaid ei fod yn eu mysc er's talm (t. 210).

Ond nid yw'r gorchwyl o ledaenu dysg, a gwella moesoldeb, wedi dod i ben, dymuna i 'goleds [goleg] neu ddau' gael eu codi yng Nghymru er mwyn hyfforddi gweinidogion (t. 212). Er bod Edwards yn ddiolchgar am sut y mae'r Saeson wedi cynnal ei genedl yn y modd hwn, roedd yn awyddus i'r Cymry hyfforddi eu gweinidogion eu hunain. Caiff y Cymry eu hannog gan Edwards i gofio'r cyfnod ers y Diwygiad Protestannaidd hyd at eu presennol yn y 1670au fel un a ddengys eu bod dan fendith Duw o hyd a'u bod mewn perthynas agos â'r Saeson. Yn syml, rhagluniaeth Duw a sbardunodd y newidiadau hyn yn ôl Edwards:

Ac fel y gwelodd Duw yn dda amlhâu cynorthwyau'r ffydd yn ein plîth, felly amlhâodd rifedi y Sawl au iawn arferant. Wedi iddo roddi goleuni'r efengyl i'n

⁶⁴ Nid yw Edwards yn nodi ers Adferiad y Brenin i Anghydfurfwyr, fel ef ei hun, gael eu gwahardd rhag mynychu'r prifysgolion.

gwlâd deffrôdd gydwbyodau amryw bobl *i fwrw oddiwrthynt weithredoedd y tywyllwch, ac i rodio yn weddus megis wrth liw dydd. Nid mewn meddwdod anlladrwydd, a chenfigen*, ond mewn sobrwydd, diweirdeb, a chariad Duw. Am hynny nid yn ofer y goleuodd ef ei lampau, gan fòd rhai yn *gweithio eu iechydwriaeth* wrthynt (t. 207).

Er hyn, dywedir bod y Cymry yn 'arafaidd, ac oerllyd' i groesawu 'gair Duw' (t. 208). Dylid cydnabod ei bod yn gyffredin i bobl fel Edwards gwyno am gyflwr moesol y boblogaeth er mwyn cyfiawnhau eu gorchwyl. Er gwaethaf arafwch y genedl, dyma gyfle pellach i Edwards foli Duw am ymyrryd ac achub y Cymry trwy gymell Protestaniaeth arnynt trwy'r Saeson. Pwysleisia mai gweithred oddi uchod ydoedd, a dengys hyn drugaredd yr Arglwydd tuag at y genedl. Myn Edwards gan ddyfynnu o *Historie of Cambria* i '*Dduw anfon iddi [Cymru] y Bibl yn ei hiaith*' (t. 201). Yn yr adran nesaf archwilir sut y mae'r *Ffydd* yn diffinio'r Cymry fel cenedl dan fendith Duw.

3.5 Cenedl dan fendith Duw

Yn y *Ffydd*, megis yn yr 'Epistol', caiff y Cymry eu diffinio a'u cofio fel cenedl sydd wedi'u bendithio gan Dduw. Ni olyga hyn na chaiff y Cymry eu barnu am eu pechodau, fel y dadleua D. Denis Morgan (2018, t. 229). Er gwaethaf pechodau'r Cymry ar hyd y canrifoedd mae'n rhyfeddol i Edwards fod Duw yn parhau i'w bendithio. Mae apêl normadol ymhlyg ym mendithion Duw ar y Cymry, fel y gwelir maes o law.

Un o'r bendithion cyntaf a nodir yw dyfodiad cynnar yr efengyl i Brydain. Mae'r *Ffydd Ddi-ffuant*, fel testunau eraill y cyfnod, yn hyrwyddo'r gred ym Mhrotestaniaeth hynafol Eglwys Brydain (Heal, 2005; Williams, G. 1970). Dywed Edwards y daeth Joseff o Arimathea 'i blannu yr efengyl yn Prydain' (t. 24). Pwysleisia'r *Ffydd* fod y ffydd a blannwyd yn Brotestannaidd, fel y gwnaethpwyd gan Richard Davies ganrif ynghynt ac wrth hynny adfer y ffydd oedd y Diwygiad Protestannaidd. Ond ychwanega fod cysylltiad rhwng cenhadaeth Joseff i Brydain a chenhadaeth yr Apostol Paul (*ibid.*). Mae'r awgrym hwn yn cryfhau sylfaen apostolaidd Eglwys Brydain. Dyma

enghraifft hefyd o'r cof yn newid wrth 'deithio' o'r 'Epistol' i'r *Ffydd Ddi-ffuant*. Mae'r *Ffydd*, felly, yn cefnogi dadl Astrid Erll fod y cof yn ei hanfod yn ddeinamig ac yn addasu wrth deithio o gyfnod i gyfnod ac o destun i destun (2011b). Yn sicr, roedd y Britaniaid yn bwysig i Edwards, nid yn unig fel pobl hynafol i ddyrchafu'r Cymry ond oherwydd eu harwyddocâd i Eglwys annibynnol Lloegr. Eglwys y Britaniaid, meddai Edwards, fel Richard Davies a Theophilus Evans, oedd sylfaen hanesyddol hynafiaeth ac annibyniaeth Cristnogaeth ym Mhrydain oddi wrth Rufain.

Mae'r Cymry fel cenedl dan fendith Duw yn ôl Edwards ar sail y dystiolaeth Gristnogol a gynhaliwyd o genhedlaeth i genhedlaeth. Fel y ceir yn yr 'Epistol', mae Edwards yn nodi arwyddocâd y brenin Cristnogol Lles ap Coel; mae'n ymffrostio, fel Davies, yr 'aeth ein gwlad ni yn flaenor ar yr holl deyrnasoedd yn proffesu'r efengyl drwy gyffredin gyngor' (t. 153). Ond ni chaiff ei ddylanwad brenhinol ei gydnabod gan Edwards; nid oes sôn ei fod yn ben ar ei eglwys fel y ceir gan Davies ac Evans. Arweiniodd trwy gyffredin gyngor, ceisia Edwards, felly ddiwygio'r darlun o Lles ap Coel, ymhellach, o gymharu â Davies, ynghylch awdurdod y teyrn ar faterion crefyddol.

Cynhaliwyd y ffydd trwy anfon gweinidogion ffyddlon i bregethu ac i gadw athrawiaeth y genedl yn bur. Dengys Edwards fod y Cymry dan fendith Duw wrth iddo anfon tystion ffyddlon atynt. Er enghraifft, anfonwyd Garmon a Lupus o Gâl 'i gynorthwyo eu ffydd' pan oedd heresi Pelagius ar ei anterth (t. 157). Roeddynt, hefyd, yn arwain byddinoedd y Britaniaid i fuddugoliaeth yn erbyn y Pictiaid a'r Saeson yn llwyddiannus fel Gideon, offeryn Duw, ganrifoedd ynghynt. Daw bendith Duw i'r amlwg hefyd wrth gofio ddiwygio'r cof am y seintiau a'u cofio fel gwŷr duwiol. Gwelir hyn â Dubricius (Dyfrig) o Gaerleon ar Wysg, Cadog o Lancarfan, Gildas Albanus, a Dewi a elwir yn Archesgob (t. 158–9). Dywed y bu tri archesgob ym Mhrydain a 'nifer o yscoldai nodedig

yn amryw fannau lle'r oedd it yn dwyn philosophyddion i fynu, ac athrawon, ac enwedicaf coleds yn Ghymru oedd yn Ghaer Leon ar Wysc' (t. 159). Duw sy'n anfon y bobl hyn ac mae hyn yn dangos Ei gariad neilltuol tuag at y Cymry, a chânt eu diffinio fel cenedl sydd wedi'u bendithio gan Dduw. Fel Israel gynt, roedd Duw yn gyson yn galw'r Cymry ato, a bydd Israeliaeth y Cymry yn codi eto yn y bennod.

Bendith gan Dduw oedd cadw'r genedl rhag dinistr pan ddaeth y Pictiaid, y Scotiaid, a'r Saeson i'r ynys yn ôl Edwards. Ond roedd y Cymry yn anghofio daioni Duw tuag atynt mewn cyfnodau o ddaioni. Canmolir Emrys, Uthr, ac Arthur fel arweinwyr medrus, ond mae'r *Ffydd* am i'r Cymry gofio mai Duw sy'n sicrhau eu buddugoliaeth. Mae hyn yn wahanol i Prys sy'n ceisio pwysleisio anrhydedd a gwychder milwrol hynafiaid y Cymry. Dywed Edwards: 'gwelodd Duw yn dda roddi'r Maes i'r Britanniaid mewn llawer brwydr, ac attal gerwindeb y Saeson, nas gallasant mo ddifrodi ein hynafiaid ni i gyd a'r unwaith' (t. 160). Maent yn goroesi oherwydd ffyddlondeb rhai ohonynt: 'Yn yr amseroedd helbulus hyn gosododd rhai law Dduw at eu calonnau, ac ymroesant i'w wasnaethu ef gydag ofn a dychryn' (t. 160). Bendithia Duw y Cymry ymhellach wrth anfon 'dau frenin o goffadwriaeth tra-enwog', Harri VII a Harri VIII i ryddhau'r iau a fu arnynt gan y Saeson (tt. 199–200).

Caiff y ffaith mai cenedl dan fendith Duw yw'r Cymry ei phwysleisio wrth i Dduw geisio'r Cymry gyhyd er eu bod yn llygredig ac yn ddi-hid ynghylch yr efengyl (tt. 183–214). Digalonna Edwards oherwydd dihidrwydd ysbrydol y Cymry sy'n batrwm hanesyddol yn ôl ei dystiolaeth ef. Un o nodweddion y Cymry er mawr siom iddo yw yr 'anghofiant law Dduw drachefn' (t. 192).

Hyd yn oed pan gaiff y genedl eu barnu am eu drygioni a'u dihidrwydd, gwelwn yn naratif y *Ffydd* fod Duw'n bendithio'r Cymry:

Cydnabyddwn ddoethineb, a daioni, a chyfiawnder Duw, yn ei farnedigaethau ar ein henafiaid ni. Canys gadawai gryn ennyd rhwng y dynodïau y roddai iddynt, fel y caent amser i ystyried eu ffyrdd, ac i droi oddiwrth eu hanwireddau er y naill gerydd, cyn dyfod y llall. Ac felly y gwnaeth ef ar Israeliaid pan ddygn ddigiodd ef wrthyn, gan adel caethiwo Samaria yn gyntaf, ac ymhen talm o flynyddoedd gwedi, y caethiwyd Jerusalem ar ddwy waith neu dair (tt. 189–90).

Nid yw barn Duw yn golygu nad yw'r Cymry dan ei fendith. Cawsant eu barnu, yn ôl y *Ffydd*, er eu lles. Dyfynna Edwards lawer o adnodau ynghylch hyn, yn enwedig gan y proffwydi fel Eseia, a gwna hyn er mwyn annog y Cymry i fyw'n dduwiol (t. 211).

Yn y *Ffydd* cawn ddehongliad rhagluniaethol o amser sydd yn dangos bod y Cymry'n genedl dan fendith Duw. Mae Derec Llwyd Morgan wedi trafod rhagluniaeth yn fanwl, gan ddangos y cred Edwards fod Duw yn gyrru amser ar gyfer Ei ddibenion daionus Ef (1967; 1970). Yn ôl Bobi Jones: 'Y mae'r *Ffydd Ddiffuant* yn tystiolaethu am arglwyddiaeth lawn Duw ar Hanes. Y mae pob peth yn digwydd yn ôl Ei ewyllys sofran Ef... nid oes dim sy'n gallu ymyrryd â'r cynllun dwyfol' (1977, tt. 342–3). Mae Alexandra Walsham wedi dangos y bu dealltwriaeth ragluniaethol o amser yn amlwg yn Lloegr yn ystod y cyfnod modern cynnar, ac i bobl weld llaw Duw yn y gorffennol ac yn y byd o'u cwmpas (1999). Dengys y *Ffydd* fod y Cymry dan fendith Duw oherwydd bod Ei ofal rhagluniaethol drostynt. Cynhaliodd Ei achos a threfnodd amser er mwyn sicrhau buddugoliaeth i'r ffydd ddiffuant. Roedd y fuddugoliaeth hefyd er budd i'r Cymry. Gwelwn y dehongliad rhagluniaethol o amser yn dod i'r amlwg yn y *Ffydd* wrth i'r efengyl lwyddo er gwaethaf pob gwrthwynebiad oherwydd dyma gynllun Duw. Duw a ddiogelodd y ffydd ddiffuant; ef a nerthodd y prif Gristnogion, ac ef a sicrhodd ddistryw ymdrechion drygionus a dymchwel gau-grefydd y Pab.

Os oes un cyfnod neu ddigwyddiad sy'n dangos bod y Cymry dan fendith Duw a bod rhagluniaeth Duw o'u plaid yn y *Ffydd*, y Diwygiad Protestannaidd yw hwnnw. Dyma gyfnod pan

drugarhaodd Dduw ar y byd ac ar y Cymry. Gall Edwards ddweud felly, ‘mae ewyllis Duw yn ddatcuddiedig yn yr oes hon’ (t. 211). Mae’n atseinio cred Davies fod y cyfnod hwn yn un sydd o dan fendith arbennig Duw. Ceir awgrym y cred Edwards ei fod yn byw o hyd yng nghyfnod y Diwygiad Protestannaidd. Cyfeiria at ymdrechion i ledaenu Protestaniaeth hyd 1677, fel cyfieithu *Galwad i’r Anychweledig* gan Richard Baxter i’r Gymraeg, wrth wneud hyn mae’n awgrymu ei fod yn ddilyniant i weithgarwch gynt William Morgan ac eraill (tt. 205–7). Mae gwaith Edwards a’i debyg, felly, yn rhan o genhadaeth wreiddiol y genhedlaeth o Brotestaniaid a gyfieithodd yr ysgrythurau. Gesyd Edwards ei hun yn rhan o’r llinach o Brotestaniaid Cymreig ac Ewrofediteranaidd y gwnaeth Duw eu defnyddio.

Caiff y Diwygiad Protestannaidd ei gofio fel tystiolaeth o fendith Duw ar y Cymry wrth iddynt brofi gwaredigaeth ddeublyg: yn wleidyddol ac yn ysbrydol, fel y dadleuwyd eisoes. Un o fendithion mawr y Diwygiad Protestannaidd ar y genedl oedd rhoi’r Beibl yn iaith y Cymry:

er pan ddaeth yscrythyrau yn Gymraeg i’n plith, y mae’r helynt orau ar ein cenedl ni ac y fu ers llawer o genedlaethau. Rhoddes Duw iddi heddwch oddiamgylch. Ni wŷr y tô presennol oddiwrth y cyfyngdra gofidus ydoedd gynefin i’n henafiaid ni gynt (tt. 209–10).

Trobwynt oedd cyfieithu’r Beibl a ddynodai heddwch newydd i’r genedl. Bellach, cred Edwards fod y Cymry’n byw mewn cyfnod euraid sy’n dra gwahanol i’r hyn a fu. Cofia’r cyfnod mewn fframwaith ysgrythurol gan dynnu ar ddelweddau Beiblaidd a phwysleisio ei fod yn gyfnod o drugaredd gan Dduw: ‘Ac fel y rhoddes Duw *hâd i’r hauwr, amlhâodd y torthau ir bwyttawyr*, a phreintwyd eilwaith chwe mîl o Fiblau Cymraeg â llythyrennau mân, ac aethont cyn ratted a biblau Saesonaeg’ (tt. 206–7). Wrth fod yn genedl dan fendith Duw, mae’r Arglwydd yn darparu

ar gyfer y Cymry yn ysbrydol o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'n fendith ryfeddol, canys nid oedd y Cymry yn galw amdani ar unrhyw gyfrif, ac nid oedd cyfieithwyr na phregethwyr ar gael.

Gall Edwards ddatgan yn hyderus ar ôl edrych dros hanes y ffydd ac o ystyried breintiau'r

Diwygiad Protestannaidd:

Bellach wedi bwrw golwg ein meddwl ar bob gwlad, ac oes, ni allwn ddywedyd yn hŷ, na bu gwybodaeth yr efengyl er ioed eglurach, a'r scrythurau, a llyfrau da amlach, a rhattach, na phregethwyr fedrussach, oddieithr y Propphwydi, neu'r apostolion â'u cymdeithion, nag ydynt yr amser hwn ynheirnasoedd y Gorllewin, lle mae adgweiriad a rhydd-did crefydd (t. 148).

Megis yn y bennod flaenorol, mae Edwards yntau'n synied am y Diwygiad Protestannaidd fel adfer ffydd ymhlith y Cymry a rhybuddio'r genedl 'Gwilia arnat yn ddyfal o Gymbro, rhag iti rwystro na digaloni adferiad y ffydd yn dy frô' (tt. 211–2).

3.6 Cenedl o bechaduriaid

Y peth olaf sy'n diffinio'r Cymry o safbwynt ffurfiannol wrth ddehongli naratif hanes y *Ffydd* fel un sy'n cynnwys cof diwylliannol yw bod y Cymry yn bechaduriaid. Diffinnir pechod yn y *Ffydd* fel gwrthwynebiad i 'ewyllis Duw' ac fel '*Halogrwydd cnawd ac yspryd*' gan ddyfynnu 2 Corinthiaid 7:1 (tt. 261, 263). Mae Charles Edwards yn cefnogi athrawiaeth y pechod gwreiddiol, ac yn credu i bob person etifeddu pechod gwreiddiol Adda, a'u bod mewn cyflwr o gaethiwed iddo (tt. 259–334). Mae Edwards yn adlewyrchu'i gyfnod wrth synied yn dywyll am ddyn yn ôl Saunders Lewis (1973, tt. 169–70).⁶⁵ Testun i achub eneidiau yw'r *Ffydd* yn y bôn, a dywed G. J. Williams y bu cyflwr 'ei gyd-ddynion yn pwysu'n drwm ar ei feddwl' a'r awydd i achub ei gyd-genedl rhag

⁶⁵ Yn aml, wrth drafod pechod gwreiddiol mae cymaint o ffocws ar ddrygioni dyn fel nad oes cydnabyddiaeth i'r waredigaeth a geir trwy ffydd yn aberth Crist yn ôl credoau Cristnogol. Dywed Edwards: 'Gŵyr yn hyspys fod Duw sanctaidd, creawdwr Hollalluog, a Barnwr cyfiawn a dâl i bawb yn ol eu ffyrdd, a ddiddana 'r grasol, ac a gospa 'r anufydd, a brynodd bechaduriaid, ac â'i yspryd sanctaidd a'u *gwareda oddiwrth feddiant Satan*, a gwasanaeth pechod, ac au diwalla â'i gariad; o'r hyn y mae ganddo brawf cysurus ynddo ei hun' (t. 319). Am y berthynas rhwng pechod ac iachawdwriaeth yn y cyfnod, gweler: Jonathan Willis, gol. 2015. *Sin and Salvation in Reformation England*.

digofaint tragwyddol a gymhellodd Edwards i ysgrifennu (1936, t. lxx). Wrth iddo ddyfynnu Gildas mae'n dangos ei amcanion efengylaidd; mae'n pledio â'r Cymry: 'Ceisiwch un astyllen edifeirwch ar ol llong-ddrylliad, fel y diangoch i dîr y rhai byw; ac y troer oddiwrthych ddigofaint yr Arglwydd' (t. 185). Ei ddymuniad yw i achub eneidiau'r Cymry a chânt eu hachub wrth edifarhau.

Nid yw'r ffaith bod y Cymry'n bechaduriaid yn eu gwneud yn wahanol i genhedloedd eraill, a dywed Charles Edwards: 'Y mae pob cenedl dan bechod' os ydynt yn wlad cred neu anghred (tt. 260–1). Mae ystyried pechod gwreiddiol yn hollbwysig wrth gofio am apeliadau normadol y *Ffydd*, fel y gwelwn yn y man. Mae'r gred fod y Cymry'n bechaduriaid yn ddechreubwynt gwbl sylfaenol i'w hunaniaeth.

Wrth amlinellu Rhinwedd y Ffydd ym mhennod 22 '*ystyri'r cyflwr pechadurus dynolryw cyn eu galw*' (t. 259). Yn y bennod hon, dywed Edwards eto fod pawb mewn 'cyflwr halogedig' wrth natur, ac yn dilyn cwmp Adda 'mae'r llygredigaeth yn hollawl' (t. 260). Mae pechod, yn ôl Edwards, wedi llygru ewyllys a deisyfiadau'r ddynoliaeth; dywed ei fod 'gwedi gorchfygu pob rhan o bôb dyn, holl gyneddfau'r enaid, ac aelodau'r corph' (t. 263). Disgrifia gyflwr y ddynoliaeth yn '[d]ruenus' (t. 276). Mae natur y genedl, a'r ddynoliaeth yn gyffredinol, yn ddigyfnewid. Roedd y Cymry yn bechaduriaid yng nghyfnod Gildas a thros fil o flynyddoedd yn ddiweddarach maent o hyd yn bechaduriaid. Eglura effaith pechod gwreiddiol wrth gyfieithu Gildas:

Ac nid y bai hwnw yn unic, eithr pob rhyw lygredigaeth a'r sydd ddigwyddawl i natur ddynol, ac yn gŵyr-droi pob daioni yn awr hefyd: Sef casineb ir gwirionedd, ac rhai ai haero, serch ir celwydd, ac ir neb ai gwnelo, croesawu'r drwg yn lle da, perchi gloddest am fwynder, a chwennych tywyllwch yn lle'r haul, a chymeryd Satan am angel goleuni (t. 165).

Mae pechod wedi cyflyru'r Cymry i gamddeall yr hyn sy'n ddrwg ac yn dda; mae'n well gan ei genedl ddrygioni. Gresyna wrth weld cymaint o'r Cymry'n ceisio caethiwed yn yr unfed ganrif ar

bymtheg, yn hytrach na throi at Brotestaniaeth, ac er 'gorfu ir awdurdodau goruchel gymell y Cymry i ddaioni, a braidd y deffrôent er hynny' (t. 209). Dengys hyn i Edwards ffaeleddau a llygredd y natur ddynol wrth i'r Cymry beidio â cheisio'r efengyl. Dylid cydnabod hefyd ei fod yn rhoi'r bai ar Gatholigiaeth am gaethiwo'r Cymry ac i'r carchar hwnnw droi'n gartref. Dywed fod Catholigiaeth yn ffynnu ar anwybodaeth ac ofergoel ac yn eu hyrwyddo:

Ac nid rhyfedd i anwybodaeth bylu ein cenedl ni, pryd na lefasent gan y gyfraith roi dysceidiaeth iw plant: na chan babyddiaeth yr amseroedd hynny gael golwg o'r scrythyrau. A chweddi iddynt dros lawer oes gynefino â'r cyflwr hwnnw, aeth y carchar yn gartref; a dywed y ddihareb, *yr aderyn a faccer yn uffern, yn uffern y myn drigo (ibid.)*.

Pwysleisia'r *Ffydd*, er gwaethaf hyn, bod trugaredd Duw yn rhyfeddol wrth gynnal ei dystiolaeth yng Nghymru ac yn eu galw ato. Rhy Edwards fawl i Dduw am drugarhau wrth y ddynoliaeth yn gyffredinol, ac wrth y Cymry yn benodol. Felly, er y diffinnir y Cymry trwy'r cof diwylliannol fel pechaduriaid nid yw hynny gyfystyr â dweud eu bod mewn cyflwr o anobaith, oherwydd bod Duw o'u plaid. Mae'n cyferbynnu trugaredd Duw â diffyg brwdfrydedd crefyddol y Cymry, ac mae'r *Ffydd* am i'r genedl gofio er gwaethaf trugaredd Duw roeddynt yn araf iawn i'w dderbyn 'yr oedd ein gwlad ni wedi mynd yn ddichwant am dano [yr efengyl], neu yn anfedrus tuag at y fath bêth' a dylai'r Cymry ddysgu o gamgymeriadau eu hynafiaid (t. 198).

Digofaint tragwyddol sy'n eu hwynebu oherwydd eu cyflwr naturiol fel pechaduriaid, yn nhyb Edwards. Ond a chofio neges greiddiol y *Ffydd*: 'cofiwn yr hwn *a fu farw tros bawb*', gan ddyfynnu o 2 Corinthiaid 5:14, nid yw sefyllfa'r Cymry'n anobeithiol oherwydd aberth Crist (d.t.). O ganlyniad, nid newyddion drwg a gyflwynir yn y *Ffydd*, fel y dywed Derec Llwyd Morgan: 'Llyfr i achub dyn yw un Edwards, nid i'w amddiffyn neu'i addysgu yn unig' (1970, t. 107). Wrth ystyried eu cyflwr pechadurus, roedd Edwards yn disgwyl i'r Cymry goleddu Cristnogaeth. Ceir cof

diwylliannol sy'n amlygu'r natur ddynol a'i fod o dan lywodraeth pechod, ac yn sgil hynny mawrygir daioni Duw. Pwysleisia Edwards ei fod yn angenrheidiol i droi ato am waredigaeth rhag digofaint tragwyddol. Cyhoeddi gwaredigaeth ydoedd mewn gwirionedd, ac oherwydd ei gariad at ei gyd-genedl dymuna i'r Cymry gael eu hachub. Wrth bwysleisio fod y Cymry'n bechaduriaid, mae apêl normadol ar iddynt droi at Dduw.

3.7 Dylai'r genedl '[g]erdded y llwybr cûl'

Wrth ddadansoddi naratif hanes y *Ffydd* fel testun cof diwylliannol, dadleuir y cynigir hunaniaeth normadol i'r Cymry. Hynny yw, dengys Edwards i'r genedl yr hyn y dylent ei wneud a'r ffordd i ymddwyn yn gywir. Mae cysylltiad cryf rhwng hunaniaeth ffurfiannol a hunaniaeth normadol yn y *Ffydd*. Mae'r Cymry dan fendith rhagluniaethol Duw. Yn sgil hyn, mae disgwyliadau ar iddynt ymddwyn mewn ffordd benodol, sef: '[c]erdded y llwybr Cûl sydd yn arwain i orphwystra tragywyddol' (d.t.). Dengys y *Ffydd*, pa mor agos y gellid gweu hunaniaeth ffurfiannol a normadol, yn enwedig mewn cyd-destun Cristnogol. Disgwylia Edwards i'r Cymry edifarhau a byw fel Cristnogion, oherwydd pwy ydynt, ac oherwydd yr hyn y mae Duw wedi'i wneud drostynt.

Sylfaen yr hyn y dylai'r Cymry ei wneud yw dilyn y ffydd Gristnogol: dylent fyw'n dduwiol a throi cefn ar bechod fel y gwelir trwy'r astudiaeth. Cred Edwards y gellid troi at y gorffennol ar gyfer arweiniad moesol, fel yr oedd yn gyffredin ar y pryd. Roedd ysgrifennu hanes, felly, yn naturiol yn gallu dod yn rhan o swydd i bregethwr. Gwelwyd eisoes i Davies a Powel, dau bregethwr, ysgrifennu hanes y Cymry, ac yn y bennod nesaf byddwn yn astudio testun gan bregethwr arall, Theophilus Evans; roedd pregethwyr, felly, yn rhan amlwg o gyfryngu cof diwylliannol yng Nghymru'r cyfnod modern cynnar. Mae anogaethau normadol yn nodwedd amlwg o benodau 22 i 29, sef adran 'Rhinwedd y ffydd', sy'n gymhwysiad o'r gwersi cyffredinol y

caiff y Cymry o gofio’u gorffennol (tt. 259–383). Fel y gwna Davies yn ei ‘Epistol’, mae Edwards yntau yn siarad â’r Cymry’n uniongyrchol i ymateb yn normadol i’r testun:

Yn olaf o Gymru anwyl ystyriwch, ie ystyriwch yn dragywydd, yr haeddai Duw ein ufudd-dod sanctaidd ni. canys ef a’n gwnaeth, a’n prynodd, ac a’n cynnal ni. Mae ef yn Dâd da i ni, am hynny dyledus ini ymddwyn tuag atto ef fel y gweddai i blant tirion. Mae ef yn ddoeth i fedru gosod cyfreithiau buddiol ini, am hynny cymwys iddo ein rheoli ni. Mae’n Frenin o anfeidrol anrhydedd, ac a haeddai ein parch ni. Ac iddo ef y bo gogoniant byth. Amen (t. 383).

Gwelwn angerdd efengylaidd yr awdur wrth iddo amlinellu cymeriad Duw a’i berthynas arbennig â’r Cymry. Dywed fod Duw yn haeddu ffyddlondeb y genedl, ac mae Edwards ymhlith y sawl a ddylai fod yn ffyddlon iddo. Pwysleisia, hefyd, fod rhaid i’r Arglwydd deyrnasu yng nghalon y credadun unigol (gweler: Keeble, 1987, tt. 187–214). Un o amcanion y *Ffydd* yw annog y Cymry i fod yn Gristnogion yn y galon, yn hytrach na bod yn Gristnogion ar wedd yn unig; dywed ei fod yn ysgrifennu ‘mal y byddech Gristion mewn gwirionedd ac nid mewn lliw yn unig’ (d.t).

Edifarthau

O gofio bod y Cymry fel pob cenedl yn bechaduriaid nid yw’n syndod bod Edwards yn eu hannog i edifarthau. Dyfynna Gildas o’r chweched ganrif, a drafodir yn fanylach yn y man, sy’n annog pobl ei ddydd i edifarthau, ac mae Edwards yn defnyddio’r siars ar gyfer Cymry’r ail ganrif ar bymtheg (tt. 161–85). Yn debyg i Gildas, tristâ Edwards wrth weld ei gyd-genedl yn byw dan farn, ac amlinella’r modd y ceid gwardigaeth. Caiff y darllenydd ei wahodd at Grist: ‘tyred at Grist y *tâd daionus*, y *wnaiff wlêdd* o gyssur nefol ir dychweledig, fel y profo *mor felys yw’r Arglwydd*’ gan gyfeirio at Salm 34:8 a dameg y mab afradlon (t. 168).

Nid ei fwriad yw addysgu’r Cymry am y gorffennol a’u pechod er mwyn iddynt gael y wybodaeth yn unig. Yn hytrach, gyrrid Edwards gan amcanion efengylaidd, sef i achub eneidiau. Fel y dywed D. Denis Morgan ‘his aim was not to produce timeless literature but simply to save

souls' (2018, t. 230). Cred Edwards y caiff eneidiau eu hachub wrth i'r Cymry edifarhau. Yn ôl y *Ffydd*, edifarhau yw cyffesu pechodau gerbron Duw a galw arno am faddeuant, yn dilyn hyn disgwylir i'r credadun fyw mewn ffordd sy'n dangos ei fod wedi troi oddi wrth bechod. Roedd Edwards yn defnyddio'r *Ffydd* fel estyniad o'i gonsyrn cenhadol am ei gyd-Gymry. Gwelwn hyn wrth iddo briodoli Sechareia 1:4,6, sy'n annog yr Israeliaid i beidio â bod fel eu hynafiaid annuwiol, i Gymry'r ail ganrif ar bymtheg: *'Na fyddwch fel eich tadau, y rhai y galwodd y prophwydi arnynt, gan ddywedyd, dychwelwch oddiwrth eich ffyrdd drwg, ond ni chlywent, ac ni wrandawent, nes i fwgythion Duw eu goddiwes hwynt'* (d.t.). Ymbilia ar i'r Cymry edifarhau ac, felly, i gefnu ar eu pechod. Er mwyn hyrwyddo edifarhau fel norm cenedlaethol, tyn Edwards ar esiamplau da rhai o'u hynafiaid gan alw ar y Cymry i'w hefelychu. Yn ogystal â hyn, mae'n tynnu ar esiamplau gwael rhai o hynafiaid y genedl; mae'r esiamplau gwael yn cadarnhau daioni'r ffigurau da. Maent hefyd yn cynnig rhybudd i'r Cymry, oherwydd caiff eu drygioni ei gosbi.

Wrth ystyried normau'r Cymry yn ôl y *Ffydd*, dywed Edwards y dylai'r Cymry ymateb i'r cof diwylliannol drwy edifarhau am eu pechodau (tt. 299–318). Myn Edwards nad yw unrhyw bechadur y tu hwnt i achubiaeth: *'Er cryfed yw dy bechodau os gwîr ddymuni rês Duw, a thaer weddio am dano, ti a'i cei ac a orchfygi'* (t. 382). Defnyddia Edwards yr ail berson unigol, sy'n nodweddiadol o lenyddiaeth Morgan Llwyd, a gwelwyd hyn hefyd gan Richard Davies yn y bennod flaenorol. Wrth wneud hyn mae Edwards yn nesáu at ei gynulleidfa a'u hannog fel unigolion i edifarhau. Mae'r alwad ar i'r Cymry edifarhau yn tystio i wladgarwch, os nad cenedlgarwch, yr awdur, canys y dymuna iddynt edifarhau nid yn unig er mwyn mwynhau'r bywyd hwn ar ei wedd lawnaf, ond hefyd er mwyn mwynhau bywyd tragwyddol.

Roedd elfen o frys yn nodweddu llawer o lenyddiaeth grefyddol yn y cyfnod oherwydd roedd marwolaeth mor gyffredin. Adlewyrchir hyn gan Edwards sy'n dweud y dylai'r Cymry edifarhau nawr fel cenedloedd eraill:

Troesant hwy Scotiaid, a Phichtiaid, a Germaniaid, a cenedloedd eraill at ffydd Grist, ac a esceuluswn ni hi yn ein cartref ein hunain? yr oeddent hwy yn flaenaf, ac a fyddwn ninnau *yn olaf* yn achosion teyrnas nêf? yr oeddent hwy fal eryrod yn ymgais â *Haul y Cyfiawnder*, ac a fyddwn ninnau fal tylluanod yn hoffach gennym y tywyllwch? (t. 214).

Ond ni all pobl edifarhau ar eu pen eu hunain; fel y dywed Derec Llwyd Morgan: 'Calfinydd diysgog yw Charles Edwards' (1970, t. 226; gweler hefyd: Morgan, D. D., 2018, t. 230). Gwelwn yn y *Ffydd* ddibyniaeth ar Dduw yn unol â diwinyddiaeth Galфинаidd wrth iddo achub y colledig:

Wrth weithio edifeirwch ddifrifol cynhyrfa Duw gynneddfau'r enaid i wneuthur eu swyddau priodol. Er iddynt o'r blaen gyscu yn swrth, etto rhaid iddynt ddeffroi at eu gwaith cyn gynted ac y cyffyrddo'r Arglwydd â hwynt, ac y clywont ei lais ef (t. 299).

Cred Edwards heb ras Duw fod sefyllfa'r ddynoliaeth yn hollol anobeithiol. Yn y dyfyniad gwelir etholedigaeth ddiamod a gras na ellir ei wrthod (gweler: Morgan, D. D., 2018, t. 38). Yn ôl Edwards, mae Duw ar waith wrth achub y crediniwr wrth ei gynhyrfu i droi ato, ac felly, mae edifarhau yn rhodd gan Dduw.

Duwioldeb

Mae dwy ran i edifarhau, cyffesu pechodau gerbron Duw a throi oddi wrthynt; wrth ddehongli'r *Ffydd* fel testun cof diwylliannol gwelwn apêl normadol ar i'r Cymry wneud y ddau. Gellid deall edifarhau ym marn Edwards fel dechrau bywyd newydd, ac yn rhan o fyw'r bywyd newydd hwn roedd disgwyl i'r Cymry fod yn dduwiol. Ail nodwedd hunaniaeth normadol y Cymry wrth astudio'r *Ffydd* fel testun cof diwylliannol yw duwioldeb, ac mae'n deillio o'r cyntaf, sef edifarhau. Mae apêl Edwards ar i'r genedl fod yn dduwiol wedi'i harchwilio gan Derec Llwyd Morgan a Noel

Gibbard (1970, t. 220; 1979, t. 60). Mae i'r *Ffydd* ymgais ymwybodol i ennyn a hyrwyddo normau duwiol ymhlith y Cymry. Mae hyn ar ei amlycaf ym mhenderfyniad Edwards i ychwanegu adran newydd, sef 'Rhinwedd y Ffydd', yn argraffiad 1677 a '[th]asg Edwards, cofier, yn yr adran newydd hon, yw annog y Cymro cyffredin i rodio ffyrdd Duw' (Morgan, D. Ll., 1970, t. 224). Neilltuir pedair pennod i annog duwioldeb a thrafod ei rym ymhlith yn y *Ffydd* (tt. 334–83). Pwysleisia Edwards nad edifarhau a byw'n dduwiol er mwyn osgoi barn yn unig sy'n cymell y Cristion i dduwioldeb. Yn hytrach, cariad Duw tuag atynt fel cenedl ac fel unigolion wrth iddo anfon Crist i farw drostynt sy'n eu cymell.

Mae'r farn sicr ar bechod – sef gwrthryfela'n erbyn Duw – hefyd yn ffordd o annog arferion duwiol. Megis yn y Beibl a ffynonellau eraill Edwards, dengys y *Ffydd* sut y mae Duw yn barnu cenedloedd drygionus. Haera Derec Llwyd Morgan 'y mae *Y Ffydd Ddi-ffuant* yn feiblaidd yn cyhoeddi na wiu i genhedloedd drwgfucheddol ddisgwyl dim ffafr gan Dduw' a chaent eu cosbi am ddrygioni (1994, t. 5). Wrth i Edwards gofio'r gorffennol, pwysleisia y dylai'r Cymry fod yn dduwiol, ac yn sgil hynny y cânt eu bendithio. Fel y dadleuwyd eisoes, mae drygioni yn arwain at ddistryw, ac mae hyn yn ei dro, hefyd, yn un ffordd y mae'r *Ffydd* yn ceisio hyrwyddo duwioldeb. Mae'r gosb ar ddrygioni hynafiaid y Cymry'n anogaeth ar i'r Cymry yn yr ail ganrif ar bymtheg fod yn dduwiol. Yn dilyn hyn, dywed Edwards ynghylch concwest y Cymry gan y Saeson yn y chweched ganrif: 'Pe buasai [Prydain] yn addoli Duw yn ddyladwy, ni chawsai neb chwennyich moi thîr, er anamled ei gwr-rywiaid: os buasai rhuthr iddi, creuasai'r Arglwydd amddiffyn ar ei holl ogoniant' (t. 188). Ffrwyth pechod oedd methiant y Britaniaid i amddiffyn Prydain rhag y Saeson, ac roedd buddugoliaethau'r Saeson yn rhan o farn Duw ar y Cymry. O fod yn dduwiol, felly, y bydd y genedl yn ddiogel.

Mae gwella buchedd ac arddel y ffydd Gristnogol yn cael eu hannog fel normau'r Cymry: 'O Herwydd *cyfiawnder a dderchafa genedl: ond cywilydd pobloedd yw pechod*' (t. 214). Mae'r *Ffydd* yn dangos awydd Edwards i'r genedl ddyrchafu'n ysbrydol ac i genhedloedd eraill wybod am eu duwioldeb: 'A chaiff y cenhedloedd o'n hamgylch wybod nad ardal drygioni ydym' (*ibid.*). Roedd manteision diamheuol i dduwioldeb, oherwydd y gofala Duw am genhedloedd ffyddlon: 'A diammeu pe cryfhaeu ufudd-dod i air Duw yn ein mysc ni, ychwanegid at ein trugareddau ni. *Canys gwyn fŷd y bobl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddynt*' (t. 210). Ar sail hyn, dywed Derec Llwyd Morgan y cyflea'r *Ffydd* fod 'iechyd y genedl a diogelwch y wlad o dan drefn Duw yn dibynnu'n gyfangwbl ar rinwedd ffydd a glendid buchedd y personau sy'n perthyn iddi' (1970, t. 217).

Un o amcanion y *Ffydd* yw dyrchafu'r Cymry, ac roedd ennyn duwioldeb yn ffordd i wneud hynny, fel y gwelir:

Mal y gallo ein gwlad a fu cyhyd dan waradwydd fyned yn enwog am rinwedd. Tybia rhai mae heppil Cam ydym ni, a pheth o weddillion y Cenhedloedd a ddiangasant o dir Canaan tua'r gorllewyn rhag y dialed dinistriol a ddaeth arnynt yn amser Joshua. Os yw hynny yn bod (Canys nid yw'r chwedl heb liw) etto byddwn rasol, a bendith Christ a ylch ymmaith felldith Noah (t. 214).

Yn y dyfyniad hwn, noda Edwards fod rhai yn dweud mai Cam (neu Ham) yw tad cenedl y Cymry. Nid yw Edwards yn nodi pwy yw'r 'rhaf' hyn. Yn ôl y traddodiadau canoloesol Jaffeth oedd tad y Cymry, a chred William Camden (1586) a Theophilus Evans hyn (1716; 1740); Samothes, mab Jaffeth, oedd y patriarch ym marn Viterbo a Chroniclau Holinshed (1587) (Gruffydd, 1990). Ystyrir Ham yn dad pobloedd Affrica gan Theophilus Evans (1716, t. 20). Dengys Derec Llwyd Morgan fod Edwards yn dilyn John Bale yn *Illustrium majoris Britanniae Scriptorum* braidd yn betrusgar yma (1967, t. 178). Yr hyn sy'n bwysig i Edwards yw i'r Cymry fyw'n dduwiol ac i gofio i aberth Crist olchi'r felltith a roddodd Noa ar y Cymry.

Ond nid ar sail bendithion bydol yn unig y caiff y Cymry eu hannog i fod yn dduwiol: ‘nid yn y bŷd yma yn unig y ceir tâl am yr hyn a dreulier ar wasanaeth Duw, eithr yn y bŷd arall hefyd’ (t. 213). Gobeithia Edwards ennyn duwioldeb drwy apelio at obeithion y gynulleidfa dybiedig yn y bywyd nesaf gan atgoffa’r Cymry fod i’w bywydau yn y byd hwn oblygiadau tragwyddol. Gobaith Edwards oedd i’r Cymry fod ymhlith trigolion y nefoedd, ac i wneud hynny rhaid iddynt edifarhau a byw’n deilwng o’u galwad.

Dywed Edwards fod duwioldeb yn ofynnol gan Dduw: ‘Y mae’n proffes Gristionogol yn gosod arnom rwymedigaeth enwedigol i ymlanhau’ (t. 381). Manyla ar yr hyn y dylid ei wneud: ‘Ac am y ddyled a ofynnir gan ddyn, *sef ofni Duw, a chadw ei orchymynion ef, hawdd i ddyn gydnabod fod hynny yn weddus*’ (t. 244). Myn Edwards nad ef yw awdur y disgwyliadau hyn, ond Duw ei hun ac, felly, mae’n ddisgwyliad awdurdodol. Rhai o’r disgwyliadau cyfunol yw: ‘*Molianwn Dduw*’ (t. 251); ‘*Chwiliwch yr scrythrau*’ (t. 253); ‘*Cywilyddiwn ac edifarhâwn*’ (t. 255). Yn ogystal â bod yn ufudd i’r ysgrythurau, dylai’r Cymry hyderu yn eu haddewidion, a bod yn ddiwyd yn eu ffydd er mwyn ‘*roddi rheswm am y gobaith sydd ynoch*’ (t. 259). Prydera Edwards ynghylch buchedd gwael y Cymry:

Gwn i’m gofid, fod y rhan fwyaf yn rhodio’n ddrwg fucheddol, etto tâl yr hyn sydd o eneidiau grasol ynddi yn awr, fwy na’r gôst ar boen a gymerwyd iw hyfforddi mewn gwybodaeth er ys can mlynedd (tt. 207–8).

Roedd cenhadu’n dasg gwerth chweil hyd yn oed os achubir rhai yn unig, fel y gwelir yn nameg y ddafad golledig. Roedd Edwards yn anfodlon â chyflwr y Cymry, a dyfynna Ioan 5:14 i siarsio’r genedl yn uniongyrchol: ‘dywedaf wrth y Cymro a ryddhawyd, yn ol y siarse y roddes Crist at y clwyfus a iachawyd, – *Wele ti a wnaethpwyd yn iach, na phecha mwyach, rhag digwydd i ti beth a fyddo gwaeth*’ (tt. 210–11). Wrth gofio’r Diwygiad Protestannaidd, pwysleisia Edwards y

rhyddhawyd y Cymry a dylent fanteisio ar y rhyddid hwnnw i fyw'n dduwiol. Yn y dyfyniad, hefyd, ceir rhybudd sy'n dangos cyfrifoldeb y Cymry i ddefnyddio'u rhyddid a'r cof am eu caethiwed gynt i fyw'n dduwiol rhag wynebu barn sy'n waeth na'r hyn a ddioddefwyd eisoes.

Cofio Gildas

Mae dioddefaint cenedl oherwydd ei drygioni a'i pechod yn amlygu'i hun wrth i'r *Ffydd* gofio Gildas 'Frittwn' a chyfieithu ei bregeth enwog *De Excidio et Conquestu Britanniae*, neu *Ynghylch Adfyd a Choncwest Prydain*. Mae'r testun hwn yn condemnio pechodau'r Britaniaid ac yn dweud mai cosb am eu drygioni yw concwest Prydain gan y Saeson (tt. 161–85). Ffigwr o'r chweched ganrif yw Gildas, a chaiff ei ystyried fel pregethwr ac fel hanesydd Prydain gan nifer yn y cyfnod modern cynnar. Yn ôl Curran, caiff Gildas ei anrhydeddu fel yr awdurdod pennaf ar Gristnogaeth ym Mhrydain yn y cyfnod (2002, t. 47). Mae'r *Ffydd* a'r *De Excidio* yn ceisio argyhoeddi'r gynulleidfa dybiedig o'u pechod a'u hannog i edifarhau a byw'n dduwiol. Mae Edwards yn talfyrru testun Gildas gan ddefnyddio argraffiad Polydore Vergil a gyhoeddwyd yn 1525, ac a ddefnyddiwyd yn rhannol i gyfiawnhau ei safbwynt gwrth-Arthuraidd. Caiff Gildas ei gofio gan Edwards fel unigolyn â neges bwerus 'at ein henafiaid' sy'n 'berthynasol i'm perwyl' (t. 161). Dadleuir yma fod Edwards yn defnyddio testun Gildas er mwyn siarsio'r Cymry i ddiwygio'u normau.

Mae Derec Llwyd Morgan (1967; 1994), M. Wynn Thomas (1997), a D. Densil Morgan (2018) wedi annog dehongliad alegoriaidd o ddefnydd Edwards o Gildas.⁶⁶ Yn ôl Derec Llwyd Morgan, apelia syniadau Gildas at Charles Edwards fel alltud ysbrydol sy'n arddel y ffydd

⁶⁶ Mae'n gysylltiad arwyddocaol i Edwards, mae'n debyg. Mae Edwards yn galw'i hun yn 'Gildas Minimus' mewn pregeth a gyhoeddwyd yn 1686, yn hytrach na rhoi ei enw ei hun. Cyhoeddwyd y bregeth mewn *appendix* i *Fatherly Instructions*. Gellid darllen am y tebygrwydd rhwng Edwards a Gildas yn Derec Llwyd Morgan, 'Charles Edwards', yn Geraint Bowen, gol. 1970. Y *Traddodiad Rhyddiaith*, tt. 213–230, yn arbennig tt. 215–21.

ddiffuant (1994, tt. 18–19). Wrth ddadansoddi defnydd Edwards o Gildas yn mnemohanesyddol, dadleuir yma fod y *Ffydd* yn ceisio argyhoeddi Cymry'r ail ganrif ar bymtheg y dylent arfer y ffydd ddiffuant, ac mae'n atgyfnerthu neges normadol greiddiol y testun, sef y dylai'r Cymry edifarhau a byw'n dduwiol. Dadleua Derec Llwyd Morgan: 'The criticism that Gildas levelled at the tyrannical sinners of his own generation is through Edwards's translation now levelled at the evil-doers of the 1670s' (1967, t. 400). Gresyna Gildas fod:

gan Prydain offeiriadau annoeth, a llawer o weinidogion digywilydd, a elwir yn fugeiliaid, a nhwy yn fleiddiaid parodol i ládd eneidiau; yn rhag-ddarbodi iw boliau eu hunain, ac nid i Ieshûd y gwerin. Yn Rhoddi esamplau o'r gwaethaf drwy ddrwg foddion, heb argyhoeddi'r bobl ou pechodau, o herwydd eu bod nhwy eu hunain yn euog o'r unrhyw. Yn trais-feddiannu Cadair Pedr, ac yn haeddu un Judas fradwr (t. 177).

Gellid darllen hyn fel beirniadaeth Edwards ar y gweinidogion Eglwysig a ddisodlodd ef a'i debyg ar ôl adferiad y brenin yn 1660. Trwy ddehongli *De Excidio* yn alegoriaidd, gellid dadlau y gelwir yr Anglicaniaid gan Edwards yn 'elynion Duw nid ei offeiriaid ef!' (t. 184). O lefaru drwy Gildas, condemnia Edwards arweinwyr eglwysig ei ddydd yn anuniongyrchol a diogelu'i hyn rhag carchar oherwydd nid ei eiriau ef ydynt. Mae apêl normadol yma ar i weinidogion yr Eglwys wladol, felly, i beidio â bod fel y rhai sy'n cael eu condemnio can Gildas.

Yn yr un modd, gellid dehongli beirniadaeth Gildas ar y Britaniaid fel beirniadaeth ar Gymru'r ail ganrif ar bymtheg: 'Ni wrendi dy glustiau hyfrydlais dyscyblion Crist yn canu mawl i Dduw, ond dadwrdd gwenheithwyr celwyddog yn canu dy fawl dy hun' (t. 169). Megis yn y chweched ganrif, cred Edwards nad oedd y Cymry'n gwrando ar bregethwyr, a gwelwn ei dristwch wrth i'r genedl barhau i ddilyn celwyddau. Cred D. Denis Morgan iddo efelychu Gildas:

Following his monastic exemplar, Edwards held that when Wales or "Britain", like Israel of old, had been obedient to its Lord, its people had been blessed,

but when they had hardened their hearts against him, judgement had followed. Such was the power of Gildas on his imagination that he fashioned his historical narrative in the light of the monk's prophetic motif (2018, t. 228).

O safbwynt hunaniaeth normadol, pwysleisia Edwards fod cenedl yn profi bendith pan fydd yn dduwiol ac yn rhoi hyder yn Nuw. Trwy ddyfynnu Gildas caiff y Cymry eu hannog i roi 'eu hyder ar Dduw, ac nid ar ddŷn' fel y gwnaeth y genedl gynt a phrofi bendith (t. 165). Gwelwn, felly, y caiff Gildas ei gofio nid yn unig oherwydd ei fod yntau'n un o genedl y Cymry, ond oherwydd ei fod yn gyfrwng i Edwards hyrwyddo normau duwiol. Yn unol ag amcanion Edwards, dengys Gildas fod angen edifarhau am bechod a byw'n dduwiol.

Paralelau Israelaidd

Mae dimensiwn Israelig i hunaniaeth normadol y Cymry yn ôl y *Ffydd*. Gellid dehongli'r paralelau hyn yntau fel tystiolaeth o blaid y ddadl fod dimensiwn Ewrofediteranaidd i hunaniaeth y Cymry. Yn Ewrop ar y pryd, roedd synied am genedl yn nhermau Israel yn gyffredin, fel y dengys Colin Kidd (1999), Pasi Ihalainen (2005), a Kevin Chovanec (2020, tt. 25–8). Yn ôl Anthony D. Smith, roedd yn gyffredin ymhlith Cristnogion diwygiedig (2006, tt. 234–7; 2008, tt. 107–34). Ceir dimensiwn Israelig i hunaniaeth y Cymry yn yr 'Epistol' a'r *Drych*, ond Edwards sy'n datblygu'r thema fwyaf.

Mae Derec Llwyd Morgan wedi dadlau'n gyson am arwyddocâd Israel i genedligrwydd y Cymry yn y *Ffydd*; dywed 'Gwêl [Edwards] Gymru fel Israel bresennol' (1994, t. 20). Gormodiaith yw dweud hyn; cenedl benodol a ddewiswyd gan Dduw yw Israel yn ôl y *Ffydd*. Dadleuir yma fod Edwards yn defnyddio Israel fel model er mwyn deall y profiad Cymreig, mae hefyd yn cymharu profiadau'r Cymry gyda rhai Israel, ond nid yw hynny'n golygu mai Cymru yw Israel ei ddydd. Nid yw cymhariaeth a chyfatebiaeth ag Israel yr un peth â chyfosod y Cymru ag Israel. Nid yw'r Cymry yn cael eu neilltuo fel y caiff Israel yn yr Hen Destament. Ni thrafodir hyn yn fanwl yma, yn hytrach

canolbwyntir ar y paralelau sydd rhwng Cymry ac Israel yr Hen Destament.⁶⁷ Yng Nghymru'r cyfnod modern cynnar, Israel oedd un o dair cenedl bwysicaf y ddealltwriaeth Gymreig – y ddwy arall yw'r Cymry eu hunain a'r Saeson. Defnyddir paralelau Israelaidd gan Edwards i bwysleisio'i neges normadol, sef y dylai'r Cymry edifarhau a byw'n dduwiol.

Gellid ychwanegu at y ddatl hon gan dynnu ar drafodaethau ar gof diwylliannol a haeru bod Edwards yn cofio gorffennol y Cymry mewn dull Israelig. Caiff Israel ei hawlio fel hynafiaid i'r Cymry, wrth hyn mae'r alwad ar i Israel fod yn ufudd i Dduw yn cael ei drosglwyddo i'r Cymry. Wrth hynny, mae gwersi Israel yn dod yn wersi'r Cymry, a rhybuddion i Israel yn rhybuddion i'r Cymry yn ogystal. Cafodd Israel ei chosbi am ei phechodau hyd nes iddi golli'i braint a dylai'r Cymry ddysgu o brofiad Israel. Gellid cysylltu barn Edwards â barn gyffredin yn Lloegr yn ystod y cyfnod modern cynnar a oedd yn defnyddio hanes Israel fel rhybudd moesol i Loegr, fel y dengys Walsham (1999, tt. 281–325).

Mae cysylltiad hanesyddol-ysbrydol rhwng y Cymry ac Israel yn y testun hefyd. Mae Edwards yn cyfarwyddo'r gynulleidfa i ddehongli pregeth Gildas fel a ganlyn:

Wrth a draethwyd y gwelwn gael o'r Britaniaid yr unrhyw rybuddion, ac y gafas yr Israeliaid gynt o flaen eu caethiwed, ac ynghylch yr un môdd y gwrthodasant hwynt, ac ynghylch yr un fâth gystudd a ganlynodd; ac nid heb ei haeddu (t. 185).

⁶⁷ Dadleua Andrew Crome yn erbyn y duedd ysgolheigaidd i ddatlau i bobl yn y cyfnod modern cynnar ddeall eu cenedl fel Israel y presennol, dywed: 'The Jews were the only true elect nation. They alone had been set apart to fulfil the promises and prophecies of the Old Testament. Any gentile nation appropriating these claims for herself was therefore trespassing on Israel turf' (2018, t. 7). Gweler: Andrew Crome. 2018. *Christian Zionism and English National Identity 1600–1850*.

Mae Edwards yn ymwybodol ei fod yn dehongli hanes Cymru mewn ffrâm Israelig. Yn y cydweddiad ceir gwers hefyd, sef: rhaid ymateb i rybuddion yr Arglwydd, neu bydd yr Arglwydd yn troi ei gefn ar y Cymry fel y gwnaeth ar Israel.

Wrth ddyfynnu o'r Beibl, ac o'r Hen Destament yn benodol, dengys Edwards fod paralelau rhwng Cymry ac Israel. Mae hyn yn dangos y gyfochredd rhwng hanes y ddwy genedl canys hanes Israel yw'r Hen Destament. Er enghraifft, dehonglir annuwioldeb y Cymry mewn fframwaith Israel yr Hen Destament, drwy ddyfynnu o Deuteronomium 32:15, '*Y Britwn fel Jeshurun a aeth yn frâs, ac a wingodd, pwyntiodd, yna ef wrthododd Dduw yr hwn ai gwnaeth*' (t. 186).⁶⁸ Mae'r cydweddiad Israelig yn dangos i'r Cymry eu camweddau, a gallent ddehongli hanes difa Israel yn y Beibl fel rhybudd iddynt hwy os nad edifarhaent. Yn y gyffelybiaeth hon mae anogaeth normadol i beidio â bod fel Israel gynt a wrthododd Duw ac yn sgil hynny a gollodd ei braint.⁶⁹

Cred Saunders Lewis fod y *Ffydd* yn dadlau bod yna gysylltiad rhwng y Cymry ac Israel yn y ffordd y mae Duw yn ymwneud â hwy (1973, t. 167). Yn y *Ffydd*, gwelwn fod Duw yn cosbi'r Cymry am eu drygioni: 'felly y gwnaeth ef ar Israeliaid pan ddygn ddigiodd ef wrthynt' (t. 190). Mae Edwards yn annog ei gynulleidfa i ymagweddu'n analogaidd at yr Hen Destament, hynny yw, mae hanes Israel yn astudiaeth achos o wirionedd cyffredinol hanes pob cenedl, gan gynnwys cenedl y Cymry. Roedd Israel yn ddrygionus yng nghyfnod y proffwydi ac yn gwrthod dilyn Duw, o ganlyniad fe'u cosbwyd; cawsant eu gorchfygu a'u halltudio. Tebyg yw ffawd y Cymry ar ôl iddynt beidio â throi at Dduw ar ôl i bregethwyr gael eu hanfon atynt, fe'u caethiwyd i grefydd y

⁶⁸ Enw farddonol am Israel yw 'Jeshurun'.

⁶⁹ Yn yr un modd, wrth ystyried 'mor ddwys y darfu i'n henafiaid ni ddigio Duw', dywed Edwards: 'Oni ellid eu galw *Magor Missabib, sef dychryn o amgylch*' (t. 208). Mae rhybudd ar i'r Cymry edifarhau a byw'n dduwiol rhag i'w gelynyddion eu trechu, fel y gwnaethpwyd i Pasur a alwyd ym Magor Missabib gan Jeremeia mewn addewid proffwydol o farn (Jer 20:3).

Pab fel cosb. Fel y gwelwyd, gorchfygwyd y Cymry hefyd, ac er nad oeddynt yn alltud mewn gwlad arall fel yr Israeliaid, mae cyfochredd. Gellid dadlau, yn ôl Edwards, roedd y Cymry yn alltud o adnabod Duw, sydd yn fath o gaethglud ysbrydol, yn ystod y blynyddoedd hynny. Wrth i Dduw eu hadfer dylent hefyd fod yn ddiolchgar, edifarhau o'u pechodau, a byw bywydau duwiol. Dyma ymgais i ennyn hunaniaeth normadol sy'n seiliedig ar ffyddlondeb i Dduw gan bwysleisio'r cysylltiadau rhwng Cymru ac Israel. Mae rhybudd iddynt edifarhau a byw'n dduwiol; mae ganddynt gof diwylliannol sy'n dangos iddynt yr hyn sy'n digwydd os na wneir hynny.

Esiamplau i'r Cymry:

Wrth ddehongli'r *Ffydd* fel testun cof diwylliannol sy'n hyrwyddo edifarhau a duwioldeb fel normau cenedlaethol, cynigia Edwards esiamplau o bobl. Mae Edwards yn cynnig esiamplau i'r Cymry mewn ffordd ymwybodol iawn, wrth gyfarch y gynulleidfa dywed:

Cawn weled yma siamplau pobl Dduw, a'r modd y carasant ei ewyllis ef, ac y cadwasant ei orchymynnion ef; fel y bo i ni ganlyn y brîsc a dorrasont hwy drwy lychfeydd profedigaethau o'r bÿd dryc-hinog hwn: a cherdded y *Ilwybr Cûl* sydd yn *arwain i orphwystra* tragywyddol (d.t).

Un o brif nodweddion ysgrifennu hanes yn y cyfnod hwn oedd cynnig arweiniad moesol, fel y dadleuwyd eisoes. Yn dilyn hyn, disgwylid i'r gynulleidfa dybiedig ddehongli'r unigolion yn y naratifau yn analogaidd a chymhwysu'r naratif i'w bywydau hwy; gwelwn hyn wrth ddadansoddi'r *Drych* hefyd. Mae Edwards yn disgwyl i'r Cymry efelychu bywydau'r bobl sydd yn ei naratif: 'Ac fel y dylem ddilyn rhinweddau yr ychydig o rai da ym mysc ein henafiaid, felly hefyd gochelyd pechodau y llaweroedd o honynt ydoedd ddrwg, a ddug arnynt ddialedd dwys' (*ibid.*). Mae enghreifftiau da ganddo, ac awgryma y dylai'r Cymry eu hefelychu. Mae ganddo hefyd enghreifftiau drwg na ddylid eu hefelychu. Mae'r esiamplau drwg yn rhai i'w hosgoi, i ddysgu oddi wrthynt, ac wrth hynny maent yn cadarnhau daioni'r rhai da a phwysigrwydd duwioldeb.

Cyfeiriwyd eisoes at sawl enghraifft o ddrygioni ymhlith hynafiaid y Cymry sy'n cynnig esiamplau gwael a'r ymateb disgwylidig yw y dylent sicrhau nad ydynt yn gwneud yr hyn a wnânt hwy. Yn yr un modd, dylent beidio ag ymdebygu i erlidwyr pobl Dduw, fel Cesar neu ddilynwyr y Pab.

Trwy'r esiamplau da, crea Edwards gwmwl tystion i'r ffydd ddiffuant sy'n annog ac yn ysbrydoli ei gynulleidfa dybiedig i fyw bywydau duwiol. Ymhlith yr esiamplau normadol mae Moses a '[dd]ewisodd adfyd gyda phobl Dduw, o flaen hawddfyd gyda phechod'; roedd yn barod i ddioddef â'r saint yn hytrach na bywyd rhwydd yn llawn pechod (t. 15). Cyfeiria at gymeriadau Beiblaidd eraill fel y Brenin Dafydd, Nathaniel, a Philip yn yr un modd, a dangos natur cosmopolitanaidd cof y Cymry yn y *Ffydd*. Mae Edwards, felly, yn annog ei genedl i efelychu eu hynafiaid ysbrydol Beiblaidd a'i fod yn ufudd i Dduw a'i ddeddfau (t. 248).

lesu Grist yw'r esiampl ysgrythurol mwyaf, a dywed Edwards y dylai'r Cymry:

wrth geisio ymddiwallu â gwybodaeth, jawn graffu ar Grist, a'i ferthyron Sanctaidd, y rhai y dirisclwyd pŵb pechod, a mwyniant bydol oddi amdanynt; mal y tebygom i'r gwyn oedd ynddynt, ac y chwanego gwir Gristianogion tebyg iddynt yn ein plith (d.t).

Mae Crist yn batrwm bywyd i'r Cymry, yn gymaint ag yn waredwr iddynt a dylent geisio dilyn ei esiampl ef ac astudio'i fywyd. Yn y dyfyniad hwn, hefyd, gwelwn y dylent efelychu'r merthyron a ddioddefodd fel eu Harglwydd. Dymuna Edwards i'r gynulleidfa dybiedig gael eu hysbrydoli gan y merthyron, sydd yn rhan o gof y genedl trwy gosmopolitaniaeth y ffydd Gristnogol. Maent hefyd yn amlygu y gellid goresgyn poenau bydol, sen tymhorol, a chadw'u proffes hyd y diwedd oherwydd eu gobaith nefol a thragwyddol. Yn hyn o beth, mae tystiolaeth y merthyron yn brawf o rym duwioldeb yn wyneb profedigaethau'r byd hwn.

O ddilyn yr esiamplau hyn, cred Edwards y bydd gan y Cymry y persbectif cywir ar fywyd gan gofio bod dimensiwn tragwyddol i fywyd beunyddiol. Dylai'r Cymry droi at y Beibl yn wyneb eu dioddefaint, fel y gwnaeth y merthyron gynt a chael cysur a'r nerth i orchfygu'u cystuddiau. Er enghraifft, cânt gysur ac anogaeth yn unol â Rhufeiniaid 8:18, fel y dywed Edwards: 'Yno y cafodd y gweiniaid ddiangfa, a'r Cryfion galonid i ddioddef er mwyn Crist, gan ystyried *nad yw dioddefiadau yr amser presennol hwn, yn haeddu eu Cyfffelebu a'r gogoniant a ddatcuddir i ni*' (t. 45). Dylai'r Cymry efelychu'r plentyn ifanc yn y bedwaredd ganrif a gymerwyd o dorf pan y cafodd Romanus ei fflangellu yn Antiochia. Mae'r plentyn yn llwyddo i orchfygu poenau corfforol trwy ei ffydd: 'Felly Christian gwan a orchfygodd wrthwyneb crÿf, a methodd ganddynt beri iddo wadu ei ffydd yn yr oedran hwnnw' (t. 73). Yn ôl Edwards, ceir gwir gryfder o'r ffydd ddiffuant.

Apelia Edwards, hefyd, ar i'r Cymry efelychu duwioldeb a brwdfrydedd Cristnogol eu hynafiaid ethnig: 'Oh nad ymegniai'n cenedl i fod mor fywiog, ac mor wresog yn y grefydd Gristnogol ac y fu rhai o'n hen deidiau ni gynt' (tt. 213–14). Yn y *Ffydd*, mae'n destun balchder fod Tadau'r Eglwys yn dweud i hynafiaid y Cymry dderbyn y ffydd Gristnogol, fel y gwelir yn *Drych y Prif Oesoedd* yn y bennod nesaf. Dywed Edwards:

aeth ffydd ein henafiaid mor enwog drwy'r bÿd, oni byddai athrawon godidoccaf y Cristnogion yn bostio o honi ynheirnasoedd y dwyrain a'r gorllewyn; Ac yn argymmennu oddiwrthi i brofi Duwdod Crist, gan fod ei deirnas ef yn treiddio, lle nid alla un Cæsar finio (t. 152).

Yma, gosodir teyrnas Grist gyfochr â theyrnas Rhufain, a phwysleisio mawredd Duw yn wyneb grym dynol. Mae'r bri a gafodd y genedl gynt oherwydd eu ffydd yn anogaeth i'r Cymry yn yr ail ganrif ar bymtheg i efelychu'u hynafiaid. Gall yr un ffydd ddyrchafu'r genedl yn yr ail ganrif ar

bymtheg, hefyd. Dengys Edwards, felly, yn wahanol i Prys, Llwyd, a Powel, nad gwychder milwrol, na dewrder, neu ufudd-dod sy'n dyrchafu'r Cymry ond yn hytrach duwioldeb yn unig.

Ymhlith rhai o'r esiamplau normadol o orffennol y genedl sy'n hyrwyddo duwioldeb yw'r seintiau. Wrth i Edwards gofio'r seintiau Cymreig pwysleisir iddynt ddilyn y ffydd ddiffuant. Roeddynt yn driw i'r dystiolaeth wreiddiol a ddaeth i Brydain â Joseff o Arimathea ac roeddynt yn Brotestaniaid. Nid oedd Catholigiaeth Rufeinig yn bodoli; pwynt pellach sy'n pwysleisio mai norm estron a diweddar oedd Catholigiaeth yn nhyb Edwards. Mae ailddehongli hagiograffeg yn y cyfnod modern cynnar yn tystio i arwyddocâd y seintiau o hyd. Caiff y seintiau eu hailddehongli neu eu 'diwygio', fel y gwnaethpwyd gan Richard Davies yn yr 'Epistol'. Mae eu ffydd yn bur ac yn syml yn ôl y *Ffydd*; mae plaender Protestaniaeth gyda phwyslais cryf ar bregethu yn nodweddu anghydfurfwyr fel Edwards. Cofir am y seintiau mewn fframwaith Protestannaidd gan 'anghofio' elfennau problematig drwy beidio â sôn am yr elfennau Catholig o'u hanes a oedd yn amheus iddo. Bellach, esgobion yw Garmon a Lupus yn unig, yn yr un modd pregethwyr yw Padrig a Gildas yn unig, ac 'Archesgob tra ysbrydol ac anrhydeddus' yw Dewi yn unig (tt. 157–9). Mae Edwards yn efelychu Richard Davies ac yn darlunio Dewi Sant fel Protestant. Er ei fod yn diwygio'r seintiau, nid yw'n manylu'n ormodol arnynt – sydd efallai'n awgrymu'i fod yn betrusgar wrth sôn amdanynt. Fel Richard Davies gynt, mae balchder cenedlaethol ymhlyg yn y cof o'r seintiau yn y *Ffydd*, a chânt eu defnyddio i annog duwioldeb. Dylai'r Cymry efelychu Dewi a dylent hefyd hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weision fel y gwnaeth Dyfrig, Cadog, a Gildas (tt. 158–9).

Yn ogystal, mae'r seintiau yn esiampl o ddyletswydd cenhadol y Cymry fel Cristnogion. Mae Edwards yn awyddus i Brydain ddod yn ganolfan i Grist ar y ddaear, ac i'r Cymry gael rhan fawr yn hynny fel y cawsant gynt. Dylent ddilyn esiamplau cenhadol eu hynafiaid fel 'Nennius

Brittwn' a bregethodd i'r Pictiaid (t. 157), a Gildas a wahoddwyd i Iwerddon gan y brenin er mwyn 'adferu trefn eglwysig yn ei deyrnas ef' (t. 161). Mae llwyddiant Gildas yn dangos gallu Duw; dywed Edwards iddo lwyddo oherwydd 'bendithiodd Duw ei orchwyl ef yn diwygio pethau crefyddol' (*ibid.*). Felly, nid gwychder cynhenid y seintiau hyn oedd gwraidd eu llwyddiant, ond bendith a rhagluniaeth Duw. O ddehongli'r ffigurau hyn fel esiamplau normadol, gellid dadlau bod cyfrifoldeb cenhadol wedi'i drosglwyddo i reolwyr Prydain yn yr ail ganrif ar bymtheg. Er enghraifft, yn ôl y *Ffydd* mae teyrnas Brydain ei ddydd yn annog cenedloedd fel 'yr Hollandiaid' i lynu at Brotestaniaeth (t. 141). Pwysleisia Edwards, felly, y dylai'r Cymry gyfrannu at Brotestaniaeth ryngwladol, a bod y ffydd Brotestannaidd yn ei hanfod yn drawsghenedlaethol a chosmopolitanaidd.

Defnyddir ffigurau Protestannaidd o Gymru'r unfed ganrif ar bymtheg fel esiamplau normadol hefyd. Cânt eu darlunio fel pobl gyffredin a ymddiriedai yn Nuw ac a weithiodd er ei fwyn Ef, oherwydd hynny, ac oherwydd hynny yn unig y cânt eu hanrhydeddu. Mae'r Protestaniaid yn esiamplau duwiol i'w hefelychu. Maent hefyd yn destun balchder cenedlaethol wrth iddynt hyrwyddo'r ffydd ymhlith y Cymry a darparu deunydd ysgrifenedig ar eu cyfer. Cynhwysir detholiad ohonynt yn y naratif am Gymru, sef yr 'ewyllyswyr da i Gymru': William Salesbury, William Morgan, a John Davies (t. 206). Yr hyn sy'n eu nodweddu yw eu cenhadaeth ddiflino i gyfieithu'r ysgrythur a darparu at anghenion ysbrydol y Cymry. Roeddynt hefyd yn hyrwyddo addysg a'r Gymraeg, a chaiff hynny ei ganmol (tt. 205–6). Dylai'r Cymry cyfoes, medd Edwards, efelychu eu cenhadaeth a gweithgarwch drwy weithio er budd ysbrydol eu cydwladwyr. Mae'r ffigurau hyn, hefyd, yn normaleiddio Cristnogaeth Brotestannaidd ac yn ei gwreiddio yng ngorffennol diweddar y Cymry. Mae Edwards yn awyddus i bwysleisio ei fod ef ei hun yn rhan o'r

traddodiad hwnnw wrth iddo yntau gyfrannu at gyfieithiadau a chyhoeddi'r *Ffydd*. Mae'n galw ar y Cymry i goleddu Protestaniaeth, edifarthau, a byw'n dduwiol.

3.8 Dylanwad y gynulleidfa dybiedig

I gloi'r bennod, dadleuir bod Charles Edwards, wrth ysgrifennu'r *Ffydd Ddi-ffuant* dan ddylanwad ei gynulleidfa dybiedig, a bod y dylanwad hwnnw yn deillio o apêl neilltuol at gynulleidfa benodol sy'n rhan o naratifau cof diwylliannol. Megis yn nhestunau eraill yr astudiaeth hon, bwriad yr apêl at gynulleidfa dybiedig yw hwyluso cofio, ac o ganlyniad, hwyluso eu gallu i berchenogi'r naratif fel eu cof diwylliannol.

Mae dylanwad y gynulleidfa ar rai o'r testunau a ddylanwadodd ar Edwards wedi derbyn sylw gan ysgolheigion, ac yn y bennod flaenorol trafodwyd y dylanwadau ar y testunau Cymreig. Mae Gregory, wrth astudio *Acts and Monuments*, wedi dadlau i Foxe gyfarch nifer o gynulleidfaoedd ar yr un pryd, sef cyd-gredinwyr, pobl yn y canol, a'r erlidwyr Catholig (1999, t. 173). Dywed Woolf fod Foxe yn ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa leyg yn bennaf (1995, t. 250). O ganlyniad, gellid dadlau iddo ysgrifennu ar gyfer cymuned ddeongliadol. Rhoir sylw i gynulleidfa Gildas gan Magali Coumert sy'n dadlau mai cenedl ei ddydd oedd ei gynulleidfa. Dadleua Coumert ei fod yn ysgrifennu amdanynt ac ar eu cyfer er mwyn annog edifeirwch ar frys yn wyneb barn (2019, tt. 21–30). Mae'r astudiaethau hyn yn berthnasol i'r *Ffydd Ddi-ffuant* oherwydd cynulleidfa leyg, yn bennaf, yw cynulleidfa dybiedig Charles Edwards. Ymhellach, mae Edwards yntau yn ysgrifennu er mwyn achub eneidiau ac er mwyn annog Cristnogion, felly mae ei gynulleidfa'n amlweddog. Fel Gildas, mae hefyd elfen o frys yn perthyn i'r gwaith wrth i Edwards geisio argyhoeddi ei gyd-Gymry bod angen iddynt edifarthau.

laith ac ieithwedd

Testun Cymraeg yw'r *Ffydd* ac felly'r Cymry oedd cynulleidfa dybiedig Charles Edwards. Dadleua Burke fod rhaid ysgrifennu yn iaith y bobl y dymunir eu cyrraedd (2007, t. 37). Er mwyn cyrraedd cynulleidfa uniaith Gymraeg, ysgrifennodd Edwards yn y Gymraeg; dyma ddadl sylfaenol William Salesbury ganrif ynghynt ynghylch cyfieithu'r Beibl. Edwards, felly, oedd y cyntaf i ysgrifennu hanes y Cymry, mewn naratif weddol estynedig, yn y Gymraeg a'i gyhoeddi. Gwelwn ddylanwad y gynulleidfa ar argraffiad 1671 oherwydd ychwanegir y naratif sy'n cynnwys eu gorffennol, ni cheir hyn yn argraffiad 1667.

Haera M. Wynn Thomas fod dimensiwn cenedlaethol i'r *Ffydd* a bod Charles Edwards yn ymwybodol ei fod yn siarad â chenedl gyfan (1997, t. 192). Cred Derec Llwyd Morgan fod Edwards yn agos at ei gynulleidfa ac mai 'ei gynulleidfa Gymreig yw "ni" bob amser' (1970, t. 103; 1969, t. 93). Dadleuir yma yr apelia Edwards yn ymwybodol at Gymru gyfan, fel y gwna'r 'Epistol' a'r *Drych* ar ei ôl, a dyfynnwyd eisoes 'dywedaf wrth y Cymro' (t. 210). Ar sail hyn, gellid dadlau ei fod yn ymagweddu at y Cymry fel cenedl o unigolion amrywiol. Yn sgil hyn, mae ganddo ddealltwriaeth amlhaenog o'i gynulleidfa. Gellid deall yr haenau hyn yn bennaf trwy nodi ei fod yn ceisio achub eneidiau ac annog y cadwedig. Mae'n annog y sawl sydd heb edifarhau i wneud hynny trwy gydol y naratif. Yn ail, mae'n ceisio annog y sawl sydd wedi coleddu'r ffydd i ddyfalbarhau er gwaethaf eu gorthrymderau gan efelychu esiamplau Cristnogion gynt.

Wrth ysgrifennu yn y Gymraeg, pwysleisia Edwards fod y Cymry'n bobl werthfawr ac yn haeddu cael gwardigaeth Gristnogol fel y maent; nid oes rhaid iddynt ddysgu iaith wahanol i goleddu'r ffydd. Mae defnyddio'r Gymraeg yn gydnabyddiaeth ac yn gymeradwyaeth o genedligrwydd y Cymry mewn fframwaith Cristnogol. Mae hefyd yn ymgais i ddylanwadu ar y cenedligrwydd hwnnw, fel y mae Davies yn yr 'Epistol'. Dilyna esiampl y dyneiddwyr gynt, fel Siôn

Prys, drwy bwysleisio gwerth cynhenid y Gymraeg a'i bod yn gyfrwng clodwiw, a bod y Cymry'n genedl werthfawr.⁷⁰ Mae'r apêl hon tuag at y Cymry yn ei amlygu ei hun drachefn wrth iddo gyfieithu testunau Groeg, Lladin, a Saesneg i'r Gymraeg. Cred D. Densil Morgan y gwna Edwards hyn er mwyn galluogi'r gynulleidfa dybiedig i'w deall, ac i gyfleu eu sylwedd i'w ddarllenwyr (2018, t. 226). Er enghraifft, cyfieitha destunau gan Dadau'r Eglwys Fore megis gan Ignatius 'mal y dirnedech ei yspryd ef wrth ei eiriau' (t. 29). Fel y trafodwyd eisoes, mae'n dangos natur trawsgenedlaethol etifeddiaeth ysbrydol y Cymry a bod y Cymry fel Protestaniaid yn rhan o gymdeithas drawsddiwylliannol ac amlieithyddol.

Cyfieitha Gildas hefyd i'r Gymraeg oherwydd ei fod yn rhan o dreftadaeth ethnig y Cymry, gan obeithio hefyd y byddai ei genedl yn yr ail ganrif ar bymtheg yn gallu dysgu o'r testun. Gobeithia yn benodol y byddai testun Gildas yn argyhoeddi'r Cymry o'u pechodau fel yr oedd Gildas 'yn argyhoedai ein henafiaid o'u pechodau' (t. 162). Am resymau tebyg, dywed Edwards ei fod yn cyfieithu llythyr Salesbury, oherwydd ei fod 'yn amlygu peth o helynt ein cenedl ni y prÿd hynny' (t. 199). Awgryma hyn fod Edwards yn credu y dylai'r Cymry wybod, neu gofio, eu hanes. Awgryma hefyd y dylid cyfieithu testunau gan Gymry duwiol i'r Gymraeg. Roedd y testunau hyn yn werthfawr i Edwards ac yn anogaeth ysbrydol iddo, a gobeithia y cânt yr un effaith ar ei genedl.

'tj'

Yn y *Ffydd* defnyddir iaith ac ieithwedd sy'n dwyn y gynulleidfa i mewn i'r naratif a dangos bod gan Edwards awydd i feithrin perthynas â hwy. Mae hyn yn debyg i'r 'Epistol' fel y gwelwyd yn y

⁷⁰ Gweler: Eryn M. White. 1997. 'Yr Eglwys Sefydledig, Anghydfurfiaeth a'r Iaith Gymraeg', yn G. H. Jenkins, gol., *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb: Yr Iaith Gymraeg cyn y Chwyldro Diwydiannol*, tt. 233–86. Am safbwynt wahanol a ddywed nad oedd gan Edwards, ac Anghydfurfwyr o gyffelyb fryd, lawer o ddiddordeb yn y Gymraeg neu'r Cymry, gweler: Gwerfyl Pierce Jones. 1976. 'Lle'r Gymraeg yng ngweithiau llenyddol 1660–1710', yn J. E. Caerwyn Williams, gol., *Ysgrifau Beirniadol IX*, tt. 163–90.

bennod flaenorol; roedd yn gyffredin iawn mewn gweithiau o'r cyfnod. Mae'n nodwedd amlwg o arddull Piwritaniaid yr ail ganrif ar bymtheg, megis Morgan Llwyd, sy'n pwysleisio gwerth yr unigolyn a'r angen i'r gwirioneddau sydd ganddynt dan sylw gael derbyniad personol. Mae'r defnydd o 'ti', yn arbennig yn y llythyr at y darllenydd, yn enghraifft o 'author-reader intimacy', bathiad Walter J. Ong, sy'n cyfleu agosatrwydd rhwng yr awdur a'r gynulleidfa dybiedig (1975). Dadleuir yma ei fod yn dechreg i hwyluso perchenogi'r naratif fel cof diwylliannol.

Egyr y *Ffydd* wrth gyfarch y Cymry fel unigolion a dangos yr hyn y mae Edwards yn dymuno iddynt: 'Grâs, trugaredd, a thangeddyf i liosogo i ti trwy Grist Jesu' (d.t.). Closia at y Cymry fel unigolion; dywed ei fod yn dymuno 'Ith enaid titheu y byddo adeiladaeth' (*ibid.*). Dyma ran o apêl Edwards ar i'r naratif ddod yn gof iddynt gan ddangos perthnasedd ei naratif mewn arddull bersonol a'r traweffaith y gobeithiai ei gael. Defnyddir cyfarchiad tebyg i'r hyn a geir yn epistolau'r Apostol Paul yn y *Ffydd* (gweler: 1 Cor 1:3; 2 Cor 1:2). Gwelir cariad Edwards tuag at ei gynulleidfa dybiedig a'i awydd iddynt brofi iachawdwriaeth fel unigolion. Awgryma hefyd fod cysylltiad rhwng sut y nesaodd yr Apostol at ei gynulleidfa yntau yn epistolau'r Beibl a sut y gwna Edwards hyn yn y *Ffydd*. Dywed Edwards iddo gael ei gymell i ysgrifennu 'er dy fwyn di' 'Y Cymro Caredig' (d.t.). Mae hyn yn wahanol i Llwyd a Powel a ysgogwyd gan awydd i amddiffyn enw'r Cymry ymhlith cenhedloedd eraill. Er bod hyn ar ei amlycaf yn y llythyr at y darllenydd ar ddechrau'r testun, defnyddir yr ail berson yn y naratif hefyd. Er enghraifft, defnyddia'r ail berson unigol ar ôl cyfieithu detholiadau o'r Coran a oedd yn destun o ddiddordeb yn Lloegr yr ail ganrif ar bymtheg. Argraffodd Edwards y Coran er mwyn dangos sut y mae'r ffydd ddiffuant yn rhagori

ar Islam (Morgan, D. Ll, 1969, tt. 109–15).⁷¹ Cyferchir y darllenydd yn uniongyrchol: ‘Yn awr ddarllenydd y gelli weled...’ a ‘Hawdd iti ddirnad’ (t. 96). Mae Edwards, fel petai, yn camu i mewn i’r testun, efallai ei fod yn elwa o’i brofiad fel pregethwr.

Yn gysylltiedig â hyn, mae’r naws bersonol yn gyfrwng i Edwards apelio’n dyner ar i’w gynulleidfa droi at Grist a dyfalbarhau yn eu ffydd. Dywed M. Wynn Thomas iddo greu rhethreg a fyddai’n argyhoeddi a thrawsnewid pobl (1997, t. 203). Safbwynt yw hon sy’n adleisio barn Keeble mai bwriad testunau’r anghydfurfwr ar y pryd oedd newid bywydau (1987, t. 135). Gellid dehongli ei ddefnydd o’r ail berson unigol fel rhan o’i ymdrech i newid bywydau. Un o brif fwriadau Edwards yw ‘eich annog i ymdrech ym mhlaid y ffydd’ (d.t.). Mae’r unigolyddiaeth fel petai wedi’i cholli yn y dyfyniad hwn – ond er y gydnabyddiaeth o gynulleidfa eang mae’r apêl uniongyrchol yna o hyd wedi’i briodi ag apêl gyfunol am genedl dduwiol. Mae Edwards yn ceisio trawsnewid bywydau’r Cymry wrth gynnig eu cof diwylliannol yn y *Ffydd*, a gwna hynny wrth siarad iddynt yn uniongyrchol.

‘ni’

Mae Edwards hefyd yn ceisio creu perthynas rhwng yr awdur a’r darllenydd wrth ddefnyddio’r rhagenw lluosog ‘ni’. Dengys Edwards fod y Cymry’n rhan o gyd-destun ehangach a hyrwyddo ymdeimlad cyfunol. Oherwydd ei fod hefyd yn berson cyntaf, gwelwn fod Edwards yn synied amdano ei hun fel rhan o’r gymuned honno. Defnyddia Prys, Llwyd, a Powel ‘ni’, ‘nos’, neu ‘us’ a dangos eu bod yn siarad ar ran y Cymry, ond maent yn siarad â chynulleidfa wahanol, sef cynulleidfa ddysgedig ar draws Ewrop yn achos Prys, neu gynulleidfa o Saeson i Llwyd a Powel. Tystia ‘ni’ hefyd i ymwybyddiaeth Edwards nad ydyw’n unigolyn sydd wedi’i ynysu; mae’n rhan o

⁷¹ Am Islam mewn llenyddiaeth Saesneg y cyfnod modern cynnar, gweler: Benedict S. Robinson. 2007. *Islam and Early Modern English Literature*.

gymuned ehangach o dystion. Dadleuir bod y 'ni' yn dangos awydd i hwyluso cofio a hyrwyddo ymdeimlad cyfunol a chreu cymdeithas ddiacronig, oherwydd un o swyddogaethau 'ni' yw cysylltu'r Cymry â'u hynafiaid yn ogystal â chydag Edwards. Trafodwyd eisoes apêl genedlaethol y *Ffydd*; mae apêl ar i'r genedl hawlio'r unigolion fel hynafiaid iddynt sy'n rhan o'u cof diwylliannol. Nid yw'r 'ni' yn gyfyngedig i'r Cymry sy'n byw ym Mhrydain chwaith; dywed y 'Preswylia rhai o'n cenedl ni mewn talaith o honi, sef *Llydaw*' (t. 6). Iaith sydd yn eu cysylltu fel cenedl, a gwelwn felly pa mor ganolog oedd y Gymraeg i genedligrwydd y Cymry yn nhyb Edwards (*ibid.*). Yn y dyfyniad hwn, crea Edwards gymdeithas ddiacronig sy'n cael ei huno gan y Gymraeg.

Mae sawl dyfyniad yn y bennod eisoes yn amlygu defnydd Edwards o 'ni', megis wrth sôn am yr angen i wybodaeth am y gorffennol fod yn hysbys: 'yn ein gwlad ein hunain, mal na byddem ddieithriol ac anghyfarwydd gartref' (t. 150). Mae i'r dyfyniad hwnnw arwyddocâd pellach i drafodaethau am ddylanwad y gynulleidfa, dengys hyn bryder Edwards nad yw'r Cymry'n gwybod eu hanes. Defnyddia 'ni' i ddangos cysylltiad rhwng Cymry'r ail ganrif ar bymtheg â Chymry'r gorffennol, yn ogystal â'u cysylltu â naratif Cristnogol Ewrofediteranaidd. Er y ceir 'ni' yn bennaf mewn cyd-destun ethnig, fe'i defnyddir wrth sôn am ddeugain merthyr San Sebaste a dangos eu bod hwy hefyd yn hynafiaid ysbrydol i'r Cymry (t. 73).

Wrth ddefnyddio 'ni' mae Edwards yn rhagdybio darllenwyr fel yr oedd yn gyffredin ymhlith anghydfurfwyr; dywed Keeble: 'Nonconformist writing presupposed a reader. Its composition was not a private pursuit for personal ends (however personal its immediate occasion and inspiration may have been), but a public service' (1987, t. 135). Wrth ddefnyddio 'ni' ceir ymgais hefyd i greu cymuned o ddarllenwyr, a dwyn y gynulleidfa i'r broses ddeongliadol, a dangos mai proses gyfunol yw darganfod y gorffennol. Yn sgil hyn, gellid deall y person cyntaf

lluosog fel ffordd o ddemocrateiddio'r cof, â'r gynulleidfa'n endid gweithredol wrth ddehongli. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, gellid dadlau bod Edwards yn ceisio dwyn pwysau emosiynol ar ddarlleneydd i ymateb i'r testun mewn ffordd benodol, fel, yn ôl Keeble, y gwna Bunyan (1987, t. 146). Er enghraifft, dywed Edwards: 'Ni a ddenwn i borfeydd gleision, os awn *rhagom ar hyd ôl praidd y gwir fugail*. Can. Sol. 1' (d.t.). Gellid dadlau bod Edwards, fel y gwna M. Wynn Thomas, wrth ddefnyddio 'ni' yn ceisio argyhoeddi'i hun, fel alltud mewnol, lawn cymaint â'i gynulleidfa (1997, t. 198).

Egyr y bennod gyntaf â'r geiriau: 'Dyledus ini chwilio helynt y Ffydd ymhob oes ac ymhob gwlad' (t. 1). Mae elfen gyffredinol y 'ni' yn awgrymu fod hyn efallai'n cyfeirio at Gristnogion yn gyffredinol, er ei fod yn ysgrifennu ar gyfer y Cymry yn benodol. Yma, mae Charles Edwards yn cydnabod ei fod yn rhan o'r gynulleidfa dybiedig, ac yn rhan o'r dorf o bobl sy'n cael eu tywys gan y *Ffydd*. O ganlyniad, gwelwn fod ffin hydraiddd rhwng y cofwyr a'r rhai sy'n creu'r cof, a dychwelir at hyn eto yn y bennod nesaf ar y *Drych*.

Mae'r defnydd o 'ni' hefyd yn dangos mai profiad cyfunol yw darllen, fel y dadleua Chartier am ddarllen yn y Gorllewin ar y pryd (1999, t. 277). Gwelir hyn gan Edwards pan ddywed: 'Er bod yr Eglwys yn ogoelgrefyddol y pryd hyn, etto darlennwn yn yr efengil am amryw rai duwiol' (t. 22). Caiff hynafiaeth y ffydd ei darganfod ar y cyd â'i gynulleidfa, yn ogystal â'i symlwrwydd sy'n dra gwahanol i bomp Catholigiaeth ac Anglicaniaeth uchel-Eglwysig:

Cyn mynd ymhellach yn ystori 'r testament newydd, ystyriwn fod y wîr grefydd dros ddwy fil a hanner o flynyddoedd, sef dechreuad y bÿd hyd Moses, yn siml, ac yn blaen, heb fawr ddefodau corphorol mewn bwy dydd na gwiscoedd, nag amseroedd, na llêoedd, heb law'r aberthau, a'r enwaediad yn amser Abraham (t. 25).

Yn y dyfyniad hwn, mae'n ceisio pwysleisio'r prif beth y mae wedi'i drafod, sef hynafiaeth a phurdeb y ffydd. Mae hefyd yn dangos o safbwynt y ddadl hon, fod darllen yn brofiad cyfunol.

[Apelio at y glust](#)

Tynnodd M. Wynn Thomas sylw at ddull Edwards o apelio at y glust yn y *Ffydd a'i fod*, yn hyn o beth, yn efelychu'r farn ddyneiddiol am werth ysbrydol yr iaith i gyfiawnhau ei ymlyniad at batrymau ffonetig (1997, t. 200). Oherwydd bod Edwards yn ymwybodol o arferion darllen ei gyfnod, sef darllen yn uchel, gallai hynny egluro'n rhannol ei apêl at y glust. Er enghraifft, crëir rhythm byrlymus wrth bentyrru'r hyn a wnaethpwyd er mwyn ceisio atal Luther wrth gynnal odl '-odd' a rhestru berfau trydydd person unigol: 'amlygodd', 'ceisiodd', 'atbodd', 'ymadroddodd', ac 'yscrifennodd' a chyfleu cyffro bore'r Diwygiad Protestannaidd (t. 114). Gellid ehangu ar ddadl Thomas a haeru bod yr apêl at y glust yn dangos dyled Edwards i'r pulpud a oedd yn ganolog i'r traddodiad Piwritanaidd yn ôl Densil Morgan (2012, t. 201). Ychwanegir yma fod Edwards, wrth ymwneud ag elfen glywedol llenyddiaeth, yn apelio at gynulleidfa dybiedig, oherwydd mae'n dymuno i'w destun swnio'n beraidd ac i fynd o'r glust i'r galon.

Fodd bynnag, mae'r *Ffydd* yn ymddangos fel petai'n disgwyl i'r Cymry ddarllen y gyfrol. Dywed Edwards: 'Y Cymro caredig o chei lessâd wrth ddarllain' (d.t.); dywed hefyd 'Yn awr ddarllenydd' (t. 96). Nid yw hynny'n golygu mai darllen preifat sydd ganddo dan sylw; fel y trafodwyd yn y bennod gyntaf, roedd darllen yn brofiad cyhoeddus a chyfunol. Mae apêl at llythrennedd ac awydd i hwyluso deall geiriau ymhlyg yn y *Ffydd*. Dengys Edwards y berthynas agos sydd rhwng Protestaniaeth, y llyfr, a llythrennedd wrth iddo gynnwys cyfarwyddiadau ar sut

i ddarllen ar ddiwedd y gyfrol. Dywed Geraint H. Jenkins ‘Protestantism, after all, is a religion of the Word’; dylid ychwanegu wrth ystyried y *Ffydd* – y Gair printiedig (1978, t. 34).⁷²

Cylch profiad


Gwelwn ddylanwad pellach y gynulleidfa dybiedig ar y *Ffydd* oherwydd y gesyd Edwards y testun yn eu cylch profiad. Roedd yn ceisio hwyluso gallu’r gynulleidfa dybiedig i ddeall y naratif, ac yn y pen draw, ei berchenogi fel cof diwylliannol. Tyn Charles Edwards ar fywyd bob dydd ei gynulleidfa dybiedig, ac roedd hwn yn arfer cyffredin ymhlith pregethwyr y cyfnod yn ôl Roberts (2011, t. 313). Defnyddia Edwards ymadroddion ac enghreifftiau sydd wedi’u gwreiddio ym mywyd bob dydd ei gynulleidfa dybiedig a thrwy hynny hwyluso’u gallu i ddeall y naratif.

Diriaetha haniaethau wrth ddefnyddio delweddau cyfarwydd, fel y dadleua M. Wynn Thomas: ‘Edwards often deliberately turns for his examples to homely aspects of the contemporary world’ (1997, t. 196). Nid addurn mohonynt, er eu bod yn dangos awydd i beri pleser; dyma gyfrwng effeithiol i hwyluso dealltwriaeth, ac o safbwynt cof diwylliannol gellid dadlau bod hyn yn ffordd i hwyluso cofio. Er bod hyn yn digwydd yn amlach yn adrannau diwinyddol y *Ffydd*, fel y gellid disgwyl wrth drafod syniadau haniaethol, defnyddia Edwards ymadroddion cyfarwydd yn y naratif hanes hefyd. Er enghraifft, er mwyn amlygu sut y gallai cyfnodau o lewyrch arwain at ddrygioni, dywed: ‘fel y mae’r hâf yn magu pryfed, felly tyfiff ymrysson a chenfigen o howddfyd’ (tt. 71–2). Mae’r haf yn dangos sut y gallai cyfnodau llewyrchus ennyn drygioni. Mae rhybuddio ynghylch hawddfyd yn nodwedd o sawl testun yn y

⁷² Am arwyddocâd print i Brotestaniaeth yng Nghymru gweler: Geraint H. Jenkins. 1987. *The Foundations of Modern Wales 1642–1780*, yn arbennig pennod 5; Eryn White. 2015. ‘The Bible and the Book in Early Modern Wales, 1546–1770’, yn C. Archers a L. Peters, goln., *Religion and the Book Trade*, tt. 6–28; a Richard Suggett ac Eryn White. 2003. ‘Language, literacy and aspects of identity in early modern Wales’, yn Adam Fox a Daniel Woolf, goln., *The Spoken Word: Oral Culture in Britain 1500–1800*, tt. 52–83.

cyfnod, fel Ellis Wynne yn *Gweledigaethu'r Bardd Cwsc* a Theophilus Evans yn y *Drych* yn y ddeunawfed ganrif, a gellid dadlau ei fod yn rhan o gylch profiad y gynulleidfa dybiedig (1703, t. 146; 1740, t. 44, 89).

Daw nifer o ddelweddau Edwards o fywyd beunyddiol ei gynulleidfa. Er enghraifft, wrth ddisgrifio sut y bu'r Cymry dan fygythiad o'r Pictiaid a'r Saeson, dywed: 'A chan eu bod fel yd rhwng dau faen melin, aethant yn wynn wrth eu dryllio' (t. 190). Defnyddia'r ddelwedd gyfarwydd hon i egluro sut y trodd y Cymry at Dduw yn eu cyfyngiadau. Wrth ddisgrifio sut y lluniwyd y testun, dywed: 'a chymerais gwrs y wenynen i sugno llawer llysiuyn i wneuthur hyn o ddilyn' (d.t.). Yn ôl dadl yr adran hon gellid maentumio y tyn Edwards ar wybodaeth y gynulleidfa dybiedig o wenyn sy'n troi at amryw blanhigion, neu ffynonellau yn achos y *Ffydd*, i greu 'mêl'. Mae'n storio egni mnemonig yn y gwenyn, yd, a'r haf i atgoffa'r gynulleidfa dybiedig o hanes y ffydd ddiffuant. Egni mnemonig yw'r egni sy'n cael ei storio mewn gwrthrychau er mwyn dwyn y naratif i gof wrth i'r gynulleidfa weld y gwrthrychau hyn yn eu bywydau. Ni olyga hyn fod pob gwenyn neu haf yn atgoffa'r Cymry o'r *Ffydd*, ond bod potensial ganddynt i wneud hynny.



Ffigur 2: Dioddefaint y prif ferthyron diweddaraf (rhwng tt. 70–1)

Mae'r Ffydd hefyd yn cynnwys darluniau i ddangos erledigaeth ar Gristnogion.⁷³ Mae darluniau yn nodwedd o lyfrau print tebyg, megis gan John Foxe, ac maent yn cynnig darlun o erchyllter marwolaethau'r merthyron. Yn y lluniau caiff y merthyron eu llifio a'u harteithio, eu llosgi, eu crogi, a'u fflangellu. Mae'r erlidwyr mewn gwisg sy'n gyfoes i'r ail ganrif ar bymtheg, ac efallai'n ymdebygu i blaid y brenin; mae'n bosibl, felly, fod Edwards yn ceisio cysylltu brenhinwyr y cyfnod ag erlidwyr pobl Dduw. Bwriad y lluniau yw hwyluso dealltwriaeth, fel y dywed wrth gyfarch y darlennydd:

⁷³ Dywed Gerald Morgan i Edwards gomisiynu artistiaid i wneud y darluniau hyn, ond nid yw'n nodi ffynhonnell y wybodaeth: Gerald Morgan. 2018. "Darluniad y Ddaear" 1677', *Blog #Caru Mapiau, Llyfrgell Genedlaethol Cymru* [Ar-lein], <https://blog.llyfrgell.cymru/carumapiau-gerald-morgan-2/> (Gwelwyd: 2 Rhagfyr 2021). Pan gyhoeddodd G. J. Williams y Ffydd yn 1936 y map oedd yr unig ddarlun a atgynhyrchwyd.

Di a gei yn y llyfr hwn wyth o ddalennau â lluniau arnynt, y rhai ni fwriedais it tuag at addoliad, megis y gelli ddeall wrthynt; na thrwy'r un awdurdod ac y *lluniwyd Jerusalem ar bridd-lech*, Ezech. 4.1. ond er arfer naturiol, fel y mae'n gynnefin ym mysc cenedloedd eraill (*ibid.*).



Ffigur 3: Dioddefaint y merthyron diweddaraf (tt. 126–7)

Ond pwysleisia Edwards na ddylid addoli'r delweddau hyn, a dengys fod ganddo bryderon ynghylch delw-addoliaeth. Yn hytrach na dileu delweddau, mae Edwards yn cydnabod fod gwerth iddynt wrth hyrwyddo gallu ei gynulleidfa i ddeall yr hyn sydd ganddo dan sylw, ac fel Foxe roedd yn ceisio dangos pa mor frawychus oedd merthyra'r Cristnogion.⁷⁴

Ffordd arall o osod y testun yng nghylch profiad y gynulleidfa dybiedig oedd trwy ei gyflwyno mewn iaith ddealladwy iddynt. Trafodwyd eisoes defnydd Charles Edwards o'r Gymraeg, ceisia hefyd ddefnyddio ieithwedd sy'n gyfarwydd i'w gynulleidfa dybiedig yn ogystal.

⁷⁴ Am ddelweddau yn y cyfnod modern cynnar, gweler: Michael Hunter, gol. 2010. *Printed Images in Early Modern Britain: Essays in Interpretation*. Am ddelweddau yn Llyfr Merthyron John Foxe, gweler: John N. King. 2006. *Foxe's 'Book of Martyrs' and Early Modern Print Culture*.

Ar ddiwedd y *Ffydd* ceir 'Agoriad ar ryw eiriau yn y llyfr hwn y sydd anhyspys i rai pobl yn *Neheubarth Cymru*' (tt. Ee – Ee3). Dyma adran sy'n dadlennu barn gyfoes yr awdur am wahaniaethau ieithyddol yng Nghymru. Mae Charles Edwards yn ymwybodol o wahaniaethau tafodieithol, ac mae'n ceisio sicrhau na fyddent yn faen tramgwydd i dderbyniad y testun. Wrth osod termau 'deheuol' ar ddiwedd y gyfrol, gwelwn bragmatiaeth Edwards yn ei apêl genedlaethol at genedl ag amrywiaethau ynddi. Mae enghreifftiau o eiriau tafodieithol sydd o hyd yn cael eu defnyddio yn y rhestr. Er enghraifft, dywed Edwards yn y de y defnyddir 'dofi' ar gyfer 'Gwârâu', yn lle 'casglu' mae pobl yn y de yn dweud 'hel', ac 'ystraffu' yn y gogledd yw 'sarnu' yn y de. Dengys y tabl fod Edwards am i'r deheuwyd hefyd berchenogi'r naratif, heb orfodi ei dafodiaith ogleddol arnynt, a sicrhau bod naratif y *Ffydd* yn gallu cael ei berchenogi gan bawb yng Nghymru.

[Dyfyniadau ysgrythurol](#)

Ffordd arall y mae Edwards yn gosod y testun yng nghylch profiad ei gynulleidfa dybiedig yw trwy ddefnyddio fframwaith ysgrythurol. Mae'r Beibl yn ganolog wrth sôn am ddiwylliant, iaith, a hanes Cymru yn y cyfnod modern cynnar (White, 2007, t. 8). Mae Edwards yn dyfynnu'n gyson o'r Beibl, fel y gwelwyd eisoes, ac wrth wneud mae'n italeiddio'i ddyfyniadau yn bennaf. Yn y bennod nesaf, gwelwn i Evans yntau dynnu ar y Beibl wrth lunio'i gof diwylliannol. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a geir gan Powel a Llwyd sy'n peidio â thynnu ar y Beibl gymaint yn eu testunau hwythau. Mae'r *Ffydd* yn cefnogi dadl Sell a Johnson mai man cyfarfod diwylliannol cyffredin oedd y Beibl yn gyffredin yn ystod y cyfnod modern cynnar (2009, t. 22). Mae barn Northrop Frye am y Beibl fel 'the great code' yn enwog tu hwnt hefyd (1982). O gymhwyso'r dadleuon hyn i'r *Ffydd*, gellid ystyried defnydd Edwards o'r Beibl fel rhan o'i apêl at y Cymry. Yn y *Ffydd* mae nifer o ddyfyniadau a delweddau Beiblaidd. Yn ôl dadl yr adran hon, dyma enghraifft o Edwards yn

apelio at ei gynulleidfa dybiedig a fyddai'n gyfarwydd â phatrymau, delweddau, ac adnodau o'r ysgrythur. Mae hefyd yn ymgais i hyrwyddo gafael y Beibl ar fydolwg y Cymry. Mae i'r dyfyniadau swyddogaeth ysbrydol hefyd, sef i annog y gynulleidfa dybiedig i droi at y Beibl, ac efelychu'r cymeriadau da y cyfeirir atynt sy'n addoli Duw yn ufudd.

Defnyddir fframwaith ysgrythurol i ddadansoddi'r elyniaeth sydd rhwng Cristnogion a gelynyon y ffydd. Darlunnir gelynyon yr eglwys yn unol â phatrymau ysgrythurol. Er enghraifft, caiff beili Crowland, a gafodd ei ladd ar ôl i frân ollwng 'ei bryntni' ar ei wyneb, ei gofio mewn fframwaith ysgrythurol fel gelyn i Dduw wrth ei alw'n 'Goliath', sef Goliath y cawr a laddwyd gan Dafydd y bugail (t. 139). Gellid maentumio fod disgwyl i'r gynulleidfa dybiedig gysylltu mawredd a grym yr Eglwys Gatholig â Goliath ond cofio, hefyd, nad yw'n cymharu â nerth Duw. Ar yr un pryd, cofier yn y Beibl mai bugail di-nod, bach a gwan a gurodd y cawr, a thebyg yw'r Cristnogion yn y *Ffydd*.

Defnyddir darluniau o'r ysgrythur hefyd fel fframwaith i ddangos i'r gynulleidfa dybiedig fod Duw o blaid y ffydd ddiffuant. Er enghraifft, deellir lledaeniad yr efengyl mewn fframwaith ysgrythurol a phwysleisio, yn sgil hynny, gefnogaeth Feiblaidd i Brotestaniaeth. Wrth i'r ffydd ledu yng Nghymru dyfynna Genesis 30:11 sy'n sôn am Gad, fab Zilpha, a'r 'tyrfa yn dyfod', sef tyrfa o dystion Duw ym meddwl Edwards (t. 206). Mewn modd tebyg, mae'n dehongli cyfieithu a dosbarthu'r Beibl yng ngoleuni adnodau o'r ysgrythur megis. Wrth sôn am argraffu'r Testament Newydd mewn print bras, dywed y gwnaethpwyd hynny i'r rhai â 'golugon gwannach'.⁷⁵ Dyma dystiolaeth o ddylanwad y gynulleidfa dybiedig ar argraffwyr yn ogystal ag awduron, dathlodd

⁷⁵ Yn 1654 argraffwyd y Testament Newydd, ond yn ôl Glyn Ashton ni oroesodd copi ohono: Glyn Ashton. 1991. 'Rhai Sylwadau ar Hynt y Beibl Cymraeg, 1801–25', *Llên Cymru* 16, 280.

Edwards: 'gwnawd yscrifen gymraeg o ewyllys Duw yn eglur ar lechau, fel y rhedo yr hwn ai darlleno' gan ddeall y fenter yn unol â Habacuc 2.2 (t. 207). Rhufeiniaid 13:13 yw'r fframwaith i gofio'r Diwygiad Protestannaidd: 'a [dd]effrôdd gydwybodau amryw bobl i fwrw oddiwrthynt weithredoedd y tywyllwch, ac i rodio yn weddus megis wrth liw dydd. Nid mewn meddwdod anlladrwydd, a chenfigen, ond mewn sobrwydd, diweirdeb, a chariad Duw' (*ibid.*).

Ar ddiwedd pennod ar lwyddiant y ffydd yng Nghymru, restr Edwards nifer o adnodau er mwyn cofio nerth yr efengyl ym Mhrydain fel rhan o wireddu cynllun Duw (tt. 211–14). Y nod yw rhoi cefnogaeth broffwydoliaethol i'r ffydd ddiffuant. Wrth osod ei naratif mewn fframwaith ysgrythurool mae Edwards yn cadarnhau ac yn hyrwyddo dylanwad y Beibl ond hefyd yn dangos ei fod yn fath o god er mwyn deall bywyd a'r gorffennol. Mae ei ddefnydd o'r Beibl yn ffordd o hwyluso cofio gorffennol y Cymry, ac yn ffordd o hyrwyddo cofio'r gorffennol hwnnw yng ngoleuni Gair Duw sydd yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymry yn nhyb Edwards.

Ymylnodau

Gwelwn ddylanwad y gynulleidfa hefyd ar y *marginalia* neu ymylnodau'r tudalennau yn y *Ffydd*, a gellid dehongli defnydd Edwards o ochrau'r dudalen fel ymgais i hwyluso dealltwriaeth. O ddwyn i gof barn Erasmus a welwyd yn y bennod flaenorol, roedd hefyd yn ffordd i hwyluso cofio. Gellid dehongli ymylnodau'r *Ffydd* fel ymgais i hyrwyddo potensial mnemonig y testun. Mae'i ddefnydd o ymylnodau yn dangos ei ffynonellau Beiblaidd; yn yr ystyr hwn gellid eu deall fel rhagflaenydd i'r troednodyn. Roedd defnyddio ymylnodau yn ddigon cyffredin yn y cyfnod, megis yn argraffiad o'r Beibl yn 1588, ac argraffiadau o Lyfr Merthyron Foxe. Rhan bwysig o *Pilgrim's Progress* (1678) yw'r ymylnodau, a dywed Keeble y defnyddia Bunyan ymylnodau, fel awduron anghydfurfiol eraill, i geisio dylanwadu ar y darllenydd a'u harwain at ddealltwriaeth benodol o'r

testun gan egluro alegoriau a chrynhoi neges yr adran (1987, tt. 146–51). Mae defnydd Edwards yntau o ymylnodau yn awgrymu bod apelio cynhenid mewn naratifau cof diwylliannol tuag at gynulleidfa dybiedig gan iddo gynnig rhagor o fanylion fel y gallai'r gynulleidfa ddeall eu naratif a'i berchnogi fel cof diwylliannol.

Eglura Edwards ei gymhellion dros wneud hyn ar ddiwedd ei gyfieithiad o *De Excidio*: 'Ac i'th hyfforddi i'w ddeall ef, gosodais ambell air ynghwrr y dalennau, y penodau hefyd, a'r adnôdau, lle ceir yr scrythyrau yr arferir yn aml, er nad oeddent wedi eu rhannu felly yn ei amser ef' (t. 161). Mae Edwards yn cydnabod ei fod yn ymyrryd â thestun gwreiddiol Gildas, ond mae'n cyfiawnhau hyn oherwydd mae'n hwyluso dealltwriaeth.⁷⁶

Gan mwyaf ymddengys y cyfeiriadau ar ochr y ddalen. Ond mewn manau, fel 'At y Darllenydd', gosodir y ffynhonnell yr adnodau'n y naratif ei hun sy'n wahanol i'r hyn a geir mewn argraffiadau blaenorol o'r *Ffydd*. Nodir y cyfeiriadau Beiblaidd yn yr ymylnodau trwy'r testun a gellid dadlau, wrth wneud hyn i Edwards hyrwyddo dehongliad penodol o'r adnodau. Ond dylid nodi i Gregory ddangos yn gyffredinol pan gyfeirir at adnodau yn y cyfnod roedd y dehongliadau yn ddigon confensiynol a chyfarwydd (1999, t. 107). O gymhwyso hyn felly, mae Edwards yn cymhwyso dehongliadau cyfarwydd o'r ysgrythur i'w hanes.

O bryd i'w gilydd gwelir '*' a sylwadau yn yr ymylnod i egluro ystyr a'r hyn sydd o dan sylw. Er enghraifft, wrth iddo sôn am Tertwlianws yn amddiffyn y ffydd, eglura Edwards mai ystyr 'capitol' yw 'Twr yr eulynnod pennaf' (t. 52). Yn yr un modd, wrth iddo gyfieithu *De Excidio* eglura Edwards pwy yw'r Aetius sy'n derbyn llythyrau yn 446, sef 'Rhaglaw Gallîa dan y Rhufeiniaid' (t.

⁷⁶ Dylid nodi y mae Vergil yn ei argraffiad o *De Excidio*, sef ffynhonnell Edwards, yntau'n gosod yr adnodau ar ochr y ddalen, ac yn cynnig sylwebaeth hanesyddol (1525, tt. 4, 25).

164). Gwneir yn debyg wrth gyfieithu llythyr William Morgan; eglura mai afon yn Affrica sy'n achosi anghofrwydd yw 'Lethe' (t. 202). Mae Edwards yn dangos ei fod yn ymwybodol y byddai agweddau o'i naratif yn anghyfarwydd i rai o'i gynulleidfa dybiedig. Cawn yn yr ymylnod, hefyd, restrau o bobl eraill a ddaeth i helpu gyda'r fenter o gyfieithu'r ysgrythurau yng Nghymru a rhoi rhagor o gyd-destun i'r digwyddiadau (t. 204). Mae ei ymylnodau'n ceisio hwyluso dealltwriaeth y gynulleidfa o'r testun ac, yn y pen draw, eu gallu i berchnogi'r naratif fel eu cof diwylliannol.

Dengys yr ymylnodau ddylanwad y gynulleidfa dybiedig wrth i Edwards osod termau cyfarwydd iddynt yn yr ymylnod a chadw'r term gwreiddiol yn y naratif a oedd yn anghyfarwydd i rai. Er enghraifft, ceir 'caer Caradoc' ger 'Salisbury' (t. 160), 'Bath' ger 'Badon', a 'Cumbria' ger 'Cumberland' (t. 190). Ymddengys dyddiadau'n aml ynddynt hefyd, fel pan ddiwygiodd Hywel Dda y gyfraith yn 940 (t. 191), pan gynllwyniwyd i ladd Iago I yn 1605 (t. 143), pan y bu farw Llywelyn yn 1282 (t. 194) a phan gyfieithwyd y Beibl i'r Gymraeg yn 1588 (t. 203). Dyma ddigwyddiadau o bwys yn hanes y Cymry megis wrth egluro geiriau, mae'r dyddiadau hyn yn hwyluso dealltwriaeth o ddatblygiad cronolegol hanes y Cymry iddynt a'i gallu i gofio'u gorffennol yn nhrefn amser.

3.9 Casgliad

Cynigiwyd dadansoddiad o naratif hanes *Y Ffydd Ddi-ffuant* gan Charles Edwards fel testun cof diwylliannol yn y bennod hon. Dadleuwyd bod Edwards yn llunio naratif o'r gorffennol sy'n cynnig gorffennol y Cymry iddynt gan eu diffinio a dweud wrthynt yr hyn y dylent ei wneud.

Yn rhan gyntaf y bennod, dadleuwyd bod y *Ffydd* fel testun cof diwylliannol yn dweud wrth y Cymry pwy ydynt, ac felly'n amlinellu'u hunaniaeth ffurfiannol. Gwelwyd eu bod yn etifeddion y Britaniaid, sef trigolion gwreiddiol Prydain a ddaw o'r dwyrain heb nodi cysylltiadau

â Brutus, fel y gwelwyd wrth astudio'r dyneiddwyr. Yn ogystal, diffinnir y Cymry fel cenedl sy'n rhan o naratif rhyngwladol y ffydd Gristnogol, a gallent uniaethu â phrofiadau Cristnogion o genhedloedd eraill oherwydd y cysylltiad ysbrydol sydd rhyngddynt. Mae Edwards yn datblygu dealltwriaeth yr Esgob Richard Davies ac yn ei gyfuno â gweledigaeth John Foxe. Etifeddodd Edwards dreftadaeth Gristnogol Ewrofediteranaidd, a dangosodd fod dimensiwn trawsgenedlaethol a chosmopolitanaidd i gof diwylliannol y Cymry. Yn rhan o'r trawsgenedligrwydd hwn, mae'r Cymry mewn perthynas agos â'r Saeson sydd wedi'i gwreiddio yn hanes, ond sydd wedi'i chryfhau yn dilyn undod Protestannaidd cyfoes yr ail ganrif ar bymtheg. Mae elfen ysbrydol i'r undod yn y *Ffydd*, o gymharu â'r hyn a geir gan Llwyd a Powel sy'n ymwneud yn fwy â materion gweinyddol a gwladwriaethol. Gwelwyd hefyd bod y Cymry'n genedl sydd wedi'i bendithio gan Dduw a'r Diwygiad Protestannaidd sy'n amlygu hynny fwyaf i Edwards. Yn olaf, dadleuwyd bod y *Ffydd* yn diffinio'r Cymry fel pechaduriaid wrth natur. Er nad yw hynny'n unigryw i'r Cymry, mae'n gwbl hanfodol er mwyn deall pwy ydynt a'r hyn y dylent ei wneud.

Yn yr ail ran amlinellwyd sut y mae'r *Ffydd* fel testun cof diwylliannol yn dangos i'r Cymry yr hyn y dylent ei wneud a chan hynny mae'n cynnig hunaniaeth normadol iddynt. Sail yr hunaniaeth normadol yw'r ffydd Gristnogol a gwelwn fod ffin hydraid rhwng normau'r Cymry a phwy ydynt. Oherwydd eu bod yn bechaduriaid, rhaid i'r Cymry edifarhau ac yna byw'n dduwiol. Mae rheidrwydd arnynt i wneud hyn hefyd oherwydd iddynt gael eu bendithio gan Dduw. Dymuna Edwards i'r Cymry gael eu hachub ac mae apêl efengylaidd y testun wedi'i briodi â'i gariad tuag at ei genedl. Er mwyn hyrwyddo normau cenedlaethol Cristnogol, dadleuwyd bod Edwards yn cofio Gildas ac yn cyfieithu a thalfyrru *De Excidio Britanniae* i annog y Cymry i edifarhau ac i fyw bywydau duwiol neu y cânt gosb, fel y cafodd eu hynafiaid. Yn debyg i hyn, caiff

cenedl Israel ei chofio fel rhybudd normadol i'r Cymry. Mae'r Hen Destament a chenedl Israel yn cael eu defnyddio er mwyn hyrwyddo edifarhau a duwioldeb fel normau cenedlaethol oherwydd y caiff y Cymry weld canlyniadau pechod ac anufuddhau i'r Arglwydd. Er mwyn pwysleisio'r normau hyn caiff y Cymry nifer o esiamplau i'w hefelychu sy'n dangos iddynt yr hyn y dylent ei wneud. Caiff rhai o'u hynafiaid nodedig eu cofio fel seintiau a Phrotestaniaid enwog sy'n dangos pa mor weithgar y dylai'r Cymry fod wrth hyrwyddo'r ffydd ddiffuant yng Nghymru, ynysydd Prydain, ac ar draws y byd.

Yn olaf, clwyd y bennod wrth ddadlau bod y gynulleidfa dybiedig yn ddylanwad ar y *Ffydd*. Roedd Charles Edwards yn ymwybodol ei fod yn ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa o Gymry o gyflyrau ysbrydol amrywiol. Er mwyn cyrraedd cynulleidfa o Gymry defnyddia ieithwedd benodol, fel 'ti' a 'ni', er mwyn dangos perthnasedd y naratif iddynt a hwyluso eu gallu i berchenogi'r naratif fel eu cof diwylliannol. Mae i'r *Ffydd* apêl genedlaethol, a gwelwn ddylanwad y gynulleidfa ar y testun wrth i Edwards lunio'r testun yng ngoleuni arferion darllen llafar y cyfnod. Ymhellach, ceisia osod y testun yn eu cylch profiad fel y gallent ddirnad a pherchenogi'r naratif. Roedd Edwards yn angerddol ar i'r Cymry gofio eu gorffennol a chydabod daioni Duw tuag atynt; defnyddiodd y gorffennol i ddiffinio'r Cymry ac i ddweud wrthynt yr hyn y dylent ei wneud.

4 *Drych y Prif Oesoedd*

4.1 Cyflwyniad

Dadleua'r bennod hon fod *Drych y Prif Oesoedd* gan Theophilus Evans, yr ymdriniaeth estynedig gyntaf o hanes y Cymry mewn print yn y Gymraeg, yn ail-greu ac yn ailddarganfod cof diwylliannol cenedlaethol. Mae Evans yn synied am naratifau hanes fel ffordd o ddiogelu'r cof; er enghraifft, mae'n galw llyfrau hanes yn 'gof-lyfrau' (1740, t. 7). Yn yr astudiaeth hon, archwilir sut y mae'r *Drych* fel 'cof-lyfr' yn cynnig hunaniaeth ffurfiannol a normadol i'r Cymry. Fel y *Ffydd* a'r testunau eraill a astudir yma, mae'r *Drych* yn creu naratif am orffennol y Cymry i ddangos pwy ydynt, a'r hyn y dylent ei wneud. Mae'n wahanol i'r *Ffydd* wrth neilltuo cyfrol gyfan i drafod hanes y Cymry, yn hytrach na gosod hanes y Cymry yn rhan o hanes rhyngwladol mewn ychydig o benodau. Yr hyn sy'n arbennig am y *Drych* yw ei fod yn ailwampio naratifau hanes y brutiau yn ôl safbwyntiau Eglwysig yr ail ganrif ar bymtheg (Hunter, 2016, t. 49; Hughes, M., 1992; Evans, D. E., 1973). Bydd y bennod yn dadlau mai naratif truenus yw'r *Drych* sy'n adrodd dirywiad a thranc y genedl, sy'n wahanol i Llwyd a Powel sy'n ceisio dyrchafu'r Cymry a dangos anrhydedd y Brutaniaid. Dadleuir mai galarnad am genedl yn colli grym ar ôl iddynt siomi Duw yw *Drych y Prif Oesoedd*.

Eglwyswr gwladgarol oedd Evans a ddymunai i'r Cymry ymhyfrydu yn eu hunaniaeth a'u gorffennol; roedd hefyd yn dymuno iddynt fod yn driw i'r Eglwys, sef yr unig ffurf Gristnogol gywir yn ei farn ef. Mae hyn wahanol i Edwards a Davies sy'n annog y Cymry i fod yn Brotestaniaid. Ysgrifennodd Evans ddau fersiwn o *Drych y Prif Oesoedd*, y cyntaf yn 1716 pan oedd yn 23, a'r ail yn 1740 pan oedd yn 47. Roedd yr ail argraffiad yn boblogaidd iawn gyda 21 o argraffiadau erbyn 1902, gan gynnwys argraffiad Saesneg a gyfieithwyd ar gyfer Cymry America yn 1834. Ar sail yr argraffiadau, dywed Jerry Hunter mai dyma un o destunau mwyaf poblogaidd a dylanwadol y

Gymraeg (2016, t. 49). Canmolir y ddau argraffiad yn gyson, megis gan David Thomas, y cyntaf i gynnig astudiaeth estynedig o'r *Drych*. Dywed mai'r argraffiad cyntaf oedd llyfr hanes gorau ei gyfnod, ac yn dilyn y newidiadau yn 1740 creodd Evans 'epig ei genedl mewn rhyddiaith' (1955, t. xxxii). Derbyniodd y *Drych* gryn sylw ysgolheigaidd yng Nghymru drwy gydol yr ugeinfed ganrif gyda'r rhan fwyaf o'r drafodaeth yn troi o amgylch y cwestiwn ai testun hanes, llenyddol, neu grefyddol ydyw? (gweler: Parry, 1978; Morgan, P., 1969; Jones, J. G., 1969; Jones, R. M., 1965; Jones, B. L., 1963).⁷⁷ Ers tua degawd, mae'r *Drych* wedi derbyn sylw beirniadol o'r newydd gan Eryn White (2013), Adam Coward (2016), a Jerry Hunter (2016), ac archwilir y berthynas rhwng y *Drych* a hunaniaeth Gymreig ganddynt. Bydd yr astudiaeth hon yn ychwanegu at hyn gan fanteisio ar ddamcaniaeth cof diwylliannol wrth graffu ar y modd yr aeth Evans ati i greu gorffennol sy'n diffinio'r Cymry.

Roedd y drafodaeth ysgolheigaidd ar y *Drych* yn yr ugeinfed ganrif yn tueddu canmol rhinweddau llenyddol y *Drych* ar draul ei hawl i gael ei ystyried fel testun hanes. Un o sgil effeithiau'r drafodaeth hon yw arwain ysgolheigion i gors anachronistiaeth wrth iddynt ymgolli yn y cwestiwn 'beth yw ystyr testun hanes?', heb ystyried bod hanfod 'testun hanes' yn gallu newid. Fel y trafodwyd eisoes, yn ystod y cyfnod modern cynnar roedd ysgrifennu hanes yn fenter lenyddol a didactig, yn hytrach na bod yn weithred broffesiynol fel yr oedd yn yr ugeinfed ganrif. Gwnaeth Thomas Parry ei feirniadu fel hanesydd ond ei ganmol fel storiwr: 'ni bu hanesydd mwy anfeirniadol, na chwedleuwr gwell' (1978, t. 226). Awgryma Parry fod dawn llenyddol a dawn fel hanesydd yn cyferbynnu â'i gilydd; nid felly y bu yn y cyfnod modern cynnar. Wrth adargraffu

⁷⁷ Dylid nodi er haerwyd mai testun crefyddol ydyw yn hytrach na thestun hanes, nid oes astudiaethau neilltuol ar grefydd y *Drych* wedi'u cyhoeddi ac eithrio ysgrif Derec Llwyd Morgan yn astudio etholedigaeth yn *Y Beibl a Llenyddiaeth Gymraeg* (1998).

fersiwn 1740 o'r *Drych* yn 1902, dywed S. J. Evans, mewn rhagymadrodd sydd yn ôl Geraint H. Jenkins yn 'anghyflawn a phur wallus' (1993, t. 7), na ddylid ei werthfawrogi fel ymchwil hanesyddol 'am mai llyfr crefyddol ydoedd, a fwriadwyd yn bennaf fel apêl nerthol ond syber at y Cymry' (1902, t. xi).

Fodd bynnag, amddiffynnwyd rhinweddau hanesyddol y *Drych* gan haneswyr fel Geraint H. Jenkins (1993), Glanmor Williams (1992), a Prys Morgan (1969) a chan feirniaid llên fel John Gwilym Jones (1969) a Gwyn Thomas (2000). Pwysleisiant i Evans ymagweddu at ysgrifennu hanes fel menter lenyddol ac, felly, fel cangen o rethreg fel haneswyr clasurol a'r dyneiddwyr a welwyd yn yr ail bennod. Bydd yr astudiaeth hon yn astudio'r berthynas rhwng rhinweddau llenyddol, crefyddol, a hanesyddol y *Drych* wrth astudio'r naratif fel cof diwylliannol.

Dywed Evans: 'Pigion a gasglwyd o'r Awdwyr gorau hên a diweddar a Sgrifennasant a'r y Testun y mae'r Llyfryn hwn yn traethu' (1716, d.t.). Gellid dadlau, felly, mai synthesis o syniadau poblogaidd ynghylch hanes y Cymry ydyw. Cyfuna Evans safbwyntiau testunau hanes gan Eglwyswyr ers yr unfed ganrif ar bymtheg megis Edward Stillingfleet ac Archesgob Armagh, James Ussher, â gweledigaeth Sieffreaidd o hanes y Cymry a welir gan Siôn Prys a David Powel. Fel y dywed Garfield H. Hughes: '[c]yfrwl hanes a oedd yn gyflwyniad i fythau hanes poblogaidd y cyfnod' yw'r *Drych* (1992, t. 89).

Rhennir y *Drych* yn ddwy ran. Mae'r rhan gyntaf ar hanes cenedl y Cymry yn manylu ar ei tharddiad hynafol ei brwydrau â chenhedloedd eraill, ac yn dangos eu moesau; mae pwyslais cryf ar ddirywiad y genedl o ganlyniad i'w phechod yma. Mae'r rhan hon yn ailwampiad o *Frut y Brenhinedd*, fwy neu lai. Mae'r ail ran yn traethu ar hanes Cristnogaeth ymhlith y genedl ac yn amlinellu arferion yr eglwys gynnar a Christnogion ym Mhrydain. Yn y ddwy ran mae apêl ar i'r

genedl wybod a gwerthfawrogi ymwneud Duw â hwy; caiff y Cymry, hefyd, eu hannog i ddiwygio'u moesau ac i ymffrostio yn eu hachau. Ni ellir gwerthfawrogi apêl genedlaethol y *Drych* heb ystyried goblygiadau credoau Eglwysig a bydolwg crefyddol yr awdur. Mynegiant o apêl grefyddol a gwladgarol yr awdur yw *Drych y Prif Oesoedd*, a phriodir y ddau beth yn y naratif. Bydd yr astudiaeth hon yn dadansoddi dau argraffiad y *Drych*, ac yn rhoi sylw dyledus i ddwy ran y testun. Mae hyn yn wahanol i astudiaethau blaenorol sydd wedi tueddu i ganolbwytio ar ran gyntaf yr ail argraffiad yn unig; yn wir yn argraffiad David Thomas (1955) rhan gyntaf *Drych* 1740 a gyhoeddwyd yn unig.

Yn rhan gyntaf y bennod hon, dehonglir y 'drych' fel trosiad estynedig. Dadleuir bod y 'drych' yn ddyfais mnemonig ac yn gyfrwng i'r cof, sy'n ceisio adlewyrchu'r gorffennol o flaen yr edrychydd gan gynnig hefyd adlewyrchiad o'r edrychydd fel rhan o'r gorffennol hwnnw. Bydd hyn yn gosod sylfaen er mwyn dadlau bod y *Drych*, wrth gofio'r gorffennol, yn cynnig hunaniaeth i'r Cymry. Yna, datblygaf y ddadl wrth archwilio sut y cyflawna'r naratif swyddogaeth hunaniaethol, ar wastadau ffurfiannol a normadol, gan adlewyrchu pwy yw'r Cymru a'r hyn y dylent ei wneud. I gloi'r bennod haerir bod y gynulleidfa dybiedig yn ddylanwad ar y testun wrth i'r *Drych* apelio at gynulleidfa benodol ac y gwneir hyn er mwyn hwyluso cofio a pherchenogi'r naratif.

4.2 *Drych* fel dyfais mnemonig

Yn yr adran hon, cynigir dehongliad newydd o'r *Drych* drwy ddadansoddi'r testun 'fel drych' sy'n adlewyrchu'r gorffennol a'i fod, felly, yn ei hanfod yn ddyfais mnemonig. Gellid dadlau bod y cysylltiad gweledol hwn yn gosod y *Drych* mewn cyd-destun Goleuedigaethol â'r pwyslais empeiraidd ar brofi gwirionedd a'i weld. Fel y mae delweddau'r *Ffydd* yn hwyluso cofio, mae adlewyrchu'r gorffennol mewn drych yntau'n hwyluso cofio gan wneud y gorffennol yn weladwy

yn y presennol. Mae hefyd yn cydnabod mai adlewyrchiad a geir o'r gorffennol mewn testunau hanes, nid y gorffennol ei hun. Mewn ffordd arall mae hefyd yn hwyluso cofio; mewn adlewyrchiad gwelwch eich hunan hefyd. O gymhwysu hyn i'r cof mae adlewyrchu gorffennol hefyd yn dangos bod yr edrychydd *yn rhan* o'r gorffennol hwnnw. Dengys Esposito mai 'drych' yw un o'r trosiadau mwyaf cyffredin ar gyfer y cof yn y cyfnod modern; o ganlyniad gellid dadlau ei fod yn briodol, felly, astudio *Drych y Prif Oesoedd* fel testun cof diwylliannol (2002, tt. 41–3).

Mae 'drych' fel cysyniad mnemonig yn peri i'r edrychydd i weld ei hunan. Adlewyrcha'r *Drych* y gorffennol a'r unigolyn yn rhan ohono sy'n galluogi'r Cymry osod eu hunain yn rhan o'r naratif am eu hynafiaid. Yn sgil hyn, haerir bod y *Drych* yn ymagweddu at y gorffennol fel rhan o gefndir Cymry'r ddeunawfed ganrif. Mae ystyried y testun fel 'drych' yn ffordd i unioni'r tyndra rhwng hanes a llenyddiaeth yn y drafodaeth ysgolheigaidd oherwydd bwriad y testun, yn ôl y ddadl hon, yw adlewyrchu'r gorffennol.

Byddai cynulleidfa'r *Drych* wedi bod yn gyfarwydd gyda'i delwedd ganolog. Er nad oedd gan bawb ddrych byddai'r syniad wedi bod yn gyfarwydd oherwydd ceid adlewyrchiad mewn dŵr neu mewn ffenest. Erbyn y cyfnod modern cynnar, roedd drychau'n rhatach ar draws Ewrop, ac roedd eu safon yn well gan gynnig adlewyrchiad cliriach, felly, roeddynt yn dod yn fwyfwy cyffredin trwy'r cyfnod (Pendergrast, 2007, t. 3; Anderson, 2007, t. 118). Roedd 'drych', hefyd, yn gysyniad poblogaidd mewn testunau llenyddol yn ystod y cyfnod modern cynnar. Yn Lloegr rhwng 1640 a 1680 y cyhoeddwyd 185 o gyfrolau â 'drych' yn y teitl, a'r drych crefyddol oedd y math amlycaf (Grabes, 1982, tt. 33–4). Dadansoddwyd y defnydd o ddrychau mewn llenyddiaeth Saesneg gan Herbert Grabes sy'n dadlau roedd gan bobl hyder mewn adlewyrchiadau drychau yn y cyfnod hwn, oherwydd hyn dadleua y defnyddir drychau i adlewyrchu bywyd yn deg, neu i

ddrychau weithredu'n drosiadol a dangos gwirionedd yr unigolyn a lle'r unigolyn yn y byd o'i gwmpas (1982, tt. 39, 131). Roedd 'drych' hefyd yn gyffredin mewn testunau hanes, a dengys Margaret Ezell, y bu 'looking glass histories' yn nodwedd amlwg o destunau hanes yn Lloegr rhwng 1640 a'r 1670au. Dadleua i'r drychau hanes wahodd y gynulleidfa 'to look awry at contemporary people and events' (2004, t. 318). Defnyddir y sylwadau hyn i gydnabod rhinweddau creadigol y *Drych*, yr hyder cyfoes a geir ynddo wrth gynnig y gwirionedd a'r gorffennol, ac yn olaf i ystyried y gwahoddiad sydd yn y testun i'r gynulleidfa dybiedig ddeall y byd o'u cwmpas a'u hunain yn well ar sail yr adlewyrchiad.

Yng Nghymru yn y cyfnod modern cynnar bu'r 'drych' yn deitl gyffredin hefyd; er enghraifft, ceir drychau Catholig fel *Drych Cristionogol* gan Richard Gwyn (1585), a *Drych Cydwybod* (1661); *Drych i dri math o bobl* gan y Piwritan, Oliver Thomas (c. 1647). Nid dyma unig 'ddrych' Evans chwaith; argraffwyd pregeth ganddo o'r enw 'Drych y dyn maleisus' (c. 1747). Drychau crefyddol ydynt ac mae elfen ddidactig gref iddynt. Gellid dadlau mai nod y drychau hyn oedd adlewyrchu realiti bywyd i'w cynulleidfaoedd, i ddangos gwir adlewyrchiad o'r gynulleidfa mewn ystyr metaffisegol, ac adlewyrchu gorffennol y gynulleidfa. Roedd amcanion crefyddol iddynt hefyd, sef i argyhoeddi'r gynulleidfa o'u hangen i goleddu'r ffydd Gristnogol.

[Y Drych a'r gorffennol a'r hunan](#)

Un o ddadleuon yr astudiaeth hon yw bod y gorffennol yn cael ei ail-greu fel cof diwylliannol i gynnig gorffennol a hunaniaeth i'r grŵp yn y testunau sydd o dan sylw. Gellid dehongli'r 'drych' fel cydnabyddiaeth o'r angen i ail-greu'r gorffennol a dangos yr hyn a fu megis mewn adlewyrchiad ynghyd â chynnig adlewyrchiad o'r Cymry. Yn y cyd-destun hwn, mae'r 'drych' fel dyfais mnemonig yn cyflawni dwy swyddogaeth baradocsaidd. Yn gyntaf, mae'n hwyluso

mynediad at y gorffennol wrth ei ddangos mewn adlewyrchiad, ac yn ail mae'n pwysleisio arwahanrwydd y gorffennol a'r ffaith ei fod wedi mynd; adlewyrchiad ydyw yn unig. Mae'r 'drych', felly, yn cydnabod fod ffin rhwng y gorffennol a'r presennol. Mae Evans yn cydnabod y gwahaniaeth sydd rhwng y genedl yn y ddeunawfed ganrif a'u hynafiaid a welir yn y drych.

Un gwahaniaeth pwysig rhwng y presennol a'r gorffennol a geir yn y *Drych* yw nad yw'r Cymry bellach yn teyrnasu dros Brydain; yn y ddeunawfed ganrif roeddynt yn un deyrnas â Lloegr, sef eu gelynion yn ystod y prif oesoedd. Yn yr ystyr yma, mae'r gorffennol wedi bod ac wedi darvoud, ac nid yw'r Cymry'n genedl annibynnol. Roedd Humphrey Llwyd, David Powel, a Charles Edwards, er enghraifft, yn awyddus i bwysleisio'r undod rhwng Cymru a Lloegr a'i wreiddio yn hanes y Cymry. Cawn gan Evans gof diwylliannol y Cymry sydd yn fwy annibynnol o Loegr, yn sicr cyn y goncwest Edwardaidd o gymharu â'r testunau eraill.

Mae'r 'drych', yn ogystal â bod yn ffin, yn ddolen gyswllt rhwng y Cymry a'u gorffennol, sef yr 'hunan' sy'n edrych ynddo. Mae cysylltiad rhwng y Cymry a'r bobl a adlewyrchir; yr un bobl ydynt. Mae cysylltiad hunaniaethol a theuluol rhyngddynt a defnyddir 'ni' sawl tro, fel y gwna Charles Edwards, a chaiff hyn ei archwilio ar ddiwedd y bennod wrth drafod y gynulleidfa. Y Cymry sy'n cael eu darlunio yn y *Drych*, hwy sy'n edrych ynddo, a hwy sy'n cael eu hadlewyrchu.

Haera Ezell y gallai drychau gysuro'r hunan mewn byd sy'n newid:

For us, the mirror is an instrument of the present or possibly the personal past, a last-minute assurance that the face you wish to present in public is indeed the one you currently are wearing, or, nostalgically, a trigger for memory of the glories of vanished youth in contrast to the wreckage of the present (2004, tt. 317–18).

O gymhwyso'r ddadl hon i'r *Drych*, gellid dadlau bod Evans yn ceisio dangos i'r Cymry eu bod o hyd yn ddisgynyddion i'r Brutaniaid, er nad ydynt yn rheoli Prydain mwyach. Adlewyrchir tarddiad

gogoneddus y Cymry a'u gorffennol anrhydeddus i geisio calonogi'r genedl, ynghyd ag Evans ei hun, gan fynnu bod y Cymry yn debyg i'w hynafiad ac yn deilwng o fod yn ddisgynyddion iddynt. Cyhoeddwyd y *Drych* mewn cyd-destun a oedd yn troi cefn ar y Brutaniaid a thwff Prydeindod nad adeiladwyd ar hanesyddiaeth Gymreig (Colley, 1994, Schwyzer, 2002). Mewn manau, ymddengys fel petai Evans yn ymateb i hyn ac yn ceisio amddiffyn hanes y Brutaniaid, fel y gwnaeth Siôn Prys.

Caiff y 'drych' ei ddehongli yma fel dyfais mnemonig sy'n peri i'r sawl sy'n edrych i weld y gorffennol o'u blaenau, ac wrth gwrs, mewn unrhyw adlewyrchiad gwelir yr hunan hefyd. Mae arwyddocâd gweld wedi'i nodi gan Jerry Hunter sy'n pwysleisio: '[Evans'] *Drych* was a "mirror" in which readers saw the early history of their nation' (2016, t. 55). Cred Bedwyr Lewis Jones: 'Trwy gydol y *Drych* y mae'r pwyslais yma ar weld yn amlwg a'r gynneddf hon ar Theophilus Evans a gyfrif am ei nodwedd amlycaf ef fel ysgrifennwr rhyddiaith Gymraeg, sef ei ddawn i lunio cymariaethau' (1966, t. 64). Ychwanegir yma fod y pwyslais gweledol wedi ei wreiddio yn y teitl oherwydd 'drych' yw delwedd ganolog y testun. Mae'r gweledol yn amlygu'i hun drachefn wrth i Evans ddweud iddo weld cylllell hir a ddefnyddiwyd gan y Saeson adeg Brad y Cyllyll Hirion (1716, t. 78). Mae apêl weledol y *Drych* yn gyffredin i'r ddau argraffiad â'r ymadrodd 'fel y gwelwch' yn ymddangos droeon; er enghraifft, wrth sôn am genhedloedd yn cymysgu, dywed, yn yr ail argraffiad: 'fel y gwelwch chwi ddwfr a llaeth yn ymgymmyscu' (1740, t. 20). Gwneir hyn er mwyn denu sylw'r gynulleidfa a hwyluso dealltwriaeth, a dengys hefyd fod ganddo ymwybyddiaeth o gynulleidfa. Mae'r gred fod gweld yn hwyluso cofio'n thema amlwg mewn trafodaethau ar y cof a chofio o'r cyfnod Clasurol fel y dengys den Boer (2008, t. 19).

Nid peri i'r Cymry weld yn unig y mae, ond hefyd iddynt weld y 'gwir':

Canys ni amcenais i y Traethawd hwn i fodloni Archwaeth pob math o ddynion, trwy wyrddroi gwaith y Tadau i faentumio opiniynau neilltuol, neu berarogli Heresi trwy ddywedyd *Tangneddyf* lle nad oedd dim, ond fy ngwir amcan i, oedd dywedyd y gwirionedd yn ddi-ragrithiol, deued a ddelai o hynny. Ac yr wyf yn tystio (fal y mae i mi roddi Cyfrif o hynny) na wyrddroais i un Dystiolaeth a grybwyllir yma, trwy beri'r Awdur i siarad yn amgen nag oedd ef yn feddwl. Myfi a wyddwn mae un o'r chwech peth fydd gâs gan yr Arglwydd oedd *Tyst celwyddog yn dywedyd Celwydd*; Dihar. Vi, 19. Ac na fyddai gwaith tywyllodrus, ond siomedigaeth, aflesiol, a darfodedig; ond y byddai'r Gwirionedd wneuthur daioni, i adeiladu, ac i barhau byth; Canys *Gwefus gwirionedd a saif byth, Ond Tafod celwyddog ni saif funyd awr*. Dihar. Xii, 19 (1716, d.t.).

Yn y dyfyniad myn Evans nad yw'n hyrwyddo celwyddau, a thyn ar y Beibl i ddweud bod celwydda wedi'i gondemnio.

Mae'r 'drych' fel dyfais mnemonig yn dangos bod y cof yn atblygol hefyd. Mae'n cynnig cyfle i weld y gorffennol a'r unigolyn yn rhan o'r gorffennol hwnnw. Hynodrwydd y 'drych' fel dyfais mnemonig yw ei fod yn cynnig gwybodaeth am y byd, yn ogystal â darlunio'r hunan gan gynnig cyfle i fyfyrion ar yr hunan hwnnw; ys dywed Anderson 'our mirror-image allows for further reflection upon, and redrafting of, ourselves' (2007, t. 108). Yn ystod y cyfnod modern cynnar dadleua Anderson: 'the mirror is often associated with language and self-knowledge, in part because both mirrors and words have a dynamic potential to inform and create our understanding of what we are' a'i fod yn cynnig 'image of oneself as a subject and as an object' (2007, tt. 118–19). Os yw'r drych felly yn atblygol, nid gweld y gorffennol yn unig a wneir gan Evans, ys dywed Ezell: 'Using the trope of the mirror in a book title, looking glass historians urge the reader/viewer to place themselves within the stories so closely tied to both early modern physical mirrors and textual ones, to see oneself along with seeing others' (2004, t. 338). Mae'r 'drych', felly, yn gyfrwng i'r Cymry fyfyrion ynghylch sylfeini eu hunaniaeth wrth ddarlunio'u gorffennol a'u hynafiaid.

I ddeall sut y mae'r 'drych' yn dangos yr hunan defnyddir sylw Jacques Lacan, seicdreiddiwr o Ffrainc a ailgyflwynodd syniadau Sigmund Freud a'u cyfuno â gwaith Ferdinand de Saussure. Dywed Lacan fod gweld adlewyrchiad mewn drych yn hanfodol er mwyn ffurfio hunaniaeth ac yn ddechreubwynt i ymdeimlad o hunan (1949). Gellid defnyddio 'drych' fel cysyniad i ddeall sut y mae'r naratif hwn yn rhan o greu hunaniaeth Gymreig i'r Cymry. Hynny yw, mae'r Cymry yn gweld adlewyrchiad ohonynt a'u hynafiaid ac yn gallu cysylltu eu hunain â'r adlewyrchiad hwn. Gwelir dau beth yn yr adlewyrchiad hwn: gorffennol y Cymry a'r Cymry eu hunain. Mae'r 'drych' yn adlewyrchu pwy yw'r Cymry a'r hyn y dylent ei wneud, neu yn nhermau cof diwylliannol, eu hunaniaeth ffurfiannol a normadol.

4.3 '[G]weled y modd y bu hi, gyda'n Hynafiaid... [a] Ffrwythau Pechod'

Yn rhagymadrodd argraffiad 1716, dywed Evans: 'chwi a gewch weled y modd y bu hi, gyda'n Hynafiaid... Yma y cewch weled Bortreiad amlwg o Ffrwythau Pechod...' (d.t.). Dyma'r hyn a welir yn y *Drych*; dengys y *Drych* hynafiaid y Cymry iddynt, yr hyn a wnaethant, a chanlyniadau pechod. Diffinnir y Cymry fel disgynyddion i'r bobl a adlewyrchir. Bydd yr astudiaeth hon yn dadlau mai naratif truenus yw hanes y Cymry yn ôl *Drych*, a'i fod yn cynnig naratif am eu dirywiad fel canlyniad i'w hymroddiad i bechod. Roedd pechod ac annuwioldeb wedi dwyn distryw ar y genedl a pheri iddynt golli rheolaeth o'r ynys oherwydd iddynt bechu trwy fradychu a thwylo ei gilydd; mae brad a thwyll yn nodweddu ymwneud y Cymry â'i gilydd yn y gorffennol, a chaiff ei gondemnio mewn fframwaith Cristnogol. Yn yr adran hon, dadansoddir naratif hanes y Cymry yn *Drych* y *Prif Oesoedd* fel cof diwylliannol. Dadansoddir y naratif a gyflwynir yn ogystal â'r cysylltiad rhwng y naratif a hunaniaeth y Cymry fel y'i ceir yn y testun.

Disgynyddion y Brutaniaid

Dengys y *Drych* mai'r Cymry yw disgynyddion y Brutaniaid fel y gwnaeth holl awduron yr astudiaeth hon. Fel yn nhestunau eraill yr astudiaeth, ac yn arbennig rhai'r ail bennod, mae'r Cymry yn y *Drych* yn cael eu diffinio fel y Brutaniaid; maent yn genedl anrhydeddus a dylent ymfalchïo yn hynny. Dylent ymffrostio yn y ffaith eu bod yn genedl sydd o dras Glasurol ac ysgrythurol, dau beth sy'n peri i'r Cymry ragori ar genhedloedd eraill, ys dywed Evans: 'Dyma i chwi *Waedolaeth* ac *Ach yr hên Gymru*, cuwch ar a all un *Bonedd daearol* fyth bossibl gyrrhaedd atto, pe ba ni eu heppil yn well o hynny' (1740, t. 7). Dadleua Mary-Ann Constantine mai bwriad y *Drych* yw adfer cysylltiadau'r Cymry â'u hynafiaid a sylfaenwyr y genedl (2019, tt. 264–5). Mae hyn yn wahanol i'r *Ffydd* sydd yn trafod cyflwr ysbrydol y genedl yn hytrach na'i tharddiad. Myn Evans y dylid ymhyfrydu yn nhras bonheddig y Cymry, tra nad yw hynny o bwys i Edwards; yr hyn sy'n bwysig iddo ef yw eu bod yn adnabod Duw.

Yn gyntaf oll, dengys y *Drych* mai cenedl o darddiad ysgrythurol yw'r Cymry, a gallent olrhain eu hanes at Gomer fab Jaffeth fab Noa a ddaeth i Brydain wedi dinistr Tŵr Babel (1716, t. 19; 1740, t. 8). Diffinnir y Cymry fel cenedl sy'n rhan o naratif y Beibl a'r byd Ewrofediteranaidd ac fe'u dyrchefir wrth hyn. Haera Kidd y daeth y Brutaniaid i gael eu cysylltu bron yn ddieithriad â'r Gomeriaid yn y ddeunawfed ganrif; mae Evans yn blentyn ei oes felly (1999, t. 61). Mae hyn yn wahanol i'r hyn a gafwyd gynt; ni chyfeiriwyd at darddiad ysgrythurol y Cymry mewn manylder yn nhestunau eraill yr astudiaeth hon.⁷⁸ Trwy'r *Drych*, medd Coward y daeth Gomer yn rhan o ymwybyddiaeth genedlaethol y Cymry (2016, t. 171). Cefnoga'r *Drych* ddadl Kidd i wreiddiau

⁷⁸ Mae tarddiad ysgrythurol y Cymry i'w weld yn *Historia Brittonum*, a ddywed mai disgynyddion i Jaffeth yw'r Cymry. Roedd cysylltu'r Cymry â Samoths fab Jaffeth yn gyffredin yn yr unfed ganrif ar bymtheg, megis gan John Bale; nid yw'r awduron Cymraeg dan sylw yn cyfeirio at Samoths, fodd bynnag. Gweler: R. Geraint Gruffydd. 1990. 'The Renaissance and Welsh Literature', yn Glanmor Williams, gol., *The Celts and the Renaissance*, tt. 17–39, 17–21.

Beiblaidd dyfu mewn arwyddocâd rhwng 1600 a 1800, ond yn lle disodli rhai Clasurol, ys dywed Kidd mae Theophilus Evans yn ceisio cael y gorau o'r ddau wrth gadw'r cysylltiad â Brutus fel y gwelir yn y man (1999, tt. 35–72). Gwreiddir y Cymry'n ddyfnach yn rhan o naratif Ewrofediteranaidd Gristnogol wrth eu cysylltu â Gomer, ac fe'u gesyd yn rhan o hanes poblogi'r ddaear gyfan. Er mai hanes trigolion Prydain yw ei ffocws, mae dimensiwn eang i'r *Drych*, fel y gwelwyd wrth drafod testunau eraill yr astudiaeth.

Mae Evans yn hyderus mai Gomer yw hynafdad y Cymry:

Mae'n ddiogel gennyf i fod hyn yn wirionedd di-amheuol, sef mae uchaf ac union gyff-genedl y *Cymry* ydyw *Gomer*, oblegid y mae ein henw yn datcan y peth yn eglur. *Cymero*, O ba le y daw ond oddiwrth *Gomero*? *Cymru* ond oddi wrth *Gomeri*? (b) Gwaith afreidiol ydyw, profi peth mor eglur (1716, t. 19).⁷⁹

Haera Evans fod perthynas etymolegol rhwng Cymru a Gomer; dywed: 'Y mae'r enw y gelwir ni yn gyffredin arno, sef yw hynny, *Cymro*, megis *Lifrai* yn dangos i bwy y pherthyn *Gwas*, yn yspysu yn eglur o ba le y daethom' (1740, t. 7). Daw'r ychwanegiad arwyddocaol hwn i gof diwylliannol y Cymry o destunau pwysig yng nghyd-destun cof diwylliannol y Cymry yn y cyfnod. Yn gyntaf, *Britannia* gan William Camden testun hanes uchel ei barch a gyhoeddwyd yn Lladin yn 1586, ond a gyfieithwyd i'r Saesneg yn 1610. Yn ail *Antiquité de la nation, et de langues des celtes* gan Paul-Yves Pezron, y Sistersiad o Lydaw, a gyhoeddwyd yn 1703, a gysylltodd y Cymry â Llydaw a'r byd Celtaidd, dyled sydd wedi'i nodi gan nifer fel Caryl Davies (2000, t. 261). Cyfeiria Evans yn uniongyrchol at gyfieithiad Saesneg David Jones o destun Pezron a gyhoeddwyd yn 1706 (1740,

⁷⁹ Mae Evans yn cyfeirio at waith y diwygiwr Protestannaidd o Hwngari 'Steph. Szeged. Loc. commun.' Sef: *Theologiae sincerae loci communes de Deo et homine perpetuis explicati tabulis et scholasticorum dogmatis illustrati*. gan István (cyfenwir i Stephen yn Saesneg) Szegedi Kis (1505–1572); Cronicl gan Johann Carion (1499–1537) a gyfieithwyd a ailweithwyd gan Philip Melanchthon (1497–1560); a *Britannia* gan William Camden (1551–1623). Mae'n debygol iddo weld y cyfeiriadau hyn yn nhestun Camden. Yn argraffiad 1740 testun Pezron yw'r unig ffynhonnell a nodir (t. 7).

t. 7). Cytuna'r *Drych* â Pezron gan bwysleisio mai'r Cymry oedd hynafiaid a thrigolion gwreiddiol Ffrainc, cyn i'r Ffrancwyr y '[B]arbariaid ysgymmun' ymgartrefu yno (1740, t. 11). Mae hyn yn debyg i safbwynt Prys gynt sy'n cysylltu'r Cymry â Gâl.

Manteisia'r cof diwylliannol hwn ar astudiaethau hynafiaethol cyfoes i oleuo hanes y Cymry ymhellach, yn arbennig ynghylch Gomer. Defnyddia Evans nifer o 'Groniclau hen a diweddar', ond dylid nodi ei fod yn dwyn cyfeiriadau at ffynonellau hŷn oddi wrth ffynonellau diweddar fel y dengys Garfield H. Hughes (1961, tt. xxxii–viii). Defnyddia amrywiaeth o ffynonellau gyda'r rhan fwyaf yn weithiau print o'r cyfnod modern cynnar fel *Breviary* Humphrey Llwyd, 'Epistol' Richard Davies, *Britannia* Camden, a gweithiau gan Eglwyswyr fel Ussher, William Lloyd, ac Henry Spelman; defnyddiodd hefyd o argraffiad Powel o deithiau Gerallt Gymro. Dywed ei fod yn tynnu ar weithiau hŷn megis gan Gildas, Iŵl Cesar, Tacitus, Beda a gweithiau gan haneswyr yr Eglwys fel Eusebius. Ond mae'n debyg y gwelodd y testunau hyn mewn testunau mwy diweddar. Cyfeiria hefyd at lawysgrifau mewn troednodiadau (1716, tt. 46, 179; 1740, tt. 121, 281).

Mae Evans yn cadw'r cysylltiad â Brutus a welwyd yn yr ail bennod. Dadleua Geraint H. Jenkins:

Ilwyddodd i gyd-blethu'r damcaniaethau hyn yn ddeheuig dros ben. Addasodd syniad Pezron drwy gysylltu'r Cymry â Thŵr Babel a Gomer fab Jaffeth, ac ailgymhwysodd chwedl Sieffre drwy honni bod y Cymry hyn wedi croesawu Brutus a'i ddilynwyr pan gyraeddasant Brydain (1993, t. 38).

Yn ogystal â bod yn ddisgynyddion i Gomer, mae'r Cymry hefyd yn ddisgynyddion i Brutus, ys dywed y dyneiddwyr. Myn Evans fod hanes Brutus y Groegiwr yn ddibynadwy ac yn ffurfiannol bwysig i hunaniaeth y Cymry. Brutaniaid, sef pobl Brutus, ydynt wedi'r cwbl, a rhoddodd ei enw

ei hun ar yr ynys yn ôl y *Drych*, fel y dywedodd Siôn Prys gynt (1740, tt. 24–5). Mae'n ddigon hysbys fod y *Drych* yn tynnu ar hanesyddiaeth Frutanaidd, ac roedd yn efelychu'r awduron a astudiwyd yn yr ail bennod, yn arbennig Siôn Prys (Evans, 1973; Jenkins, 1993; Coward, 2016). Yn ôl Sieffre a Siôn Prys, un o ddisgynyddion Aeneas, sefydlwr Rhufain, oedd Brutus. Nid awgryma Evans, yn y naill *Drych* na'r llall, fod y cysylltiad hwn yn bodoli, a deallir Brutus fel gŵr o Gaerdroea ac fel Groegiwr yn unig. Nid ceisio cysylltu'r Cymry â mawredd Rhufain yw'r nod, gellid dadlau y ceisia ddad-Rufeinio Brutus a chysylltu'r Cymry â naratif Caerdroea y byd Ewrofediteranaidd, yn hytrach na naratif sefydlu Rhufain.

Fel Charles Edwards, diffinnir y Cymry fel disgynyddion y Brutaniaid gan Evans; wrth hyn mae ganddynt orffennol a ddengys y buont gynt yn feistriaid ar Brydain: 'Ond yr ym ni etto (*Gweddillion yr hen Frutaniaid*) yn trigo mewn *Cwrr o'r Ynys fawr hon*, y buom gynt yn *Feistriaid o'r naill gwrr i'r llall* o honi' (1740, t. 4). Yn y *Drych*, fe ymddengys fod y termau Brutaniaid a Chymry yn ddau enw ar yr un bobl. Nid gweddill na ellid eu galw'n Frutaniaid yw'r Cymry yma fel yr oeddynt i Charles Edwards. Caiff y Cymry eu galw'n Frutaniaid oherwydd: 'ymgymmyscodd *Brutus* a'i wyr yntef a'r hen *Gymru*, ac a aethant o hynny allan dan Enw *Britaniaid*⁸⁰, er parchus goffadwriaeth i'r *Gwr* yr hwn a'i haddyscodd mewn amryw Gelfyddydau perthynasol i fywyd Dyn' (1740, t. 21). Gellid dadlau bod enw'r genedl, felly, yn cynnal ac yn cyfryngu eu cof diwylliannol fel disgynyddion i Brutus. Cynigir hunaniaeth ffurfiannol i'r Cymry, diffinia Evans hwy fel cenedl o dras Roegaid a dderbyniodd ddysg Glasurol gan Brutus, yn sgil hynny dyrchefir y Cymry. Fe'u dyrchefir ymhellach fel gwir frodorion Prydain a'u gosod yn rhan o naratif Clasurol y byd Ewrofediteranaidd.

⁸⁰ Mae'n bosibl mai gwall teipio yw hwn yn yr argraffiad, canys y ceir 'Brutaniaid' yn gyffredinol yn y *Drych*.

Roedd bri mawr ar gysylltiadau Clasurol ers cyfnod y Dadeni Dysg, fel y dywed David Thomas: 'Ni ellid dychmygu am ogoniant mwy ar genedl na'i bod o'r un gwaed â chenedl mor fawr ei bri ac mor urddasol â'r Groegiaid' (1951, t. 119). Wrth gofio'r gorffennol, mae Evans yn dilysu cenedligrwydd y Cymry ac yn eu gosod fel cenedl Ewrofediteranaidd. Crynhoir y ddau beth hyn gan Coward: 'By stressing an idiosyncratic history, the Welsh legitimised their claim to nationhood, whilst the links between their own history and those of other nations placed them within wider narratives of European history and civilization' (2016, t. 168). Wrth gysylltu'r Cymry â'r Brutaniaid, cânt eu diffinio fel cenedl Ewrofediteranaidd, a dylid cofio i'r byd Groegiaidd ymwneud â gogledd Affrica a'r Dwyrain Canol hefyd.

Fel Prys, mae Evans hefyd, yn mynnu mai ffigwr go iawn oedd Brutus. Mae'n hen gred ymhlith y Cymry: 'fe wyr pawb nad oes un peth mor gyffredin ym mysc y *Cymru* na Chred a'r dyfod gyntaf i'r ynys hon o *Gaer-droea*' (1740, t. 24). Er gwaethaf amheuaeth gyfoes ar yr hanes 'Mae'n debygol mae Gŵr o Gaer-droea oedd Brutus y groegwr' (1716, t. 22). Fel y gwyddys, amheuwyd y naratif gan nifer yn ystod y cyfnod modern cynnar, ysgogodd hyn i Gymry fel Prys a Llwyd i'w amddiffyn. Mae Evans ymhlith yr amddiffynwyr. Nid yw Evans yn tanseilio'r hanesyddiaeth, er ei fod yn codi cwestiynau am ddibynadwyedd y cronicl mewn manau. Ar ôl dweud i Brutus ddod i Brydain, mae'r naratif yn troi at goncwest y Rhufeiniaid. Yn argraffiad 1716, dywed:

Nid o herwydd fy mod yn anhyddysc yng Nghronicl Brenhinoedd y Cymru o amser *Brutus* nes dyfodiad y *Rhufeiniaid* yma yr wyf yn peidio angwanegu hanes neilltuol o'i teyrnasiad, Ond 1. O herwydd fod llawer o wŷr dyscedig yn amheu gwirionedd yr hyn a adroddir am danynt. 2. Pettynt yn wirionedd, nid ŷnt gan mwyaf ond pethau distadl, megis pa un a llwfr neu galonnog, trugarog neu anhrugarog, &c oedd pob Brenin. 3. Nid hynny, ydyw amcan a diben y llyfryn hwn (1716, t. 25).

Er nad oes dyfyniad cyfatebol yn argraffiad 1740, nid yw Evans yn ymhelaethu ar Brutus yno ychwaith. Sonia yn unig am ddyfodiad Brutus, ac iddo ef a'i gyd-Roegwyr ddod yn un genedl â thrigolion yr ynys: y wybodaeth sylfaenol sy'n bwysig nid y manylion (1740, tt. 19–20). Nid amau bodolaeth na dyfodiad Brutus y mae, fodd bynnag, ond cydnabod fod hanesion ei fywyd yn annibynadwy ar adegau. Mae Evans yn awyddus i beidio â hyrwyddo anwireddau, a chofier iddo ddyfynnu'r Beibl am y gosb am gelwyddau ar ddechrau'r testun. Un o brif fwriadau'r *Drych* oedd dweud y 'gwirionedd yn ddi-ragrithiol', a byddai cefnogi credoau a oedd yn cael eu cydnabod fel rhai 'chwedlonol' yn tanseilio hynny (d.t.). Amau *agweddau* o'r naratif y mae, nid gwrthwynebu'r farn sylfaenol y daeth rhyw Roegwr i'r ynys hon, a myn mai Brutus yw'r un mwyaf tebygol.

Fel Siôn Prys o'i flaen, dywed Evans fod llawer o dystiolaeth o blaid bodolaeth Brutus, megis yn y traddodiad barddol. Er enghraifft, dyfynna gerdd gan Taliesin a ddywed fod y Cymry o 'lîn Droea'; dyddiad y gerdd oedd 556 yn ôl y *Drych*, ac yn sgil hyn dengys nad dychymyg Sieffre mo hwn (1740, t. 23). Mae Prys yn cyfeirio at y gerdd hefyd, ond nid yw'n dyfynnu'r llinell honno (2015, t. 119). Mae Evans yntau yn pwysu ar draddodiad sy'n synied am y beirdd fel ceidwaid cof ynys Brydain, fel y testunau a astudiwyd eisoes. Y ddadl yn y bôn yw i Taliesin wybod hyn oherwydd y trosglwyddwyd y wybodaeth iddo gan genedlaethau o feirdd.

Cred Evans ei bod yn glir y daeth Brutus i Brydain oherwydd yr arferai hynafiaid y Cymry ysgrifennu â llythrennau Groegaidd a'u bod yn defnyddio geiriau Groegaidd. Dywed Evans 'y mae ein hiaith ni hyd y dydd heddyw yn cydnabod amryw ac amryw Eiriau y rhai o blannodd Brutus yn ein *mysc'* (1740, t. 22). Dyrchefir y Cymry fel cenedl lythrennog gan Prys; â Evans gam ymhellach a dweud iddynt ddysgu llythrennedd gan Brutus ei hun. Ceir cyfatebiaeth, felly, â'r *Ffydd* a ddywed i Bladdud ddod â dysg o Roeg i Brydain; er bod manylion yn wahanol rhwng y

ddau destun, mae'r pwynt sylfaenol yn debyg. Mae iaith y Cymry yn cyfryngu'r cof diwylliannol am ddyfodiad Brutus ac yn ei ddilysu; manylir ar arwyddocâd yr iaith i gof diwylliannol y Cymry yn y man. Yn sgil hynny, dyrchefir y Cymry fel cenedl ddysgedig gan iddynt fedru ysgrifennu cyn dyfodiad y Rhufeiniaid i Brydain, fel y dengys Evans y dywedodd Iŵl Cesar (*ibid.*).

Awgryma Geraint H. Jenkins y bu hanes Cymru ar ddibyn ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif, yn bennaf oherwydd nad oedd hanes Cymru wedi cael ei gofnodi yn y Gymraeg; dywed y cafodd hyn effaith andwyol ar hunanhyder cenedlaethol (2000, t. 27). Ceir pryder tebyg gan William Wynne yn *History of Wales*, sef addasiad o *Historie of Cambria*; dywed yn y llythyr a gyflwynodd i Esgob Bangor: 'The History of our Country, my Lord has been so much neglected, that there seems a very good necessity of reviving, what to the generality of the kingdom is almost lost' (1697, d.t.). Dywed Wynne fod hanes Cymru heb gael sylw neilltuol er ei fod o bwys cyffredinol i'r deyrnas, ys dadleua Llwyd a Powel gynt. Roedd diffyg naratifau hanes am y Cymry yn bryder i rai gan gynnwys Wynne. Gellid dadlau i Wynne gyfrannu at y diffyg hwn wrth beidio â chyhoeddi yn Gymraeg fel y gallai cenedl uniaith wybod eu hanes, er y dylid nodi mae'n awgrymu mai trigolion y deyrnas gyfan oedd ei gynulleidfa yn *History of Wales*, nid y Cymry'n unig. Dadleua William Lewes, yn ei ragymadrodd i'r *Drych*, fod diffyg testunau hanes Cymru mewn print, a bod y *Drych* yn ymgais i ddatrys y 'Diofalwch a'r Esgeulusdra hwn' (1716, d.t.). Rhan o'r frwydr i gasglu ynghyd a diogelu gorffennol y Cymry oedd *Drych y Prif Oesoedd* gan gynnig eu hanes, neu eu 'cof-sgrifen' yn nhyb Lewes (*ibid.*). Ysgrifennodd Evans ar gyfer y genedl Gymraeg yn hytrach nag i genhedloedd eraill fel y gwnaethpwyd gan Prys, Llwyd, a Powel. Cyfeiria Lewes at *Y Ffydd Ddi-ffuant* fel testun sy'n trafod hanes y Cymry, ond dywed ei fod yn 'crybwyll ryw ychydig yn fyrr ac yn lled dywyll' (*ibid.*). Oherwydd hyn, mae Derec Llwyd Morgan wedi

awgrymu iddo weld argraffiad 1667 yn unig, ond ni ellir bod yn sicr (1975–6, t. 193). Nid yw'r *Ffydd* yn ymdrin â hanes y Cymry mor estynedig ag yw'r *Drych*; efallai bod Lewes yn feirniadol o'r testun oherwydd hynny. Yn y cyd-destun hwn fodd bynnag, dylid cofio nad naratifau hanes oedd yr unig *genre* i gofnodi hanes; roedd pregethau, dramâu, anterliwtiau, a cherddi hefyd yn cael eu defnyddio i rannu gwybodaeth am y gorffennol ac fe ymagweddwyd at y testunau hyn fel rhai 'hanes'. Gweler, er enghraifft, cerdd Ellis ab Ellis a gyhoeddwyd yn llawn rhwng 1715 a 1728 'Hanes y Cymru' (17–?).⁸¹

Dylid cydnabod arwyddocâd un bygythiad arall hefyd, sef y Deyrnas Brydeinig. Yn ôl Schwyzer roedd y deyrnas yn cipio hanes y Cymry i fod yn hanes iddynt hwy heb gydnabod ei dyled i hanes y Brutaniaid (2004, t. 6). Ond dylid cydnabod rôl y Cymry, a Llwyd a Powel yn arbennig, yn y broses o droi hanes y Brutaniaid yn eiddo'r Saeson fel y dadleua Ward Clavier (2021, t. 49). Roedd llawer iawn o'r Cymry, os nad y rhan fwyaf ohonynt, yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn rhan o'r 'Deyrnas Brydeinig' (gweler: Kaminski, 2016; Jenkins, B. 2012; Kidd, 1999). Ond ni olyga hynny nad oedd y broses yn fygythiad i arwahanrwydd y Cymry fel endid hanesyddol, wrth i'w hanes gael ei ddefnyddio yn enw Prydeindod, heb gydnabod dyled Brutanaidd, roedd presenoldeb y Cymry yng ngorffennol Prydain yn cael ei danseilio. Yng ngoleuni'r ddadl honno,

⁸¹ Gweler hefyd Ffion Mair Jones, '[M]ae'r Stori yn Wir iw Gweled / Yn Nghronicle y Brutanied'. Am Ellis ab Ellis gweler: Gildas Tibbott. 1953. 'Ellis, Ellis ab (fl. 1685–1726)', *Bywgraffiadur Cymreig* [Ar-lein], <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-ELLI-ELL-1685> (Gwelwyd 13 Rhagfyr 2021); Dafydd Rhys Kaminski (Rhys Kaminski-Jones). 2016. *True Britons: Ancient British Identity in Wales and Britain, 1680-1815*, Traethawd PhD, Y Ganolfan Geltaidd, tt. 47–51. Gellir darllen y gerdd yma: Ellis ab Ellis, 'Hanes y Cymru', *Llyfrgell Genedlaethol Cymru* [ar-lein] <https://viewer.library.wales/1070971#?c=&m=&s=&cv=&manifest=https%3A%2F%2Fdamsssl.llgc.org.uk%2Fiiif%2F2.0%2F1070971%2Fmanifest.json&xywh=-98%2C-160%2C1956%2C2881> (Gwelwyd 13 Rhagfyr 2021).

gellid dadlau bod Theophilus Evans yn ceisio adennill Brutaniaid i'r Cymry, ac yn adweithio ychydig yn erbyn y drefn gyfoes.⁸²

Wrth astudio'r *Drych* fel testun cof diwylliannol gwelwn sut y datblygodd cof diwylliannol y Cymry ers yr unfed ganrif ar bymtheg ac yn ôl safbwyntiau Eglwysig Evans. Yn wahanol i Llwyd a Powel sy'n ceisio dangos sut y mae naratif hanes y Cymry'n rhan o naratif y Saeson, mae'r *Drych* yn llunio cof diwylliannol a ddengys fod gan y ddwy genedl hanes gwahanol cyn y goncwest Edwardaidd. Ni chaiff y Saeson eu canmol yn y *Drych*; maent yn destun gwarth. Mae'n bosibl i Evans ddehongli amlygrwydd y Saesneg ymhlith y Cymry fel bygythiad i'r diwylliant Cymraeg; roedd hyn yn destun pryder i Moses Williams, yn ôl ei bregeth i Gymry Llundain (1719). Mae'n bosibl, felly, mai pryderon ieithyddol-ddiwylliannol yw un o'r 'underlying anxieties' sydd i'r *Drych*, chwedl Mary-Ann Constantine (2019, t. 266). O ganlyniad, gellid dadlau ei fod yn ceisio annog y Cymry i ymroi i'w Cymreictod, a dangos ei fod yn destun anrhydedd. Mae'n bosibl hefyd fod dylanwad y brutiau ar ei ddehongliad dirmygus o'r Saeson.

Dangoswyd eisoes i Humphrey Llwyd, David Powel, a Charles Edwards ddangos yr elyniaeth a fu rhwng y Cymry a'r Saeson. I Evans, ac yn wahanol i Powel, ar ôl 1293 nid oeddynt yn elynion mwyach. Gellid egluro'r anghysondeb hwn wrth fanylu ar *Historie of Cambria* a ddywed mai yn 1293 y cafwyd gwrthryfel gan Madog, perthynas i Llywelyn; mae'n bosibl mai hyn sydd tu ôl y dyddiad oherwydd y cafwyd gwared ar y gwrthwynebiad i Loegr (1584, tt. 379–82). Ond nid yw'n dweud y ceir hanes y Cymry mewn croniclau Saesneg ar ôl y drydedd ganrif ar ddeg, fel y gwnaeth Humphrey Llwyd. Yn hytrach, cyfeiria at gael tywysog ar Gymru '*heb air o Saesonaeg ganddo*'; ar sail hyn, gellid dadlau yn ôl Evans y parhaodd hanes y Cymry ar ffurf y

⁸² Am 'Brydeindod' yn y deyrnas, gweler Colin Kidd, *British Identities*, yn arbennig penodau 3–5.

dywysogaeth yn nhyb Evans, fel y credodd Powel (1716, tt. 100–1; 1740, 141). Gellid dehongli'r *Drych*, felly, fel naratif sy'n rhagflaenu'r hyn sydd gan Powel yn *Historie of Cambria*. Mae'r cof diwylliannol yn darlunio'r Cymry fel endid ddiwylliannol a hanesyddol sy'n sefyll ar wahân i Loegr, felly; ar sail hyn dywed Prys Morgan y cafodd y Cymry 'for the first time in two hundred years a vision of their own history which was autonomous and separate from England' (2012, t. 68). Er bod casgliadau'r ail bennod yn cwestiynu perthnasedd sylw Morgan am destunau Powel a Llwyd, roedd Evans yn ceisio diffinio'r Cymry fel cenedl annibynnol o Loegr cyn eu concwest yn y drydedd ganrif ar ddeg.

Y Gymraeg

Yr iaith Gymraeg yw un o brif gonglfeini hunaniaeth ddiacronig y Cymry yn ôl y *Drych*, fel yn nhestunau eraill yr astudiaeth hon. Dywed Jerry Hunter: 'Theophilus Evans tells his readers repeatedly that it is their language which makes them and keeps them as they are' (2016, t. 52). Yn ôl y ddadl hon, mae Evans, fel Edwards, yn synied am y genedl yn nhermau iaith.

Y Gymraeg yw prif sail hunaniaeth y Cymry, ac mae'n rhan allweddol o gyswllt trawsgenedliadol Cymry'r ddeunawfed ganrif â'u hynafiaid yn ôl y *Drych*. Caiff y Brutaniaid eu hadlewyrchu gan y *Drych* oherwydd eu bod yn Gymry, a gwyddys eu bod nhw'n Gymry oherwydd y siaradent Gymraeg. Gwneir yn debyg gan Edwards yn y *Ffydd* wrth gyfieithu testun Gildas. Mae'r Gymraeg, i Evans, wedi bod yn gyfrwng i gynnal a chadw arbenigrwydd hunaniaethol y Cymry ers iddynt golli rheolaeth o'r ynys. Fel yn nhestunau eraill yr astudiaeth hon, mae'n iaith hynafol, ond yn y *Drych* caiff ei holrhain at gyfnod y Dilyw, felly ymhellach nag y gwnaethpwyd gan y testunau blaenorol. Wrth ddyfynnu Pezron, dywed: 'A phwy oedd yn siarad *Cymraeg* a dybiwch chwi y pryd hwnnw, ond *Gomer* mab hynaf *Japhet*, ap *Noah*, ap *Lamech*, ap *Methusala*,

ap *Enoch*, ap *Jared*, ap *Malaleel*, ap *Cainan*, ap *Enos*, ap *Seth* ap *Adda*, ap *Duw'* (1740, t. 7). Dengys y dyfyniad hwn gysylltiadau ieithyddol y Cymry a'r byd Ewrofediteranaidd, ac yn gysylltiedig â naratif y Beibl. Y Gymraeg sy'n cysylltu'r Cymry â Gomer, yn ogystal ag Arthur, Emrys Ben Aur ac eraill.

Mae'r *Drych* yn ymfalchïo 'ein' bod: 'yn cadw ein Hiaith gyntaf; os nid yn berffaith gwbl, etto yn *burach* nag un *genedl arall* yn y Byd. *Eu hiaith a gadwant, eu tir a gollant, ebe Myrddin'* (1740, t. 4). Tyn ar broffwydoliaeth gan Myrddin a dangos mai iaith, nid tir, yw hanfod y Cymry. Mae'n destun balchder i Evans, fel yr oedd i Siôn Prys, fod y Cymry'n siarad iaith sydd yn ei 'phurdeb cyssefin' (1716, t. 23). Rhoddir bri ar y bobl gyffredin fel ceidwaid yr iaith gan Evans: '[yr] wyf yn deall cymmaint a hyn, sef, nad oes jaith (hyd y gwn i) yn cadw purdeb cyssefin cystal a hi, yr hon a siaredir yn gyffredin ym mysc y Gwerinos' (1716, t. 116). Ymffrostia Evans oherwydd amlyga hyn na newidiodd y Gymraeg gymaint ag ieithoedd eraill, mae'r iaith 'agos mor ddilwgr etto, ac mor gydnabyddus a deallgar ag oedd hi er ys dauddeg cant o flynyddoedd' (1740, t. 165). Adlewyrcha ddadl Prys fod hen gerddi'r Gymraeg yn ddealladwy o hyd a dyfynna Taliesin, Aneirin, Myrddin Wylt, a Llywarch Hen (tt. 165–6). Dwy iaith arall yn unig sydd heb gymysgu ag ieithoedd eraill, yn ôl y *Drych*, sef iaith yr Iddewon ac iaith Arabia (1740, t. 161). Gellid dehongli proffwydoliaeth Myrddin fel cysur cenedlaethol i'r Cymry yn y *Drych*, oherwydd er iddynt gollu eu sofraniaeth, nid yw eu hiaith na'u cenedligrwydd wedi'u colli. Fel y dywed Hunter:

Again, the prophecy variously attributed to Taliesin and Myrddin (Merlin) crystalizes a view that the survival of the Welsh language has enabled the Welsh to survive as a nation. As stressed above, it is a view embodying the essence of *brut/brud*, for it links present (and future) to the distant past, and does so in order to articulate a construction of national identity (2016, t. 52).

Cyn y chweched ganrif cofia'r *Drych* i'r Cymry ymgymysgu ag ieithoedd eraill – er nad yw'n gweld y tensiwn rhwng hyn a'r gred am burdeb y Gymraeg. Yn gyntaf, cymysgwyd y Gymraeg â'r Roeg gyda dyfodiad Brutus ac ymdebygu i iaith Glasurol (1716, t. 23). Mae'r berthynas â'r Lladin yn un debyg; dywed: 'Nid wyf anhyspys fod llawer o eiriau Lladin yn ein Jaith ninnau, ond y mae llawer o wŷyr dyscedig yn tybied iddynt, hwy fenthugio mwy oddi wrthym ni, nag a fenthyciasom ni oddi wrthynt hwy' (1716, t. 117). Er ei fod yn cydnabod fod geiriau Lladin yn y Gymraeg, haera mai geiriau Cymraeg oedd nifer ohonynt yn wreiddiol a hynny oherwydd goruchafiaeth y Brutaniaid:

mae'n debygol, iddynt hwythau *fenthyccio* gan ein hynafiaid ni o'r blaen, pan nad oedd y *Lladinwyr* etto ond *Gwyr bychain* yn y Byd, a'r *hen Gymru* y tu hwnt i'r môr yn meistrolï arnynt. Ac y mae hyn mor ddilys wirionedd, megis a bod eu Hanesion eu hunain yn tystio'r peth (1740, t. 162).

Dyma ddyrchafu'r Gymraeg â'r Cymry fel endid diwylliannol wrth ei chysylltu â dwy iaith Glasurol a fu'n uchel eu bri, gwelwyd eisoes i Charles Edwards wneud hyn, ac roedd yn arfer dyneiddiol hefyd gan Dr John Davies, Mallwyd ac eraill. Wrth asesu'r ymdriniaeth o'r Gymraeg o safbwynt mnemohanesyddol, gwelwn iddi gael ei dehongli fel iaith odidog a Chlasurol sy'n rhan o waddol y byd Ewrofediteranaidd. Dengys y *Drych* unwaith eto ei gysylltiad â dysg a safbwyntiau'r dyneiddwyr cynharach, fel y dywed Garfield H. Hughes: 'Y mae cyflwyniad Theophilus Evans yn ein harwain yn ôl at un o ganonau pwysicaf y dyneiddwyr, sef gwerth y Gymraeg fel iaith aruchel ddysgedig a oedd yn llawforwyn effeithiol i freintiau gwybodaeth' (1992, t. 93).

Wrth drafod y Gymraeg, myn Evans y dylid cofio am y Cymry fel cenedl nerthol a lwyddodd i wrthwynebu grymyster yr Ymerodraeth Rufeinig yn filwrol ac yn ddiwylliannol a pheri iddynt

fenthyg geiriau oddi wrth y Cymry ac roeddynt unwaith yn rhagori arnynt. Ceir elfen o hyn gan Prys a ddywed y bu gan y Brutaniaid gymaint o anrhydedd nes y dymunai'r Rhufeiniaid y teitl Britwn. Ar sail hyn, gellid dadlau i Evans arddel gwrth-Rufeiniaeth wrth geisio tanseilio'r cysylltiadau â Rhufain, fel y gwna Charles Edwards. Dylid cydnabod nad yw'r arddull tuag at Rufain mor ymosodol ag yw yn y *Ffydd*; mae'n wrthwynebiad trwy fychanu a thanseilio, ac ar adegau mae Evans yn cydnabod gwycheder Rhufain fel ymerodraeth, fel y gwelir maes o law.

Mae'r cysylltiadau gyda'r Groeg a'r Lladin yn cyflawni'r nod o ddyrchafu'r Gymraeg fel iaith Glasurol a hynafol, ac ychwanega ieithoedd eraill hefyd: 'Prin y gall neb, ddeall y iaith Gymraeg yn llawn-fedrus, ond a ddeallo hefyd (o leiaf ryw gymmaint o) *Hebraeg, Lladin, Groeg a Gwyddelaeg*; canys y mae cryn Gyfathrach rhwng y pedair hyn a'r *Gymraeg*' (1740, t. 161). Mae'r rhestr hon yn gosod y Cymry yn rhan o naratif Ewrofediteranaidd. Mae Evans, fel Edwards, yn cysylltu'r Gymraeg â'r Hebraeg, ond yn ychwanegu'r Wyddeleg hefyd, ac yn agor y drws fel petai am ymwybyddiaeth Geltaidd a fyddai'n dod i'r amlwg yn nhestunau megis gan Edwards Lhuyd a Lewis Morris (gweler: Davies, C., 2000; Stewart, 2021). Dengys Evans fod y Gymraeg yn rhan o linach cysegredig, ac efelycha ysgolheigion Cymru y blynyddoedd rhwng 1530 a 1660, yn ôl R. Geraint Gruffydd, a ddengys: 'nad oedd angen i foneddigion Cymreig yn enwedig y rheini a gâi eu tentio i droi cefn ar eu gwreiddiau, gyfoeth a rheoleidd-dra'r Gymraeg a gogoniant gorffennol Cymru' (1997, tt. 360–1). Dyrchefir y Cymry a'u hiaith yn y *Drych*, yn sgil hyn dadleua Caryl Davies (2000) a Geraint H. Jenkins (1993) fod i'r *Drych* bwrpas ieithyddol, sef dyrchafu'r Gymraeg. O gofio am y cysylltiad rhwng iaith a chenedl yng Nghymru'r cyfnod, roedd dyrchafu'r iaith yn ffordd o ddyrchafu'r genedl yn ogystal. Wrth ddehongli'r *Drych* fel testun cof diwylliannol, gwelwn fod y Gymraeg yn gwbl hanfodol i hunaniaeth y Cymry ac yn eu dyrchafu.

Wrth ddarlunio lle'r Gymraeg yng nghof diwylliannol y Cymry, pwysleisir rhagoriaeth y Brutaniaid gan Evans. Mae'r Gymraeg yn ffordd i ddangos bod y Cymry yn rhagori ar y Saeson yn filwrol ac yn ddiwylliannol, yn arbennig canys y benthyciodd y Saeson o'r Gymraeg (1716, t. 119; 1740, tt. 162–3). Wrth drafod cerddi Dafydd ap Gwilym, dywed Evans nad geiriau Saesneg yw 'bycclau', 'crefft', na 'malais' ac eraill, ond rhai Cymraeg; yn ôl ei dystiolaeth ef nid oedd Dafydd yn gallu siarad Saesneg yn ôl pob tebyg (1716, tt. 120–2; 1740, tt. 162–4). Dywed am y geiriau 'Saesneg' hyn: 'Nid yw hyn ddim wrth y lliaws a fenthyciodd y *Saeson* o amser bwygilydd oddi wrth genhedloedd eraill, i gyfoethogi eu hiaith' (1716, t. 122). Yn ôl y *Drych* dengys hyn oruchafiaeth y Cymry dros y Saeson, oherwydd y byddai cenedloedd yn tueddu i gymryd geiriau o genhedloedd sy'n feistriaid arnynt:

camsynnied er hynny yw tybied mai oddiwrth y *Saeson* y cawsom ni yr holl Eiriau sy o'r un Sain ac ystyr yn ein Hiaith ni a hwythau. Canys ê fu'r *Saeson* amryw Flynyddoedd yngwasanaeth yr hen *Frutaniaid* cyn iddynt yn felldigedig droi yn Fradwyr yn eu herbyn: Ac yn yr yspaid hwnnw y mae'n naturiol i gredu eu bod yn benthycio gan eu Meistraid (1740, t. 162).

Ar ôl y dyfyniad hwn rhestrir 44 o eiriau sy'n cefnogi'i ddadl, a dywed fod llawer mwy. Mae'r *Drych* yn creu cof sy'n pwysleisio diffyg dysg y Saeson, ond yn waeth fyth, eu bod yn Baganiaid: 'Dynion llwyr annyscedig oeddent hwy etto, heb fedru gair ar Lyfr, ac heb ddim Adnabyddiaeth o'r gwir Dduw nac o Efengyl *Jesu Ghris't*' – bydd hyn yn codi eto maes o law (1740, t. 249). Wrth bwysleisio diffyg y Saeson mawryga Evans wychder y Brutaniaid a oedd yn ddysgedig, yn llythrennog, ac yn addoli Duw yn gywir ar un adeg, fel y gwelir yn y man.

[Normau'r Cymry](#)

Wrth ddiffinio'r Cymry fel Brutaniaid, amcana'r *Drych* hyrwyddo cof diwylliannol am y Brutaniaid fel pobl waraidd, dysgedig, ac urddasol – roedd hwn yn rhan bwysig o ymateb i'r anfri ar y

Brutaniaid yn nhestunau'r ail bennod. Er nad ymddengys i Edwards ymateb i'r cyd-destun hynafiaethol a hanesyddiaethol hwn gan ganolbwyntio yn hytrach ar achub eneidiau'r Cymry, roedd yn ddylanwad arno.

Yn yr ail ganrif ar bymtheg tyfodd diddordeb yn y Sacsoniaid fel hynafiaid y Saeson, yn bennaf yn dilyn cyhoeddi *A Restitution of Decayed Intelligence in Antiquities concerning the most noble and renowned English Nation* gan Richard Rowlands, neu Verstegan, yn 1605. Dyma ddechreubwynt astudiaethau ar y Saeson yn ôl Kendrick (1950). Haera Kendrick: 'the return of the Saxons was a calamity for the Ancient Britons of medieval imagining' (1950, t. 120). Ond dadleua Kidd nad oedd y twf hwn yn fygythiad i'r Brutaniaid oherwydd y daeth Sacsoniaeth yn sail i hunaniaeth wleidyddol Lloegr, a'r Brutaniaid yn sail i hunaniaeth grefyddol y deyrnas (1999, tt. 91, 99). Fodd bynnag, datblygodd tueddiad i ddyrchafu'r Saeson ar draul y Brutaniaid a chollwyd cyfraniad y Cymry i Brydain oherwydd hyn; dechreuwyd synied am y Brutaniaid fel pobl anwar a goncwerwyd gan y Saeson. O ystyried pwysigrwydd y Brutaniaid i'r Cymry ac i'w statws fel rhan bwysig o deyrnas y goron, roedd potensial gan y diddordeb cynyddol yn y Saeson i glwyfo hunaniaeth Gymreig yn ddifrifol. Dengys Kendrick y caiff y Brutaniaid eu darlunio fel pobl anwar, fel barbariaid hanner noeth, ac mewn cyd-destun cynyddol imperialaidd, caiff y Brutaniaid eu cyfosod ag Indiaid America (1950, tt. 120–5). Gweithredu yn y cyd-destun hwn oedd Evans, a cheisiodd amddiffyn enw da'r Brutaniaid – a thrwy hynny'r Cymry hefyd. Myn nad pobl anwar oeddynt ac eu bod yn bwysig i hunaniaeth Brydeinig yn gyffredinol. Dengys fod y Brutaniaid yn bobl hynafol ac urddasol, ac yn bobl ddysgedig, diwylliedig, a gwaraidd â chanddynt gysylltiadau Ewrofediteranaidd.

Un ffordd o amddiffyn gwareidd-dra'r Brutaniaid, oedd trwy ddangos sut roeddynt yn byw. Yn y cyfnod modern cynnar, roedd dinasoedd yn fesur o wareiddiad, fel y dadleuwyd wrth drafod Siôn Prys. Yn debyg i Prys, mae Evans yn ymffrostio yn y ffaith i'r Brutaniaid fyw mewn dinasoedd. Dywed yr oedd ganddynt 28 o ddinasoedd, gan dynnu ar Ussher (1716, t. 115; 1740, t. 156). Ceisia Evans gywiro'r gred gyfoes 'nad oedd gan yr hen Frutaniaid ddim dinasoedd caerog oll cyn dyfod y Rhufeiniaid i'r wlad hon' (1740, t. 157). Mynna y daethpwyd â moesoldeb dinesig i Brydain gyda dyfodiad Brutus, eto cyn dyfodiad y Rhufeiniaid. Gwelwn Evans, hefyd, yn dyrchafu'r Cymry ar draul Rhufain wrth sôn am ddinasoedd, ac mae'n defnyddio dinasoedd i ddangos y bu'r Brutaniaid yn waraidd.

Yn y dinasoedd hyn roedd 'Derwyddon' yn cyflawni dyletswyddau crefyddol fel offeiriaid a dyletswyddau cyfreithiol (1716, tt. 108–10). Er bod y derwyddon yn baganiaid, nid yw hynny'n gywilydd mawr, ceir dehongliad tebyg gan Charles Edwards. Ond, yn wahanol i Edwards, nid yw Evans yn haeru i ddysg dderwyddol ddod o Roeg; yn hytrach ymddangosant yn debycach i farnwyr yr Hen Destament. Mae Evans yn adlewyrchu credoau cyffredin ei gyfnod i grefyddau paganaidd ddeillio o ddirywiad crefydd batriarchaidd Noa, ac felly, ffurf lwgr ar grefydd Noa a geir, fel y dywed Henry Rowlands hynafiaethydd o Ynys Môn (Kidd, 1999, t. 49; 1716, tt. 103–6; Rowlands, 1723).

Yn ail argraffiad y *Drych* ceir ychwanegiadau pwysig am y derwyddon ar ôl iddo ddarllen *Mona Antiqua Restaurata* gan Rowlands. Erbyn hyn, caiff y derwyddon eu darlunio yn fwy fel proto-Gristnogion gan efelychu Rowlands. Mae iddynt le pwysig yng nghof diwylliannol y Cymry, yn ôl Evans maent yn esgobion o fath sy'n cynnal ac yn cadw moesoldeb, maent hefyd, gan hynny, yn fath o ragflaenwyr i'r drefn esgobol yr Eglwys. Roeddynt hefyd yn bobl gelfyddydol a oedd yn

cadw 'eu holl athrawiaeth... mywn Odlau neu Bennillion' (1716, t. 109). Mae'r penillion hyn yn dangos y bu'r Brutaniaid yn waraidd ac yn ymhyfrydu mewn celfyddyd. Dywed Evans roedd y Brutaniaid 'mo'r gelfyddgar a neb pobl yn y bÿd' (1716, tt. 110–11; 1740, t. 157), wedi dysgu crefft gof (1740, t. 157), yn gerddorion yn canu ar grwth a thelyn (1716, t. 114; 1740, t. 158), ac yn feddygon dysgedig (1740, tt. 158–9). Mae Evans yn darlunio'r derwyddon fel tystiolaeth i ddangos y bu'r Brutaniaid yn urddasol, yn waraidd, ac yn ymhyfrydu mewn llenyddiaeth, fel y dadleua Prys yn y *Defensio*. Roedd y derwyddon hefyd yn ddolen gyswllt rhwng Cymru a Ffrainc ac yn dangos dimensiwn Ewrofediteranaidd hunaniaeth y Cymry, canys y bu derwyddon yno hefyd, a thrafodir y cysylltiad hwn yn y man (1740, t. 182).

Cenedl freintiedig

Wrth greu cof diwylliannol, dengys y *Drych* hefyd fod y Cymry yn genedl freintiedig, fel y gwna Richard Davies a Charles Edwards. Gwelwn fod rhyngberthynas rhwng hunaniaeth ffurfiannol a hunaniaeth normadol yn y *Drych*, yn debyg i destunau eraill yr astudiaeth hon. Mae bendithion cenedlaethol y Cymry gan Dduw yn dwyn disgwyladau o ran ymddygiad yn y *Drych*. Cred Evans 'nad yw y fath waith a hwn yn anfuiddiol', a dengys fod hanes yn gallu hyfforddi yn y cyfnod hwn; gobeithia y byddai ei naratif yn annog y Cymry i ddiwygio'u moesau (1716, d.t.). Dywed wrth y Cymry 'dôs yn y blaen, gan hynny, fal Christion uniawn-gred' (*ibid.*). Mae'r Cymry'n genedl freintiedig oherwydd iddynt dderbyn y ffydd Gristnogol yn gynnar yn ôl y *Drych*, ys gwelwyd eisoes yn yr astudiaeth. Dylai'r Cymry fyw fel Cristnogion a bod yn ffyddlon i'r Eglwys.⁸³ Fel aelod

⁸³ Cyfeiria Evans at Eglwys Loegr fel 'yr Eglwys', 'yr Eglwys gatholic', ac 'yr Eglwys Gristnogol'. Mae Evans yn ymagweddu at yr Eglwys fel sefydliad ymhle y mae pobl yn gallu addoli Duw yn gywir. Am sut y datblygodd yr Eglwys, gweler: D. Densil Morgan, *Theologia Cambrensis*; Grant Tapsell. 2017. 'The Church of England, 1662–1714', yn Jeremy Gregory, gol., *The Oxford History of Anglicanism, Volume II: Establishment and Empire, 1662–1829*, tt. 25–48; Robert G. Ingram. 2018. 'The Church of England, 1714–1783', yn Jeremy Gregory, gol., *The Oxford History of Anglicanism*, tt. 49–67.

brwd o'r Eglwys, dywed Prys Morgan i Evans grynhoi ei ddeunydd ar gyfer amcanion Eglwysig (2011, t. 68). Sail normau'r genedl yw moesoldeb Cristnogol a chredoau'r Eglwys yn benodol. Mae teyrngarwch Evans i'r Eglwys yn ei osod yn wahanol i Edwards yr anghydfurfwyr. Gwahaniaeth pwysig arall yw bod Edwards yn annog mewnoli Cristnogaeth ac edifarhau, tra mai ffocws Evans yw teyrngarwch i'r Eglwys. Fel y dywed Saunders Lewis, bwriad hanes i Evans oedd annog ffyddlondeb i grefydd a gwlad (1973, t. 243).

Mae'r hunaniaeth normadol yn fwy datblygedig o gymharu â Phrotestaniaeth Richard Davies. Mae gwahaniaethau diwinyddol rhyngddynt hefyd, â'r Eglwys yn y ddeunawfed ganrif yn arddel Arminiaeth. Yn wahanol i Charles Edwards, mae Evans mewn sefyllfa freintiedig ac yn gallu datgan ei ddaliadau yn ddibryder fel aelod o'r gyfundrefn. Ymhlyg yn naratif Evans mae amcan i ddyrchafu'r Eglwys fel y traddodiad uniongred ac fel traddodiad brodorol yr ynys a'r Cymry, o ganlyniad i hyn dylai'r Cymry fod yn ffyddlon iddi. Mae'n llunio cof diwylliannol sy'n diffinio'r Cymry fel cenedl sy'n deyrngar i'r Eglwys.

[Cristnogaeth ymhlith y Cymry](#)

Un nodwedd sy'n amlygu bod y Cymry'n genedl freintiedig yw eu bod wedi derbyn yr efengyl yn ei phurdeb yn fuan ar ôl yr Atgyfodiad. Naratif pwysig i gof diwylliannol y Cymry yn ôl Evans, fel yn y testunau blaenorol, yw'r hanes am ddyfodiad cynnar yr Efengyl Gristnogol. Mae'r *Drych* yn defnyddio'r naratif hwn i ddadlau mai cenedl freintiedig yw'r Cymry am iddynt dderbyn Cristnogaeth mor gynnar, ac y dylent, o ganlyniad, arddel Cristnogaeth a bod yn dduwiol. Dengys dyfodiad y ffydd i Brydain mor fuan mai cenedl sy'n rhan o gyd-destun Ewrofediteranaidd yw'r Cymry. Mae'r ddadl y ceir ffydd Gristnogol ar ei ffurf gywiraf a phuraf yn yr Eglwys yn cael ei fynegi yn ail ran y *Drych*. Hynny yw, nid Protestaniaeth yn gyffredinol yw'r Cristnogaeth bur, fel

yn achos y *Ffydd*, yn hytrach credoau'r Eglwys. Amcan y naratif yw sefydlu ymlyniad wrth yr Eglwys fel hen arfer ymhlith y Cymry a cheisio'u hysgogi i fyw bywydau duwiol oherwydd iddynt gael y fendith hon. Amcana ddangos mai'r Eglwys sy'n arddel y wedd gywir ar Gristnogaeth hefyd. Yn ôl Evans, daeth Joseff â gwedd ar Gristnogaeth y mae'r Eglwys wladol yn ei harddel. O ganlyniad, felly, dylai'r Cymry fod yn ffyddlon i'r ffydd y gwelodd Duw yn dda ei hanfon atynt mor gynnar. Mae apêl normadol yn y *Drych* sy'n annog y Cymry i fod yn deyrngar i'r Eglwys, fel y gwnaeth eu hynafiaid yn y prif oesoedd.

Cawn gan y *Drych* gyfeiriad at amser Joseff yn Ffrainc â Philip cyn iddo dod i Brydain, ni chafwyd hyn gynt, ac mae'n dwysau dimensiwn Ewrofediteranaidd Cristnogaeth a dimensiwn Ewrofediteranaidd cof diwylliannol y Cymry (1740, tt. 182–3). Yn y *Drych*, mae Evans yn gwrthwynebu rhai credoau ynghylch Joseff, fel iddo gael ynys Afallon ac i Grist gysegru Eglwys yno; gelwir y credoau hyn yn 'chwedlau pabaidd' (1716, t. 143). Ymddengys iddo newid ei feddwl yn 1740, a dyfynna o'r hanesion ynghylch Joseff, dywed: 'er fod yn yr Ystori hen (yn enwedig, yn y Dechreu a'r diwedd) rai pethau anhebygol, etto nid oes dim achos i wrthod y cwbl' sy'n debyg i'w ddadl am Brutus (1740, t. 183). Ni ddywed beth yw'r pethau annhebygol; gellid dadlau bod yr amwysedd yn amddiffyn Evans rhag unrhyw gyhuddiad o hyrwyddo celwyddau yn enwedig gan ystyried y dyfeisiwyd yr hanes gan fynachod Caerloyw yn yr Oesoedd Canol.

Yn debyg i'r *Ffydd*, ffynhonnell bwysig i *Drych y Prif Oesoedd* yw *De excidio* Gildas. Mae Gildas yn cefnogi'r honiad i'r ffydd ddod i Brydain yn gynnar; dywed Evans: 'Ynawr y mae'n ddilys ddigon i Lewyrch yr Efengyl oleuo yma yn gynnar jawn; canys y mae ein Cydwladwr, hen *Gildas*, yn mynegi hynny yn oleu i ni' (1740, t. 179). Nid Gildas yw'r unig un sy'n credu hyn, dywed ei fod yn 'Opiniwn cyffredin' (*ibid.*), â 'llawer o wyr dysgedig yn barnu mae Joseph o Arimathea oedd y

cyntaf a bregethodd Iechydwrïaeth ym Mhrydain' fel Stillingfleet ac Ussher (1716, t. 139). Mae'r *Drych* am i'r Cymry gofio'n hyderus 'y mae'n ddilys ddigon i ryw un o'r Apostolion, neu un o'r 70 Disgyblion dramwy yma' a 'Barn y rhan fwyaf' yw mai Joseff a ddaeth (1740, t. 183).⁸⁴

Mae'r *Drych* yn adlewyrchu dadl yr 'Epistol' a'r *Ffydd* nad Catholigiaeth yw crefydd wreiddiol Prydain, yn hytrach, mae'r Gristnogaeth wreiddiol yn cyfateb i gredoau'r Eglwys wladol. Mae'r cof am ddyfodiad y ffydd wedi datblygu erbyn y ddeunawfed ganrif i gyfateb i gredoau'r Eglwys yn unig, nid Protestaniaeth yn gyffredinol, fel y cafwyd gan Davies ac Edwards. Oherwydd hyn, dadleua Garfield H. Hughes i Evans ehangu dadl Davies i ddilysu cyfundrefn Eglwysig y ddeunawfed ganrif (1992, t. 94). Yn ôl Kidd, roedd myth Joseff yn cael ei ddefnyddio er mwyn dilysu'r Eglwys wladol, ac fe'i defnyddiwyd felly gan Evans (1999, tt. 99–122). Mae'r *Drych* yn amlygu hynafiaeth Eglwys Loegr trwy ei darlunio fel y ffurf wreiddiol ar Gristnogaeth, taera, er enghraifft, y bu esgobion ym Mhrydain (1716, t. 28). Roedd bod yn aelod o'r Eglwys hon yn fraint i Theophilus Evans, nid yn unig oherwydd drygioni neu ffolineb honedig y traddodiadau Cristnogol eraill, ond hefyd oherwydd ei bod yn Eglwys a sefydlwyd gan un o ddilynwyr Crist. Cawn gof diwylliannol sy'n dyrchafu Eglwys Loegr ac yn annog eraill i'w dilyn, ys dywed Geraint H. Jenkins: 'Nid "Eglwys estron" a geid yng Nghymru yn oes Theophilus Evans, ond yn hytrach Eglwys 'wiwlwys olau' a oedd yn ganolfan ysbrydol a chymdeithasol i'r mwyafrif llethol a oedd yn addolwyr cyson' (1993, t. 24).

Ymhlyg yn y *Drych* mae'r ddadl mai credoau Eglwys Loegr yw'r ffurf frodorol ar Gristnogaeth ym Mhrydain, ac oherwydd iddynt gael eu coleddu gan aelodau cynnar o'u cenedl, dywed: 'Ynawr ar waith yr Athrawon donniol hyn yn pregethu'r Efengyl ym *Mrydain*, yr holl

⁸⁴ Noda'r *Drych* fod rhai yn credu i'r Apostol Paul ddod i Brydain a phregethu (1716, t. 144).

Deyrnas agos a gofleidiodd y Ffydd Grisnogol' (1740, t. 191). Nid yw Evans yn cyfeirio at ffurfiau amgen ar Gristnogaeth wrth ddefnyddio'r term Cristnogol, Eglwys Loegr sydd ganddo mewn golwg yn unig. Mae *Drych y Prif Oesoedd* yn dangos hunaniaeth normadol y Cymry yn y gorffennol iddynt, hefyd mae'n dangos iddynt yr hyn y dylent ei wneud yn y ddeunawfed ganrif: dylent ymroi i'r Eglwys. Gwneir hyn drwy wrthbrofi credoau'r Ymneilltuwyr ac amlygu ffolineb yr Eglwys Gatholig fel y gwelir. Drwy gofio dau gymeriad nodedig o hanes y genedl, sef y Brenin Lles ap Coel o'r ail ganrif, ac ymerawdwr Rhufain, Cystennin Fawr o'r bedwaredd ganrif, amcana amlygu cywirdeb credoau'r Eglwys a'i hyrwyddo fel norm cenedlaethol. Megis i Davies ac Edwards, mae Evans yn cyfeirio at y ddau, a chânt eu hawlio fel hynafiaid yr Eglwys.

[Lles ap Coel](#)

Caiff Lles ap Coel ei gofio er mwyn hyrwyddo Cristnogaeth Eglwysig, fel hunaniaeth normadol y Cymry; mae hefyd yn dystiolaeth bwysig er mwyn gwrthbrofi Catholigiaeth Rufeinig. Yn 'Epistol at y Cembrau', ceisia Davies ddangos fod Catholigiaeth Rufeinig yn dwyll a defnyddir Lles yn rhan o'r ddadl honno, ceir ymdriniaeth fer o Lles yn y *Ffydd* hefyd. Evans sy'n cynnig yr ymdriniaeth fanylaf ohono ac fe'i defnyddir i gyfiawnhau credoau'r Eglwys. Honna Heal mai naratif hyblyg oedd y naratif am Lles: 'King Lucius... had a plasticity that could be moulded to different ideologies' (2005, t. 597). Yn yr astudiaeth hon mae Lles ap Coel yn ffigwr hyblyg, a chaiff ei ddefnyddio i gyfiawnhau safbwyntiau Protestannaidd gwahanol gan Gymry.

Megis yn nhestunau eraill yr astudiaeth hon, wrth gofio Lles, caiff y Brutaniaid anrhydedd yn hanes lledaeniad yr efengyl, canys '*Ym mhrydain y bu'r brenin Christ'nogol cyntaf yn y byd*' (1716, t. 144; gweler hefyd: 1740, t. 188). Wrth drafod Lles, fel y cafwyd yn gynt, mae'r dimensiwn Ewrofediteranaidd yn troi i fod yn rhyngwladol. Yn y *Drych*, caiff tröedigaeth Lles ei chofio fel

dechrau'r broses o gyflawni addewid gan Dduw y byddai brenhinoedd y byd yn troi ato, ys dywed llyfr Eseia (1716, tt. 144–5; 1740, t. 188).

'[B]renin godidog' yw Lles yn y *Drych*, ac mae'n dystiolaeth bwysig o blaid goruchafiaeth frenhinol ar faterion eglwysig yn ei deyrnas:

dechreuodd Brittwyn hoyw-wych synwrol deyrnasu mywn rhyw ran o *Frydain*, a elwid *Llês ap Coel*, eithr efe a gyfenwyd wedi hynny *Llefer mawr* i. e. goleuni mawr, oblegid iddo wneuthur deunydd da o'r Dalent a dderbyniodd gan yr Arglwydd i hyfforddi ei ddeiliaid yn y jawn ffydd (1716, t. 145).

Caiff Lles dröedigaeth ar ôl i Dduw 'weithio a'r ei galon' i'w 'droi'n Gristion' (1716, t. 146). Un o sgil effeithiau hyn yw i'r deyrnas gyfan gofleidio Cristnogaeth:

Ynawr ar waith yr Athrawon donniol hyn yn pregethu'r Efengyl ym *Mrydain*, yr holl Deyrnas agos a gofleiddiodd y Ffydd Grisnogol; canys nid yn unig y cyffredin Bobl, ond y Brenin a Gwyr mawr ei Lys, yr Arglwyddi ac Uchel Swyddogion y Deyrnas, a *dderbynniasant Fedydd*; a'r Tywyllwch a giliodd ymaith, megis niwl yn diflannu ar waith yr Haul yn gyflawn Rym yn llewyrchu ganol dydd (1740, tt. 191–2).

Dyrchefir Lles wrth gofio iddo drefnu eglwysi ei deyrnas yn unol â chredoau Evans ynghylch eglwysyddiaeth. Yn unol â threfn Eglwys Loegr yn ystod y ddeunawfed ganrif, Lles yw pen yr eglwys, ac mae esgobion yn rheoli heb ymyrraeth gan Rufain. Mae Lles yn cael ei gofio gan Evans er mwyn cyfiawnhau'r gyfundrefn gyfoes. Caiff ei gofio i annog y Cymry i fod yn deyrngar i'r Eglwys, oherwydd dengys y *Drych* fod yr Eglwys wedi seilio ar awdurdod apostolaidd ac yn driw i'r ysgrythur. Mae Evans hefyd yn dyfynnu'r llythyr a anfonwyd at Esgob Rhufain a chyfeiria at destun James Ussher fel ei ffynhonnell. Dadleua, fel Davies, nad yw'r llythyr hwn yn cefnogi goruchafiaeth Rufeinig ar faterion Cristnogol ym Mhrydain, yn hytrach dengys mai'r brenin yw pen yr Eglwys yn ei deyrnas.

Mae'r weithred o anfon llythyr at Esgob Rhufain yn cael ei chyfiawnhau oherwydd:

er bod Crisnogion ddigon gartref yn ei Wlâd ei hun, etto, ac ef yn *Frenin*, a fynnai Gyfarwyddid oddiwrth *Esgob Rufain*, y Fam-ddinas y pryd hwnnw yn *Eurôp*. A hefyd oblegid fod y *Rhufeiniaid* yn ei amser ef a Llaw grêf ganddynt ym *Mrydain*, a bod y fath Fasnach a Chymdeithas wastadol rhwng y ddwy Genedl, ef a ddewisodd (o ran Parch i Brif-ddinas *Eurôp*) ddanfôn i *Rufain*. --- Ond y mae i ni wybod, fod Athrawiaeth *Eglwys Rufain* y pryd hwnnw, ac ym mhell gwedi hynny, yn bur a dilwgr a jachus. Nid oedd dim o'r fath beth a *Phabyddiaeth* etto yn un o Ardaloedd Crêd (1740, tt. 189–90).

Megis yn ystod y Diwygiad Protestannaidd, caiff y llythyr ei ddehongli yn y *Drych* fel tystiolaeth o gof diwylliannol Ewrofediteranaidd y Cymry. Cydnebydd Evans amlygrwydd yr Ymerodraeth Rufeinig ym Mhrydain a statws Rhufain fel prifddinas Ewrop, fel y gwelwyd eisoes yn yr astudiaeth. Yn debyg i Richard Davies yn yr unfed ganrif ar bymtheg, pwysleisia Evans mai goruchafiaeth y Pab sy'n newydd, ac felly'n annilys; o ganlyniad y ffydd fel y'i ceir yn Eglwys Loegr yw'r hen ffydd. Yng nghyd-destun hunaniaeth normadol, felly, caiff y Cymry eu hannog i ymroi i'r Eglwys oherwydd ei bod yn driw i'r drefn Gristnogol wreiddiol a chywir yn nhyb Evans.

Defnyddir esgob Rhufain, Eleutherius, fel drych i ffolineb Eglwys Rufain y ddeunawfed ganrif gan Evans, fel y gwnaeth Davies, yn bennaf oherwydd bod credoau'r Eglwys Gatholig wedi cyfeiliorni oddi wrth greduau'r Eglwys Fore. Mae Eleutherius yn dilyn y ffydd Gristnogol yn gywir. Yn ei lythyr, dywed y dylai Lles reoli ei deyrnas fel y gwêl ef yn dda: 'Trigolion Brydain ynt dy bobl di', nid ydynt o dan awdurdod Esgob Rhufain, ac mae'n gofyn i Dduw arwain Lles wrth lywodraethu oherwydd 'Rhaglaw yr hwn wyt yn dy wlâd dy hun' (1716, t. 149). Caiff Lles ei gofio fel rhagflaenydd i'r Eglwys gyfoes ym Mhrydain. Caiff Esgob Rhufain ei gofio yn yr un modd i gyfiawnhau'r gred mai'r teyrn yw pen yr Eglwys yn ei wlad. Mae Lles hefyd yn dystiolaeth sydd yn hyrwyddo strwythur Eglwys Loegr yn y ddeunawfed ganrif yn y *Drych*; sefydlodd Archesgobion

ac Esgobion yn ei deyrnas (1740, t. 194).⁸⁵ Mae'r dystiolaeth hon yn ymgais gan Evans i normaleiddio a strwythur yr Eglwys ac i'w chyfiawnhau fel trefn wreiddiol yr eglwys Gristnogol.

Gweithred arall sy'n amddiffyn athrawiaethau'r Eglwys yw bedydd Lles (1740, t. 191). Caiff ei fedyddio fel oedolyn, ac fel credadun, ac wrth osod y naratif hwn yn y cof diwylliannol mae potensial iddo danseilio credoau'r Eglwys a hyrwyddo credoau'r Bedyddwyr a ddeil mai bedyddio credinwyr y dylid ei wneud, nid bedyddio plant.⁸⁶ Cafodd Lles ei fedyddio gan 'Timothi cadarn yn yr Ysgrythur, ac yn llawn o Zêl at Ogoniant Duw', a gwrthododd Timotheus ddyrchafiad yn Rhufain fel y gallai 'bregethu'r Efengyl ym mysc Cenedl ei Fam' a dangos, felly, fod dimensiwn Ewrofediteranaidd i grefydd ym Mhrydain, ac yn hawlio Timotheus fel un o hynafiaid y Cymry.⁸⁷ Myn y *Drych* fod 'yr holl Grist'nogion uniawn-gred yn bedyddio eu plant' (1716, t. 179). Cafodd Lles ei fedyddio fel oedolyn oherwydd na chafodd ei fedyddio fel plentyn. Nid yw hyn, felly, yn annilysu'r gred ynghylch bedydd plant i Evans, roedd Lles yn awyddus i brofi bedydd fel Cristion. Er mwyn cyfiawnhau bedydd plant ymhellach cynigia Evans dystiolaeth ysgrythurol i ddangos mai hyn sydd gywir.⁸⁸ Gall y Cymry, felly, ymhyderu mai bedyddio plant sydd gywir a glynu wrth yr Eglwys.

Caiff y Brutaniaid eu canmol am eu bod 'yn cadw undeb ffydd mywn rhwymyn tangneddyf, yn dilyn rheol ddisiommedig y Scrythurau, ac yn cadw'r Ordinhadau a phob peth arall

⁸⁵ Yn 1716, dywed nad oes sail i hyn ac nid oes gwybodaeth am yr Eglwys ym Mhrydain tan ddiwedd y drydedd ganrif (tt. 149–51). Mae hyn er gwaethaf y ffaith nad yw'r troednodyn sydd gan Evans yn y *Drych* wedi newid erbyn yr ail argraffiad, ac eithrio'r ffaith ei fod yn cyfeirio at dudalennau gwahanol o'r un testunau.

⁸⁶ Yn 1719, cyhoeddodd Evans ei gyfieithiad *Cydymddiddan Rhwng Dau Wr yn ammau ynghylch Bedydd-Plant*, sef cyfieithiad o waith William Wall a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1706, roedd yn destun poblogaidd yn Lloegr.

⁸⁷ Yn 2 Timotheus 4:21, Claudia oedd enw ei fam, ond dywed Evans mai ei henw Cymraeg oedd Gwladys Ruffydd: 'Mae pawb yn tybied mae Cymraes neu Bendefiges o Frydain oedd y Claudia honno' (1740, t. 191).

⁸⁸ Dengys ei gefnogaeth i fedydd plant ym mhennod 5 o'r ail ran yn 1716 (tt. 230–42) ac ym mhennod 6 o'r ail ran yn argraffiad 1740 (tt. 294–305).

yn ddilwgr, megis ac a'i derbyniasant oddi wrth yr Apostolion y rhai a bregethodd iddynt' (1716, t. 163). Dylai'r Cymry yn y ddeunawfed ganrif wneud yn debyg. Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth ynghylch y ffydd ym Mhrydain; honna Evans: 'Y mae'n beth llwyr amhossibl gael Hanes *bennodol* am Drefn a Disgyblaeth y Brif Eglwys ym *Mrydain*, oblegid fod y rhan fwyaf o Lyfrau'r hen *Frutancia* wedi myned ar goll' (1740, t. 284). Mae llawer o'r manylion yn anhysbys yn ôl Evans a chyfeiria at bibliocost yn hanes y Cymry, fel y gwna Siôn Prys a Richard Davies. Ond nid llyfrau am hanes y genedl sydd ar goll yn unig i Evans, ond llyfrau am ei chrefydd hefyd. Myn y *Drych* i lyfrau Cristnogol a hanesyddol y Cymry gael eu llosgi dair gwaith, yn gyntaf dan yr Ymerawdwr Dioclesianus yn 284; yna pan losgodd Awstin Fynach, cennad y Pab i'r Saeson, lyfrau 'gwerthfawroccach nag Aur Coeth' ym Mangor-is-y-coed yn y chweched ganrif; ac yn olaf pan goncrwyd y Cymry gan y Saeson a thaflodd 'Dyn dyrras a elwid *Solan*' lyfrau'r Brutaniaid i'r tân yn y drydedd ganrif ar ddeg (1740, tt. 284–5). Fel y gwelwyd eisoes, cyfeiria Davies at losgi llyfrau'r Brutaniaid yn ogystal.

Ond er gwaethaf absenoldeb y dystiolaeth, cred Evans y gellid canfod arferion Eglwys gynnar Prydain. Mae Evans yn tynnu ar Dadau'r Eglwys oherwydd bod y Brutaniaid yn uniongred yn ôl eu geiriau hwy. Dyma ffordd o gysylltu'r Cymry â byd Cristnogol Ewrofediteranaidd a dangos ei bod o gyffelyb fryd. Oherwydd i'r Tadau ganmol ffydd y Brutaniaid mae Evans yn defnyddio eu credoau hwy er mwyn amlinellu yr hyn oedd Cristnogion ym Mhrydain yn ei gredu – ond dylid nodi mai dehongliad Eglwysig o'r Tadau a geir yn y *Drych*. Wrth fanteisio ar Dadau'r Eglwys gosodir hynafiaeth a phurdeb apostolaidd Eglwys Loegr ar seiliau uchel eu parch, ac mae Evans yn efelychu meddylwyr eraill Eglwys Loegr (McGowan, 2015, tt. 108–24). Dywed Evans fod Tertwlianws 'hen Athraw dwys o *Affrica* yn clodfori Ffydd y *Brutaniaid*, wrth y Cynnydd rhagorol

a wnaeth yr Efengyl yn eu mysc' (1740, t. 187). Gwelwn, fel yn y testunau eraill, wrth sôn am ledaeniad y ffydd Gristnogol fod Ewrop yn rhy gyfyng. Mae naratif yr Eglwys Fore yn gof cosmopolitanaidd, ac mae'n dod yn naratif y Cymry oherwydd eu bod o gyffelyb fryd Cristnogol.

Ar sail uniongrededd yr Eglwys gynnar ym Mhrydain yn ôl y Tadau, defnyddia'r *Drych* arferion a chredoau'r Eglwys Fore fel tystiolaeth am drefn eglwysig ym Mhrydain: 'Ynawr yr unig ffordd i gyflawni y Diffyg hwn, yw gosod yma Hanes am Ddisgyblaeth yr Eglwys Gatholic, oblegid hynny a ddengys hefyd Ddisgyblaeth y Brif Eglwys ym *Mhrydain*, yn gystal ac mewn Gwledydd eraill' (1740, t. 285). Yn y dyfyniad hwn, pwysleisia'r *Drych* fod Eglwys Brydain yn cydweddu â'r Eglwys Fore ac eglwysi eraill ar draws y byd Ewrofediteranaidd, a bod Eglwys Loegr y ddeunawfed ganrif yn cyfateb i'r Eglwys Fore ac yn uniongred. O wneud hyn mae'r *Drych* am i'r Cymry gofio eu bod yn rhan o ddiwylliant Cristnogol rhyngwladol a thrawsgenedlaethol fel y gwnaeth Richard Davies a Charles Edwards gynt.

Cystennin

Caiff Cystennin Fawr, yr Ymerawdwr Rhufeinig, hefyd ei gofio er mwyn cyfiawnhau athrawiaethau Eglwys Loegr yn y *Drych*. Yn ogystal, mae'n dyrchafu'r Cymry fel cenedl a chwaraeodd rôl wrth amddiffyn uniongrededd y ffydd Gristnogol ar draws y byd Ewrofediteranaidd. Cymeriad amlwg yn hanes Cristnogaeth Ewrofediteranaidd yw Cystennin, am mai ef oedd ymerawdwr Cristnogol cyntaf y byd; cyfeirir ato yn nhestunau Prys ac Edwards. Mae cael Cystennin yn un o hynafiaid y Cymry yn destun balchder arbennig iddynt; dywed mai ef yw'r 'Brittwn ardderchoccaf... a'r Ymherawdr clodforyssaf yn y bÿd' (1716, t. 43). Roedd gan Cystennin gariad arbennig tuag at y Cymry, yn ôl y *Drych*, oherwydd roedd ei fam, Elen, o Brydain; mae Evans, felly, yn adlewyrchu barn a welwyd eisoes yn y traethawd hwn. Dylai'r Cymry ymffrostio

fod y 'gwr enwocaf o'r byd Chrisnogol a'r *Ymherawdr cyntaf* a fedyddiwyd i ffydd *Iesu Ghris*t' yn un ohonynt (1740, t. 64). Ymfalchia'r *Drych* fod 'cyd-tylwyth' yn eistedd ar orseddfeinciau Prydain a Rhufain, sef tystiolaeth ychwanegol am ddimensiwn Ewrofediteranaidd y Cymry yn y *Drych*. Roedd Cystennin yn rhan o apêl y *Drych* ar i'r Cymry ddeall eu hunain fel cenedl o bwys, ac fel cenedl sydd wedi gwneud cyfraniad i'r ffydd Gristnogol ar draws y byd. Gellid dadlau, bod Evans yn cydnabod mawredd yr Ymerodraeth ac yn ei edmygu, tra bod Edwards yn cyffelybu Rhufain y Pab ag Ymerodraeth Rufain ac yn condemnio'r ddau. I Evans, nid yw'r Babaeth ac Ymerodraeth Rufain yn gysylltiedig.

Yn y *Drych* caiff Cystennin ei gofio fel esiampl normadol sy'n hyrwyddo athrawiaethau'r Eglwys ymhlith y Cymry. Caiff ei ganmol am gymryd dysgeidiaeth y ffydd Gristnogol o ddifri. Cynhaliodd gymanfa yn Nicea er mwyn amddiffyn y ffydd rhag heresi Arius, a oedd yn ei flodau yn y drydedd ganrif; dyma un o'r ddwy heresi sydd o dan sylw gan Evans. Fe'i gelwir yn '[d]erfysc yn yr Eglwys' (1716, t. 163). Roedd yn 'dianrhydeddu yr ail Berson o'r Drindod fendigedig' (1740, t. 215), gan wadu bod Iesu Grist 'yn Dduw ac yn ddyn', credent ei fod yn fab i Dduw ac yn israddol iddo (1740, t. 216). Yn ôl y *Drych*, ysgogwyd Cystennin i:

alw ynghyd yr Esgobion o bob Talaith i gyfarfod yn *Nicæa* dinas o *Bithinia* yn *Asia*; lle yr ymgynhullodd dri chant ac ugain; ac ym mysc y lleill, Esgobion *Brydain*, i sefydlu Gwirionedd Crefydd yn erbyn gau-opiniynau *Arrius* (1740, t. 213).

Dyma ddyfyniad a ddengys ddimensiwn Ewrofediteranaidd Cristnogaeth Brydeinig wrth i esgobion yr ynys fynd draw i Asia. Roedd brwdfrydedd Cystennin yn rhwystr i'r heresi: 'Tra fu ein Cyd-wladwr tra galluog *Custenyn fawr* yn nhir y rhai byw, ni feiddiodd yr *Heresi* ysgeler hon nofio o du draw i'r môr yma i *Frydain*' (*ibid.*). Yn yr ymdriniaeth o Cystennin, pwysleisir cywirdeb ac

uniongredded yr Eglwys ym Mhrydain a braint mawr y Cymry yn rhan o naratif Cristnogaeth ryngwladol. Wrth i'r Eglwys wladol wrthwynebu'r Ariaid gellid ei deall fel mynegiant triw o'r ffydd Gristnogol ac y dylent fod yn ffyddlon iddi.

Ar ôl teyrnasiad Cystennin, daeth yr heresi i Brydain yn 378 yn ôl argraffiad 1716 (1716, t. 163), ond erbyn 1740 dywedir iddo ddod yn 381 (1740, tt. 213–14).⁸⁹ Er hynny, gellid ymfalchïo yn y ffaith y bu credinwyr ffyddlon o hyd ym Mhrydain oherwydd: 'Yr oedd hyn yn ddiâu yn Dristwch a gofid calon i'r *Crisnogion* uniawn-gred a gwir Aelodau'r Eglwys, i weled y *Gauathrawon* yn camarwain y *werin bobl anneallus* i'r Heresi ddinistriol honno *ag oedd yn gwadu yr Arglwydd yr hwn a'i prynodd hwy'* (1740, t. 216). Mae'r *Drych* yn siomedig am frwdfrydedd rhai o hynafiaid y Cymry wrth ymroi iddo. Dengys iddynt ddigio Duw:

Ac o herwydd i'r hen *Frutanaid* hwythau gyffroi'r Holl-alluog a'i ddigio ar eu gwaith yn amherchi ac yn dianrhydeddu yr ail Berson o'r Drindod fendigedig, *Duw a'i rhoddes hwynt i fynu i feddwl anghymeradwy, i wneuthur y pethau nid oedd weddaidd: wedi eu llenwi a phob anghyfiawnder, godineb, anwiredd, cybydd-dod, drygioni; yn llawn cenfigen, llofruddiaeth, cynnen, twyll, drwg anwydau.* Rhuf. 1.28 (1740, t. 215).

Rhestrir yn y dyfyniad ffrwythau pechod, a dangos bod unrhyw wyro oddi wrth athrawiaeth uniongred yn dwyn pechodau eraill a barn gan Dduw. Canlyniadau andwyol ymroi i heresiâu, yn ôl y *Drych*, yw anfoesoldeb sy'n dwyn distryw cymdeithasol yn gyffredinol. Wrth adrodd hanes coleddu'r heresi hwn, mae'r cof diwylliannol yn gweithredu fel gwers am y gorffennol yn ogystal

⁸⁹ Mae'n anodd gwybod yn iawn gwraidd y newid hwn; yn 1716 ar dudalen 163 i gefnogi hyn, dyfynna Gildas a chyfeirir at Soz. Hist. Eccles. Lib. 1. Cap. 14. P.18 (sef testun gan Salminius Hermias Sozomenus neu Sozomen); cyfeiria hefyd at Hist. Tripart. Lib 1. Cap. 13 pag. 178 (sef casgliad o weithiau haneswyr eglwysig sy'n cynnwys: Socrates, Sozomen a Theodoret gan Cassiodorus yn y 6ed ganrif); Theodor. Hist. Ecclesiast. Lib. 1 Cap. 2. Pag. 573. (sef Theodoret c. 393–458). Mae'n cyfeirio hefyd at waith Dr. Reynold. Conference with Hart. Ond yn 1740, ni ddyfynnir Gildas, cyfeirir at Sozomen o hyd ond y tro hwn at L.2. c.28; cyfeirir hefyd at 'V. Crakanth. Aivers. Archiep Spalat. C.4. p.19', sef: *Defensio Ecclesiae Anglicanae* gan Richard Crakanthorpe a dangos nad yw hyd yn oed yr Eglwys Gatholig yn derbyn credoau Arius (1625).

â rhybudd yn y presennol: ni ddylai'r Cymry arddel heresiaïau, dylent yn hytrach fod yn uniongred. Pwysleisia'r *Drych* nad yw'r Cymry'n waeth nag unrhyw genedl arall ac iddynt rhannu'r un profiad â chenhedloedd eraill y byd Ewrofediteranaidd; dywed roedd 'yr holl Fyd crisnogol agos wedi mynd ar gyfeiliorn' (1740, t. 216).

Mae'r naratif am heresi Arius yn amrywio ychydig o argraffiad i argraffiad, megis ynghylch sut y dilëwyd yr heresi o'u plith. Yn argraffiad 1716, dywed mai trwy ddarllen yr ysgrythurau caiff yr athrawon eu hargyhoeddi o'u ffolineb 'wedi darllen y Scrythurau, hwy a ddeallasant mae Athrawiaeth a ddychymmygwyd gan y Diefyl yn uffern' (1716, tt. 166–7). Yn dilyn hyn maent yn edifarhau, ac o hynny allan 'yr Athrawiaeth a bregethwyd yn yr Eglwysydd oedd yn jachusol, yn union-gywir, ac yn gyttun a'r Scrythur' (1716, t. 167). Yn argraffiad 1740, fodd bynnag, dywed Evans fod angen cymanfa i greu canonau i ddatgan gwirionedd y *Ffydd*, yn ychwaneg i ddarllen y Beibl, felly, roedd angen cael eglurhad sefydliadol ar gredoau'r ffydd (1740, t. 217). Roedd hyn oherwydd nad oedd modd argyhoeddi'r gau athrawon oherwydd mai 'Dynion ceccrus oeddent, ac yn cablu y pethau ni wyddent' (1740, t. 216). Yn y pen draw, yn y ddau argraffiad, llwydda'r Brutaniaid i 'ymwrthod o Heresi *Arrius*' ac ni ddychwela (1740, t. 218).

Cysyllta Evans heresi Arius gyda'r Crynwyr yn ei ddydd, dywed: 'Yr wyf yn meddwl mai *Arrius* yw Tâd Cenawon y fall... sef y *Crynwyr*' (1716, t. 167). Mae'n gas gan Evans y Crynwyr a myn iddynt fynd ymhellach nag Arius, ac oherwydd hynny mae eu cyfeiliorni hwy yn waeth. Dywed Geraint H. Jenkins y bu casineb tuag at y Crynwyr yn gyffredin ym Mhrydain, yn arbennig ymhlith Eglwyswyr, a dengys iddynt gael eu herlid yn waeth nag unrhyw grŵp crefyddol arall ar ôl yr Adferiad (1978, t. 181; 1993, t. 48). Nid y *Drych* yw'r unig dro i Evans feirniadu'r Crynwyr, a chyfeiria'r *Drych* at *Galwedigaeth ddifrifol i'r Crynwyr i'w gwahawdd hwy ddychwelyd i*

Grist'nogaeth (1715), sef cyfieithiad Evans o destun George Keith a gyhoeddwyd yn 1702. Yn y naratif am heresi Arius yn argraffiad 1740 nid yw'n dadlau bod cysylltiadau â'r Crynwyr, efallai oherwydd y dirywiodd eu niferoedd.⁹⁰

Drygioni Eglwys Rufain

O ystyried y *Drych* fel testun cof diwylliannol sydd yn ceisio profi cywirdeb yr Eglwys, amlyga Evans hefyd ei farn ynghylch ffolineb Eglwys Rufain. Mae Evans yn ymhyfrydu yn ei gred fod gan Brydain draddodiad Cristnogol sy'n annibynnol oddi wrth Rufain. Mae'r *Drych* yn ddiflewyn-ardafod yn beirniadu'r Eglwys Gatholig, ac yn nodweddiadol o lenyddiaeth Brotestannaidd fel y gwelir yn y penodau blaenorol. Mae hyn yn annog y Cymry i beidio â choleddu Catholigiaeth, ac yn hytrach i droi at yr eglwys wladol. Dywed Geraint H. Jenkins mai: 'Ceidwadwr wrth reddf ydoedd [Evans] a chredai mai prif ddyletswydd Prydain Fawr oedd diogelu'r deyrnas a'r grefydd ddiwygiedig Brotestannaidd rhag cynllwyn, rhaib a gormes y gelyn Pabyddol' (1993, t. 33).⁹¹ Yn ôl Evans, mae gan y Pab 'Awdurdod ormesol' (1740, t. 268); sarheir Catholigiaeth fel 'cyfeiliorni Pabyddiaeth' (1740, t. 210).⁹² Cytuna Evans â Davies ac Edwards mai twyll yw Catholigiaeth. Fel hwy hefyd, ymffrostia fod i Brydain le amlwg yn hanes Cristnogaeth a gwrth-Gatholigiaeth:

yr Ynys hon o *Frydain* oedd *un o'r cyntaf* o holl Deyrnasoedd Crêd a dderbynniodd y *Grefydd Grisnogol* i'w Bro: Felly yr Ynys hon o *Frydain* hefyd, oedd *un o'r cyntaf* o holl Deyrnasoedd Cred a ymlanhaodd oddi-wrth Furdreddi Pabyddiaeth, yn amser y Brenin duwiol, *Jorwerth Tudor* (1740, tt. 282–3).

Mae gan Brydain statws yn nhrefodaethau ynghylch lledaeniad byd-eang y ffydd Gristnogol ac i'w hadferiad yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Megis yn *Y Ffydd Ddi-ffuant*, lorwerth sy'n derbyn y

⁹⁰ Am y Crynwyr yng Nghymru, gweler: R. Allan. 2007. *Quaker Communities in Early Modern Wales: From Resistance to Respectability*.

⁹¹ Nid meddylwr diwygiedig oedd Evans, term sydd yn cael ei ddefnyddio i olygu Calfiniaid yn gyffredinol.

⁹² Wrth iddo gyfeirio at Gatholigiaeth Rufeinig defnyddir y term 'Pabyddiaeth' a 'Papistiaid'.

ganmoliaeth yn y *Drych* fel yr un a burodd yr Eglwys ym Mhrydain, nid ei dad Harri'r VIII a dorrodd o'r Eglwys Gatholig.⁹³ Mae Edwards yn darlunio'r weithred fel un oddi uchod sy'n cael ei sbarduno gan Dduw, tra bod dyfyniad Evans yn awgrymu i Brydain ymlanhau o'i wirfodd ac adlewyrchu ei gredoau Arminaidd ynghylch achubiaeth (gweler: Morgan, D. D., 2018, tt. 43, 245–78).

Tebygrwydd arall rhwng y *Drych* a'r *Ffydd* a'r 'Epistol' yw bod Evans hefyd yn hyrwyddo dehongliad o'r Eglwys Gatholig fel un o weision yr un Drwg. Aelod o'r Eglwys Gatholig sy'n cael ei feirniadu'n helaeth a hallt yn y *Drych* yw Awstin Fynach. Gelwir ef yn '[g]eccryn câs' (1716, t. 157), yn 'ŵr balch trahaus, gwaedlyd, cenfigennus' (1716, t. 195), a ddug 'llygredigaethau ffiائد' i Brydain (1716, t. 196). Gwaethaf oll 'dyrchafodd *Bâb Rhufain* yn fwy na neb' sy'n cyferbynnu ag offeiriaid Prydain 'a ddyrchafodd *Ghrist* yn fwy na neb' (1716, tt. 195–6). Fel Davies yn 1567, mae Evans yn awyddus i bwysleisio nad Awstin o Hippo, 'un o bilerau'r Eglwys' mo hwn, ond Awstin arall (1716, t. 194; 1740, t. 249). Mae drygioni Awstin, y cennad, yn ddrych i ddrygioni'r Pab, y meistr, fel y mae yn y testunau eraill. Sonnir am gydsyniad Awstin i ladd 1,200 o fynachod diarfog ym Mangor-is-y-coed a wrthwynebai awdurdod y Pab mewn 'gwaed oer' yn y *Drych* gan dynnu ar Beda (1716, t. 196).⁹⁴ Mae Catholigion yn waedlyd ac yn ddirugaredd yn ôl Evans. Fel i Davies, crefydd y Saeson yw Catholigiaeth, hefyd, sy'n dra gwahanol i Gristnogaeth Eglwys Loegr, sef crefydd wreiddiol y Cymry.

⁹³ Daw naratif y *Drych* i ben yn 1293, ond mae rhai cyfeiriadau yn y testun at ddigwyddiadau diweddarach. Am ddehongliad Evans o'r Diwygiad Protestannaidd, gweler: Theophilus Evans. 1752. *History of Modern Enthusiasm: From the Reformation to the Present Times*.

⁹⁴ Dywed Evans yn 1740 mai ei ffynhonnell yw *Concilia Ecclesiastica Orbis Britannici* gan Henry Spelman (1639). Mae'n debygol iddo weld y cyfeiriad at Beda yng ngwaith Spelman (1740, t. 262).

Pechod a'i ffrwythau

Wrth ddangos y 'modd y bu hi' cawn bortread o ffrwythau pechod yn *Drych y Prif Oesoedd sy'n* gweithredu fel rhan o apêl mnemonig y testun ar i'r Cymry edifarhau a byw'n dduwiol. Ymhlyg yn hyn hefyd mae'r diffiniad ffurfiannol o'r Cymry fel pechaduriaid. Mae'r ffaith bod yn rhaid iddynt edifarhau'n brawf eu bod yn bechaduriaid. Darlunnir ffrwythau pechod, sef yr anhrefn a ddaw a'r farn sydd ar y genedl yn sgil ei phechod, ac mae hyn yn ei dro'n annog y Cymry i fyw'n dduwiol ac i edifarhau. Gwelwn yn y *Drych* genedl anrhydeddus yn colli bri ac yn siomi Duw oherwydd ei phechod. Cysyllta hyn naratif y *Drych* â *De Excidio* Gildas, a naratifau hanes yr Hen Destament oherwydd er i Dduw ddewis y genedl a'u bendithio, mae eu hanes yn un o ddirywiad wrth iddynt siomi'r Arglwydd droeon. Mae Evans yn adlewyrchu safbwynt Charles Edwards yn y *Ffydd* fod cenhedloedd pechadurus yn cael eu cosbi.

Hanes trist sydd gan y Cymry ym marn Evans. Dywed yn 1716 mai 'Testun gwylofain ydyw adrodd helbulon a gorthrymderau'r *Cymru* ym mhob Oes a gwlad... Mi allaf ddywedyd yn hŷ eu bod yn fwy anffodiog o ran eu meddiannau daearol nag un genhedl tan Haul' (1716, t. 17). Mynegir y teimladau hyn yn gryfach yn 1740 wrth iddo ddweud mai 'Gwaith *Salw* a *chwith*, yw adrodd Helynt y *Cymru*; eu Haflywydd a'i Trafferthion byd, ym mhob Oes a Gwlad y buont yn preswyllo ynddi' (1740, t. 3). Mae'n drist oherwydd eu pechodau, ac mae Evans yn annog y Cymry i gefnu ar eu pechod. Er bod ymwybyddiaeth o bechodau'r genedl ymhlyg yng ngweithiau Powel a Prys, maent yn fwy cadarnhaol wrth ganmol y genedl, cofier mai eu nod oedd dyrchafu'r Cymry gerbron cenhedloedd eraill. Mae'r *Drych*, fodd bynnag, yn galarnadu ynghylch dirywiad y genedl sy'n deillio o'u drygioni; mae hyn yn wahanol i'r *Ffydd* sy'n tristáu ynghylch drygioni'r genedl yn unig heb gyfeirio at y cysylltiad rhyngddynt a cholli anrhydedd bydol fel y gwna'r *Drych*. Ymhelaetha ac eglura pam mae'n salw: 'Canys onid peth *galarus* a *blin*, yw adrodd mor

anniolchgar oeddent i Dduw, mor chwannog i wrthryfela yn ei erbyn, ac mor barod i Syrthiodd i Brofedigaeth y *Byd*, y *Cnawd*, a'r *Cythraul*, yr hyn a *barodd* eu bod mor *anffodiog*, ac *aflwyddiannus?*' (*ibid.*). Drygioni'r Cymry sy'n dwyn dinistr arnynt, wrth ddehongli'r naratif fel cof diwylliannol gellid dehongli hwn fel hunaniaeth normadol sy'n dangos i'r Cymry'r hyn y dylent ei wneud. Mae gwerth i ysgrifennu hanes y Cymry, a dywed Wiliam Lewes: 'Mi allwn anghwanegu ynghylch yr *Anghenrhaid*, a'r mawr lesâd sydd oddiwrth y fath Waith godidog, ac ydyw'r Llyfr hwn' wrth 'ddyrchafu Gwybodaeth, ac i hyfforddi Dynion ynghylch y *Wir Ffydd*, a'r Grefydd Grist'nogol' (1716, d.t.). Gall y testun fod o fendith ysbrydol i'r Cymry a'u hyfforddi i fyw'n dduwiol. Fel y gwnaeth Edwards yn y *Ffydd*, ymagwedda Evans at ysgrifennu hanes yn ddidactig, yn arbennig wrth gynnig gwersi ysbrydol.

[Heresi Pelagius](#)

Un o bechodau'r genedl yw coleddu heresiâu, trafodwyd sut y caiff heresi Arius ei gofio. Yn ôl y *Drych* gwnaeth y Cymry hefyd ymroi i ail heresi a fu'n llawer mwy poblogaidd yn eu plith, sef heresi Pelagius. Wrth gofio'r heresi hwn, mae'r *Drych* yn annog y Cymry i fod yn uniongred megis wrth drafod heresi Arius. Roedd y llewyrch ar ôl difa heresi Arius yn fyrhoedlog: 'ond nid hwyrach ac y dechreuasant ymelîo ac ymjachau o'r naill Blâ, ond hwy a lygrwyd drachefn ag un arall o dyfiant *Brydain*' (1740, t. 218). Er bod y Brutaniaid wedi llwyddo i gael gwared ar un heresi, cânt eu poenydio gan un arall.

Yn y *Drych*, sonia Evans am heresi Pelagius, neu Morgan fel y'i gelwir yn syth ar ôl trafod heresi Arius. Er bod bwllch o tua chanrif rhwng heresi Arius a heresi Pelagius, yn 1716 ymddengys fel petai un yn dilyn y llall. Yn argraffiad 1740, fodd bynnag, awgrymir y bu'r Brutaniaid yn 'dilyn Athrawiaeth yr Eglwys' am gyfnod cyn dyfodiad heresi Pelagius (1740, t. 218). Dyma heresi llawer

mwy dinistriol a oedd yn anos i'w dileu'n llwyr (1716, tt. 168–81; 1740, tt. 218–25). Ymhlith 'Opiniynau cyfeiliornus' heresi Pelagius, y mae'r gred 'y gallai dyn fod yn gadwedig heb Râs Duw', y farn y crëwyd Adda'n ŵr marwol, a'r dybiaeth y gellid ymgadw rhag pechod oherwydd nad oedd y fath beth â phechod gwreiddiol, yn dilyn hyn roedd heresi Pelagius yn honni y gellid cael iachawdwriaeth wrth ddilyn y Gyfraith (1716, tt. 168–9; 1740, tt. 220–5).⁹⁵ Dyma greddau anuniongred ac anathema, sydd yn ôl Evans yn rhai gwrth-Gristnogol.

Gwrthwyneba Evans heresi Pelagius yn gryf; fel Cymry eraill yr astudiaeth hon nid yw'n goddef credoau Pelagiaidd. Ceir ymdriniaeth fanwl o heresi Pelagius yn y *Drych*, sy'n amrywio ychydig o argraffiad 1716 i 1740. Ceir ymdriniaeth fanylaf y cyfnod gan Simon Thomas, anghydfurfiwr Calфинаidd yn *Histori yr Heretic Pelagius*, sy'n cysylltu Arminiaeth, sef y gred a lywodraethai yn yr Eglwys ar y pryd, â Phelagiaeth (1735).⁹⁶ Ni wyddys a oedd Evans wedi darllen cyfrol Thomas ac addasu'r ail argraffiad er mwyn amddiffyn credoau Arminiaidd yr Eglwys. Ond roedd cysylltu Arminiaeth â Phelagiaeth yn gyffredin ymhlith Protestaniaid Calфинаidd fel Ussher (1639). Roedd hyn oherwydd yn nhyb meddylwyr Calфинаidd, roedd y pwyslais ar rôl y credadun wrth edifarhau a geir gan Arminiaid yn cwestiynu caethiwed y ddynoliaeth i bechod a'r angen am ras Duw i ddyn gael ei achub. Byddai Evans wedi bod yn ymwybodol o'r dadleuon hyn wrth iddo dynnu ar waith Ussher. Mae Evans yn y *Drych* yntau'n condemnio Pelagiaeth fel heresi sy'n gwadu pechod gwreiddiol. Ond gwrthwyneba'r feirniadaeth Galфинаidd ar Arminiaeth, sy'n honni mai Pelagiaeth ar ei newydd wedd ydyw. Dadleua fod Arminiaeth yn gwbl uniongred ac yn gred a arferid gan yr Eglwys Fore; dadleua hefyd nad yw Arminiaeth chwaith gyfystyr â Phelagiaeth.

⁹⁵ Wrth grynhoi credoau Pelagiaidd, cyfeiria at *De gratia Christi et de peccato originali* gan Awstin a wrthwynebodd syniadau Pelagiaidd.

⁹⁶ Yn 1742 mae Simon Thomas yn cysylltu Arminiaeth â Phelagiaeth eto yn *The Arminian Heresy*.

Fel gan Davies ac Edwards, caiff Pelagius ei gysylltu â'r Cymry gan Evans. Yn ôl y *Drych*, Cymro oedd 'Morgan' yn hanu o Wynedd, ac ar sail ei enw Cymraeg mae'n debygol y cafodd ei eni ger y môr (1716, t. 168; 1740, t. 219).⁹⁷ Wrth sôn am Pelagius mae Evans yn ddyledus i ffynonellau amrywiol; tyn ar eiriau Awstin, Beda, Ussher, a Stillingfleet.⁹⁸ Wrth dynnu ar waith John Leland disgrifir Pelagius fel:

gwr lled afluniaidd; canys fe ddywedir ei fod ef yn Glamp o ddyn tew gwdd-fraisc ysgwydd-gam ac un llygeidiog: Ond am Gyneddfau naturiol ei enaid, yr oedd ynddo Synwyr faith; yn wr dyscedig dros ben, yn gydnabyddus a holl Ddysceidiaeth ddynol a Difynyddiaeth, a hefyd yn wr o Fuchedd ac Ymarweddiad glan syber a diargyoedd cyn belled ag y gallai dyn farnu (1740, tt. 219–20).

Yn 1716, caiff Pelagius ei ganmol 'o ran Dysg, Dawn, a Synnwyr' (1716, t. 168). Mae Evans yn dweud 'fod rhai dynion yn barod i dybied fod ei Wrthwynebwy'r yn angwanegu peth at ei athrawiaeth i beri dynion ei chassau a'i ffeiddio hi'n fwy; etto'r wyf yn meddwl iddo ddysgu rhai pethau nad allant fod yn llai eu heuogrwydd na Heresi ddinistriol' (1716, t. 169). Er y cydnebydd Evans amheuan rhai ynghylch ei gredoau mae'n mynnu mai heretic oedd Pelagius a bod perthynas uniongyrchol rhwng Pelagius, y dyn, a Phelagiaeth, yr heresi fel y ceir gan Davies ac Edwards.

Barn wahanol a geir yn argraffiad 1740. Erbyn hyn, dylai'r Cymry gofio Pelagius fel cymeriad uniongred y tadogwyd heresiâu arno, oherwydd i'w ddilynwy'r lygru ei ddysgeidiaeth a

⁹⁷ Am Pelagius a Phelagiaeth, gweler: Ali Bonner. 2018. *The Myth of Pelagianism*; Brinley Roderick Rees. 1991. *The Letters of Pelagius*; *idem*. 1988. *Pelagius: A Reluctant Heretic*. Am grynodedb hwylus o'r problemau ynghylch Pelagius a Phelagiaeth, gweler: Mathijs Lamberigts. 2008. 'Pelagius and Pelagians', yn Susan Asbrook Harvey a David G. Hunter, goln. *The Oxford Handbook of Early Christian Studies*, tt. 258–79. Am ddylanwad honedig Pelagius a'i syniadaeth yng Nghymru, gweler: Huw L. Williams. 2020. *Ysbryd Morgan: Adferiad y Meddwl Cymreig*; am feirniadaeth ar ddadl Williams, gweler: Carwyn Graves. 2021. 'Trafodaeth: Ysbryd Morgan a'r Meddwl Cymreig', *Y Traethodydd* 175, 161–8; a Dewi Alter. 2021. 'Epistol yr Eryr at Ceridwen', *Y Traethodydd* 174, 125–6.

⁹⁸ Ymddengys iddo weld y cyfeiriadau at y gweithiau cynharach yn nhestunau Ussher a Stillingfleet.

gwyrdroi ei athrawiaeth; dywed mai ‘Canlynwyr Morgan a’i Ddisgyblion a aethont ym mhell y tu hwnt i Gamrau eu Meistr’ (1740, tt. 223–4). Nid yw Pelagius yn warth cenedlaethol, ac mae uniongredded y Cymry wedi’i amddiffyn; mae Pelagiaeth yn gred estron i’r Cymry. Felly, mae gwrthwynebiad Evans i’r hyn a elwir yn ‘heresi Pelagius’ yn gyson yn y ddwy argraffiad. Yr hyn sy’n amrywio yw i ba raddau y mae cysylltiad rhwng Pelagius a Phelagiaeth. Yn 1740, gwahaniaetha Evans rhwng Pelagius a Phelagiaeth. Golyga hynny mai dilynwyr Pelagius a fathodd Pelagiaeth, ac nid oeddynt yn adlewyrchu credoau’r Cymro. Yma hefyd, mae Evans yn pwysleisio ei fod yn gwrthwynebu credoau Pelagiaidd; er enghraifft, dywed fod pregethu nad yw gras yn angenrheidiol yn ‘anathema’ (1740, t. 220).

Yn 2018, dadleuodd Ali Bonner ni wyddys yr hyn a gredai Pelagius oherwydd safbwyntiau ei wrthwynebwyr a’i ddilynwyr yw’r prif ffynonellau sydd gennym amdano. Gellid deall bod y *Drych*, felly, yn ceisio adfer Pelagius, ac yn annog y Cymry i beidio â choleddu Pelagiaeth o hyd. Dywed hefyd nad oes angen cywilyddio o’i herwydd, canys nid heretic mohono, ac nid oes a wnelo Pelagiaeth ddim â’r Cymry. Mynega *Drych* 1740 ansicrwydd tebyg ynghylch yr hyn oedd wir gredoau Pelagius (1740, tt. 220–5). Dywed Evans yn 1740 fod sylwadau Pelagius ei hun yn anghyson ‘Ond naill yr oeddid yn camachwyn arno, neu y mae ef yn dygn-ragrithio; yn dywedyd un peth, ac yn meddwl peth arall’ (1740, t. 220). Yn ôl Evans, felly, ni ellir bod yn sicr.

Nid oes a wnelo’r heresi â Christnogaeth frodorol ymhlith y Brutaniaid yn ôl y ddau *Ddrych*. Myn Evans na ddychwelodd Pelagius i Brydain, ac ni ddaeth yr heresi tan i Agricola, ‘y *Cadnaw’*, ddod i Brydain yn 425 (1716, tt. 169–70; 1740, tt. 225–6). Felly, estronwr oedd ar fai am ddyfodiad y gred i Brydain. Er i’r Brutaniaid ildio i’r heresi gwnaethpwyd hynny am ddau reswm. Yn gyntaf, roeddynt yn wan yn grefyddol: ‘nid oeddent ond Chrisnogion llesc a gweinion,

heb eu Seilio a'i sicrhau mewn Egwyddorion crefydd' (1740, t. 226). Yr ail reswm oedd oherwydd eu gwendid milwrol yn dilyn brwydrau â chenhedloedd eraill a oedd 'megis *Tymhestl ddisymmwth o Daranau a Mellt echryslawn*, wedi taro dychryn a syndod drwy gydol y Deyrnas, megis *dyn yn delwi o ergyd wrth frath Cleddyf at ei Galon'* (*ibid.*). O ganlyniad i'r ddau ffactor hyn roedd Cristnogion yn cefnu ar y gwirionedd ac yn coleddu'r heresi, a chafodd y Cristnogion uniongred hi'n anodd ei wrthbrofi (1716, t. 171). Ceir apêl ar i'r Cymry ddysgu o'r gwersi hyn, a dylent fod yn hyddysg yn yr ysgrythurau, a dylent fod yn barod yn filwrol rhag gelynion. Dengys hefyd fod cysylltiad rhwng cryfder ysbrydol a chryfder milwrol.

Er gwaethaf hyn, cofia'r *Drych* am ddaioni Duw tuag at y Cymry wrth iddo eu ceisio o hyd; mae hyn yn ei dro yn eu hannog i fod yn dduwiol. Darpara'r Arglwydd at anghenion y Brutaniaid gan anfon cenhadon i ddileu'r heresi. Fel yn nhestunau eraill yr astudiaeth hon, dywed Evans yr anfonwyd cenhadon gan eu 'Brodyr' yn Ffrainc, brodyr yn y ffydd ac o ran iaith 'canys nid oedd ond ychydig o wahaniaeth rhwng Jaith Preswylwyr *Ffraingc* a Jaith hen Drigolion yr Ynys hon yn yr *Oes honno'* (1740, tt. 227–8). Fel Prys, er enghraifft, deellir bod cydwladwyr y Cymry yn byw yn Ffrainc ac iaith oedd yr elfen a'i cysylltai. Anfonwyd yr Esgobion Garmon a Lupus i Brydain a'r 'Cennadon a dderbyniwyd gan Eglwys Ffraingc gydag Addfwynder a pharch' (1740, t. 227). Mae cysylltiadau crefyddol Ewrofediteranaidd y Cymry yn cael eu cynnal gan y *Drych* fel y gwelwyd gynt. Daeth y ddau a phregethu ac erfyn ar i'r Brutaniaid gefnu ar heresi Morgan, roeddynt yn llwyddiannus 'a chasaodd pawb athrawiaeth Morgan' (1716, t. 172). Dylai'r Cymry, felly, ddiolch i Dduw am eu gwaredu rhag heresi a byw yn dduwiol yn y ddeunawfed ganrif.

Pwysleisia'r *Drych* er gwycheder Garmon a Lupus, gwraidd eu llwyddiant oedd cariad Duw tuag at y Brutaniaid a'i awydd i'w hachub, nid unrhyw ddaioni cynhenid neu weithgarwch

penodol. Maent yn llwyddiannus trwy: ‘Fendith Duw... y rhai *digred* a ennillwyd i dderbyn y *Ffydd*; y rhai *uniawn-gred a gadarnhawyd* yn y *Ffydd*; y Gweiniaid a gryfhawyd; a’r rhai o’r blaen a *ddiystyrasant Râs Duw*, erbyn hyn a welsent eu Camsynniad’ (1740, t. 229). Roedd Duw o’u plaid ac yn sicrhau llwyddiant y cenhadon. Dygai hyn ddisgwyliadau normadol ar y Cymry i fod yn dduwiol, oherwydd i Dduw darparu ar eu cyfer pan oeddynt yn cyfeiliorni. Ni chaiff y Cymry eu gadael dan farn; gelwir hwy gan Dduw i edifarhau drwy genhadaeth Garmon a Lupus. Pwysleisia Evans, felly, fod Duw yn drugarog ac yn maddau i’r genedl. Trwy hynny cânt eu hannog i edifarhau a throi ato yn y ddeunawfed ganrif.

Er llwyddiant Garmon a Lupus, ildiodd y Cymry drachefn i heresi Pelagius a bu’n rhaid iddynt ddychwelyd i’w ddileu droeon:

ar ôl ymadawiad y ddau Wr duwiol, yno y llaesodd eu Zêl at Grefydd, ac a ddechreusant gellwair a chrechwenu, ac o fesur *cam a cham* i ymroddi i bob Ofer-gamp a maswedd... syrthiasant *Frodor a Pheriglor*, Bonheddig a Gwrêng i bob math o Ysgelerder a drygioni, Cyfeddach a Meddwdod, Godineb ac Aniweirdeb, Cybydd-dod ac Occreth, Cynfigen a Châs, gyda phob Diystyr ac Amharch ar Orchymynion Duw, ag a ydyw natur lygredig Dyn yn dueddol iddynt. *Peth aruthur ac erchyll a wnaed yn y tir. Jer 5* (1740, t. 87).

Yn y dyfyniad hwn mae Evans yn dangos bod natur ddynol yn llygredig, a bod y Cymry’n dychwelyd at bechod, fel y gwelir gan Edwards. Rhaid i’r Cymry edifarhau am eu pechodau yn y ddeunawfed ganrif, fel y gwnaeth eu hynafiaid gynt; mae hyn oherwydd eu bod yn bechaduriaid o hyd. Cynhaliwyd gwrthwynebiad Cristnogion y Cymry i Belagiaeth gan y genhedlaeth nesaf o weinidogion. Y blaenaf yn eu plith y mae Dewi a bregethodd yn erbyn heresi Pelagius yn Llanddewi-Brefi yn 492 (1716, tt. 188–9; 1740, t. 242). Llwyddodd Dewi a dilëwyd yr heresi er bod y Cymry o hyd yn pechu mewn ffyrdd eraill. Nid oes ymdriniaeth estynedig o’r seintiau yn y *Drych*, megis yn y *Ffydd*. Ni chyfeirir atynt fel ‘seintiau’ ond fel esgobion a gweddu i fydolwg Eglwysig.

Cânt eu cofio fel Cristnogion gwiw ar lun Eglwysig yn y *Drych*, heb gyfeirio at unrhyw awgrym o’u Catholigiaeth Rufeinig, ‘Esgobion Sanctaidd’ yw Garmon a Lupus yn unig (1716, t. 173). Gwneir yn debyg gan Edwards a Davies wrth geisio hawlio’r seintiau fel rhagflaenwyr ysbrydol iddynt.

Nid darpariaeth ysbrydol ac athrawiaethol yn unig a welir wrth gofio Garmon a Lupus. Maent hefyd yn amlygu darpariaeth filwrol yr Arglwydd. Arweinir y Brutaniaid mewn brwydrau’n fuddugoliaethus, megis ym Maes Garmon yn erbyn y ‘Ffichtiaid’ [Pictiaid] (1716, t. 58; 1740, t. 87). Mae Edwards yntau yn cyfeirio at y fuddugoliaeth enwog hon. Roeddynt hefyd wedi sefydlu ysgolion i hyfforddi gweinidogion er mwyn sicrhau bod y Brutaniaid yn gallu gwrthbrofi heresiâu. Yn eu plith roedd Dyfrig ac Illtud; sefydlwyd ysgolion ganddynt ym Mhrydain, y naill yng Nghaerleon-ar-wysc, a’r llall ym Morgannwg (1716, t. 180; 1740, t. 235). Cyfeiria Evans at ffigurau eraill a hyfforddwyd gan Dyfrig ac Illtud, rhai o ddisgyblion Illtud yn ôl y *Drych* oedd Samson a ddaeth yn Archesgob yn Llydaw, Gildas, a Dewi (1716, t. 181; 1740, tt. 235–6).

[Na fradycher, na ymranner](#)

Un o ganlyniadau pechod a gweithredoedd drygionus hynafiaid y Cymry yw iddynt gollu eu rheolaeth o’r ynys gyfan, fel y mae yn y *Ffydd*. Mae’r elfennau hyn o’r naratif yn peri siom i Evans. Fel y *Ffydd*, dywed y *Drych* i hynafiaid y Cymry anghofio daioni Duw tuag atynt wrth segura mewn cyfnodau o hawddfyd, brwydro’n erbyn ei gilydd yn gyson. Caiff y Brutaniaid eu gadael, a dyfynnir Deuteronomium 28:62, yn ‘*y chydig bobl... o herwydd ni wrandawsom ar lais yr Arglwydd ein Duw*’ (1740, t. 3). Fel yn y Beibl, myn y *Drych* fod cosb i bechod a’r gosb yw iddynt gollu eu tir. Gellid dadlau y rhybuddir y genedl yn y ddeunawfed ganrif gan amlygu canlyniadau andwyol drygioni, a sut y cyll genhedloedd anrhydedd oherwydd eu pechod. Er nad ymddengys fel petai bygythiad

Catholig o ran newid crefydd y deyrnas yn bryder erbyn y ddeunawfed ganrif. Mae'r wers ynghylch osgoi pechod o bwys i'r Cymry.

Un o'r ffrwythau pechod a welir yn y *Drych* yw brad ac ymrannu ymhlith y Cymry. Mae hyn yn bechod cas sy'n peri iddynt gael eu goresgyn gan eu gelynion a cholli rheolaeth o Brydain. Wrth gysylltu hyn â chosb am bechod dengys y *Drych* yr anfri a'r anffawd a ddaw wrth bechod; dyma rybudd sy'n dweud wrth y Cymry i fod yn unedig, yn wahanol i'w hynafiaid. Mae hyn yn wahanol i'r hyn a geir gan Llwyd a Powel sy'n mynnu bod y Cymry yn unedig ac yn ffyddlon i awdurdod. Yn groes i hynny, dywed Evans mai 'Pobl ddrwg fucheddol oedd y Brutaniaid hwythau, Pobl yn wir, wedi ymroddi i Aflendid, Anwiredd a thywallt Gwaed gwirion ; am hynny yr Arglwydd a'i purodd hwy mewn *pair Cystudd*, ac a'i gwerthodd hwy i law eu Gelynion' (1740, t. 115). Wrth i'r Cymry weld yr adfyd a ddaw ar eu hynafiaid yn y *Drych* oherwydd eu pechod, dylent ochelyd eu drygioni.

Wrth ddangos canlyniadau andwyol brad a rhyfela ymysg ei gilydd, caiff y Cymry eu hannog i fod yn ffyddlon ac yn deyrngar i'r awdurdodau. Dengys Llwyd a Powel fod y Cymry'n unedig, mae Evans yn eu hannog i fod yn unedig ac i gyferbynnu â'u hynafiaid a oedd yn bradychu'i gilydd; gellid dadlau yr awgryma hyn nad yw'r Cymry yn unedig yn nhyb Evans yn y ddeunawfed ganrif. Gellid haeru y gwelwn gredoau Torïaidd Evans yn dod i'r fei, ynghyd â chreithiau'r Rhyfel Cartref, fel y gwelir yn y man. Dywed Evans fod bradwyr yn waeth na gelynion: 'mae *un Bradwr* gartrefol (*a Melldith ei fam* a gaffo pob cyfryw un byth) yn waeth na chant o Elynyon pellenig' (1740, t. 35). Mae hanes y Brutaniaid yn y blynyddoedd hyn i Evans yn profi'r ysgrythur yn wir: '*Teyrnas wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun a anghyfaneddir*' dyfyniad sy'n debyg i Marc 3:25 (1740, t. 128).

Mae'n debygol fod atgofion o'r Rhyfeloedd Cartref yn chwarae rôl ar gondemniaeth a dicter Evans ynghylch brad a diffyg undod. Yn ôl Geraint H. Jenkins, roedd y rhain yn atgofion yr oedd ei dad wedi ei blannu ynddo (1993, t. 27). Roedd ei dad-cu, Evan Griffith Evans, a elwir yn 'Capten Tori', wedi treulio amser yn y carchar ar ôl buddugoliaeth y Piwritaniaid (Jenkins, G. H., 1993, t. 10). Er nad yw Evans yn ysgrifennu am y Rhyfeloedd Cartref a Phiwritaniaeth yn uniongyrchol yn y *Drych*, mae cysgod y digwyddiadau hynny i'w weld yn y testun, yn bennaf yn ei gred fod sgism yn bechod melltingedig (Jenkins, G. H., 1993, t. 28).⁹⁹ Mae Evans yn cyfosod heresi a sgism sawl tro (e.e. 1740, tt. 237, 360). Cawn safbwynt Toriaidd ar hanes sy'n trysori trefn dros chwyldro, a chysondeb dros newid. Dyma nodwedd cyffredin o lenyddiaeth uchel-Eglwysig, yn eu plith roedd *Gweledigaetheu y Bardd Cwsc* gan Ellis Wynne (1703). Rhai nodweddion eraill o hanesyddiaeth Doriaidd yw'r pwyslais ar berygl gweriniaeth, sofraniaeth boblogaidd a dehongli ymneilltuaeth ac anghydfurfiaeth fel bygythiad i'r deyrnas, ynghyd â gweld hanes yn cael ei yrru gan unigolion uchelgeisiol drygionus sy'n ansefydlogi'r *status quo* (Knights, 2005, tt. 353–73). Gwelir safbwynt Toriaidd yn *History of Modern Enthusiasm*, yn arbennig wrth i Evans alw blynyddoedd y Rhyfeloedd Cartref yn 'the Great Rebellion' (1757, t. E2). O ystyried cyfraniad cof diwylliannol i hunaniaeth, mae safbwynt Toriaidd Evans yn hyrwyddo ffyddlondeb a chydymffurfiaeth i'r drefn fel norm wrth ddarlunio drwg effeithiau diffyg cydymffurfiaeth.

Yn y *Drych* caiff cenedl anrhydeddus sy'n colli ei hanrhydedd ei chofio; mae'r golled hon yn digwydd yn raddol trwy ddirywiad moesol. Dyma nodwedd o hanesyddiaeth Doriaidd yn

⁹⁹ Am ddylanwad y Rhyfeloedd Cartref a Phiwritaniaeth ar Theophilus Evans, gweler: *History of Modern Enthusiasm*. Am atgofion y Rhyfeloedd Cartref ymhlith Eglwyswyr, gweler: Sarah Ward Clavier. 2021. *Royalism, Religion and Revolution, Wales 1640–1688*, tt. 127–42.

ogystal yn ôl Knights (2005, t. 359). Ar ddechrau'r naratif, mae'r genedl yn rhan o naratifau Ewrofediteranaidd, yn grefyddol ac yn Glasurol; ac yn genedl rymus sy'n rheoli ynys gyfan ond 'mor anwadal ac ansafadwy yw Parhâd Anrhydedd a Golud bydol' yw ebychiad y *Drych* (1740, t. 32). Dylai'r Cymry ddysgu o'r dirywiad hwn a byw bywydau ffyddlon i'r teyrn ac i'w gilydd.

Drwy'r lens yma mae Evans yn darlunio hanes y Cymry fel un sy'n llawn brad sy'n arwain at ddistryw ys dywed Evans: '*Bradwr* o hyd a fu Distryw *Brydain*' (1740, t. 104). Daw'r bradwyr o'r genedl, yn eu plith y mae Mordred perthynas Arthur, Gwrtheyrn a wahoddodd y Saeson i Brydain ac Afarwy fab Ludd – sef 'tri Bradwyr Brydain (1740, t. 129; cymharer: Bromwich, gol., 2014, tt. 138–45). Mae'r 'ymfradychu' yn destun tristwch yn y *Drych*, a beirnedir y Cymry am y pechod hwn. Arweiniodd hyn at gosb gan Dduw, sef eu dirywiad a'u concwest. Mae'r Cymry, fel Israel gynt, yn cael eu cosbi wrth iddynt golli eu tir: 'Ac o herwydd i ni gyffroi yr Hollalluog i ddigofaint, *Ni adawyd yn ychydig bobl, lle yr oeddym fel Sêr y Nefoedd o Luosowgrwydd, o herwydd ni wrandawsom a'r lais yr Arglwydd ein Duw. Deut. 28.62*' (1716, t. 18). Wrth dynnu ar y Beibl er mwyn egluro'r hyn sydd ganddo mewn golwg, mae Evans yn annog y gynulleidfa i ddeall hanes Israel yn yr Hen Destament fel fframwaith i ddeall hanes Cymry, fel y gwna Edwards yn y *Ffydd*. Amcan y *Drych* yw annog y Cymry i wrando ar lais yr Arglwydd, a gwneir hynny wrth iddynt fod yn unedig.

Sonia'r *Drych* am y nifer o ryfeloedd a fu rhwng y Brutaniaid a chenhedloedd eraill (1716, tt. 25–102; 1740, tt. 26–142). Mae apêl ar i'r Cymry fod yn unedig wrth iddynt weld sut y cyfrannodd brad ac ymrannu at eu concwest. Dyma ddechrau'r broses a gymerodd ganrifoedd i'r Brutaniaid golli eu rheolaeth o Brydain ac mae i frad rhan amlwg yn hyn, fe'i gelwir yn '*hen Gamp ysgeler*' (1740, t. 40). Brad oedd y rheswm am goncwest lwyddiannus y Rhufeiniaid. Anfonodd

Afarwy lythyr celwyddog at Iŵl Cesar er mwyn i'w nai, Cyhelyn, osgoi cosb am ladd Hirglas, nai'r Brenin Caswallon (1740, tt. 33–4). Pwysleisia'r *Drych* fod y 'Rhufeiniaid (er eu bod yn *Elynion*) yn addef yn ddigon eglur, nad allasent hwy fyth orthtrechu y *Brutaniaid*, oni buasai eu *Hanghydfod*, a'r *Ymraniad* ym mysc eu Pendefigion eu hun' (1740, t. 39). Mae concwest y Brutaniaid yn seiliedig ar eu diffyg undod. Ymhen canrif, anfonodd Meurig lythyr tebyg at Claudius Cesar i oresgyn y wlad, a chyda'r Brutaniaid mor anhrefnus y gorchfygwyd Prydain (1740, tt. 41–4). Wrth drafod y rhyfel â'r Rhufeiniaid, ceir tyndra wrth i Evans geisio gwneud tri pheth: yn gyntaf, amlygu pechodau'r Brutaniaid a chanlyniadau pechod; yn ail, dangos nerth y Brutaniaid wrth wrthsefyll grym imperialaidd Rhufain; ac yn drydydd, peidio â rhoi gormod o anrhydedd i Rufain. Pwysleisia mai brad ac anrhefn mewnol y Brutaniaid fu ar fai am eu tranc. Mae'r cof diwylliannol yn dangos nodweddion o hanesyddiaeth Doriaidd yma wrth ddangos bod gwrthryfela, bradychu, ac ymrannu yn dwyn dinistr i genedl. Wrth hyn, gellid dadlau y gwêl Evans gysgodion y Rhyfeloedd Cartref yng ngorffennol y Cymry. Ceir anogaeth hefyd ar i'r Cymry gofio gwersi'r gorffennol.

Y Saeson 'y rhai a fuont yn waeth etto nag un *Pla* na *Brithwyr*' sy'n cipio'r ynys o'r Brutaniaid yn derfynol (1740, t. 93). Mae brad yn ymddangos yn aml wrth drafod y rhyfeloedd â'r Saeson. Mae Evans yn pwysleisio mor ddinistriol bu ymraniad ymhlith y Cymry, a dywed i'r Saeson gymryd mantais o hyn, fel y gwnaeth Llwyd a Powel gynt.

Defnyddir yr enw 'Saeson' amdanynt yn gyson trwy'r *Drych*; ymddengys fel petai'n cyfateb i'r term 'Saxon' a ddefnyddir mewn testunau hanes eraill fel yr 'Epistol' a'r *Ffydd* (1740, t. 102).¹⁰⁰ Gelwir hwy yn Sacsoniaid mewn troednodyn Lladin; dywed '*Ferocissimi Saxones Deo*

¹⁰⁰ Byddai astudiaeth neilltuol ar y term 'Sais' a'r Saeson yn fwy cyffredinol mewn testunau Cymreig yn werthfawr i'r maes.

hominibusque inirsi' (1740, t. 102). Os mai'r Brutaniaid yw prif gymeriad, neu arwyr, yr hanes hwn, y Saeson yw'r antagonydd; gelwir hwy yn '[b]lant y fall' droeon (1740, t. 103). Yn wir, ac eithrio'r Brutaniaid eu hunain, y Saeson yw cenedl bwysicaf cof diwylliannol y Cymry yn ôl Evans, fel y maent i Powel a Llwyd. Yn wahanol iddynt hwy, ni ddengys Evans sut y mae'r ddwy genedl yn unedig er eu bod yn rhyfela â'i gilydd; yn hytrach maent yn elynion yn y *Drych*. Mae gelynyon eraill y Brutaniaid yn rhagarweiniad i ddyfodiad y genedl hon o Germania. Brad a thwyll sydd wrth wraidd dyfodiad y Saeson i Brydain, mae'n debyg er mwyn diogelu coron Gwrtheyrn a goronwyd trwy frad, ac a goronwyd eilwaith drwy dwyll y Saeson ac yn hyn o beth mae Evans yn adlewyrchu safbwynt Llwyd gynt (1740, tt. 94, 107). Er bod y Brutaniaid yn dwyllodrus, mae'r Saeson yn arbennig o dwyllodrus.

Fel yn y testunau eraill a astudiwyd yma, drygioni Gwrtheyrn yw'r rheswm y daeth y Saeson i Brydain. Roedd y Saeson yn dwyllodrus wrth iddynt fradychu'r Brutaniaid oherwydd bod Prydain yn rhagori 'ar y Cornel llwmm newynog oedd ganddynt hwy gartref' maent yn torri eu cytundeb i amddiffyn coron Gwrtheyrn (1740, t. 98, gweler hefyd: 1716, tt. 77–8; 1740, tt. 108–10). Dehongliad tebyg a geir gan Llwyd a Powel yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ond mae Evans yn awyddus i'r Cymry gofio nad oherwydd unrhyw wendid milwrol y collodd y Cymry'r ynys, ond yn hytrach pechod y Cymry yn ogystal â chyfrwystra'r Saeson. Mae cyfrwystra'r Saeson yn bennaf i'w weld wrth iddynt gyfarfod â'r Brutaniaid 'tan rith i heddychu a hwy', eu nod oedd i'w lladd (1716, t. 77). Lladdwyd holl benaethiaid y Brutaniaid gan y Saeson trwy eu twyll ym Mrad y Cyllyll Hirion, ar wahân i Eidiol Iarll Caerloyw a frwydrodd a dianc (1716, tt. 77–8; 1740, tt. 108–10). Erbyn hyn, roedd concwest yr ynys gan y Saeson yn anochel. Wedi i'r Brutaniaid golli rheolaeth o'r ynys, dywed y *Drych* dyma a fu diwedd ar y Brutaniaid fel un pobl, â gweddillion yn cymryd eu

Ile sef Llydaw, Cernyw, a Chymru – ond mae'n parhau i alw'r Cymry'n Frutaniaid (1740, t. 134). Pwysleisia Evans fod hynafiaid y Cymry'n bobl wrol a dewr; eu pechodau a'r ffaith iddynt wrthryfela'n erbyn Duw a'i gilydd sydd wrth wraidd eu tranc. Felly, dylai'r Cymry fod yn unedig rhag dwyn dinistr pellach arnynt.

Bradwr oedd wrth wraidd trechu'r Brenin Arthur a fu'n dra llwyddiannus yn erbyn ei elynion, y Saeson.¹⁰¹ Ar ôl marwolaeth Arthur, gorchfygwyd y Brutaniaid gan y Saeson, ond nid oherwydd iddynt gael eu trechu mewn brwydr, ond oherwydd '*cynnen ac Ymranniad yr hên Frutaniaid*'; ac am y mynnei Duw eu cospi am eu holl ffeidd-dra, a'i Diystyrwch ar ei Sanctaidd Gyfreithiau' (1740, t. 133). Myn Evans na fyddai'r Saeson wedi'u trechu pe bai'r Brutaniaid wedi bod yn unedig ac yn ffyddlon i Dduw. Dylai'r Cymry ddysgu o gamgymeriadau'r genedl a bod yn unedig ac yn ffyddlon i Dduw felly.

Am y cyfnod rhwng bywydau Arthur a Llywelyn nid yw Evans yn rhoi manylion am hanes y tywysogion; brysia drwy chwe chanrif o hanes y Cymry, a dywed y gwna hyn oherwydd bod yr hanes ar gael yn y Gymraeg eisoes. Dywed yn 1716 ei fod yn gobeithio y caiff copi William Lewes ei gyhoeddi (1716, t. 95). Dywed y dylai'r '*Sawl a chwennycho Hanes gyflawn am Helynt Tywysogion Cymru, darlleded Ghronicl Caradoc o Lancarfan*', hynny yw dylent ddarllen *Brut y Tywysogion* (1740, tt. 134–42). Awgryma hyn fod Evans yn ystyried bod testun ar y cyfnod hwnnw'n bodoli eisoes, a'i fod ef yn y *Drych* yn cynnig hanes y Cymry yn ystod y prif oesoedd yn Gymraeg. Y prif oesoedd oedd diddordeb pennaf Evans, ac ailwampio naratifau hanes y brutiau

¹⁰¹ Er i Evans gydnabod 'mae llawer o storïau am *Arthur*, y rhai ynt yn ddilys ddigon ddim amgen na *hên chwedleu gwneuthur*' myn fod bodolaeth a hanes Arthur yn '[w]irionedd amlwg er ei fod wedi ei drwsio a hen chwedlau ofer' (1740, t. 129). Dywed fod beirdd ac enwau lleoedd yng Nghymru a'r beddrod a ddarganfuwyd yn nheyrnasiad Harri II yn tystio roedd yn frenin real a nerthol (1740, t. 130).

yn unol â chredoau cyfoes. Roedd Evans yn ymagweddu at y *Drych* fel testun a fyddai'n rhagflaenu'r hyn oedd dan sylw yn *Brut y Tywysogion*. Nid y blynyddoedd a drafodwyd yn *Brut y Tywysogion*. Cyfeiria at rai ffigurau fel Rhodri Mawr a Hywel Dda a chaiff eu dewrder a'u hawydd i gadw Cymru'n drefnus ei ganmol. Yn y cyfnod hwn, mae'r thema gyson o bobl ranedig yn cael eu trechu'n dod i'r amlwg yn y *Drych*. Mae'r Cymry'n rhyfela'n erbyn ei gilydd pan oedd sawl tywysog ganddynt; dywed: 'prin y gwladychodd un Tywysog heb ymgeccreth a llawer o dywallt gwaed' (1740, t. 135). Ni ddylai'r Cymry fod fel eu hynafiaid yn ôl y *Drych*. Pan orchfygwyd hwy am y tro olaf gan y Saeson brad oedd tu ôl i hynny; '[b]radychwyd' Llywelyn 'ym Muellt ar ddydd Gwener yr unfed dydd ar ddeg o Ragfyr yn y flwyddyn 1282' (1740, t. 141). Dengys Evans mai norm y genedl yw diffyg undod, ond ceisia gywiro hynny a sefydlu normau newydd, sef undod a ffyddlondeb i'w gilydd ac i Dduw.

[Esiamplau i'r genedl](#)

Rhai o nodweddion normadol y Cymry y mae'r *Drych* yn ceisio'u hyrwyddo, felly, yw ar iddynt edifarthau am bechod, i fod yn dduwiol, i fod yn ffyddlon i'r Eglwys, ac i fod yn unedig. Mae cysylltiad rhwng edifarthau, duwioldeb a ffyddlondeb i'r Eglwys, a gellid dadlau ym marn Evans eu bod yn dod â'i gilydd. Un o'r ffyrdd y mae'r *Drych* fel testun cof diwylliannol yn cynnig hunaniaeth normadol i'r Cymry yw wrth adlewyrchu ffigurau o'r gorffennol fel esiamplau er mwyn dysgu oddi wrthynt, fel y gwna testunau eraill yr astudiaeth. Mae'r esiamplau hyn yn hyrwyddo'r normau y dymuna Evans eu gweld ymhlith y Cymry. Darlunnir cymeriadau amlwg o hanes y genedl oherwydd eu bod yn esiamplau da a duwiol y dylid eu hefelychu, fel y gwnaeth Edwards. Wrth gofio mai nod 'drych' yw ennyn ymateb gellid maentumio mai'r nod oedd cael y Cymry i ymdebygu i'r ffigurau hyn. Dadansoddir rhai o'r cymeriadau hyn.

Caiff Emrys Ben Aur ei gofio fel esiampl normadol i'w efelychu oherwydd ei fod yn frenin duwiol a dewr. Gan y *Drych* y ceir yr ymdriniaeth fanylaf o Emrys o destunau'r astudiaeth hon. Cyfeirir ato gan Prys, ond yng ngoleuni ei ddadl ynghylch Arthur yn unig (2015, tt. 249–53), tra y cyfeiria Edwards ato'n fyr fel pennaeth dewr (1677, t. 160). Yn y *Drych*, fe'i canmolir am ddyrchafu'r genedl a gwrthwynebu'r Saeson: 'efe a ddyrchafodd Ffaint y Brutaniaid hyd y Nen, ac a ostyngodd greulonder y Saeson hyd y llŵch' (1716, t. 83). Yn 1740, dywed:

Gwr rhagorol oedd hwn hefyd; canys heblaw ei fod yn Rhyfelwr enwog, ef a rodiodd o flaen Duw mewn gwirionedd, ac mewn cyfiawnder ac mewn uniondeb calon, ac eto fel Llew i ymladd dros ffaint ei wlad a'r Eglwys gatholig. Ac a hwy a'i Hymddiried yn yr Arglwydd Dduw, ac yn glynu wrtho a'i holl Galon a'i holl Enaid, ar waith y ddwy gâd yn bloeddio i'r Frwydr, *Emrys* a weddiodd ar yr Arglwydd a'i holl Egni (1740, t. 105).

Fel brenhinoedd daionus Israel yr Hen Destament, caiff ei ffyddlondeb i Dduw ei wobrwyo. Yn y dyfyniad uchod, dygir i gof y disgrifiad o'r Brenin Dafydd yn 1 Brenhinoedd 3:6: 'megis y rhodiodd ef o'th flaen di mewn gwirionedd, ac mewn cyfiawnder, ac mewn uniondeb calon gyda thi' (1740, t. 117). Mae Emrys, felly, yn frenin ar lun Dafydd. Canlyniad bywyd duwiol Emrys yw iddo fedru: 'eistedd yn ddiogel ar ei Orseddfaingc' (*ibid.*). Dymuna'r *Drych* i'r Cymry gofio Emrys fel brenin duwiol a doeth, ac mae'n esiampl sy'n dangos iddynt yr hyn y dylent ei wneud. Dylent ymdebygu iddo, rhodio o flaen Duw, a bod yn deyrngar i'r Eglwys gatholig, sef yn nhyb Evans Eglwys Loegr.

Ynghyd â Buddug a Rhonwen, Elen Luddog yw un o'r tair menyw sy'n derbyn sylw manwl yn y *Drych*. Prin iawn yw'r cyfeiriadau at fenywod yn nhestunau'r astudiaeth hon. Cyfeiriwyd eisoes at Elen yn yr astudiaeth hon fel ffigwr pwysig yng nghof y Cymry fel Cristion ac fel cyswllt â'r byd Ewrofediteranaidd megis gan Siôn Prys; gwneir yn debyg yn y *Drych*. Yn y *Drych*, caiff Elen ei chofio fel esiampl o dduwioldeb a chariad at eraill, ymddengys hefyd fel y fam a'r wraig

rinweddol. Gellid dadlau bod yma apêl normadol neilltuol tuag at fenywod gan eu hannog i ddilyn esiampl Elen. Merch Coel Codebog, Iarll Caerloyw, oedd hi yn ôl yr argraffiad cyntaf (1716, t. 43), ond yn 1740 dywed y bu Coel yn 'Frenin Brydain' (1740, t. 64). Yn ôl Sieffre, mae cysylltiad rhwng Coel â Chaer Coln (Colchester), ac iddo ddod yn frenin Prydain yn hwyrach yn ei fywyd (Reeve a Wright, gol., 2007, tt. 94, 6). Nid yw Evans yn nodi ei ffynhonnell yn y naill argraffiad, ond ymddengys erbyn 1740 iddo ymroi'n fwy i farn Sieffre a Henry Huntingdon yn *Historia Anglorum*. Bid a fo am hynny, priododd Elen â Chusteint, Ymerawdwr Rhufain, a oedd yn ffefryn gan y Brutaniaid a hwythau'n ffefryn ganddo ef yn ôl y *Drych* (1740, t. 64). Cawsant fab, Cystennin, a drafodwyd eisoes. Mae Evans yn gosod y Cymry yn rhan o naratif Cristnogol Ewrofediteranaidd trwy drafod Elen a'i mab, fel y gwnaeth awduron eraill yr astudiaeth hon.

Gelwir Elen yn 'Bendefiges raslawn', a'i ffydd a'i duwioldeb sy'n ei dyrchafu megis â nifer o'r cymeriadau y cofia'r *Drych* (1716, t. 43). Caiff ei dyrchafu hefyd oherwydd gwychder ei mab, mae'r *Drych* yn awgrymu mai oherwydd ei dylanwad hi ar Cystennin y daeth ef yn Gristion oherwydd pagan oedd ei dad (1716, t. 45). Mae hyn yn esiampl hynafol o arwyddocâd yr uned deuluol er mwyn trosglwyddo'r ffydd Gristnogol i'r cenedlaethau nesaf, a rhoddir rôl amlwg i'r fam yn hyn gan Evans.

Dylai'r Cymry efelychu Elen hefyd oherwydd ei duwioldeb a'i chariad tuag at Dduw ac at eraill; roedd hi'n:

Gris'noges wresog yn y Ffydd, a chymmaint yn ragori ar Eraill yn ei Dyledswydd at Dduw a Dyn, ag oedd hi mewn Anrhydedd a Goruchafiaeth fydol. Hi aeth i *Gaersalem* i weled y lle y dioddefodd *Christ Iesu* dros Bechod y Byd yn ôl yr hyn a ddywed yr Angel wrth y Gwragedd, *Deuwch gwelwch y fan lle y gorweddodd yr Arglwydd*. Math. 28. 6 (1740, tt. 64–5).

Oherwydd ei duwioldeb aeth hi ar bererindod i Jerusalem, a myn y *Drych* y gwelodd hi'r Groes y croeshoeliwyd Crist arni, gan dynnu ar *Historia Ecclesia* gan Sozomen, hanesydd yr Eglwys yn y bumed ganrif (1716, tt. 43–4).¹⁰² Ni cheir y cyfeiriadau hyn gynt gan Davies nac Edwards, a gwelir Evans yn fwy bodlon i ymroi i draddodiadau na hwy, yn arbennig yn yr ail argraffiad.

Caiff y brenin drygionus Gwrtheyrn ei ddefnyddio fel esiampl hefyd; ond fel esiampl na ddylid ei efelychu, fel y mae yn nhestunau eraill yr astudiaeth. Ond Evans sy'n cynnig yr ymdriniaeth fanylaf ohono; er enghraifft, sonnir amdano dros ysgwydd braidd gan Davies ac Edwards. Fel y mae ym mhob un o'r testunau a astudir yma, bradwr yw Gwrtheyrn ac ni ddylai'r Cymry ei efelychu. Mae'r *Drych* yn tynnu ar destunau gan Camden, Spelman, ac Ussher wrth drafod Gwrtheyrn. Cynigia ei ddrygioni wersi pwysig i'r genedl, ac mae'r apêl normadol yn hunanymwybodol; dywed Evans fe'i cynhwysodd: 'Er mwyn rhoddi i'ch ystyriaeth siampl hynod o farnedigaeth y Goruchaf a'r Bechod a Rhyfyg, tybiais yn addas i osod yma hanes o farwolaeth Echrys-lawn *Gwrtheyrn*' (1716, t. 79). Mae Evans, fel Edwards, yn cynnwys esiamplau gwael i ddangos i'r Cymry ganlyniadau pechod, ac i'w hannog i fod yn ddaionus yn fwriadol.

Mae traddodiad hir o feirniadu Gwrtheyrn yn deillio o'r Oesoedd Canol gyda Gildas, Nennius, a Sieffre o Fynwy yn ei gondemnio a chynhelir y feirniadaeth arno gan Prys. Caiff Gwrtheyrn feirniadaeth lem yn y *Drych*: gelwir ef yn '[Dd]yn rhyfygus ystrywgar a ffals' ac yn '[f]renin ynfyd' cynddrwg ag Ahab, brenin gwaethaf Israel (1740, tt. 94–5, 99, 113–14). Daeth yn frenin trwy frad ac mae'r twyll hwn yn rhagflas o weddill ei fywyd (1716, t. 66). Mae ei ddrygioni yn esiampl o ffolineb drygioni ac annuwioldeb gan ddangos eu canlyniadau negyddol. Mae'n

¹⁰² Dywed Evans yn 1740 mai argraffiad 1569 a gyhoeddwyd yn 'Lovan' oedd ei ffynhonnell ond mae Garfield H. Hughes yn amau hyn (1716, tt. 43–4; 1740, t. 64; 1961, t. xxxiii). Mae'n debygol mai dyma enghraifft o Evans yn benthyg ffynhonnell.

ddrygionus wrth ymwneud ag eraill a chanlyniad ei anfoesoldeb, ei dwyll, a'i annuwioldeb yw adfyd iddo ef yn bersonol, i'w deulu, ac i'w genedl yn ôl y *Drych*; o ganlyniad i ddrygioni Gwrtheyrn y collodd y Brutaniaid reolaeth o'r ynys i'r Saeson (1716, tt. 64–82; 1740, tt. 93–115). Dylai normau'r Cymry gyferbynnu'n drawiadol â rhai Gwrtheyrn. Nid cymeriad normadol i'w efelychu ydyw. Dylent ymdebygu i bobl eraill fel Emrys Ben Aur ac Elen Luddog a oedd yn esiamplau da ac yn cyferbynnu â Gwrtheyrn; maent hefyd yn amlygu, neu'n codi drych, i'w ddrygioni.

Gellid deall Gwrtheyrn fel ffigwr cyffredin sy'n ymddangos mewn hanesyddiaeth Doriäidd hefyd. Yn ôl Knights, mewn testunau Toräidd, roedd dirmyg mawr ar unigolion twyllodrus ac uchelgeisiol a oedd yn ceisio cynyddu eu hawdurdod drwy frad a thwyll, heb boeni am bwy a gaiff ei ladd i sicrhau'r uchelgais hwnnw; dyma oedd y dehongliad o'r Piwritaniaid (2005). Dyma yw sut y dehongla Evans Gwrtheyrn hefyd. Gellid maentumio mai cyfrwng i fynegi ei gasineb a'i ddiacter at Cromwell a'r Piwritaniaid eraill yw Gwrtheyrn i Evans, yn ogystal â bod yn ffigwr gwaradwyddus yn hanes y Cymry. Dengys Evans mai dinistr, barn, a gwawd yw ffawd y rhai a wrthryfeloedd yn ystod y Rhyfeloedd Cartref ac a wrthryfelodd erioed. Dylai'r Cymry o weld anffawd Gwrtheyrn fod yn ffyddlon i awdurdod.

Yn ogystal, dengys Gwrtheyrn ganlyniadau andwyol anfoesoldeb rhywiol, a cheir trwyddo gynghorion normadol ynghylch perthnasau rhywiol. Caiff ei feirniadu am iddo gael Rhonwen, merch Hengist a hithau'n estrones ac yn baganes, yn 'ordderchwraig' (1740, t. 106). Caiff ei feirniadu am sawl peth wrth drafod Rhonwen: ei feddwdod a'i flys, ond y gwarth pennaf yw iddo

flysio paganes estron.¹⁰³ Daw drygioni a phechod Gwrtheyrn i'r amlwg, nid oes ots ganddo garu paganes estron a chael gordderchwraig oherwydd roedd yn llawn drygioni. Un o ganlyniadau anfoesoldeb Gwrtheyrn yw marwolaeth ei fab duwiol, Gwrthefyr a wnaethpwyd yn frenin gan y Brutaniaid ar ôl iddynt ddiorseddu Gwrtheyrn. Rhonwen oedd yn gyfrifol am gynllwynio i'w ladd trwy ei wenwyno â thusw o flodau (1716, tt. 74–5; 1740, t. 106). Canlyniad drygioni gwreiddiol Gwrtheyrn oedd Brad y Cyllyll Hirion a lladd y rhan fwyaf o filwyr gorau'r ynys a thrafodwyd yr ymdriniaeth o'r milwyr hyn eisoes (1716, tt. 77–8; 1740, tt. 109–11). Erbyn hyn, roedd buddugoliaeth y Saeson yn anochel, ac mae Evans yn pendroni 'Naill yr ydoedd y Brutaniaid yn ffyliaid di-gymmar y pryd hwnnw, neu *Ynys Brydain...* wedi ei rhag-ordeinio i'r *Saeson*' (1716, t. 75).

Wrth fanylu ar ei farwolaeth, ceisia ddangos bod Duw yn barnu pechod a cheir rhagor o gynghorion normadol i'r Cymry. Caiff Gwrtheyrn ei ddinistrio gan lid Duw sy'n dwyn i gof barn debyg ar bobl Sodom a Gomorra yn Genesis a ddinistriwyd am eu drygioni hwythau (1716, t. 82; 1740, t. 99). Mae naratif y *Drych* yn wahanol i'r hyn a geir yn y *Defensio* a ddywed mai Uthr ac Emrys a losgodd y castell, ac i hyn ddigwydd yng Ngwrtheyrnion yn Sir Faesyfed (2015, tt. 217–19). Mae Evans, fodd bynnag, yn ceisio hawlio'r hanes hwn i'w ardal leol; dywed iddo ddigwydd ger Llanbedr Pont Steffan. Roedd Gwrtheyrn wedi casglu pobl gelwyddog a thwyllodrus o'i amgylch yng Ngwynedd ac fe'u symudwyd ag ef i'r de (1716, tt. 79–82; 1740, tt. 111–14). Pan oedd yn y de, pechodd yn rhywiol gyda phuteiniaid yn ôl yr argraffiad cyntaf (1716, t. 82); yn argraffiad 1740 dywed Evans: '*efe a halogodd ei ferch ei hun*' a thynnu ar waith Spelman (1740,

¹⁰³ Ni cheir y feirniadaeth hon ar Elen sydd yn priodi pagan. Gall hyn olygu bod Evans yn credu fod disgwyliadau gwahanol ar ddynion, neu nad oedd dewis gan Elen wrth ddewis ei phriod.

t. 114). Mae'r farn ar Gwrtheyrn yn brawf o gasineb Duw tuag at bechod. Caiff y Cymry'u hannog i osgoi hyn er mwyn osgoi barn debyg ar eu pechodau hwy.

Gellid dehongli'r weithred ddwyfol hon o ddinistrio Gwrtheyrn fel haelioni Duw tuag at y Cymry; dinistriwyd cylch drygionus Gwrtheyrn ac achubwyd y Cymry rhagddo. Mae hyn yn annog y Cymry i fod yn ffyddlon i Dduw ac i gyferbynnu â Gwrtheyrn. Wrth adrodd hanes Gwrtheyrn, caiff y Cymry esiampl normadol i'w osgoi; ni ddylent ymdebygu iddo. Dylent yn hytrach ymdebygu i Emrys, neu Elen, neu bobl eraill sy'n ddaionus. Cânt eu hatgoffa am drugaredd Duw tuag atynt yn eu gorffennol, mae hyn yn dwyn disgwyliadau normadol oherwydd ni ddinistriodd y genedl gyfan am bechod rhai. Gwaredwyd y Cymry i fyw bywydau duwiol, a dylent wneud hynny.

4.4 Dylanwad y gynulleidfa dybiedig

Yn yr adran hon, dadleuir bod i'r *Drych* apêl neilltuol at gynulleidfa dybiedig. Fel y dadleuwyd eisoes, hwylusa'r apêl hon allu'r gynulleidfa dybiedig i berchenogi'r naratif fel eu cof diwylliannol. Ysgrifennwyd y *Drych* ar gyfer pobl benodol, sef: Cymry'r cyfnod; gwelwn hyn wrth ddadansoddi ymdrechion y *Drych* i osod y naratif yn rhan o gylch profiad y gynulleidfa dybiedig. Mae Evans, sy'n creu'r cof diwylliannol, ymhlith y rhai sydd i'w berchenogi, fel yn achos Davies yn yr 'Epistol' ac Edwards yn y *Ffydd*, oherwydd mai Cymro ydoedd.

Mae ysgolheigion eisoes wedi cyfeirio at gynulleidfa'r *Drych*. Haera Derec Llwyd Morgan 'Mae'n rhaid i'r hanesydd sgrifennu i'w gyhoedd neu i'w oes ei hun' eglura hyn y gefnogaeth i hanesyddiaeth Frutanaidd a'r naws Glasurol sydd i'r testun (1969, t. 40). Adlewyrcha Glanmor Williams y farn hon, ac mae'n galw Evans yn 'hanesydd poblogaidd' oherwydd ei 'apêl eang' (1992, t. 21). Cred Jerry Hunter i'r *Drych* fodloni diddordebau'r gynulleidfa: 'Theophilus Evans gave this growing readership exactly what it wanted: a detailed discussion of their own history

which treated subjects at the very centre of the ways in which Welsh identity was being reaffirmed' (2016, t. 49). Mae Eryn White hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith bod syniadaeth y *Drych* yn apelio: 'There was an undoubted appeal in the notion that the Welsh were the inheritors of a long-standing Christian tradition which gave them a primacy over the other inhabitants of the British Isles' (2013, t. 86). Ceir yma drafodaeth ar sut yr apelia Evans at gynulleidfa trwy gydol y *Drych*.

Mae tuedd yn y dyfyniadau uchod i ymagweddu at gynulleidfa fel un endid unedig a monolithig, ond bwriad yr ymdriniaeth hon yw pwysleisio fod sawl haen i'r Cymry sy'n gynulleidfa dybiedig i *Drych y Prif Oesoedd*. Nid yw unrhyw gynulleidfa'n hollol unffurf ac unwedd, ac nid yw'r *Drych* yn apelio at un math o gynulleidfa Gymraeg. Apelir yn hytrach at yr haenau sydd yng Nghymru, er enghraifft, pobl ddysgedig, y bobl heb ddysg, a phawb sydd rhyngddynt yn ogystal â phobl o ardaloedd eraill, fel y gwnaeth Charles Edwards. Ysgrifenna ar gyfer cynulleidfa â chanddynt gredoau Cristnogol gwahanol, er nad yw hynny'n golygu ei fod ganddo unrhyw awydd i'w goddef.

Tanysgrifwyr

Byddai Evans wedi bod yn ymwybodol ei fod yn ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa oherwydd casglodd danysgrifiadau yn 1740, fel tystiolaeth i ddangos i'r argraffwr y byddai'r testun yn gwerthu. Gwerthwyd nifer o lyfrau o flaen llaw yn y ddeunawfed ganrif, ac roedd angen apelio at gynulleidfa i'w cael yn danysgrifwyr. Efallai bod pwysau'r gynulleidfa felly'n fwy o ddylanwad ar Evans oherwydd y tanysgrifwyr o gymharu â ffigurau eraill yr astudiaeth.

Dadleua Geraint H. Jenkins fod rhestrau tanysgrifio'n dadlennu'r math o bobl a oedd yn darllen ar y pryd (1978, t. 257).¹⁰⁴ Ond dylid nodi dau beth am restrau tanysgrifio, yn gyntaf nid oedd pob person a danysgrifiodd wedi'i enwi ar y rhestr (Jenkins, G.H., 1978, t. 243). Yn ail, nid tanysgrifwyr oedd unig gynulleidfa testunau – felly, cynnig cipolwg ar y math o ddarllenwyr a geid yn unig y mae rhestrau tanysgrifio. Yn ogystal, gellid defnyddio rhestrau tanysgrifio fel ffynhonnell er mwyn dirnad pa fath o bobl yr ysgrifennwyd ar eu cyfer ac yn dilyn hynny mesur eu dylanwad ar y testun.

Ail argraffiad y *Drych* yn unig sydd â rhestr tanysgrifio, ac mae'r rhestr yn dadlennu llawer am gynulleidfa Theophilus Evans a'i gylchoedd diwylliannol. Fel y dengys Geraint H. Jenkins, daeth y rhan fwyaf o Esgobaeth Tyddewi, a oedd yn ymestyn o orllewin Cymru trwy Bowys a Gwent ar y pryd (1978, tt. 243, 279). Roedd nifer o'r tanysgrifwyr yn aelodau o'r Eglwys sy'n awgrymu yr arhosodd Theophilus Evans yn lleol wrth gasglu tanysgrifwyr ac hefyd yn ei gymuned Eglwysig, neu, a defnyddio term Fish, ei gymuned ddeongliadol – ond nid ar eu cyfer hwy yn unig yr ysgrifennodd (1740). Er y tanysgrifiodd Esgob Bangor, ceir mwy o danysgrifwyr o Loegr nag o ogledd Cymru. Difyr yw nodi y daw pob un o'r 12 tanysgrifiwr o Rydychen o Goleg yr Iesu, gan gynnwys pennaeth y coleg ar y pryd, sef Thomas Pardo o Gydweli. Mae cysylltiadau Theophilus Evans â Choleg yr Iesu yn ansicr; ni wyddys a aeth yno ai peidio, ond mae'n bosibl. Anfonodd ei fab, Charles, enw sy'n dadlennu breingarwch Evans ymhellach, i Goleg yr Iesu yn 1738 a gall hynny egluro paham y tanysgrifiodd cymaint i'r ail argraffiad o'r coleg (Jenkins, G. H., 1993, t. 13).

Mae Saunders Lewis wedi dadlau yr apelia *Drych* 1716 at gyd-lenorion Evans trwy ei gyfeiriadau personol a'i ymchwil sy'n seiliedig ar ei ddefnydd o lyfrgelloedd cyfeillion yn Nyffryn

¹⁰⁴ Mae Geraint H. Jenkins yn trafod argraffu a thanysgrifio yn *Literature, Religion and Society in Wales*, tt. 230–304.

Teifi, gan gynnwys William Lewes, Samuel Williams, a Moses Williams (1973, t. 236). Un elfen o'r apêl leol yw fod yna fwy o eirfa tafodieithol yn yr argraffiad hwn, fel y noda Evans yn rhagymadrodd argraffiad 1740: '*yr wyf yn tybied fod y Jaith ynawr yn rhwydd ac yn ddeallgar drwy Wynedd a Deheudir*' (1740, d.t.).

Lluniwyd yr ail Ddrych mewn cyd-destun cymdeithasol gwahanol i raddau. Rhwng 1716 a 1740 y bu farw nifer o lenorion Dyffryn Teifi. Roedd Lewes, Samuel Williams, ac Iaco ap Dewi oll wedi marw erbyn 1722, ac ers y 1730au cafodd Moses Williams fywoliaeth yng Ngwlad yr Haf, ac ni thanysgrifiodd i argraffiad 1740. Dan ddylanwad cwmni Emlyn creodd yn 1716 destun a oedd yn grynhoed sy'n rhagflaenu naratifau hanes y dyneiddwyr Protestannaidd, sydd hefyd yn fath o hanes cyffesiadol i'r Eglwys yng Nghymru, yn arbennig yn yr ail ran. Erbyn 1740, ac yntau ym Mrycheiniog ers deuddeg mlynedd, ysgrifennodd mewn cyd-destun hynafiaethol â'r dylanwadau ysgolheigaidd o Ddyffryn Teifi wedi lleihau. Er y ceir nifer o wŷr gradd a bonheddig yn tanysgrifio yn 1740, awgryma'r naratif y cafodd ei ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa fwy poblogaidd; mae mwy o lythyrau a dialog; ymddengys hefyd yn barotach i goleddu mythau yn 1740. Dadleua Bedwyr Lewis Jones i chwaeth Glasurol y gynulleidfa hon ddylanwadu ar y testun (1970, tt. 267–8).¹⁰⁵ Gellid maentumio'i fod yn ceisio apelio at chwaeth ei gyfeillion bonheddig megis Marmaduke Gwynne, a amcana Evans ddangos bod gorffennol y Cymry yn Glasurol a bonheddig a'u hannog i ymhyfrydu yn eu Cymreictod.

¹⁰⁵ Archwilir dyled Clasurol Evans gan Saunders Lewis sy'n dadlau 'Heb Fyrsil ni ellir cymaint â dechrau deall *Drych y Prif Oesoedd*' (1973, t. 246). Gweler hefyd: D. Thomas. 1955. 'Rhagymadrodd', *Drych y Prif Oesoedd y Rhan Gyntaf*, tt. xxviii–xii.

laith ac ieithwedd

Mae iaith ac ieithwedd y *Drych* yn dangos apêl at gynulleidfa dybiedig hefyd. Yn gynharach yn y bennod, dadansoddwyd arwyddocâd y Gymraeg yn y *Drych* fel sail i hunaniaeth y Cymry. Nawr dadansoddir sut y mae'r iaith a'r ieithwedd yn adlewyrchu dylanwad y gynulleidfa dybiedig ar y testun. Yn sylfaenol, mae'r ffaith yr ysgrifennwyd y *Drych* yn y Gymraeg yn adlewyrchu apêl at gynulleidfa Gymraeg ei hiaith. Fel y gwelwyd yn yr astudiaeth hon eisoes, rhaid ysgrifennu yn iaith y gynulleidfa dybiedig er mwyn ei chyrraedd. Myn Glanmor Williams: 'Evans wrote in Welsh, of course, because he wanted to reach a monoglot Welsh audience' (1992, t. 26). Ysgrifenna Evans ei ail argraffiad i fod yn destun i Gymru gyfan, fel y dyfynnwyd eisoes.¹⁰⁶ Fel Charles Edwards, roedd Evans yn cydnabod y gwahaniaethau ieithyddol yng Nghymru, ac roedd yn awyddus i gyrraedd cynulleidfa yn y de a'r gogledd. Er iddo geisio ysgrifennu testun cenedlaethol yn 1716, credai erbyn 1740 y teimlodd y gwellhaodd yr apêl genedlaethol, fel y byddai'r *Drych* yn glir i bawb yng Nghymru.

Roedd gallu'r *Drych* i fod yn ddealladwy yn sylfaen i'w boblogrwydd; dywed Caryl Davies ei fod 'wedi'i ysgrifennu mewn iaith y gallai'r werin bobl ei deall – yn Gymraeg i ddechrau, a hwnnw'n Gymraeg naturiol, agos-at-y-pridd' (2000, t. 134). Dadleuir yma fod y Gymraeg naturiol yn dangos apêl at gynulleidfa dybiedig wrth i Evans ysgrifennu mewn iaith sy'n ddealladwy ac yn agos at ei gynulleidfa. Er cynifer y gwŷr bonheddig a dysgedig sydd ar y rhestr tanysgrifio, ni chyfyngir y testun i gylchoedd dysgedig; yn hytrach, fel y gwelwn o'r dyfyniadau sydd eisoes yn y bennod, mae'r iaith ddealladwy a gafaelgar. Er y ceir ymadroddion lleol fel 'cadnaw' nid oes gormod o enghreifftiau fel hyn sy'n rhwystro Cymry Gwynedd rhag deall y testun (1740, t. 54). O

¹⁰⁶ Dywed Evans: 'yr wyf yn tybied fod y laith ynawr yn rhwydd ac yn ddeallgar drwy Wynedd a Deheu-dir' (1740, d.t.).

ganlyniad, gellid dadlau, ni theimla Evans fod rhaid iddo fynd cyn belled â Charles Edwards yn y *Ffydd* a gosod rhestr o eiriau anghyfarwydd i bobl o un rhan o Gymru. Ond dylid cydnabod hefyd bod prinder o danysgrifwyr o ogledd Cymru sydd yn awgrymu efallai na fyddai iaith y gogledd wedi bod mor hysbys iddo.

Er mwyn sicrhau bod y testun yn 'rhwydd ac yn ddeallgar' eglura Evans ystyr geiriau astrus a dieithr. Er enghraifft, wrth ddyfynnu o 'y Chronicl', llythyr a anfonwyd gan Afarwy ap Lludd i Iŵl Cesar, ceir: 'Ystyr y gair orug yw a wnaeth' mewn troedyn (1740, t. 34).¹⁰⁷ Yn yr un modd, eglura hefyd beth yw 'Oracl' mewn troednodyn, sef: '*Rhyw ddelw fawr gan y Paganiaid, a Diafol yn rhoddi yspysrwydd trwyddi*' (1716, t. 126). Gwelwn ddylanwad y gynulleidfa dybiedig oherwydd y gwneir ymdrech i ystyried pa eiriau na fyddai'n gyfarwydd iddynt. Eglura'r geiriau sydd, yn nhyb Evans, yn anghyfarwydd, fel y gallai'r gynulleidfa ddeall y testun a pherchenogi'r naratif fel cof diwylliannol. Gwna Evans yn debyg wrth sôn am dâl i grwthwr, sef '[t]alent bedair ceiniog ar hugain' dywedir mewn troednodyn ar waelod y ddalen '*Yr oedd hynny yn Swmm fawr o arian yn yr hen amser, yn enwedig i Grwthwr*' (1740, t. 158). Mae troednodiadau eglurhaol yn ymddangos sawl tro yn y *Drych*; trwyddynt gwelwn ymwybyddiaeth o wybodaeth y gynulleidfa a'i dylanwad ar y testun a bod Evans yn ymwybodol nad oedd pawb a fyddai'n darllen y *Drych* yn hyddysg yn yr hyn a drafodai, megis pan sonia am 'Senedd Rhufain' dywed ei fod 'megis Parliament yn Lloegr' (1740, t. 27). Ond dylid nodi bod Lladin yn amlwg hefyd yn y troednodiadau, yn arbennig yn argraffiad 1716 gan awgrymu dimensiwn ysgolheigaidd i droednodiadau'r testun (1716, tt. 30–1; 1740, tt. 26–9).

¹⁰⁷ Ymddengys y geiriau hyn yn *Ystorie Kymru* gan Ifan Llwyd ap Dafydd, ac awgryma Garfield H. Hughes i Evans weld y dyfyniad yno (1963, t. 6). Am *Ystorie Kymru* gweler: Nia Lewis. 1966. *Astudiaeth destunol a beirniadol o 'Ystorie Kymru neu Cronigl Kymraeg' (Ifan Llwyd ap Dafydd)*, Traethawd MA, Aberystwyth.

Drwy gydol y *Drych* gwelir nifer o ddiarhebion a gwirebau, yn arbennig ar ddiwedd paragraffau, maent yn atgyfnerthu a chymhwyso'r wers sydd yn yr adran. Defnyddir diarhebion gan Richard Davies er mwyn hyrwyddo hunaniaeth normadol; er bod hynny'n wir am y *Drych* hefyd canolbwyntir yma ar y berthynas rhwng y diarhebion a'r gynulleidfa. Dadleuir yma eu bod hwy hefyd yn dangos apêl at gynulleidfa dybiedig gan fod diarhebion yn ddywediadau cyfarwydd sydd ar led yn y gymdeithas, dadleuir hefyd eu bod yn hwyluso cofio, ac yn rhan o bwysleisio neges normadol y testun. Er enghraifft, pan nad oedd y Cymry wedi lladd holl wragedd a phlant y Saeson ar ôl ennill brwydr, cânt eu beirniadu am eu trugaredd. Roedd hyn oherwydd bod cymwynas i bobl ddrygionus yn gam, gan ei fod yn cael ei ad-dalu gan ddrygioni, a dyfynna Evans y ddihareb: 'Cos dîn taeog ac ef a gach yn dy ddwrn'; mae'r neges yn syml, ni ddylid dangos trugaredd i bobl ddrwg (1740, tt. 105–6). Mae nifer o'r diarhebion hyn hefyd yn rhai Beiblaidd, ac maent yn dangos mai'r Beibl yw athro normau'r Cymry i Evans. Er enghraifft, ar ôl y rhyfeloedd â'r Pictiaid nid yw'r Brutaniaid yn troi at Dduw, ac amlyga ei ffolineb gan ddyfynnu Diarhebion 18:10, er na noda hynny: 'Twr cadarn yw enw'r Arglwydd, atto y rhed y cyfiawn, ac y mae'n ddiogel' (1716, t. 61; 1740, t. 90). Mae'r ddihareb yn cynghori'r Cymry ar yr hyn y dylent ei wneud, ac yn dangos apêl ddidactig y testun.

Mae rhagenwau a dangosolion yn amlygu ymwybyddiaeth o gynulleidfa a'i dylanwad ar Evans wrth lunio'r *Drych*, hefyd. Maent yn cynnig golwg i ni o bwy y disgwylir i ddod i sefyll gerbron y 'drych' fel petai. Mae hefyd yn ffordd o ddatblygu'r berthynas sydd rhwng yr awdur a'r gynulleidfa.

Defnyddir sawl enghraifft o'r person cyntaf lluosog, fel y gwna'r *Ffydd*, sy'n dangos mai profiad cyfunol oedd darllen i Evans a'i fod yn rhan o gynulleidfa dybiedig y *Drych*. Er enghraifft,

daethpwyd â'r efengyl fel '*Newyddion da o lawenydd i'n Brô ni*' (1740, t. 180), neu 'y newyddion nessaf sy gennym ni am danynt' (1740, t. 58). Yn ail ran y testun, canmola 'ein Hesgobion ni [a fu] cyn odidocced a neb rhai a'r a ddaethant yno o un wlad' (1716, t. 159). Ymddengys 'ein hynafiaid' sawl tro trwy'r ddau argraffiad hefyd. Mae defnyddio 'ni' yn ffordd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiacronig a chyfunol o'r genedl a throi'r testun o fod yn naratif am y gorffennol i fod yn naratif y gellir ei berchnogi fel cof diwylliannol y Cymry gan hwyluso'r perchenogaeth. Ar sail ei ddefnydd o'r person cyntaf lluosog, dadleuir yma fod Evans yn ysgrifennu ar ran cymdeithas y mae'n rhan ohoni a'i fod yn gwneud hynny yn ymwybodol; mae crëwr y cof ymhlith y rhai sy'n cofio yma, fel yn achos y *Ffydd a'r 'Epistol'*. Ond yn wahanol i Edwards a Davies, ni ddefnyddir 'ti' er mwyn annog ymateb unigol-bersonol i'r naratif, er y ceir 'chwi' o bryd i'w gilydd. Wrth ddefnyddio 'ni' dengys mai eiddo'r gynulleidfa dybiedig yw'r naratif hefyd oherwydd mai naratif amdanynt hwy ydyw.

Defnyddir y fannod a dangosolion hefyd i greu perthynas rhwng y gynulleidfa a'r sawl sydd yn y *Drych* yn ogystal â chyda'r awdur. Gwna Evans hyn wrth ddweud 'yr hên Fechgyn y Brutaniaid' (1740, t. 53). Mae Evans yn eu rhewi mewn amser fel dynion ifanc a goreuon y deyrnas. Cyd-destun rhyfelgar sydd i'r dyfyniad hwn a dygir i gof arfer cyffredin hyd heddiw o gyfeirio at filwyr fel bechgyn ifanc sy'n agos at galon y gymdeithas. Dyma ddyfyniad sydd wedi peri i Geraint H. Jenkins ddadlau ei fod yn ymagweddu at y Brutaniaid fel 'cyfeillion mynwesol' (1993, t. 38). Ni cheir yr un agosatrwydd gan Llwyd a Powel yn y mynegiant, er y gellid dadlau ei fod ymhlyg.

Cylch profiad

Mae'r ddau *Drych* yn gosod y testun yng nghylch profiad y gynulleidfa dybiedig trwy fanteisio ar amlygrwydd cymdeithasol a diwylliannol y beirdd, mae hyn wedi codi eisoes yn yr astudiaeth hon. Dywed Erasmus Saunders, yn ei arolwg o grefydd yn Esgobaeth Tyddewi yn 1721, fod y Cymry'n 'naturally addicted to Poetry' (1721, t. 33). Dyma farn gyffredin yn y cyfnod, oherwydd hyn dywed Geraint H. Jenkins: 'the addiction of most Welshmen to verse was proverbial' (1978, t. 147). Byddai copïau llawysgrifol o destunau barddol wedi bod gan bobl fel William Lewes, Samuel Williams, ac eraill (Jenkins, G. H. 1993, tt. 12, 34–5). Fodd bynnag, nid boddhau diddordebau ysgolheigaidd a wna'r cyfeiriadau barddol yn unig; yn hytrach maent yn hyrwyddo'r gred fod Cymru'n wlad beirdd, fel y gwelir gan bob un o'r awduron dan sylw yn yr astudiaeth hon.

Cefnogir honiadau'r *Drych* yn aml gan dystiolaeth farddol, fel y gwna Siôn Prys o'i flaen. Gwelwyd eisoes y defnyddir Taliesin i gefnogi hanes Brutus yn y *Drych*. Mewn cerdd a dadogir ar Taliesin gan Evans ymhle y gelwir cenhadon y Pab yn '[F]leiddiau Rhufeiniaid' yw sail ei farn y bu'n gas gan y Cymry Gatholigiaeth yn wreiddiol (1740, tt. 255–7). Mae Evans yn tynnu ar statws amlwg y bardd yng Nghymru, a'r farn ei fod yn siaradwr ar ran y gymuned ac yn ffigwr sy'n cofnodi digwyddiadau, fel y gwnaeth Siôn Prys er mwyn amddiffyn dehongliad Sieffreaidd o hanes y Cymry. Defnyddir cerddi gan feirdd sy'n adrodd hanes digwyddiadau mawr y genedl megis marwnad Gruffudd ab yr Ynad Coch i Llywelyn 'Ein Llyw Olaf' (1716, t. 102; 1740, t. 140). Gellid dadlau y manteisia Evans ar apêl mnemonig y gynghanedd sy'n taro'r glust gyda'r cyfatebiaethau amrywiol. Yn sgil hyn, gellid dehongli defnydd Evans o'r cerddi caeth fel ffordd i grynhoi ei naratif a sicrhau ei fod yn gofiadwy, â'r gynghanedd fel rhan o'r apêl mnemonig, fel y gwna mewn cywydd o'i eiddo ef ar ôl trafod heresi Arius yn 1716 (1716, t. 164) a Pelagius (1716, t. 169); ni cheir y farddoniaeth hon yn 1740.

Gwelir apêl at gynulleidfa dybiedig yn y *Drych* wrth i Theophilus Evans osod y naratif yng nghylch profiad y gynulleidfa, gan gyfeirio at yr hyn sy'n gyfarwydd iddynt. Mae'r elfen hon yn gryfach erbyn argraffiad 1740. Yn 'Cyfarchiad at y Darllenydd' 1740, dywed fod y *Drych* bellach '*chwedi ei thrwsio (os harddwch yw hynny) ag amryw Gyffelybiaethau cynnefin, ac hawdd eu hystyried*' (1740, d.t.). Barnwyd hwy yn addurn mawr ar y gwaith, gan Bedwyr Lewis Jones yn galw Evans sy'n '[f]eistr mawr ar y gyffelybiaeth rethregol yn ein llenyddiaeth' (1966, t. 64). Gwelwn ddylanwad y gynulleidfa dybiedig ar y testun wrth i Evans gynnwys cyffelybiaethau sy'n hawdd eu deall oherwydd eu bod yn tynnu ar yr hyn sy'n gyfarwydd.

Wrth ddefnyddio cyffelybiaethau 'cynnefin' gesyd y *Drych* y gorffennol pell yn rhan o fywyd beunyddiol y gynulleidfa dybiedig, a storio egni mnemonig yn yr hyn a gyffelybir er mwyn cyfryngu'r cof. Deillia'r cyffelybiaethau hyn o fyd natur yn aml, ac maent yn dileu aralldd y gorffennol. Nid yw'r gorffennol yn syniadau haniaethol iddo, yn hytrach, gellid ei weld a'i brofi fel rhan o fywyd bob dydd. Gellid maentumio mai dyma enghraifft o apêl ddwysach yr ail argraffiad at gynulleidfa dybiedig, a defnyddia'r byd o'u cwmpas fel cyfrwng er mwyn hwyluso'u dealltwriaeth o'r gorffennol, eu perchenogaeth ohono, ac yn sylfaenol eu gallu i'w gofio. Fel y dywed Glanmor Williams:

Many of the people and events he described lay outside the range of the direct experience of most of his readers. To make them more intelligible and easily envisaged, he employed graphic comparisons with scenes drawn from everyday experience (1992, t. 22).

Gellid dehongli hyn fel dylanwad y gynulleidfa, oherwydd gwyddys er mwyn sicrhau dealltwriaeth, mewn diwylliant a oedd yn bennaf yn ddiwylliant llafar, roedd angen delweddau byw, manwl, a dealladwy a fyddai'n apelio at y glust, ac o'r glust i'r llygaid. Gwneir yn debyg gan

bregethwyr yr ail ganrif ar bymtheg fel Stephen Hughes yn ôl Geraint H. Jenkins (1978, t. 29). Cysyllta hyn gydag apêl y *Ffydd* at y glust wrth i Charles Edwards ysgrifennu'n ymwybodol y caiff ei destun ei ddarllen yn uchel fel a drafodwyd yn y bennod flaenorol.

Yn y *Drych*, storir egni mnemonig yng nghylch profiad y gynulleidfa gan dynnu'n aml ar fyd natur. Roedd storio'r cof mewn gwrthrychau yntau'n nodwedd o dechnegau cofio Aristotlys a gred fod cofio'n cael ei wneud trwy weld yn amlach na pheidio (Hiscock, 2011, tt. 10–12). Er enghraifft, dywed Evans: 'a phawb a ergydiasant cyn wresocced at y Gelynyion nes oedd ystlysau'r llongau cyn amled o Saethau ag ydyw cefn y Draenog o bigau' (1716, t. 28). Disgrifir ymateb y Rhufeiniaid i'r saethau mewn modd tebyg: 'Ac yno gwyr *Rhufain* a chwerwasant yn eu hyspryoedd, ac a ergydiasant eu saethau cyn amled a chenllysc at y Brutaniaid' (1716, t. 29). Yn 1740, cyffelybir dicter Cesar â tharw gwyllt: 'Ac fel y gwelwch chwi *Darw* yn taflu ac yn gwylltio ar ôl bod *dau* neu *dri* o *Waed-gwn* wrtho un hanner-awr' (1740, t. 31). Caiff dinistr y frwydr ei gyfosod â byd natur â'r 'môr *agos yn wridog* gan waed y Lladdedigion, a chyrph y meirw a'r clwyfus cyn dewed yn gorwedd ar fin y môr, a Defaid mewn Corlan' (*ibid.*). Oherwydd gallu'r Brutaniaid, gorfu i'r Rhufeiniaid ffoi 'yn gyflym [i] gael Diogelwch yn eu *Llongau* (fel y gwelwch chwi *Haid o Wenyn* yn taro i'r *Cwch* o flaen *Tymhestl*)' (*ibid.*). Tyn Evans ar ddraenogod, cenllysg, defaid, a gwenyn er mwyn dwyn yr olygfa'n fyw ac hefyd gosod cof diwylliannol y Cymry yng nghynefin ei gynulleidfa dybiedig a gwna hyn yn ymwybodol gan ddefnyddio 'fel y gwelwch' sawl tro. Mae'r dyfyniadau hyn, sy'n fwy niferus yn 1740, yn cyfeirio at yr hyn sy'n hysbys i'r gynulleidfa dybiedig, a defnyddir hwy i gyfryngu dealltwriaeth o'r gorffennol a'i ddod yn fyw o'u blaen.

Nid o fyd natur yn unig y cyffelybir, defnyddia ddelweddau o'r Beibl. Wrth sôn am ddinistr cnydau'r Brutaniaid gan y Brithwyr cyffelybir hwy â 'Llwynogod *Sampson* yn llosgi'r Ydau', a

thynnu ar lyfr y Barnwyr 15:4 (1740, t. 89). Benthycia o'r Beibl yn uniongyrchol a defnyddio'r ffurf 'llwynog', sy'n wahanol i'r hyn a geir er mwyn cyfleu cyfrwystra Cesar a Hengist, sef 'cadnaw' ffurf leol i Evans (1740, tt. 34, 116). Fel yn achos byd natur, manteisia ar ymwybyddiaeth ysgrythurol hefyd er mwyn gwneud y naratif ymddangos yn gyfarwydd. Gellid honni y byddai'r cyfeiriadau hyn wedi bod yn hysbys i'r Cymry oherwydd yr holl argraffiadau o'r Beibl a'r llyfrau crefyddol a gyhoeddwyd yn y Gymraeg wedi'r Adferiad, yn ogystal â'r ymgyrchoedd Cristnogol i ehangu llythrennedd ers diwedd yr ail ganrif ar bymtheg (gweler: Jenkins, G.H., 1978; 1987; 1993). Mae'n debygol y byddai'r cyffelybiaethau ysgrythurol hyn wedi bod yn gyfarwydd i'r Cymry trwy bregethau. Gellid dehongli'r cyffelybiaethau Beiblaidd fel prawf o amlygrwydd cynyddol y Beibl a diwylliant Beiblaidd yng Nghymru. Mae hefyd yn ymgais gan Evans i beri i'w destun fod yn fwy cyfarwydd fyth a hwyluso perchnogi'i naratif fel cof.

Gwelwn apêl at gynulleidfa, wrth i Evans gynnwys areithiau a llythyrau yn ei destun sydd yn dwyn ei naratif yn fyw. Mae'r areithiau a'r llythyrau yn peri i'r naratif ymddangos yn fyw credadwy ac yn nes at fywydau'r gynulleidfa. Nid testun sych mo hwn; ceisia Evans ddiddanu lawn cymaint ag addysgu. Mae'r llythyrau a'r areithiau yn hwyluso gallu ei gynulleidfa dybiedig i gofio'r naratif a'i berchenogi fel cof diwylliannol. Ail-grëir y llythyrau a'r areithiau, a digwyddiadau'n gyffredinol, ar sail ffynonellau hanesyddol gan dynnu ar frutiau a gweithiau Clasurol. Wrth gynnwys llythyr neu araith, mae Evans yn nodi'i ffynhonnell bob tro, nid ei ddychymyg ef ydynt. Roedd yn arfer Clasurol i gynnwys llythyrau ac areithiau, a gwneir hyn gan David Powel wrth drafod y Tywysog Llywelyn yn y drydedd ganrif ar ddeg. Caiff hyn ei ganmol gan Glanmor Williams:

One of his most ingenious literary devices, designed to breathe more life into his leading characters, was the effective use of letters and speeches which he attributed to them... Such effusions have always been intended to make a direct appeal to the emotions of those said originally to have heard them and were calculated to have the same effect on Evans's readers, who were thereby encouraged to identify themselves more readily and uninhibitedly with the speakers (1992, t. 21).

Mae'r *Drych* yn cynnig y gorffennol fel profiad byw. Cawn gan y *Drych* areithiau gan arweinwyr y Brutaniaid fel Buddug mewn rhyfel (1740, tt. 51–2), a chan Caradog gerbron Cesar (pan oedd yn garcharor yn Rhufain 1716, tt. 33–4). Cawn ddialogau yn y *Drych* hefyd, ac yn amlycaf yn 1740, fel yr ymddiddan yn llys y Saeson wrth iddynt gynllwynio i ddod i orchfygu Prydain (1740, t. 99), a dialog rhwng Pasgen, mab drygionus Gwrtheyrn, ac Eppa'r Sais (1740, t. 119). Mae hyn yn wahanol i destunau eraill yr astudiaeth hon; prin iawn yw'r ddialog gan Charles Edwards, a chan Llwyd a Powel. Nodwedd amlwg o naratif y *Drych* yw'r llythyrau sy'n ymddangos gan gymeriadau'r naratif ac mae'r *Drych* yn cynnwys llythyr Lles ap Coel at Esgob Rhufain a drafodwyd eisoes, cyfieithodd o'r Lladin fel y'i ceir gan Ussher (1716, t. 146; 1740, t. 190).¹⁰⁸ Mae'r elfennau hyn o'r naratif yn pontio'r ffin rhwng y gorffennol pell a'r gynulleidfa yn y ddeunawfed ganrif a dod â'r cof yn fyw iddynt.

Tyn Evans hefyd ar y tirlun i wreiddio'r cof yng nghylch profiad ei gynulleidfa dybiedig. Mae'r syniad o weld y gorffennol yn y tirlun yng Nghymru yn nodwedd amlycach o'r ail *Ddrych*, er nad yw'n absennol yn 1716. Caiff y tirwedd ei ddefnyddio i storio egni mnemonig hefyd a chefnogi barn Walsham: 'the landscape is a repository of the collective memory of its inhabitants, a mnemonic to their knowledge of previous eras, and a source of ideas about their social identity'

¹⁰⁸ Yn 1716, cyfeiria Evans at argraffiad 1639 o *Primordia* Ussher, ond yn 1740, cyfeiria at argraffiad 1687; gall hyn egluro'r gwahaniaeth rhwng y tudalennau.

(2011, tt. 6–7). Mae gwaith ar lleoedd y cof yn y cyfnod modern cynnar yn eang; er enghraifft, mae Peter Sherlock wedi dadansoddi cerrig beddau a cherfluniau, sef gwrthrychau a grëwyd yn y cyfnod er mwyn cofio pobl (2008). Yn y *Drych*, nid creu cofgolofnau i gofio sydd gennym; yn hytrach, defnyddia'r hyn sydd yn y tirwedd eisoes a dehongli, neu ailddehongli, hynny o safbwynt ei naratif Brutanaidd ac Eglwysig. Mae'n nes felly at yr hyn y mae Nicola Whyte (2009) ac Anthony Wood (2013) yn astudio, sef gofod a thraddodiadau sy'n cael eu defnyddio i gofio cysylltiad â'r gorffennol pell. Nid yw hyn yn annisgwyl, fel y noda Walsham; roedd dylanwad y byd o'u cwmpas ar ymwybyddiaeth pobl y cyfnod o'r gorffennol yn gryfach nag amser (2011, t. 7).

Gwelwn fod manau penodol yng Nghymru'n dod yn lleoedd i gyfryngu a chynnal cof diwylliannol. Mae defnyddio lleoedd sydd yng Nghymru yn atgyfnerthu'r ddadl mai'r Cymry oedd ei gynulleidfa dybiedig. Gellid deall hyn fel rhan o ddylanwad y gynulleidfa gan gydnabod bod ymwybyddiaeth hanesyddol yn tynnu'n drwm ar ofod. Er mwyn gosod y naratif yn rhan o gylch profiad y gynulleidfa dybiedig, mae *Drych y Prif Oesoedd* yn cyfeirio at fannau sydd o hyd i'w gweld yng Nghymru. Cefnogir naratif y *Drych* gan y lleoedd hyn a throi'r lleoliadau yn fannau cof diwylliannol y Cymry. Cyfeiria at hen allorau'r derwyddon a ddefnyddiwyd i aberthu drwgweithredwyr 'y rhai sydd i'w gweled mewn amryw fannau etto *YngHymru'* a rhestrir yr ardaloedd perthnasol ar draws Gymru, er enghraifft: Aberhonddu, Morgannwg, Caerfyrddin, Ynys Môn a Dinbych (1740, t. 153). Dengys apêl at Gymru gyfan oherwydd gallai'r rhan fwyaf o'r darllenwyr fynd i un o'r manau hyn. O ganlyniad, gellid ymagweddu atynt fel cofgolofnau i dderwyddiaeth hynafol yng Nghymru ac i wychder Cristnogaeth wrth eu hymryddhau o'u harferion paganaidd.

Defnyddia Evans olion neu adfeilion o'r gorffennol fel tystiolaeth i naratif y *Drych* hefyd. Er enghraifft, olion castell Gwrtheyrn a ddisgrifiwyd eisoes: 'y mae Relyw y Castell yn weledig hyd heddyw yn adnabyddus wrth enw *Craig Wrtheyrn*. Y lle hwnnw sydd bedair milltir is-law *Llan-petr Pont-Stephan* yn Sîr Gaerfyrddin a'r Lan *Teifi*' (1716, t. 82). Ond wrth sôn am yr adfeilion hyn a'r rhai derwyddol uchod, coffáu sydd gennym, nid cofio. Os yw cofio yn ffordd o gysylltu'r presennol gyda'r gorffennol sydd yn bresennol gyfoes, nid yw'r adfeilion hyn yn gymwys i fod yn 'gof'. Dywed Aleida Assmann: 'A place of commemoration is what remains when a tradition has ended' (2011, t. 292). Nid yw derwyddon yn aberthu ar yr allorau rhagor, ac nid yw'r Cymry yn defnyddio castell Gwrtheyrn ychwaith. Mae'r adfeilion, felly, yn dangos bod y cyfnod o anwybodaeth paganaidd neu bechod wedi mynd. Mae'r manau hyn yn coffau yn hytrach nag yn cofio, ac maent yn dynodi toriad rhwng y gorffennol a'r presennol, ac yn y cyd-destun hwn, dengys y *Drych* sut y mae'r presennol yn rhagori ar yr hyn a fu.

Defnyddir enwau lleoedd fel manau'r cof mewn modd tebyg, ac egluro tarddiad enwau rhai lleoedd yng Nghymru ac ym Mhrydain. Mae defnydd Evans o enwau lleoedd yn cefnogi barn Gelling eu bod yn arwyddbyst i'r gorffennol (1978). Dywed Pollmann y defnyddiwyd enwau lleoedd yn gyson er mwyn atgoffa pobl o ddigwyddiadau'r gorffennol (2017, t. 102), ac mae Nicola Whyte wedi dangos bod perthynas rhwng enwau lleoedd ac arferion cofio yn y cyfnod (2020). Adlewyrcha'r *Drych* y dadleuon hyn wrth gyfeirio at ble y lladdwyd dewiniaid twyllodrus Gwrtheyrn a dweud: 'Y mae eu Beddau i'w gwled yno hyd heddyw, yn adnabyddus wrth Enw, *Beddau'r Dewiniaid*' (1740, t. 113). Mae Maes Garmon (1716, t. 58), Llanddewi-brefi (1716, t. 189), a 'Llyngc-lys' (1716, t. 173; 1740, t. 231) yn enghreifftiau tebyg sy'n coffáu digwyddiadau pwysig yn hanes y Cymry mewn manau penodol sydd yn hysbys i'r Cymry o hyd. Yn achos y tri

man hwn maent yn pwysleisio darpariaeth Duw i'r genedl. Maes Garmon yw'r lle y sicrhaodd Duw lwyddiant milwrol dros ei gelynion y Brithwyr. Yn Llanddewi-brefi a Llyncllys cafwyd buddugoliaethau diwinyddol yn erbyn Pelagiaeth. Maent yn dir gras sy'n dangos trugaredd Duw tuag at y Cymry (gweler: Walsham, 2011, t. 40). Wrth wneud hyn mae Evans sicrhau bod y tirlun yn gyfrwng i gof diwylliannol y Cymry.

Mae defnyddio enwau lleoedd ynghyd â manau penodol yng Nghymru yn ffordd o gyfryngu cof diwylliannol i'r gynulleidfa dybiedig, ac mae hefyd yn hwyluso cofio. Dengys Sioned Davies y gwnaethpwyd hyn yn yr Oesoedd Canol i gadw chwedlau'n fyw a gwneir yn debyg gan Evans, er nad chwedlau oeddynt yn ei farn ef (1995, t. 76). O safbwynt y cof, felly, mae enwau lleoedd nid yn unig yn arwyddbyst i'r gorffennol ac yn gallu dod â'r cof yn fyw ym milltir sgwâr y gymdeithas, ond gallent atgoffa'r gynulleidfa o'i gorffennol yn ddyddiol. Mae'r manau hyn yn gyfarwydd i'r Cymry eisoes, ac yn pwysleisio nad yw gorffennol y Cymro yn bellennig neu'n haniaethol; gellir ei weld yn y tir o'i amgylch.

4.5 Casgliad

Yn y bennod hon, dadansoddwyd *Drych y Prif Oesoedd* yng ngoleuni damcaniaeth cof diwylliannol. Manylwyd ar swyddogaeth y 'drych' fel dyfais mnemonig, a chan fanylu ar ystyriaethau o'r cyfnod modern cynnar dadleuwyd bod 'drych' yn gyfrwng i ail-greu'r gorffennol yn weledol a'i fod yn ffin sy'n cadarnhau'r gwahaniaeth rhwng y presennol a'r hyn a fu. Wrth ddangos y gorffennol, dadleuwyd bod y *Drych* yn creu cof diwylliannol i'r Cymru am eu gorffennol. Naratif truenus ydyw am genedl anrhydeddus yn colli eu hanrhydedd. Y prif reswm eu bod yn colli eu hanrhydedd yw oherwydd eu pechod sy'n dwyn barn gan Dduw arnynt.

Astudwyd sut y mae'r 'drych' yn cyfryngu i adlewyrchu'r hunan. Wrth wneud hyn dangoswyd sut mae'r *Drych* yn cyflawni dwy o swyddogaethau cof diwylliannol Jan Assmann, sef diffinio'r Cymry ar wastad ffurfiannol a normadol. Gwelwyd mai cenedl Ewrofediteranaidd o dras Glasurol ac ysgrythurol yw'r Cymry gyda hynafiaid nodedig fel Brutus o Gaerdroea a Gomer ab Jaffeth ab Noah, hefyd dadleuwyd bod i'r Gymraeg rôl ffurfiannol yn hunaniaeth y Cymry. Diffinnir y Cymry yn normadol fel cenedl a ddylai fod yn ffyddlon i'r Eglwys; wrth ystyried ymwneud Duw â'r genedl yn ffurfiannol, dadleuwyd fod y Cymry i Evans yn genedl sydd wedi'u bendithio gan Dduw, o ganlyniad dylent ymroi i'r Eglwys oherwydd dyna ymhle y ceir Cristnogaeth yn ei phurdeb. Amlinellwyd hefyd sut y mae'r *Drych* yn cynnig esiamplau i'w hefelychu sy'n dangos iddynt yr hyn y dylent ei wneud. Ceir enghreifftiau o bobl ddrwg hefyd, sy'n gweithredu fel esiamplau na ddylid eu hefelychu, ac fel rhybudd yn erbyn drygioni.

Clowyd y drafodaeth drwy ddadlau bod Evans yn apelio at gynulleidfa dybiedig. Cyfranna hyn at y ddadl drwy amlygu sut y mae'r *Drych* yn creu cof diwylliannol i'r Cymry. Dangoswyd bod creu cof yn broses ddeinamig â'r rhai sy'n cofio yn ddylanwad ar y cof. Yn achos Evans, mae'r gwahaniaethau rhwng y rhai sy'n creu'r cof a'r rhai sy'n cofio yn artiffisial. Aseswyd yr ymgais i osod y testun yng nghylch profiad cynulleidfa Gymraeg fel tystiolaeth o apelio atynt gan dynnu ar wybodaeth sydd ganddynt eisoes. Yn rhan o hyn astudwyd sut y defnyddiodd iaith ac ieithwedd er mwyn apelio at ei gynulleidfa dybiedig. Gwnaeth hyn er mwyn hwyluso gallu'r *Drych* i gael ei goleddu fel cof diwylliannol y Cymry.

Casgliad

Yn y traethawd hwn, archwiliwyd am y tro cyntaf y modd yr ymffurfiodd cof diwylliannol y Cymry yn rhai o brif destunau'r cyfnod modern cynnar. Nid yw'r traethawd yn dadlau mai dyma *oedd* cof diwylliannol y Cymry. Yn hytrach, dengys sut yr oedd rhai o feddylwyr amlycaf ar y gorffennol yng Nghymru yn creu naratifau hanes er mwyn diffinio'r genedl Gymreig. O gymryd testunau o safbwyntiau, canrifoedd, ac ieithoedd gwahanol, cynigiwyd golwg eang ar y Cymry. Gwelwyd sut y cafodd y gorffennol ei ail-greu, o destun i destun, mewn cyghanedd â diddordebau ac anghenion yr awduron yn eu priod gyfnodau. O fanylu ar dair canrif, gwelir bod y gorffennol yn eithriadol o bwysig i hunaniaeth y genedl. O ganlyniad, mae'r traethawd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r ddealltwriaeth o hunaniaeth Gymreig yn ystod y cyfnod modern cynnar yn ogystal ag arwyddocâd y gorffennol i'r hunaniaeth honno gan gyflwyno astudiaethau'r cof i ysgolheigion Cymraeg. Datblygwyd dadl newydd am le'r cofwyr yn y broses o lunio cof diwylliannol yn ogystal. Mae'r traethawd wedi dadlau bod yr awduron dan sylw wedi apelio at eu cynulleidfa dybiedig i ymagweddu at y gorffennol mewn ffordd benodol oherwydd dyma'r gorffennol sy'n dangos iddynt pwy ydynt a'r hyn y dylent ei wneud. Torrwyd cwys newydd, felly, yn astudiaethau'r cof a llenyddiaeth Gymraeg, gan ddadlau bod y gynulleidfa dybiedig, sef y gynulleidfa y mae'r awduron yn ei disgwyl ac yn ysgrifennu ar ei chyfer, yn ddylanwad yn ystod y broses greadigol.

Mae'r astudiaeth hon wedi dadlau y gellir deall hanes cenedlaethol fel cof diwylliannol cenedlaethol wrth astudio testunau hanes Cymru'r cyfnod modern cynnar. Astudiwyd y modd y cafodd y gorffennol a hanes eu defnyddio gan awduron y testunau hyn i ddiffinio'r genedl yn ffurfiannol ac yn normadol. Dangoswyd bod safbwyntiau a chyd-destunau'r awduron dan sylw yn

ddylanwad ar yr hunaniaeth Gymreig a geir yn eu testunau. Yn olaf, dadleuwyd bod apelio at gynulleidfa benodol yn ddylanwad ar yr awduron dan sylw wrth iddynt lunio cof diwylliannol.

Yn yr astudiaeth hon, cafodd naratifau hanes cenedlaethol eu dehongli fel testunau cof diwylliannol. Dadleuwyd bod cyswllt cryf rhwng hunaniaeth ffurfiannol a normadol, yn arbennig yng nghyd-destun crefydd. Fel cenedl â gorffennol Cristnogol nodedig a bendithion lu, dylai'r Cymry fod yn ffyddlon i Dduw. Yn y testunau oll, cafodd y gorffennol ei dderbyn a'i dehongli fel rhan allweddol o hunaniaeth y genedl: dangosai'r cof diwylliannol fel y'i ceir yma fod y Cymry yn genedl anrhydeddus sy'n rhan ganolog o hanes ynysoedd Prydain a'r byd Ewrofediteranaidd (sy'n cynnwys Ewrop a'r byd Mediteranaidd, ac felly'r Dwyrain Canol a gogledd Affrica). Wrth iddynt greu cof diwylliannol, dadleuwyd bod yr awduron a drafodwyd yn yr astudiaeth hon dan ddylanwad eu cynulleidfa dybiedig, boed yn Gymry, yn Saeson neu'n gynulleidfa ddysgedig ar draws Ewrop, a'u bod yn apelio atynt.

Yn yr ail bennod, astudiwyd prif destunau hanes yr unfed ganrif ar bymtheg ochr yn ochr â'i gilydd, a gosodwyd sylfaen hanesyddiaethol a mnemonig ar gyfer yr astudiaeth fanylach ar ddau destun diweddarach. Yn y bennod hon, dadleuwyd y caiff y Cymry eu diffinio fel cenedl anrhydeddus sydd yn medru olrhain eu llinach at Gaerdroea, ac iddynt fod ymhlith y Cristnogion cyntaf ar ôl lledaeniad y ffydd o'r byd Ewrofediteranaidd. Maent yn genedl sy'n rhan o fywyd a bwrlwm y byd Ewrofediteranaidd, felly, yn Gristnogol ac yn Glasurol. Gan adlewyrchu sefyllfa'r Cymry yn yr unfed ganrif ar bymtheg ar ôl y Deddfau Uno, pwysleisia'r testunau hyn fod y Cymry genedl sydd â pherthynas gref â'r Saeson.

Wrth roi pennod yr un i'r *Ffydd Ddi-ffuant* (1677) gan Charles Edwards a dau argraffiad o *Drych y Prif Oesoedd* (1716; 1740) gan Theophilus Evans cafwyd golwg ar ddealltwriaeth *rhai* o

awduron hanes Cymru mwyaf dylanwadol y cyfnod ar y gorffennol cenedlaethol. Prif amcan y bennod ar y *Ffydd* oedd astudio'r penodau hanes fel rhai sy'n cynnwys cof diwylliannol y Cymry. Gan hynny, caiff adran hanes y ffydd yn y byd ei osod fel rhan o gof diwylliannol y Cymry a dwyn gwerthfawrogiad newydd o'r testun. Dadleuwyd bod y Cymry'n rhan o naratif Ewrofediteranaidd y ffydd Gristnogol i Charles Edwards â'i ffocws ar ferthyra a dioddefaint y saint sy'n cyfateb i raddau â'r erledigaeth yr oedd ef a'i debyg yn profi. Pwysleisia Edwards, fod yn rhaid i'r Cymry gael tröedigaeth; mae'n eu hannog i fyw fel Cristnogion ac i efelychu esiamplau da eu hynafiaid ysbrydol, boed yn Gymry ai peidio. Wrth astudio'r *Drych*, dangoswyd bod Evans yn cynnig cof diwylliannol i'r Cymry a oedd yn pwysleisio eu bod yn Frutaniaid ac yn Eglwyswyr. Datblygwyd astudiaethau ar y *Drych* gan ddadlau mai naratif truenus ydyw am genedl yn colli grym ac anrhydedd oherwydd ei phechod. Dadleuwyd y caiff y Cymry eu diffinio fel brodorion cyntaf Prydain; maent yn genedl anrhydeddus sy'n gallu olrhain eu hachau at Gaerdroea ac at y Dilyw, trwy Gomer wrth astudio'r *Drych*. O ran eu normau cenedlaethol, dadleuwyd yn y bennod hon fod Evans yn annog ffyddlondeb i wlad ac Eglwys.

Bydd y casgliad hwn yn crynhoi rhai o brif themâu'r cof diwylliannol Cymreig gan osod y testunau ochr yn ochr â'i gilydd. Caiff y testunau hyn eu cymharu o dan dri phennawd: yn gyntaf y berthynas rhwng y Cymry a'r Brutaniaid; yn ail y cysylltiadau rhwng y Cymry a'r byd Ewrofediteranaidd; ac yn olaf y Cymry fel cenedl Gristnogol. Nid yw'r penawdau hyn yn bwyntiau annibynnol, yn hytrach maent mewn perthynas symbiotig â'i gilydd; ni ellir ac ni ddylid eu gwahanu. Mae'r Brutaniaid yn eu hanfod yn genedl Ewrofediteranaidd oherwydd y cysylltiad â Brutus, ac wrth fod yn Gristnogion maent yn rhan o gyd-destun crefyddol y byd Ewrofediteranaidd.

Y Cymry a'r Brutaniaid

Pwysleisir drwy gydol y testunau hyn mai'r Brutaniaid, sef trigolion cyntaf Prydain, yw hynafiaid y Cymry. Yn yr ail bennod a'r bennod olaf gwelwyd y cafodd y Cymry eu deall fel y Brutaniaid, er gwaethaf y ffaith nad ydynt yn rheoli dros Brydain mwyach. Fodd bynnag, mae Charles Edwards yn synied amdanynt fel disgynyddion, neu weddillion, y Brutaniaid yn unig, nid fel y Brutaniaid eu hunain, gan arddel y sillafiad 'Britaniaid'. Roedd hyn oherwydd nad oeddynt yn feistri ar Brydain mwyach ar ôl marwolaeth Cadwaladr yn y seithfed ganrif. Dangoswyd bod y pwyslais hwn yn gyffredin wrth ysgrifennu yn Saesneg yn bennaf (gweler: Schwyzer, 2018).

Un nodwedd amlwg o'r drafodaeth ar y Brutaniaid yw'r amddiffyniad o hanesyddiaeth Sieffre o Fynwy. Roedd amddiffyn Sieffre o'r pwys mwyaf yng Nghymru'r cyfnod modern cynnar, oherwydd roedd ei naratif yn dangos bod y Brutaniaid, yn genedl rymus, anrhydeddus, a hynafol. Ond nid yw'r testunau hyn yn rhai amddiffynnol yn unig; cyflwynant naratif cenedlaethol sy'n llawn balchder ac ymffrost gwladgarol. Ysgrifennodd Siôn Prys yn Lladin ac ymateb i Vergil yn uniongyrchol er mwyn amddiffyn Sieffre. Yn y traethawd hwn, dehonglwyd y *Defensio* hefyd fel amddiffyniad o gof diwylliannol y Cymry sy'n ymffrostio yn naratif y genedl. Yn eu testunau Saesneg mae Llwyd a Powel ill dau'n dyrchafu'r Cymry i'r Saeson ac fel cenedl anrhydeddus, yn aml ar draul y Saeson. Roedd gafael y meddylfryd Sieffreaidd ar orffennol y Cymry o hyd yn gryf ar Charles Edwards a Theophilus Evans yn ddiweddarach. Er enghraifft, mae Theophilus Evans yn cefnogi safbwynt Sieffreaidd er ei fod yn ymwybodol o'r amheuan yn ei gylch. Fodd bynnag, mae'n tueddu i beidio â chyfeirio at Sieffre yn uniongyrchol, gan dynnu ar ffynonellau mwy diweddar o'r ail ganrif ar bymtheg a oedd yn rhannu ei safbwynt, megis gan awduron fel James Ussher, William Lloyd, a Henry Spelman. Wrth wneud hyn, dengys Evans fod y naratif Sieffreaidd

yn gredadwy yn ôl y ddysg gyfoes. Yn sicr, felly, roedd amddiffyn Sieffre yn rhan bwysig o destunau hanes y Cymry trwy'r cyfnod oherwydd roedd ei naratif yn sylfaen i'w hunaniaeth.

O ganlyniad i gysylltiad y Cymry â'r Brutaniaid, mae hawl hanesyddol gan y Cymry ar yr ynys. Y Brutaniaid oedd trigolion cyntaf Prydain. Dywed Sieffre i Brutus o Gaerdroea dirio ym Mhrydain ac enwi'r ynys a'r bobl ar ei ôl ei hun. Mae Prys yn hyderus yn y gred hon ac fe'i defnyddiodd i ddangos mai cenedl Glasurol yw'r Cymry. Nid yw Charles Edwards yn sôn am Brutus, ac er ei fod yn bosibl iddo amau'r chwedl, mae'n fwy tebygol nad yw'n ei chynnwys oherwydd ei bod yn amherthnasol i naratif ar y ffydd ymhlith y Cymry, fel y dadleuwyd yn y drydedd bennod. Mae Theophilus Evans yn credu ei bod yn debygol i Brutus ddod i'r ynys, ond nad ef oedd y cyntaf i dirio ar yr ynys ac felly mae'n arddel safbwynt gwahanol i un Sieffre a Siôn Prys. Dilyna Evans farn Paul-Yves Pezron sy'n honni i Gomer fab Jaffeth ab Noa dirio yn fuan wedi dinistr Tŵr Babel. Dyma ychwanegiad pwysig gan Evans i ddealltwriaeth y Cymry am eu tarddiad, ac mae'n enghraifft sy'n cefnogi dadl Colin Kidd i wreiddiau ysgrythurol dyfu mewn pwysigrwydd o gymharu â gwreiddiau Clasurol rhwng 1600 a 1800 (1999, tt. 9–72).

Prif ddolen gyswllt y Cymry â'r Brutaniaid yw'r Gymraeg, nid y berthynas o ran gwaed. Ym mhob pennod, gwelwyd bod yr awduron yn synied am y Gymraeg fel yr iaith Brydeinig. Gellid hawlio ffigurau o'r gorffennol fel rhan o'r gymuned genedlaethol ddiacronig os ydynt yn siarad yr iaith. O ganlyniad, gwelwyd yng Nghymru'r cyfnod modern cynnar mai iaith yw sylfaen y ddealltwriaeth o genedl. Er enghraifft, dywed Charles Edwards, nad yw hynafiaid y Cymry a arhosodd yn Cumbria ar ôl dyfodiad y Sacsoniaid yn Gymry mwyach, am iddynt golli eu hiaith.

Yn nhyb yr awduron dan sylw nid oedd y Gymraeg wedi newid ers dros fil o flynyddoedd oherwydd bod barddoniaeth o'r chweched ganrif yn ddealladwy o hyd. Roedd hynny'n dyrchafu'r

Cymry fel cenedl a oedd yn ymhyfrydu yn eu hiaith ac yn ei chynnal. Nid iaith iselradd oedd y Gymraeg iddynt, roedd yn iaith ddysgedig a gellid gweld y ddysg hon ymhlith y beirdd. Dengys y beirdd fod y Cymry'n waraidd, ac yn ddiwylliedig, ac yn cofnodi eu hanes, yn arbennig i Siôn Prys a Theophilus Evans. Cred Siôn Prys a Humphrey Llwyd fod y Gymraeg yn hanfodol er mwyn deall gorffennol yr ynys ac i'r beirdd gadw cofnod am orffennol y Cymry yn iaith y genedl. Yn wir, gellid dadlau i'r awduron hyn gymryd mantell y beirdd fel ceidwaid cof y Cymry yn dilyn dirywiad y beirdd yn y cyfnod a bod eu testunau'n gyfrwng i gadw'r cof. Nid yw'r Gymraeg yn gyfyngedig i Gymru ddaearyddol yn unig; mae enwau lleoedd yn Lloegr yn dangos ei bod yn iaith a siaredid ar draws yr ynys ac yn dangos, felly, y bu'r Cymry gynt yn feistriaid ar Brydain. Mae Siôn Prys, Richard Davies, a Theophilus Evans yn pwysleisio y bu trigolion Prydain a Gâl, sef Ffrainc heddiw, yn siarad yr un iaith. Dyrchefir y Gymraeg, felly, fel iaith gyfandirol o bwys â'r Cymry'n rhan o gymuned ieithyddol eang a hynafol.

Wrth eu cysylltu â'r Brutaniaid caiff y Cymry eu dyrchafu fel cenedl hynafol, gwaraidd, a dysgedig. Trwy gydol yr astudiaeth, gwelwyd sut y mae'r awduron yn defnyddio'r gorffennol er mwyn dyrchafu'r Cymry ac i amlygu eu rhinweddau. Gwnânt hyn yn bennaf trwy ganolbwyntio ar ffigurau penodol, megis: Emrys Ben-aur y brenin dewr; Lles ap Coel brenin Cristnogol cyntaf y byd; Cystennin Fawr ymerawdwr Cristnogol cyntaf y byd; ac wrth gwrs, y Brenin Arthur. Caiff seintiau amlwg, fel Garmon a Dewi Sant, eu defnyddio yn yr un modd hefyd. Roedd Llwyd a Powel, er enghraifft, yn dyrchafu'r Cymry fel cenedl waraidd er mwyn cywiro'r naratifau dirmygus a oedd ar led amdanynt fel pobl anwar a gwrthryfelgar ymhlith testunau Saesneg. Dengys yr ail bennod, fod Llwyd a Powel yn pwysleisio mai'r Saeson oedd y bobl anwar am eu gorthrwm ar y Cymry, ac mae Evans, fel y gwelwyd yn y bennod flaenorol, yntau'n beirniadu'r Saeson.

Mae'r berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson yn nodwedd amlwg ar y drafodaeth, ac ni ellir gorbwysleisio potensial astudio safbwyntiau Cymreig ar y Saeson yn y cyfnod modern cynnar ac mewn cyfnodau eraill. Gellid dadlau mai'r Saeson yw'r genedl bwysicaf yn hanes Cymru i'r awduron dan sylw, ar ôl y Cymry eu hunain wrth gwrs. Yn ôl y testunau dan sylw, bu cryn ymwneud rhwng y ddwy genedl ar hyd y canrifoedd a phwysleisir yn gyson y cysylltiadau a'r gwahaniaethau rhyngddynt.

Cred yr awduron dan sylw i'r berthynas rhwng y Cymry a'r Saeson newid yn sylweddol erbyn eu cyfnod hwy. Daeth y Saeson i'r ynys yn dilyn twyll ac ymfydrwydd Gwrtheyrn, yn ôl Siôn Prys, Charles Edwards a Theophilus Evans, ac wedi hynny buont yn ddraenen yn ystlys y Cymry. Dengys yr awduron oll yr elyniaeth a fu rhwng y ddwy genedl yn ystod yr Oesoedd Canol; ac mae Powel ac Edwards, er enghraifft, yn haeru y dylid deall y Saeson ar ôl concwest Edwardaidd 1282 fel gormeswyr. Nid yw Theophilus Evans yn cytuno; dadleua fod y goncwest wedi bod yn llesol i'r Cymry oherwydd roedd tywysogion Cymru yn ymddwyn fel 'Bleiddiau rheipus' (1740, t. 140). I Edwards a'r dyneiddwyr, mae'r berthynas yn newid o ganlyniad i'r Deddfau Uno a'r Diwygiad Protestannaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Dywed Edwards mai'r Saeson oedd y '[b]leiddiaid rheibus', ond bellach maent wedi newid i fod yn 'fugeiliaid ymgeleddgar' (1677, t. 210). Dadleuwyd yn y testunau hyn y caiff y dehongliad o'r Saeson ei ddiwygio yn sgil y Deddfau Uno a'r Diwygiad Protestannaidd. Nid ydynt yn cael eu deall fel gelynion mwyach, yn hytrach maent yn ddwy genedl gyfartal sy'n rhannu teyrnas ac yn arddel yr un ffydd hefyd – er bod hawl gan y Cymry i addoli Duw yn eu hiaith eu hunain. Ar ôl cyfieithu'r ysgrythurau i'r Gymraeg, dadleuodd y traethawd hwn i'r awduron haeru i genedligrwydd y Cymry gael ei ddilysu gan y gyfundrefn. Mae ganddynt gysylltiadau trefedigaethol hefyd; defnyddiwyd y gorffennol gan Llwyd, Powel, ac

Evans i gyfiawnhau hawl ymerodraethol y goron yn yr Amerig. Mynnant mai Cymro, Madog ap Owain Gwynedd, oedd y cyntaf i dirio yna a hynny yn y ddeuddegfed ganrif (gweler: Hunter, 2016). Dyma enghraifft o osod y Cymry yn rhan allweddol o orffennol, presennol, a dyfodol y deyrnas Brydeinig.

Y Cymry a'r byd Ewrofediteranaidd

Wrth gofio'r gorffennol mae'r awduron dan sylw yn diffinio'r Cymry fel cenedl sy'n rhan o'r byd Ewrofediteranaidd. Defnyddiwyd y term hwn oherwydd nad yw 'Ewropeaidd' yn ddigon eang i gyfleu'r ymgais i wreiddio'r Cymry fel cenedl sy'n rhan o hanes Cristnogol a Chlasurol a oedd yn cynnwys y Dwyrain Canol ac Affrica, yn ogystal ag Ewrop. Wrth astudio cysylltiadau trawsgenedlaethol ac Ewrofediteranaidd y Cymry, datblygwyd astudiaethau Cymraeg a Chymreig i ystyried sut y caiff y Cymry eu cysylltu â chenedloedd eraill ar draws Ewrop a thu hwnt. Archwiliwyd sut y cânt eu diffinio fel cenedl sy'n rhan o rwydwaith trawsgenedlaethol yn ystod y cyfnod modern cynnar. Pwysleisia'r awduron dan sylw fod gan y Cymry gysylltiadau â Groeg, Rhufain, yr Iddewon, a lledaeniad Cristnogaeth o'r Dwyrain Canol. Nid cenedl ymylol a di-nod mo'r Cymry. Yn hytrach, maent yn rhan allweddol o wareiddiad Ewrofediteranaidd. Ni chaiff y byd Ewrofediteranaidd, yn ôl yr awduron hyn, ei ddominyddu gan Rufain, boed yn ymerodraethol neu'n grefyddol. Gwelir yn y testunau hyn gyfatebiaeth gref rhwng Rhufain ymerodrol a Rhufain Gatholig, ac ill dau'n elynion i Gristnogaeth yn ôl y Protestaniaid a astudir yma. Dadleuwyd bod gwrth-Rufeiniaeth yn nodwedd amlwg o'r testunau fel y ceir yn Lloegr ar y pryd yn ôl Curran (2002). Mae Theophilus Evans, fodd bynnag, yn gwahaniaethu rhwng Rhufain y Pab a Rhufain yr ymerodraeth, efallai bod hyn yn deillio o dwf ymwybyddiaeth ymerodraethol ym Mhrydain y ddeunawfed ganrif.

Mae myth Brutus yn un ffordd o gysylltu'r Cymry â'r byd Ewrofediteranaidd. Yn ôl yr awduron dan sylw, dengys Brutus fod y Cymry yn genedl sydd â'i tharddiad yng ngorffennol Clasurol y byd Ewrofediteranaidd. Yn y traethawd hwn, gwelir i fyth Brutus gael ei ddefnyddio i ddyrchafu'r Cymry a phwysleisio eu bod yn genedl sy'n hŷn na Rhufain. Fodd bynnag, nid yw'r awduron dan sylw yn mynd i gymaint o fanylder â Sieffre am ddyfodiad y Groegiwr. Yn bennaf, mae Prys yn ceisio amddiffyn ei fodolaeth ac yn nodi ei fod o dras Rhufeinig. Nid yw Llwyd nac Evans yn cyfeirio at gysylltiad rhwng Brutus a Rhufain. Efallai bod pryder ynghylch yr elfen chwedlonol yn ei hanes. Ni chyfeirir at Brutus gan Charles Edwards, ond fel y dadleuwyd gall hyn fod oherwydd mai ffocws ei naratif yw'r ffydd Gristnogol.

Ond nid trwy Brutus yn unig y mae'r Cymry'n genedl Ewrofediteranaidd. Dengys Siôn Prys y bu llawer o filwyr Brutanaidd ar y cyfandir yn arwain byddinoedd ac yn ennill buddugoliaethau nodedig, fel Brennus a arweiniodd filwyr yn Gâl ac yn ardal Groeg (2015, tt. 177–93). Mae Charles Edwards yn cyfeirio at Bladdud ac yn dweud iddo gael addysg yng Ngroeg a dwyn dysg Roegaidd yn ôl i Brydain (1677, tt. 150–1). Yma, felly, caiff y Cymry eu cysylltu'n filwrol â'r byd Ewrofediteranaidd a mynnu eu bod yn rhan o waddol dysgedig y byd hwnnw.

Cysylltiad pellach ac arwyddocaol rhwng y Cymry a'r byd Ewrofediteranaidd yw eu bod yn un genedl, sef eu bod yn rhannu iaith, â thrigolion Gâl, ac yn un gymdeithas grefyddol â hwy. Mae'r cyswllt hwn yn dyfnhau dimensiwn Ewrofediteranaidd hunaniaeth Gymreig. Pan oedd trigolion Prydain yn methu â gwrthbrofi heresi Pelagius, anfonwyd esgobion o Gâl, Garmon a Lupus atynt i'w cynorthwyo. Mae Theophilus Evans, fel Richard Davies, yn mynnu iddynt gael eu hanfon gan eu cydwladwyr, gan eu bod yn siarad yr un iaith; yn achos Charles Edwards cael eu hanfon y maent heb sôn am gysylltiadau, ond nid yw'n nodi eu bod yn siarad ieithoedd gwahanol.

Mae awgrym bod y Cymry'n rhan o gymdeithas grefyddol sy'n gyffredin i Brydain a Gâl yn y *Ffydd*, ac o ystyried y farn gyffredin am iaith gyffredin y ddwy ardal mae'n bosibl fod Edwards yn cymryd hynny yn ganiataol. Dyrchafwyd Garmon a Lupus fel seintiau yn y traddodiad Catholig, ond fe'u diwygiwyd gan y Protestaniaid hyn i fod yn rhan o'u cof hwythau, a dangos bod gan Gristnogaeth frodorol ym Mhrydain ddimensiwn trawsenedlaethol.

Mae Cristnogaeth y Cymry hefyd yn ffordd o gysylltu'r genedl â'r byd Ewrofediteranaidd. Wrth reswm, crefydd Ewrofediteranaidd yw Cristnogaeth o ran ei tharddiad a'i lledaeniad ac ni ddylid deall Protestaniaeth, ar sail ei bwyslais ar y gyffrediniaith, fel crefydd sy'n ynysu cenedloedd oddi wrth ei gilydd. Yn wir, mae Protestaniaethau'r awduron dan sylw yn 'gatholig' o hyd. I Davies, Edwards, ac Evans, daeth Joseff o Arimathea â'r ffydd Gristnogol i Brydain yn fuan wedi'r Atgyfodiad yn y Dwyrain Canol, a chafodd ei anfon o Gâl, efallai gan yr Apostol Paul yn ôl Charles Edwards (1677, t. 24). Dywed Theophilus Evans i Paul bregethu ymhlith y Brutaniaid (1740, t. 187). Ymhellach, mae dau ffigur amlwg yn naratif hanes Cristnogaeth, sef Lles ap Coel a Cystennin, yn gwau'r Brutaniaid i'r byd Ewrofediteranaidd. Lles oedd y brenin Cristnogol cyntaf yn y byd, a Chystennin oedd yr ymerawdwr Cristnogol cyntaf yn y byd, ac roeddynt ill dau'n Frutaniaid, mae hyn yn dyrchafu'r Brutaniaid fel rhan o orffennol Cristnogol y byd Ewrofediteranaidd. Mae Charles Edwards yntau'n pwysleisio dimensiwn Ewrofediteranaidd i hunaniaeth Gymreig mewn cyd-destun ysbrydol wrth gynnwys naratifau am ferthyron. Mae'r merthyra, yn bennaf, yn digwydd ar draws y byd Ewrofediteranaidd; megis yn San Sebaste, Rhufain, Waldesia, a Bohemia. Er nad yw'r ffigurau hyn yn hynafiaid ethnig na ieithyddol i'r Cymry, maent o hyd yn hynafiaid iddynt oherwydd eu bod yn hynafiaid ysbrydol iddynt. Yn hyn o

beth, mae Edwards yn defnyddio Cristnogaeth i greu cysylltiadau trawsghenedlaethol rhwng y Cymry â Christnogion o genhedloedd eraill ar draws y byd; nid yw'r ffydd na'r Cymry yn ynysig.

Y Cymry a'r ffydd Gristnogol

Yr elfen olaf ar hunaniaeth Gymreig sy'n cael ei phwysleisio wrth gofio'r gorffennol yn y testunau hyn yw bod y Cymry yn genedl Gristnogol. Mae'r awduron oll yn ymhyfrydu yn hynafiaeth y ffydd Gristnogol yng Nghymru. Dengys iddynt mai cenedl Gristnogol yw'r Cymry ac y dylent fod yn genedl Gristnogol. Yng nghyd-destun y ffydd Gristnogol, gwelwn gysylltiad cryf rhwng hunaniaeth ffurfiannol a'r normadol fel y'u ceir yn y testunau cof diwylliannol sydd o dan sylw.

Yn ogystal â gwreiddio'r Cymry mewn gorffennol Ewrofediteranaidd, roedd dyfodiad Joseff o Arimathea i Brydain gyda'r ffydd Gristnogol, a hanes Cristnogaeth ymhlith hynafiaid y genedl wedi hynny, yn gwreiddio Cristnogaeth fel crefydd y Cymry. Yn dilyn y Diwygiad Protestannaidd, mynnwyd mai crefydd Brotestannaidd a gyflwynwyd gan Joseff ac a gynhaliwyd ymhlith y Cymry tan y chweched ganrif. Wrth i ddiwinyddiaeth ac eglwysyddiaeth ddatblygu ym Mhrydain yn ystod y cyfnod modern cynnar, defnyddiwyd y myth hefyd i gyfiawnhau'r drefn grefyddol y perthynai'r awduron iddi. Yn sgil hyn, gwelwn sut y cafodd y cof am Gristnogaeth ym Mhrydain fore ei ail-greu yn unol ag amcanion crefyddol neilltuol yr awduron dan sylw.

I Richard Davies, Charles Edwards, a Theophilus Evans roedd Joseff o Arimathea wedi cyflwyno'r wedd ar Gristnogaeth i Brydain y maent hwy'n ei harddel. Defnyddiwyd Joseff ganddynt i bwysleisio bod eu ffydd yn eiddo i hynafiaid y Cymry, ac nid yn beth newydd. I Richard Davies, er enghraifft, mae eglwys gynnar Prydain yn adlewyrchu'r drefn Brotestannaidd a oedd ohoni yn yr unfed ganrif ar bymtheg gyda'r teyrn yn ben ar yr eglwys ac esgobion ar draws Prydain yn annibynnol ar Rufain. I Charles Edwards, mae'r Cristnogion cynnar yn adlewyrchu'r ffydd ddiffuant i'r dim â phwyslais cryf ar y Gair a phregethu. Yn ddiweddarach, mae Theophilus Evans

yn mynnu bod Eglwys Loegr yn driw i Eglwys gynnar Prydain o ran defodau ac eglwysyddiaeth, gan fedyddio plant. Dangoswyd yn yr astudiaeth hon sut yr oedd myth dyfodiad y ffydd i Brydain yn hyblyg yn y cyfnod modern cynnar, ac yn cael ei addasu yn ôl daliadau y crefyddol yr awduron unigol.

Gwelwn Gristnogaeth gynhenid y Cymry yn dod i'r fei wrth i'r awduron dan sylw gofio ffigurau penodol er mwyn gwreiddio Cristnogaeth yng ngorffennol y Cymry. Trwy'r astudiaeth cyfeirir at Lles ap Coel, a gwreiddio Cristnogaeth fel crefydd swyddogol Prydain. Roedd hefyd yn ben ar ei eglwys yn ei deyrnas; roedd hyn yn bwysig i ddadl Davies ac Evans i gefnogi goruchafiaeth frenhinol ar faterion crefyddol. Roedd Cystennin, Ymerawdwr Rhufain, hefyd yn dangos bod y Brutaniaid yn Gristnogion diwyd ac yn cynnal a chadw athrawiaethau unionged yr eglwys ar draws y byd Ewrofediteranaidd. Ni ry Edwards sylw manwl i Lles ap Coel na Chystennin, efallai am ei fod yn anghyfforddus â rôl awdurdodau bydol, yn bennaf brenhinoedd ac ymerawdwyr, ar faterion crefyddol fel un o gefndir anghydfurfiol. Nid yw'r tensiwn hwn yn bresennol yn y *Drych* ag Evans yn frenhinwr brwd ac yn ymfalchïo yn nylanwad y teyrn ar grefydd ei deyrnas. Caiff y seintiau eu diwygio hefyd gan yr awduron hyn i gydymffurfio â'u credoau crefyddol. Nid seintiau Catholig mo Garmon, Lupus, a Dewi, ond esgobion a gweinidogion sy'n pregethu'r efengyl i'r Cymry ac yn eu diogelu rhag heresia, fel Pelagiaeth – cred sy'n gas ganddynt a chred a ddilëwyd o blith y genedl ganrifoedd ynghynt, yn ôl yr awduron hyn o leiaf.

Mae gan Gristnogaeth, felly, wreiddiau dyfnion yng Nghymru yn ôl yr awduron hyn. Pwysleisia'r traethawd hwn y caiff y Cymry eu diffinio yn y cof diwylliannol fel cenedl Gristnogol. Yn yr ail bennod, honnwyd bod Richard Davies yn dangos bod diwylliant Cymru wedi'i drwytho yn yr ysgrythur. Mae hyn yn nodweddiadol o Brotestaniaeth gan gofio am un o brif egwyddorion

y Diwygiad Protestannaidd: *sola scriptura*. Cred Davies y dengys hyn fod y Cymry wedi ymwneud y Cymry â'r Beibl ar hyd yr oesoedd, mae hefyd yn dystiolaeth iddo y bu'r Beibl unwaith ar gael yn y Gymraeg: dyma ddwy sylfaen bwysig i'w ddadl mai hen ffydd yw Protestaniaeth. Wrth iddo gofio'r gorffennol mae'n cyfiawnhau cyfieithu'r Testament Newydd oherwydd ei ailgyflwyno'r i'r Cymry y mae. Oherwydd bod enwau Beiblaidd yn gyffredin yn y Gymraeg a bod diarhebion Cymraeg sy'n cytuno â gwirioneddau Protestannaidd, cred Richard Davies fod y Cymry'n genedl Brotestannaidd ac y bu'r Beibl ar gael yn eu hiaith un tro. Mewn modd tebyg, mae Charles Edwards yn gwreiddio'r ffydd yn niwylliant y Cymry wrth i'r beirdd ganu cerddi ac ynddynt gredoau Protestannaidd. Rhoddodd y traethawd hwn sylw am y tro cyntaf i ddefnydd Edwards o waith y beirdd, fel y gallai ddadlau y bu tystiolaeth efengylaidd yng Nghymru cyn y Diwygiad Protestannaidd, gan hawlio'r beirdd fel rhagflaenwyr i Brotestaniaeth. Mae Theophilus Evans, yn sicr, yn credu bod Cristnogaeth, ac Eglwys Loegr yn benodol wedi eu gwreiddio'n ddwfn yng Nghymru. Ond dywed ef nad oes llawer o dystiolaeth am drefn yr eglwys na'i chredoau. Defnyddia dystiolaeth o Dadau'r Eglwys fel drych i weld credoau'r Brutaniaid, oherwydd dywed y Tadau y bu'r Brutaniaid yn unionged, a dengys hyn ymhellach gysylltiadau Ewrofediteranaidd y Cymry.

Wrth astudio'r testunau hyn fel rhai sy'n cynnig cof diwylliannol i'r Cymry gan eu diffinio fel cenedl Gristnogol, gwelwyd hefyd i'r Cymry gael eu deall fel cenedl sydd wedi ei bendithio gan Dduw. Mae hyn yn arbennig o wir yn nhestunau Davies, Edwards, ac Evans. Yn sgil y bendithion hyn, dylai'r Cymry fod yn ffyddlon i Dduw ac yn ddiolchgar iddo. Ymhlith y bendithion mae hynafiaeth y ffydd a'r ffigurau nodedig a diogelodd hwy rhag gau-athrawiaethau. Ond mae sawl bendith arall ar y Cymry, a nifer yn rhai lled-gyfoes i'r awduron dan sylw. Cred Richard Davies fod

Duw yn bendithio'r genedl yn yr unfed ganrif ar bymtheg wrth roi iddynt y Gair yn eu hiaith ac adfer y ffydd yn eu plith. Efelychu dadl Davies a wna Edwards gan ddehongli'r Diwygiad Protestannaidd fel un o fendithion mawr Duw ar y Cymry, wrth iddo'u rhyddhau o gaethiwed Catholigiaeth. Yn sgil hyn, felly, mae'r traethawd wedi dechrau'r drafodaeth ar sut y cafodd y Diwygiad Protestannaidd ei gofio yng Nghymru. Wrth drafod y Cymry fel cenedl Gristnogol, gwelwn fod yna gysylltiad rhwng hunaniaeth ffurfiannol a normadol mewn testunau cof diwylliannol, sef yr hyn sy'n diffinio'r Cymry a'r hyn y dylent ei wneud. Wrth fod yn genedl Gristnogol sydd wedi'u bendithio gan Dduw, mae disgwyl i'r Cymry fyw yn deilwng o'r breintiau hynny. Caiff y Cymry eu hannog, gan yr holl awduron, i fod yn ffyddlon i Dduw ac i ddilyn y ffydd Gristnogol.

Am dros chwarter canrif mae trafodaethau ar y cyfnod modern cynnar wedi mynd yn brinnach ac yn brinnach yng Nghymru ac yn y Gymraeg, yn arbennig rhai llenyddol. Un o obeithion yr astudiaeth hon yw annog ysgolheigion i ystyried y cyfnod hwn o'r newydd yng ngoleuni'r ystyriaethau ffres a ffraeth a geir yn astudiaethau'r cof. Dangoswyd potensial astudiaethau'r cof sy'n ystyried arwyddocâd y gorffennol fel creadigaeth a'i berthynas â hunaniaeth i gyd-destun Cymreig. Yn yr astudiaeth hon, gwelwyd sut yr ail-luniwyd ac ail-grëwyd cof diwylliannol yng Nghymru'r cyfnod modern cynnar; wrth gofio'r gorffennol mewn naratifau hanes dangoswyd i'r Cymry pwy ydynt a'r hyn y dylent ei wneud.

Llyfryddiaeth

Aberbach, D. 2005. Nationalism and the Hebrew Bible. *Nations and Nationalism* 11(2), 223–42.

--- 2007. Myth, History and Nationalism: Poetry of the British Isles. Yn: Leoussi, A. a Grosby, S. golygyddion. *Nationalism and Ethnosymbolism: History, Culture and Ethnicity in the Formation of Nations*. Caeredin: Edinburgh University Press, tt. 84–96.

Alexander, G. 2010. Rhetoric. Yn: Hattaway, M. gol. *A New Companion to Renaissance Literature and Culture*. Cyf. 1. Malden: Wiley-Blackwell, tt. 38–54.

Allen, R. 2007. *Quaker Communities in Early Modern Wales: From Resistance to Respectability*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Alter, D. 2021. Epistol yr Eryr at Ceridwen. *Y Traethodydd* 174, 125–6.

Anderson, B. 2006. *Imagined Communities reflections on the origin and spread of nationalism*. Llundain: Verso Books.

Anderson, M. 2007. Early Modern Mirrors. Yn: *idem.* gol. *The Book of the Mirror: An Interdisciplinary Collection Exploring the Cultural Story of the Mirror*. Newcastle: Cambridge Scholars Publishing.

Appleby, D. J. 2012. From Ejectment to Toleration in England, 1662–89. Yn: Sell, A. P. F. gol. *The Great Ejectment of 1662: Its Antecedents, Aftermath, and Ecumenical Significance*. Eugene, Oregon: Pickwick Publications, tt. 67–124.

Arcangeli, A. a Tamm, M. 2020. Introduction: Early Modern Memory Cultures. Yn: *idem.* golygyddion. *A Cultural History of Memory in the Early Modern Age*. Llundain: Bloomsbury Academic, tt. 1–18.

Ashton, G. M. 1991. Rhai Sylwadau ar Hynt y Beibl Cymraeg 1801–25. *Llên Cymru* 16, 271–91.

Assmann, A. 1996. Texts, Traces, Trash: The Changing Media of Cultural Memory. *Representations* 56, 123–34.

--- 2004. Four Formats of Memory: From Individual to Collective Constructions of the Past. Yn: Emden, C. a Midgley, D. golygyddion. *Cultural Memory and Historical Consciousness in the German-speaking World Since 1500*. Bern: Peter Lang, tt. 19–37.

--- 2006a. The Battle of Memories in Shakespeare's Histories. Yn: Jansohn, C. gol. *German Shakespeare Studies at the Turn of the Twenty-First Century*. Newark, DE: University of Delaware Press, tt. 21–41.

--- 2006b. History, Memory and the Genre of Testimony. *Poetics Today* 27(2), 261–74.

--- 2008a. Canon and Archive. Yn: Erill, A. a Nünning, A. golygyddion. *A Companion to Cultural Memory Studies*. Berlin ac Efrog Newydd: de Gruyter, tt. 97–107.

- 2008b. Transformations between History and Memory. *Social Research* 75(1), 49–72.
- 2009. How History Takes Place. Yn: Sengupta, I. gol. *Memory, History, and Colonialism. Engaging with Pierre Nora in Colonial and Postcolonial Contexts*. Llundain: German Historical Institute London, tt. 151–65.
- 2010a. Re-framing memory. Between Individual and collective forms of constructing the past. Yn: Tilman, K. et al. golygyddion. *Performing the Past: Memory, History and Identity in modern Europe*. Amsterdam: Amsterdam University Press, tt. 35–50.
- 2011. *Cultural memory and Western civilization: functions, media, archives*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- 2015a. Dialogic Memory. Yn: Menders-Flohr, P. gol. *Dialogue as a Trans-Disciplinary Concept: Martin Buber's Philosophy of Dialogue and its Contemporary Reception*. Berlin: De Gruyter, tt. 199–214.
- 2015b. Impact and Resonance: Towards a Theory of Emotions in Cultural Memory. Yn: Stordalen, T. a Naguib, S. golygyddion. *The Formative Past and the Formation of the Future: Collective Remembering and Identity Formation*. Oslo: Institute for Comparative Research in Human Culture, tt. 41–70.
- 2015c. Theories of Cultural Memory and the Concept of 'Afterlife'. Yn: Tamm, M. gol. *Afterlife of Events: Perspective on Mnemohistory*. Basingstoke: Palgrave Macmillan, tt. 79–94.
- Assmann, J. 1995. Collective Memory and Cultural Identity. Cyfieithwyd gan J. Czaplicka. *New German Critique* 65, 125–33.
- 1998. *Moses the Egyptian: The Memory of Egypt in Western Monotheism*. Cambridge, MA: Harvard University Press.
- 2006. *Religion and Cultural Memory: Ten Studies*. Stanford, CA: Stanford University Press.
- 2008. Communicative and Cultural Memory. Yn: Erll, A. a Nünning, A. golygyddion. *A Companion to Cultural Memory Studies*. Berlin ac Efrog Newydd: de Gruyter, tt. 109–18.
- 2010. *Cultural Memory and Early Civilization: Writing, Remembrance and Political imagination*. Caergrawnt: Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
- 2015a. Exodus and Memory. Yn: Tamm, M. gol. *Afterlife of Events: Perspectives on Mnemohistory*. Basingstoke: Palgrave Macmillan, tt. 115–33.
- 2015b. Tradition, Writing, and Canonisation: Structural Changes of Cultural Memory. Yn: Stordalen, T. a Naguib, S. golygyddion. *The Formative Past and the Formation of the Future: Collective Remembering and Identity Formation*. Oslo: Institute for Comparative Research in Human Culture, tt. 115–32.

- Atherton, I. 2013. Commemorating Conflict and the Ancient British Past in Augustan Britain. *Journal for Eighteenth-Century Studies* 36(3), 377–93.
- Auerbach, E. 1953. *Mimesis; The Representation of Reality in Western Literature*. Princeton: Princeton University Press.
- Baier, C. 2017. Homer's Cultural Children: The Myth of Troy and European Identity. *History and Memory* 29(2), 35–62.
- Bailly, L. 2009. *Lacan: A Beginner's Guide*. Rhydychen: Oneworld.
- Barthes, R. 1972. *Mythologies*. Cyfieithwyd gan Annette Lavers. Llundain: Jonathan Cape.
- 1975. *The Pleasure of the Text*. Cyfieithwyd gan R. Miller. Llundain: Jonathan Cape.
- 1990. *S/Z*. Cyfieithwyd gan R. Miller. Llundain: Blackwell.
- Bateman, M. 2020. 'The Native Place of that Great Arthur': Foreignness and Nativity in Sixteenth-Century Defences of Arthur. *Arthurian Literature* XXXV, 152–72.
- Beecher, D. 2009. Recollection, Cognition, and Culture: An Overview of Renaissance Memory. Yn: Beecher, D. a Williams, G. golygyddion. *Ars reminiscendi: Mind and Memory in Renaissance Culture*. Toronto: Centre for Reformation and Renaissance Studies, tt. 367–433.
- Berend, I. T. 2003. *History Derailed: Central and Eastern Europe in the Long Nineteenth Century*. Berkeley: University of California Press.
- Berger, S. 2004. Representations of the past. *Debate: Journal of Contemporary Central and Eastern Europe* 12(1), 73–96.
- 2005. A Return to the National Paradigm? National History Writing in Germany, Italy, France and Britain from 1945 to the Present. *The Journal of Modern History* 77(3), 629–78.
- 2007. Writings National Histories in Europe: Reflections on the Pasts, Presents, and Futures of a Tradition. Yn: Jaraus, K. H. a Lindenberger, T. golygyddion. *Conflicted Memories: Europeanizing Contemporary Histories*. Efrog Newydd a Rhydychen: Berghahn Books, tt. 55–68.
- 2008. Introduction: Narrating the Nation: Historiography and Other Genres. Yn: Berger, S. et al. golygyddion. *Narrating the Nation: Representations in History, Media and the Arts*. Efrog Newydd a Rhydychen: Berghahn Books, tt. 1–18.
- 2009. On the Role of Myths and History in the Construction of National Identity in Modern Europe. *European History Quarterly* 39(3), 490–9.

--- 2015. *The Past as History: National Identity and Historical Consciousness in Modern Europe*. Basingstoke: Palgrave Macmillan.

Berger, S. a Lorenz, C. 2008. Introduction: National History Writing in Europe in a Global Age. Yn: *idem*. golygyddion. *The Contested Nation: Ethnicity, Class, Religion and Gender in National Histories*. Basingstoke: Palgrave Macmillan, tt. 1–23.

--- 2010. Introduction. Yn: *idem*. golygyddion. *Nationalizing the Past: Historians as Nation Builders in Modern Europe*. Basingstoke: Palgrave Macmillan, tt. 1–25.

Berger, S. a Niven, B. 2014. Writing the History of National Memory. Yn: *idem*. golygyddion. *Writing the History of Memory*. Llundain ac Efrog Newydd: Bloomsbury, tt. 135–56.

